

Uwch 1 – Fersiwn 2

Dysgu Cymraeg – Gogledd Cymru



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Dysgu
Learn

Croeso!

Croeso i'r Cwrs Uwch. Yn y cwrs yma, mi fyddwch chi'n mwynhau darnau darllen, gwyllo a gwrando sy'n dŵad o lyfrau neu gylchgronau Cymraeg, ac o raglenni ar Radio Cymru ac S4C. Mi fydd yr eirfa ar ddechrau'r uned yn eich helpu chi i ddeall y darnau hyn, felly mi fydd yn well dysgu'r eirfa cyn y wers. Mae'r darnau gwrando a gwyllo ar ein gwefan ni – www.dysgucymraeg.cymru – ac mae darnau ychwanegol (*additional*) ac ymarferion eraill yma i'ch helpu chi efo geirfa a gramadeg hefyd. Mae adrannau Gwaith cartref yng nghefn y llyfr yma. Mae thema ym mhob uned – gobeithio byddwch chi'n mwynhau'r dewis o themâu. Yn yr unedau adolygu, mae gofyn i chi wneud rhywbeth ymarferol (*practical*) fel dosbarth.

Mae'n bwysig ymarfer eich sgiliau mor aml â phosib y tu allan i'r dosbarth – gwrandewch ar Radio Cymru, gwylwch S4C a darllenwch yn Gymraeg! Mi fydd eich tiwtor hefyd yn deud wrthoch chi am lawer o gyfleoedd i ymarfer ac i ddefnyddio eich Cymraeg.

Pob lwc!

Cynnwys

Uned	Thema	Patrwm
1	Her	Gorffennol cryno (e.e. mi es i, mi welodd o, mi fues i)
2	Edrych i'r Dyfodol	Y dyfodol (e.e. mi fydda i, mi wela i)
3	Y Goedwig	Y dyfodol – berfau afreolaidd (e.e. mi a i, mi ga i, mi wna i, mi ddo i)
4	Teimlo'n Chwithig	Yr amodol (e.e. mi faswn i, mi ddylwn i)
5	Celf	Y cymal enwol (e.e. dw i'n meddwl bod...)
6	Y Môr	Atebion
7	Arferion	Cynffoneiriau (e.e. toedd? on'd do?)
8	Arwyr	Y goddefol (e.e. mi ges i fy ngeni, mi gaeth y tŷ ei werthu)
9	Trefnu Digwyddiad	Adolygu
10	Cymuned	Cymharu ansoddeiriau (e.e. cymaint, cystal, yn dalach na, haws)
11	Teulu a Ffrindiau	Cymharu ansoddeiriau (e.e. gorau, tala)
12	Bwyd	Geiriau lluosog
13	Byw heb...	Arddodiaid (e.e. ar, am, heb)

Cynnwys

Uned	Thema	Patrwm
14	Ffasiwn	Arddodiaid cyfansawdd (e.e. ar ôl, o flaen)
15	Amser	Rhifolion
16	Y tro cynta	Trefnolion (e.e. cynta, ail, trydydd ac ati)
17	Trefnu Taith	Adolygu
18	Does 'na nunlle'n debyg i adre...	Y cymal enwol (e.e. dw i'n meddwl y...)
19	Cerddoriaeth	Defnyddio pwyslais efo'r cymal enwol (e.e. dw i'n meddwl mai....)
20	Fi ydy'r person gorau i'r swydd!	Pwyslais
21	Anifeiliaid anwes	Yr amodol cryno (e.e. mi synnwn i, mi welwn i)
22	Teithio Cymru	Byth ac erioed
23	Mynd allan am fwyd	Adolygu
24	Cyfathrebu	Hwn, hon, hyn
25	Yr amgylchedd	Mewn ac yn

Uned 1 - Her

Nod yr uned hon ydy...

- Dŵad i adnabod eich dosbarth a'ch tiwtor
- Adolygu'r gorffennol cryno (e.e. mi redes i, mi fwytodd o) a dysgu gorffennol cryno **bod**
- Siarad am heriau a chwaraeon
- Dysgu geirfa ac idiomau newydd

Geirfa

- **enwau benywaidd** *feminine nouns*
- **enwau gwrywaidd** *masculine nouns*
- **berfenwau** *verb-nouns*
- **ansoddeiriau** *adjectives*
- **arall** *other*

her(iau) *challenge(s)*

llinell derfyn
(llinellau terfyn) *finishing line(s)*

ysgyfarnog(od) *hare(s)*

balchder *pride*

cyhyr(au) *muscle(s)*

ffefryn(nau) *favourite(s)*

ffreutur *canteen*

gwn (gynnau) *gun(s)*

lleithder *humidity, damp(ness)*

llysenw(au) *nickname(s)*

milwr (milwyr) *soldier(s)*

cyflawni *to achieve,
to fulfil*

datrys *to solve*

gwibio *to dart, to sprint*

herio *to challenge*

llongyfarch *to congratulate*

trechu *to defeat, to beat*

buddugol *triumphant*

corfforol *physical*

cystadleuol *competitive*

eithafol *extreme*

hunangynhaliol *self-sufficient*

penderfynol *determined*

a'i wynt yn ei ddwrn *gasping, breathless*

cael gwared ar *to get rid of*

rhoi cynnig ar *to give it a go*

wneith hynny ddim drwg *that won't do any harm*

yn gymwys *exactly*

yn y fan a'r lle *there and then*

Geiriau pwysig i mi

×

×

Siaradwch – Dŵad i adnabod y dosbarth



Mi fyddwch chi'n gweld cardiau sy'n disgrifio sut mae pobol yn teimlo neu bethau maen nhw'n eu gwneud.

1. Yn y tabl, mae rhestr o'r geiriau sy ar y cardiau. Efo'ch partner, ceisiwch ffeindio'r disgrifiad gorau o bob gair.

Gair	Disgrifiad
cystadleuol	sialens anodd
rhestri	sut i goginio rhywbeth
her	syniadau gwahanol a diddorol
creadigol	help i gofio pethau mae'n rhaid i chi eu gwneud
datrys	peintio a phapuro
llyfr ffeithiol	disgrifiad o berson sy isio ennill bob tro
rysáit	distaw/heb symud
llonydd	ateb
addurno	ddim yn stori

2. Dewiswch **ddau** gerdyn sy'n eich disgrifio chi'n dda, ac **un** cerdyn sydd ddim yn eich disgrifio chi'n dda o gwbl!

Mae llawer o eiriau **lluosog** (*plural*) ar y cardiau. Heb edrych yn ôl, dach chi'n cofio be ydy'r lluosog?

gŵyl nofel

problem noswaith

llyfr rysáit

pen-blwydd lle

bwyd rhestr

Gwrando 1 Wil ac Elin – yn y ffreutur



Mae Wil ac Elin yn gweithio efo'i gilydd. Maen nhw'n cael brecwast yn ffreutur y gwaith, ac mae Wil yn deud ei fod wedi gosod her iddo fo ei hun.

Gwrandewch am y geiriau hyn:

5 bob ochr	cael gwarded ar	codi pwysau
cyhyrau	hollol benderfynol	melys
pethau iachus	wneith hynny ddim drwg	y gampfa

Atebwch y cwestiynau:

1. Be mae Wil yn ei gael i frecwast?

.....

2. Be ydy her Wil?

.....

3. Erbyn pryd mae o isio cyflawni'r her?

.....

4. Pa ymarfer corff mae o wedi'i wneud?

.....

5. Archebodd o fwyd iach i ginio?

.....

6. Codi pwysau – dach chi'n medru meddwl am eiriau eraill mae'n bosib eu rhoi o flaen y gair **pwysau**?

.....

7. Dach chi'n medru meddwl am eiriau eraill mae'n bosib eu rhoi ar ôl **codi**?

.....

Iaith ddefnyddiol

Yn y darn, dach chi'n clywed:

**"Wedi blino, braidd"
"yn hollol benderfynol"**

Dril

Mae'r ffordd yn syth iawn.

Ydy, mae'n hollol syth.

Mae'r oergell yn wag.

Mae'r stori'n wir.

Mae'r arfer yn normal.

Mae'r gwaith yn wahanol.

Mae'r person newydd yn broffesiynol iawn.

Mae'r arian yn ddiogel.

**Siaradwch:
Sut dach chi'n cadw'n heini?**

Adolygu'r gorffennol cryno

Be wnaethoch chi a'ch partner yn ystod yr haf?

Enw	mis Mehefin	mis Gorffennaf	mis Awst

Ymarfer

Darllenwch y darn isod, a thanlinellwch fôn y berfau. Mae'r ferf gyntaf wedi ei gwneud i chi.

Mi **gerddes** i at y llinell. Mi anadles i'n drwm. Mi glywes i sŵn y gwn. Mi ddechreuodd y ras. Mi redes i'n gyflym dros y bryn – yn rhy gyflym. Mi arhoses i am funud wrth ochr y llwybr. Mi yfes i ddiod o ddŵr. Mi ddechreues i redeg eto, yn araf.

Ond, roedd carreg fawr ar y llwybr. Mi syrthies i. Roedd fy nghoes i'n brifo'n ofnadwy. Mi gerddes i i'r ochr. Mi wylies i'r rhedwyr eraill yn mynd heibio.

Rŵan, edrychwch ar y bonion sy wedi'u tanlinellu, ac ysgrifennwch y **berfenwau**.

Er enghraifft: cerdded

.....

.....

Efo'ch partner, llenwch y bylchau.

1. Mi gododd hi
2. Mi wnaeth o'r
3. Mi eisteddes i yno am
4. Mi ddarllenodd y dyn
5. Mi i i'r gwely yn hwyr.
6. Mi nhw swper i bawb.
7. Mi hi gar newydd.
8. Mi y plant y gêm.
9. Mi nhw Oleuni'r Gogledd ar eu gwyliau. (gweld)
10. Mi e'r fedal aur am yr ail dro. (ennill)
11. Mi ni redeg marathon Caerdydd. (mwynhau)
12. Mi i yn fy swydd newydd i fis yn ôl. (dechrau)
13. Mi i ar nofel Gymraeg yn y car. (gwrando)
14. Mi nhw eu swyddi nhw i deithio yn Ewrop. (gadael)
15. Mi nhw gopa'r Wyddfa mewn llai nag awr. (cyrraedd)
16. Mi ni arian i ddechrau busnes. (benthyg)
17. Mi i rywun yn torri i mewn i fy nhŷ i. (dal)
18. Mi y ferch wneud naid bynji i godi arian. (cynnig)

Dril**Mi redes i ddwy filltir ddoe.**

Mi gerddes i ddwy filltir ddoe.
 Mi fwytes i ddau ddarn o dôst ddoe.
 Mi brynes i bedwar crys newydd ddoe.
 Mi beinties i ddwy ystafell ddoe.
 Mi smwddies i naw crys ddoe.
 Mi wnes i ddwy gacen ddoe.
 Mi ddalies i dri thrên gwahanol ddoe.
 Mi goginies i ginio i chwech ddoe.
 Mi gyrhaeddes i adre am un ar ddeg o'r gloch.
 Mi sgwennes i dri llythyr ddoe.
 Mi dales i bum bil ddoe.
 Mi ffonies i dri ffrind ddoe.
 Mi ddarllenes i ddau bapur newydd ddoe.
 Mi ges i dri llythyr ddoe.
 Mi fenthycies i bum llyfr o'r llyfrgell.
 Mi adawes i'r dafarn am ddeg o'r gloch.

Mi redes i dair milltir.**Mi fues i**

Dysgwch y ferf **bod** yn y gorffennol cryno:

Mi fues i	Mi fuon ni
Mi fuest ti	Mi fuoch chi
Mi fuodd o/hi a Mi fuon nhw	Mi fuon nhw

Edrychwch ar y brawddegau yma a newidiwch y gair sy wedi ei danlinellu:

Mi fues i yn yr Alban ar wyliau y llynedd.

Lle fuest ti ddoe?

Mi fuodd o yn y dre ddoe.

Mi fuon ni yn y sinema dros y penwythnos.

Fuoch chi yn y swyddfa wythnos diwetha?

Mi fuon nhw yno am bythefnos.

Llongau rhyfel

Fuest ti yn ystod y mis diwetha?

Do, mi fues i yn

Naddo, fues i ddim yn

Tanlinellwch y geiriau mewn **pedwar** blwch. Dylech chi fod wedi bod yn y llefydd yma yn y mis diwetha ac yn barod i siarad amdany'n nhw.

am dro	ar draeth	ar drên	ar fws	ar wyliau	mewn archfarchnad
mewn awyren	mewn cyfarfod	mewn darlith	mewn gêm bêl-droed	mewn gêm rygbi	mewn gwesty
mewn parc	mewn pwll nofio	mewn protest	mewn siop ddillad	mewn tafarn	mewn tŷ bwyta
mewn cyngerdd	mewn dinas	yn y sinema	yn y theatr	yn y gampfa	yn y môr

Help llaw



Dyma dablau i ddangos y berfau **rhedeg** a **talw** yn yr amser gorffennol.

Cadarnhaol		Cwestiwn Treigladd Meddal		Negyddol Treigladd Meddal / Llaes	
Mi redes i	Mi dales i	Redes i?	Dales i?	Redes i ddim	Thales i ddim
Mi redest ti	Mi dalest ti	Redest ti?	Dalest ti?	Redest ti ddim	Thalest ti ddim
Mi redodd o/hi	Mi dalodd o/hi	Redodd o/hi?	Dalodd o/hi?	Redodd o/hi ddim	Thalodd o/hi ddim
Mi redon ni	Mi dalon ni	Redon ni?	Dalon ni?	Redon ni ddim	Thalon ni ddim
Mi redoeh chi	Mi daloch chi	Redoch chi?	Daloch chi?	Redoch chi ddim	Thaloch chi ddim
Mi redon nhw	Mi dalon nhw	Redon nhw?	Dalon nhw?	Redon nhw ddim	Thalon nhw ddim

Cofiwch, hefyd, fod y ffurfiau isod yn gyffredin iawn, iawn.

Cadarnhaol	Cwestiwn	Negyddol
(Gw)nes i redeg/dalu.*	(W)nes i redeg/dalu?	(W)nes i ddim rhedeg/talu.
(Gw)nest ti redeg/dalu.*	(W)nest ti redeg/dalu?	(W)nest ti ddim rhedeg/talu.
(Gw)naeth o/hi redeg/dalu.	(W)naeth o/hi redeg/dalu?	(W)naeth o/hi ddim rhedeg/talu.
(Gw)naethon ni redeg/dalu.	(W)naethon ni redeg/dalu?	(W)naethon ni ddim rhedeg/talu.
(Gw)naethoch chi redeg/dalu.	(W)naethoch chi redeg/dalu?	(W)naethoch chi ddim rhedeg/talu.
(Gw)naethon nhw redeg/dalu.	(W)naethon nhw redeg/dalu?	(W)naethon nhw ddim rhedeg/talu.

* Neu: Mi wnes i redeg/dalu ac ati

- **Cofiwch** fod berf gryno'n treiglo'n **feddal** ar ddechrau cwestiwn ac ar ôl **mi**.
- Ar ddechrau brawddeg **negyddol**, mae T C P yn treiglo'n **llaes**, a B G D M L I Rh yn treiglo'n **feddal**, e.e. **chlywes** i ddim, **ddarlennes** i ddim.
- Mae **gwrthrych** (*object*) y ferf yn treiglo hefyd, sef y gair sy'n dilyn y person ar ôl y ferf, e.e.
 Mi redes i **dddeg** milltir wythnos diwetha. Mi fwytodd hi **gacen** i de.
 Mi benderfynon nhw **fynd** i'r dref. Mi wnaethoch chi **golli** rhaglen dda ar y teledu.
- Dydy'r **gwrthrych amhendant** ddim yn treiglo yn dilyn **ddim** mewn brawddegau negyddol, e.e.
 Fwytodd hi ddim **brechdanau** o gwbl. Phrynais i ddim **dillad** newydd.

Dysgwch amser gorffennol y ferf **bod**.

Cadarnhaol	Negyddol	Cwestiwn
Mi fues i	Fues i ddim	Fues i?
Mi fuest ti	Fuest ti ddim	Fuest ti?
Mi fuodd o/hi	Fuodd o/hi ddim	Fuodd o/hi?
Mi fuon ni	Fuon ni ddim	Fuon ni?
Mi fuoch chi	Fuoch chi ddim	Fuoch chi?
Mi fuon nhw	Fuon nhw ddim	Fuon nhw?

Darllen - Guto Nyth Brân



Geirfa:

llysenw
gwibio

yn y fan a'r lle

ysgyfarnog

a'i wynt yn ei ddwrn

trechu

llinell derfyn

herio

llongyfarch

Cyn darllen y darn, llenwch y bylchau efo'r geiriau yma. Gweithiwch efo'ch partner.

1. Anifail bach tebyg i gwningen ydy _____, ond mae ei chlustiau hi'n hirach.
2. Mi fydd swyddogion cymorth cyntaf yn y gystadleuaeth er mwyn trin pobol _____.
3. Mae Jac yn hogyn drwg yn yr ysgol, bob amser yn _____'r athrawon.
4. 'Jiffy' ydy _____ y cyn-chwaraewr rygbi, Jonathan Davies.
5. Mae tri deg milltir tan y _____ yn y ras eithafol hon ac mae'r rhedwyr yn dechrau blino!
6. Mi gyrhaeddodd Martin y dosbarth Cymraeg _____ ar ôl rhedeg i lawr y coridor i gyrraedd yr ystafell cyn i'r wers ddechrau.
7. Rhaid _____ Aled Ferguson, sy wedi cael ei ddewis i fod yn rheolwr newydd tîm pêl-droed Abercastell.
8. Y Cymry oedd yn fuddugol yn y diwedd, gan _____ Lloegr am yr ail dro eleni.
9. Mi ymlaciodd Elin erbyn diwedd y ras ac mi welodd Alys yn _____ heibio.

Rhedwr cyflym iawn oedd Guto Nyth Brân. Mi gaeth o ei eni yn 1700 yn y Rhondda, a'i enw go iawn oedd Griffith Morgan. Mi gaeth o ei **llysenw** achos ei fod o'n byw ar fferm o'r enw Nyth Brân.

Pan oedd Guto'n fachgen ifanc, mi sylweddolodd ei dad o fod dawn arbennig ganddo. Roedd o'n medru casglu'r defaid at ei gilydd yn gyflymach na'r cŵn, ac yn medru dal **ysgyfarnogod** a llwynogod ar ei ben ei hun.

Cariad Guto oedd Siân y Siop, a hi oedd yn trefnu ei rasys. Mi drefnodd hi ras i Guto yn erbyn capten o Loegr ar Gomin Hirwaun, ger Aberdâr yn ne-ddwyrain Cymru. Doedd y capten erioed wedi colli ras. Ond Guto enillodd, ac mi gaeth o £400 yn wobwr. Ymhen amser, roedd Guto wedi **trechu** holl redwyr yr ardal. Ond, yn 1737, mi ddaeth rhedwr newydd i'w **herio**, sef Sais o'r enw Prince.

Mi rasiodd Guto yn erbyn Prince o Gasnewydd i Fedwas (tua 12 milltir). Roedd cefnogwyr Prince wedi taflu gwydr ar y llwybr er mwyn ceisio anafu Guto. Prince oedd ar y blaen am amser hir, ond wrth ddringo'r allt serth ar y ffordd i mewn i Fedwas, **mi wibiodd** Guto heibio iddo, **a'i wynt yn ei ddwrn**. Mi enillodd o'r ras mewn 53 munud, a'i wobr oedd 1,000 Gini (£150,000 heddiw).

Roedd Siân yn aros am Guto wrth y **llinell derfyn**. Mi roiodd ei breichiau amdano, a churo'i gefn i'w **longyfarch**. Roedd calon Guto'n curo'n drwm ar ôl ei waith caled o. Yn drist iawn, mi syrthiodd Guto'n farw **yn y fan a'r lle**.

Cysylltwch yr idiomau hyn â'r ystyr cywir


go iawn
a'i wynt yn ei ddwrn
yn y fan a'r lle

yn syth
gwir, real
allan o wynt



Siaradwch efo'ch partner am y lluniau hyn o stori Guto Nyth Brân.

Rhowch nhw yn y drefn gywir a dudwch y stori wrth eich gilydd (partner 1, wedyn partner 2) heb edrych yn ôl ar y sgrïpt os ydy hynny'n bosib.





Gwyllo a gwrando 2 – Lowri Morgan

Mae Lowri Morgan yn enwog am osod heriau iddi hi ei hun.
Mae hi wedi rhedeg ras yng nghoedwig law'r Amason ac yn yr Arctig.

Rhan 1

Yma, mae Lowri yn cyflwyno ei hun. Gwrandewch am:

"Cantores glasurol o'n i wastad eisiau bod."

"Fe ddechreuodd fy siwrnai..."

"gwthio'n ffiniau personol"

Siaradwch:

Dach chi neu oeddech chi'n gwneud y gwaith roeddech
chi'n meddwl basech chi'n ei wneud?

Rhan 2

Y tro yma, atebwch y cwestiynau:

1. Lle roedd y ras?
2. Pa mor hir oedd y ras?.....
3. Pa mor gynnes oedd hi?.....
4. Llenwch y bylchau:

Roedd rhaid i ni ar draws afonydd.

Roedd rhaid i ni trwy gorsydd.

Rhan 3


Nesa, gwrandewch ar Lowri yn siarad am sut mae hi'n paratoi i redeg mewn
rasys hir. Gwnewch nodiadau.

Yn eich grwpiau, ar ôl gwrando ar Lowri, meddyliwch am dri chyngor i rywun
sy'n mynd i redeg ras hir a heriol am y tro cynta.

1.....
.....

2.....
.....

3.....
.....



Gwylwch y rhan olaf eto, a dilynwch efo'r sgript:

"Pan o'n i yn un ar bymtheg mlwydd oed, o'n i'n ffodus iawn i gynrychioli fy ngwlad i mewn rhedeg traws gwlad ac fe wnaeth fy hyfforddwr ar y pryd ddweud (wr)tha i am drio gwneud yr hyfforddi yn galetach na'r ras ei hun. A dw i wastad wedi cofio hynny a dyna sut dw i'n mynd ati i baratoi ar gyfer y rasys yma. Dw i wastad wedi gwneud yr hyfforddi yn galetach na'r rasys."

Siaradwch:

- "Pan o'n i yn un ar bymtheg mlwydd oed,..."
- Sut oeddech chi'n **mynd ati** i adolygu ar gyfer arholiadau pan oeddech chi yn yr ysgol?
- "Dw i wastad wedi..."

Idiom



A'i wynt yn ei ddwrn

Uned 2 – Edrych i'r Dyfodol

Nod yr uned hon ydy...

- Adolygu'r dyfodol
- Siarad am bethau dach chi'n meddwl fydd yn digwydd yn y dyfodol
- Dysgu geirfa ac idiomau newydd er mwyn siarad am y dyfodol

Geirfa

- **enwau benywaidd** *feminine nouns*
- **enwau gwrywaidd** *masculine nouns*
- **berfenwau** *verb-nouns*
- **ansoddeiriau** *adjectives*
- **arall** *other*

planed(au)	<i>planet(s)</i>
rheolaeth	<i>control; management</i>
tudalen flaen	<i>front page</i>

gostwng	<i>to decrease</i>
ymosod (ar)	<i>to attack</i>

ar gais	<i>at the request of</i>
at eich dant	<i>to your taste</i>
bod yn berchen ar	<i>to own</i>
i'r gwrthwyneb	<i>quite the opposite</i>

gofodwr (-wyr)	<i>astronaut(s)</i>
gwyddonydd (gwyddonwyr)	<i>scientist(s)</i>
preifatrwydd	<i>privacy</i>
sicrwydd	<i>certainty</i>

annibynnol	<i>independent</i>
cytbwys	<i>balanced</i>
gwyddonol	<i>scientific</i>
uniongyrchol	<i>direct</i>

Geiriau pwysig i mi

×

×

×

×



Siaradwch

Y lluosog

Mewn grwpiau, heb edrych yn ôl ar Uned 1, nodwch ffurfiau lluosog y geiriau hyn.

rhestr	gŵyl
problem	noson
llyfr	rysâit
nofel	pen-blwydd
bwyd	lle

Cwmwl geiriau

Mae geiriau o Uned 1 yn y cwmwl geiriau. Dach chi'n cofio ystyr y geiriau? Gweithiwch efo'ch partner i wneud pum brawddeg yn defnyddio berfau yn yr **amser gorffennol**. Rhaid i chi gynnwys gair o'r cwmwl geiriau ym mhob brawddeg, e.e. Mi **wibiodd** y llwynog ar ôl y llygoden.

ffrefryn rholi cynnig ar
 ffreutur milwr
 hunangynhaliol cyhyrau gwibio
 herio
 balchder lleithder trechu
 cael gwared ar llinell derfyn
 llysenw

1.
2.
3.
4.
5.

Adolygu'r dyfodol – ffurfiau bod

Ysgrifennwch ddyddiau'r wythnos yn y golofn gyntaf. Yna, siaradwch efo'ch partner am be fyddwch chi'n ei wneud yr wythnos hon.

	Fi	Fy mhartner i
Yfory		

Edrychwch ar yr atebion:

- Fydda i'n mynd yn y roced? Byddi!
- Fyddi di'n dŵad eto? Bydda!
- Fyddwn ni fel gofodwyr? Byddwn.
- Fydd y ci'n dŵad efo ni? Na fydd, mae o'n rhy hen.
- Fydd y gath yn dŵad efo ni? Na fydd, mae hi'n rhy wyllt.
- Fydd y pysgod aur yn dŵad? Na fyddan, does 'na ddim digon o le i'r tanc.
- Fyddwn ni'n teithio am amser hir? Byddwn.
- Dw i ddim isio mynd! Mi fydd gen i hiraeth!

Siarad am y dyfodol



Nodwch o leiaf 6 gair sy'n dŵad i'ch meddwl chi wrth feddwl am y dyfodol.

Gweithiwch mewn grwpiau. Defnyddiwch y cardiau geirfa i feddwl am bum peth fydd yn digwydd yn y flwyddyn 2150, a phum peth fydd ddim yn digwydd. Defnyddiwch **Mi fydd / Mi fyddwn ni** neu **Fydd ddim / Fyddwn ni ddim** i wneud brawddegau. Mi fyddwch chi'n adrodd yn ôl i weddill y dosbarth.

Adolygu'r dyfodol cryno

Mi wela i di wythnos nesa.
Mi alwa i heibio.
Be wnei di nesa?

Efo'ch partner, cysylltwch y brawddegau â'r atebion cywir. Yna, dudwch y brawddegau wrth eich gilydd, gan gymryd tro i wneud Rhan 1 a Rhan 2.

Rhan 1	Rhan 2
Mae fy nghar i wedi torri i lawr.	Mi roia i dabled i ti.
Dw i'n sychedig.	Mi reda i i'r siop tships.
Mae gen i gur pen.	Mi droia i'r gwres i fyny.
Dw i'n oer!	Mi ddiffodda i'r gwres.
Dw i'n boeth!	Mi helpa i di.
Dw i isio bwyd.	Mi roia i lifft i ti.
Mae gen i broblem.	Mi bryna i ddiod i ti.

Efo'ch partner, cysylltwch y ferf gywir â gweddill y frawddeg.

Mi dalwn ni ddillad newydd ar gyfer y briodas.

Fyddwch ni'r bil yfory.

Mi brynwn nhw ar y canlyniadau eto ar gais y gwyddonwyr.

Mi wrandawa nhw'n uniongyrchol o Gatwick i Sydney.

Weli i ar y newyddion bore yfory.

Mi hedfanan di Jac yfory?

Mi edrychan chi'n mynd dramor eleni?

Llenwch y bylchau

1. Mi helpa i
2. Mi alwith o
3. Mi blannwn ni
4. GOFYN: nhw gwestiwn yn y cyfarfod?
5. GWELD: di John cyn dydd Sadwrn?
6. DEUD: Mi o wrthi hi be i'w wneud.
7. CERDDED: chi yno?
8. GOLCHI: Mi ni'r llestri i chi cyn gadael.
9. CLYWED: Mi hi be ydy'r canlyniad yn fuan.
10. ANFON: Mi ni'r ebost ymlaen atoch chi.
11. PRYNU: o deledu newydd, ta?
12. GYRRU: Mi i heno. Mi yrrest ti tro diwethaf.
13. GORFFEN: di'r gwaith yn gynnar heno?
14. Dw i'n meddwl i bynciau gwyddonol.
15. Be nhw i ni?
16. hi yn hwyrach.

Deialogau

Darllenwch y tair deialog efo'ch partner. Wedyn, rhaid i chi roi ateb gwahanol i'r tri chwestiwn.

A: Be wnei di p'nawn 'ma?

B: Dw i'n meddwl planna i ychydig o flodau. Mae isio ychydig o liw yn yr ardd.

A: Dydd Gwener. Hwrê! Be sy ymlaen dros y penwythnos?

B: Gobeithio daw ychydig o ffrindiau draw i'r tŷ heno ac wedyn mi awn ni allan i'r bwyty newydd yn y dre. Mae'r fwydlen yn edrych yn wych.

A: Pa mor brysur wyt ti yn y gwaith ar hyn o bryd?

B: Wel, unwaith ca i wared ar yr adroddiad blynyddol, gobeithio bydd pethau'n ddistawach.



Help llaw

Y Dyfodol Cryno

1. Edrychwch ar yr enghreifftiau isod:

Mae'r ffôn yn canu:

Mi ddylech chi ymateb trwy ddeud **Mi ateba i**, nid **Mi fydda i'n ateb**. Yma, wrth ddefnyddio'r dyfodol cryno, dach chi'n dangos eich bod chi'n **barod** i wneud rhywbeth neu'n **fodlon** gwneud rhywbeth.

Yn ffarwelio wrth adael y gwaith:

Mi ddylech chi ddeud **Mi wela i chi yfory**, nid **Mi fydda i'n eich gweld chi yfory**. Yma, wrth ddefnyddio'r dyfodol cryno, dach chi'n dangos eich bod chi'n **medru** gwneud rhywbeth rwan, neu yn y dyfodol.

2. Mae'n bwysig iawn gwybod ffurfiau dyfodol **bod** yn dda iawn achos bod y terfyniadau (*endings*) yr un peth. Dim ond y trydydd person unigol (o/hi) sy'n wahanol:

Bod	Darllen
Mi fydda i	Mi ddarllena i
Mi fyddi di	Mi ddarlleni di
Mi fydd o/hi	Mi ddarllenith o/hi
Mi fyddwn ni	Mi ddarllenwn ni
Mi fyddwch chi	Mi ddarllenwch chi
Mi fyddan nhw	Mi ddarllenan nhw

3. Sylwch ar y patrwm treiglo (fel y gorffennol cryno):

Mi fydda i'n prynu llyfr newydd.

Mi bryna i lyfr newydd.

4. Sylwch hefyd bod ni'n deud Mi ddarlleni **di**, sy'n wahanol i'r gorffennol cryno – Mi ddarllenest **ti**.
5. Mi fyddwch chi'n edrych ar y berfau afreolaidd (*irregular*) yn Uned 3 – **gwneud**, **mynd**, **cael**, **dŵad**. Cofiwch ei bod hi'n bosib defnyddio **gwneud** i siarad yn y dyfodol hefyd.

Helpu	Gwneud + helpu
Mi helpa i	Mi wna i helpu
Mi helpi di	Mi wnei di helpu
Mi helpith o/hi	Mi wneith o/hi helpu
Mi helpwn ni	Mi wnawn ni helpu
Mi helpwch chi	Mi wnewch chi helpu
Mi helpan nhw	Mi wnân nhw helpu



Gwyllo a Gwranddo - y dyfodol

Mi fyddwch chi'n gwyllo fideo o dri pherson yn siarad am be maen nhw'n gobeithio fydd yn digwydd yn y dyfodol. Gwnewch nodiadau. Yna, ysgrifennwch y prif bwyntiau mae'r tri ohonyn nhw'n eu deud.

Enw:

Enw:

Enw:

Mae Laura'n deud: "Dydy bwyd figan ddim at ddant pawb".

Llenwch y bylchau isod, gan dreiglo **dant** os oes angen.

at fy i

at dy..... di

at ei o

at ei hi

at ein ni

at eich..... chi

at eu nhw

Siaradwch!

Efo'ch partner, siaradwch am unrhyw fwyd, diod, dillad a rhaglen deledu sy ddim at eich dant chi, ac esboniwch pam.



Darllen – Ceir di-yrwr

Maen nhw'n deud bod ceir di-yrwr yn dŵad ond does 'na neb yn siŵr pryd fyddwn ni'n eu gweld nhw ar ein ffyrdd ni. Dan ni ddim yn gwybod be fydd pris y ceir yma ac a fydd prisiau'n gostwng efo amser. Ond be fydd y manteision a'r anfanteision? Ydy'r isod yn **gywir** neu'n **anghywir** am geir di-yrwr? Trafodwch efo'ch partner cyn darllen y darn.

Eich barn Yr ateb

Mi fydd 'na lai o ddamweiniau.

Mi fydd hi'n well i bobol hŷn ac anabl.

Mi fydd ceir di-yrwr yn medru parcio eu hunain.

Mi fydd y ceir yn teithio'n arafach.

Mi fydd hi'n bosib hacio cyfrifiaduron ceir di-yrwr.

Mi fydd 'na fwy o swyddi ar gael i yrwyr lorïau a thacsis.

Mi fydd ceir di-yrwr yn effeithiol ym mhob tywydd.

Mi fydd rhaid gwneud llawer o newidiadau i'r ffyrdd.

Manteision

Dan ni'n gwneud llawer o gamgymeriadau wrth yrru a fydd cyfrifiadur ddim yn gwneud y camgymeriadau yma. Felly, mi fydd 'na lai o ddamweiniau. Mae rhai'n meddwl bydd tua 47,000 yn llai o ddamweiniau difrifol a fydd yn arbed tua 3,900 o fywydau dros gyfnod o ddeg mlynedd. Mae'n bosib mai hon fydd prif fantais ceir di-yrwr. Ac wrth gwrs, os bydd 'na lai o ddamweiniau, mi fydd gan yr heddlu fwy o amser i'w dreulio yn gwneud pethau eraill.

I bobol anabl a phobol hŷn, mi fydd ceir di-yrwr yn llawer gwell. Mi fydd yn haws iddyn nhw deithio ac mae'n bosib byddan nhw'n medru bod yn fwy annibynnol.

Fydd dim rhaid i chi boeni am fod yn hwyr yn cyrraedd y gwaith, y theatr neu'r gampfa. Mi fydd y car yn medru stopio y tu allan i'r adeilad, eich gadael chi allan a mynd i barcio ei hun. Hyfryd!

A pheidiwch â meddwl byddwch chi'n teithio'n arafach – i'r gwrthwyneb. Mae'n siŵr bydd ceir di-yrwr yn teithio'n gyflymach achos fydd y cyfrifiadur ddim yn gwneud camgymeriadau.

Anfanteision

Mi fedrwch chi fod yn siŵr bydd pobol yn ymosod ar systemau'r cyfrifiaduron a cheisio cymryd rheolaeth o'r car. A be am breifatrwydd? Mi fydd pobol yn medru dysgu am y llefydd dach chi'n mynd iddyn nhw yn aml.

Mae'n bosib bydd gyrrwyr lorïau a thacsis yn colli eu swyddi.

Does 'na ddim sicrwydd bydd y ceir yn gweithio ym mhob tywydd, e.e. dydy'r camerâu ddim yn gweithio pan fydd hi'n bwrw eira.

Mi fydd hi'n costio llawer iawn o bres i newid y ffyrdd i fod yn addas i geir di-yrrwr.

Felly, ar ôl dysgu am y manteision a'r anfanteision, tybed ydy bod yn berchen ar gar di-yrrwr yn apelio atoch chi?

1. Efo'ch partner, trafodwch pam mae'r geiriau hyn yn y darn darllen.

3,900
yr heddlu
annibynnol
preifatrwydd
camerâu
llawer o bres

2. Mae'r ferf **mi fedrwch chi** yn y darn darllen. Ystyr **mi fedrwch chi** ydy *you can* neu *you'll be able to*. Yn aml iawn, dan ni'n ei ddefnyddio yn y presennol yn lle **dach chi'n medru**.

Efo'ch partner, meddyliwch am atebion i'r brawddegau ar y chwith, gan ddefnyddio **Mi fedrwch chi**. Er enghraifft:

Dw i angen esgidiau cerdded. > Mi fedrwch chi brynu esgidiau cerdded yn y siop chwaraeon.

Dw i isio rhedeg marathon. >

Dw i isio chwarae pêl-droed. >

Dw i angen paent i addurno'r tŷ. >

Dw i angen prynu bwyd iach. >

Dw i isio prynu nofel. >

Dw i ddim isio eistedd yn llonydd. >

3. Yn y darn darllen dach chi'n gweld **i'r gwrthwyneb**. Gwnewch yr ymarfer isod efo'ch partner.

Mi fydd y ceir yn teithio'n arafach.

I'r gwrthwyneb, mi fyddan nhw'n teithio'n gyflymach.

Mi fydd pobol yn bwyta mwy.

.....

Mi fydd petrol yn rhatach.

.....

Mi fydd pobol yn fyrrach.

.....

Mi fydd y ffyrdd yn llai prysur.

.....

Mi fydd hi'n anos bwyta deiet iach.

.....

Siaradwch



- Os dach chi'n gyrru, pa fath o gar dach chi'n ei yrru rŵan? Pam?
- Ydy gyrru car di-yrwr yn apelio atoch chi?
- Ydy hi'n fwy pwysig gwella'r bysiau a'r trenau na datblygu ceir di-yrwr?

Papur newydd 2050




Ar y dudalen nesaf, mi welwch chi fframwaith ar gyfer tudalen flaen papur newydd.

- Rhowch enw'r papur ym mlwch un. Mi fedrwch chi feddwl am enw – does dim rhaid i chi roi teitl papur newydd go iawn.
- Meddyliwch am stori newyddion fydd yn digwydd yn 2050. Mi fedrwch chi feddwl am stori ddoniol neu stori ddifrifol. Rhowch y pennawd ym mlwch dau.
- Ym mlychau tri a phedwar, ysgrifennwch y stori, a gwnewch lun i fynd efo'r stori.
- Ym mlychau pump a chwech, rhowch stori a llun arall. Ella bod y stori yma yn fwy ysgafn, am fyd adloniant neu chwaraeon.
- Pan fyddwch chi wedi gorffen eich tudalen flaen, cyflwynwch eich papur newydd i weddill y dosbarth.

01	
02	
03	04
05	06

Idiom



At ei ddant

Uned 3 – Y Goedwig

Nod yr uned hon ydy...

- Adolygu berfau afreolaidd y dyfodol (mynd, dŵad, cael, gwneud)
- Siarad am fyd natur a hen storïau
- Dysgu geirfa ac idiomau newydd am fyd natur

Geirfa

madarchen (madarch) *mushroom(s)*

poblogaeth(au) *population(s)*

Y Deyrnas Unedig *The UK*

Y Ffindir *Finland*

blaidd (bleiddiaid) *wolf (wolves)*

clogyn(nau) *cloak(s)*

coedwigwr *forester(s),*

(coedwigwyr) *ranger(s)*

cynnau *to light, to ignite*

nythu *to nest*

parchu *to respect*

cras *rough (e.e. llais)*

maith *long, lengthy*

syn *surprised*

traws(-) *cross-, trans-*

magu hyder

to gain confidence, to develop confidence

(o) dan do

indoor, indoors

pedwar ban y byd

the four corners of the earth

rheoli risg

risk management

tân agored (tanau agored)

open fire(s)

Geiriau pwysig i mi

×

×

×

×

Siaradwch



Llenwch y bylchau yn y cardiau sgwrsio. Wedyn, siaradwch am y pwnc.

e.e. Wythnos nesa, mi daclusa i...

> Wythnos nesa, mi daclusa i fy nghar i.

Adolygu dyfodol 'mynd'

Mi a i i'r dre yfory.

Lle ei di heno?

Dril

Lle ei di yfory? Mi a i i'r gwaith.

Lle eith hi?

Lle eith John?

Lle awn ni?

Lle ewch chi?

Lle ân nhw?

Gwrando 1



Mi fyddwch chi'n gwrando ar Tudur Morgan yn canu hen gân werin o'r enw 'Ble'r Ei Di?'.

Gwrandewch am:

Ble'r ei di?	yr hen dderyn bach
nythu fry	dacw fo
mi syrthi	

1. Mi fyddwch chi'n gwrando ar y gân ac yn rhoi'r geiriau yn y drefn gywir.

2. Siaradwch:

- Dach chi'n hoffi anifeiliaid? Sgynnoch chi anifail?
- Oes 'na adar yn nythu wrth eich tŷ chi?
- Dach chi'n bwydo adar yn eich gardd chi?
- Dach chi'n medru adnabod mathau gwahanol o adar? Oes 'na anifeiliaid eraill yn dŵad i'ch gardd chi?
- Oes 'na rai anifeiliaid yn achosi problemau yn eich gardd chi?
- Wnaethoch chi sylwi ar ragor o anifeiliaid yn ystod y cyfnodau clo?

Adolygu dyfodol cryno 'dŵad'

Mi ddo i i'r dosbarth yn y car.
Sut ddewch chi i'r parti?

Ymarfer **mynd** a **dŵad**.
Tafiwch y dis a gwnewch frawddeg.

- | | |
|---------------|--------------|
| 1. Mynd + fi | 4. Dŵad + fi |
| 2. Dŵad + nhw | 5. Mynd + hi |
| 3. Mynd + chi | 6. Mynd + ti |



Adolygu 'cael' a 'gwneud'

Mi ga i dost i frecwast yfory.
Wna i ddim byd drwy'r dydd.

Mae **cael** a **gwneud** yn ddefnyddiol iawn i ofyn cwestiynau. Dilynwch y patrwm i ymarfer efo'ch partner.

Mae eich bil chi'n barod.
Mae eich car chi'n barod.
Mae eich sbectol chi'n barod.
Mae eich ystafell chi'n barod.
Mae eich cyfrifiadur chi'n barod.

Ga i ei dalu o rŵan?

.....
.....
.....
.....

Mae'r bocs yn rhy drwm i mi.
Mae'r garreg yn rhy drwm i mi.
Mae'r llyfrau'n rhy drwm i mi.
Mae'r llyfrau'n rhy anodd i mi.
Mae'r crys yn rhy fawr i mi.
Mae'r got yn rhy fach i mi.

Wnewch chi ei godi o?

.....
.....
.....
.....
.....

Dan ni'n defnyddio **cael** a **gwneud** i ateb cwestiynau.

Efo'ch partner, ffeindiwch yr atebion cywir i'r cwestiynau hyn.

Weli di dy ffrind di yfory?..... Cei.

Siaradwn ni nes ymlaen? Wna i.

Ga i agor y ffenestr?..... Wneith.

Geith Rhian fenthyg dy gar di?..... Wnawn.

Gân nhw gynnu tân fan hyn?..... Wna i.

Fwytwch chi'r bwyd yma i gyd? Wnân.

Wneith hi aros yn yr orsaf amdanon ni?..... Ceith.

Orffennan nhw'r gwaith mewn pryd? Cân.

Sgwrs

Ad-drefnwch y llinellau i greu sgwrs rhwng dau berson:

Person A	Person B
Braf! Dw i wrth fy modd yn mynd am dro.	Dim problem. Erbyn pryd ddo i draw?
Sgen ti amser? Mi fasai hynny'n wych.	Bechod. Mi helpa i ti ddydd Sul os wyt ti isio.
Tyrd draw erbyn deg. Mi fyddwn ni'n siŵr o orffen erbyn pump ac mi wna i swper i ti.	Os bydd hi'n braf, dw i'n meddwl a i am dro yn y goedwig tu ôl i'r tŷ.
Do i rywbryd, ond ddim yfory. Mi fydda i yn y tŷ drwy'r dydd yn addurno'r lolfa.	Dyna ni 'ta. Dyna fy mhenwythnos i wedi'i drefnu. Crwydro'r goedwig yfory a phapuro ddydd Sul. Mi wela i di fore Sul.
Nos Wener. Hwrê! Be wyt ti am wneud dros y penwythnos?	Mae croeso i ti ddŵad efo fi.

Person A	Person B



Help llaw

Dyma'r berfau afreolaidd:

Mynd	Cael	Gwneud	Dŵad
Mi a i	Mi ga i	Mi wna i	Mi ddo i
Mi ei di	Mi gei di	Mi wnei di	Mi ddoi di
Mi eith o/hi	Mi geith hi/o	Mi wneith o/hi	Mi ddaw hi/o neu Mi ddoith hi/o
Mi awn ni	Mi gawn ni	Mi wnawn ni	Mi ddown ni
Mi ewch chi	Mi gewch chi	Mi wnewch chi	Mi ddewch chi
Mi ân nhw	Mi gân nhw	Mi wnân nhw	Mi ddôn nhw

Mae'n gyffredin gweld **f** ar ddiwedd y person cyntaf hefyd – Mi af i, Mi gaf i, Mi wna i, Mi ddof i.

Atebion

Fel arfer, dan ni'n ateb cwestiynau yn y dyfodol cryno trwy ddefnyddio ffurfiau cryno'r ferf **gwneud**.

Cwestiwn	Ateb ✓	Ateb X
Weli di Dafydd yfory?	Wna i./Gwnaf.	Na wna i.
Wela i di yfory?	Wnei./Gwnei.	Na wnei.
Welith o Dafydd yfory?	Wneith./Gwneith.	Na wneith.
Welwch chi ni yfory?	Wnawn./Gwnawn.	Na wnawn.
Welwn ni chi yfory?	Wnewch./Gwnewch.	Na wnewch.
Welan nhw Dafydd yfory?	Wnân./Gwnân.	Na wnân.

Dan ni hefyd yn defnyddio ffurfiau dyfodol cryno **gwneud** i ymateb i orchmynion (*commands*):

Ffonia ar ôl i ti gyrraedd.	Wna i.
Cofia fi ato fo.	Wna i.
Gyrrwch yn ofalus.	Gwnawn.
Cymerwch eich amser.	Gwnawn.

Sylwch fod yn rhaid defnyddio ffurfiau **cael** i ateb cwestiynau sy'n cynnwys y ferf **cael**:

Gei di ddod allan i chwarae?	Ga i./Na cha i.
Ga i afal?	Cei./Na chei.
Geith o frechdan?	Ceith./Na cheith.
Gewch chi ddŵad efo ni?	Cawn./Na chawn.
Gawn ni helpu'n hunain?	Cewch./Na chewch.
Gân nhw aros i ginio?	Cân./Na chân.

Sylwch ein bod ni'n ffurfio **gorchmynion lluosog** o'r ffurfiau cryno:

Eistedd**wch!**

Help**wch!**

Sef**wch!**



Darllen

Coedwigoedd yn y Ffindir

Y Ffindir = *Finland*. Yn y darn, dach chi'n gweld **Y Lapdir**. Be dach chi'n feddwl ydy ystyr Y Lapdir?

Mae'r gair **poblogaeth** yn dŵad o'r gair **pobl**. Be dach chi'n feddwl ydy ystyr **poblog**?

O dan + to = **o dan do**. Be ydy

indoor tennis

indoor swimming pool

indoor games

Mae coedwigoedd ar gael ym mhedwar ban byd ond un wlad lle maen nhw'n bwysig iawn ydy'r **Ffindir**.

Mae'r Ffindir tua'r un maint â'r **Deyrnas Unedig** (y DU), ond mae **poblogaeth** y wlad yn llawer llai – tua degfed ran o boblogaeth y DU. Mae coed yn tyfu ar 70% o'r tir. Hyd yn oed yn y brifddinas, Helsinki, mae coedwigoedd mawr. Mae 40 o barciau cenedlaethol yn y Ffindir, a'r rhai mwyaf yn y Lapdir yn y gogledd.

Mae pobl y Ffindir yn defnyddio coedwigoedd drwy'r flwyddyn ac maen nhw'n rhan o'u bywyd bob dydd yn yr awyr agored. Maen nhw'n cerdded yn y coedwigoedd yn y gwanwyn a'r haf, yn casglu ffrwythau a madarch yn yr hydref ac yn sgïo traws gwlad drwy'r coed yn y gaeaf. Yn y Ffindir, mae pawb yn cael crwydro i ble bynnag maen nhw isio yn y coedwigoedd ond mae'n rhaid **parchu** natur a gofalu am fywyd gwylt.

Mae coedwigoedd yn bwysig i addysg yn y Ffindir hefyd. Mae plant ysgol yn treulio llawer o amser mewn coedwigoedd lle maen nhw'n dysgu am fyd natur ac yn gwneud pethau fel dringo, adeiladu â hen ddarnau o bren a choginio ar **dân agored**.

Erbyn hyn, mae llawer o ysgolion Cymru yn defnyddio syniadau'r Ffindir am Ysgol y Goedwig. Maen nhw'n gweld bod plant yn **magu hyder**, yn cael hwyl wrth ddysgu, yn dysgu **rheoli risg** ac yn dysgu am fyw'n iach a chadw'n heini. Mae llawer o rieni'n hoffi'r syniad hefyd achos bod plant y dyddiau hyn yn treulio llawer o amser yn eistedd yn llonydd **o dan do**, ac yn cael llawer o brofion yn yr ysgol.



Mewn grŵp, ysgrifennwch **bum** pwynt pwysig o'r erthygl, yn eich geiriau eich hunain.

1.
2.
3.
4.
5.

Yna, nodwch be ydy:

cross-country skiing

open fire

risk management

to gain confidence

Fedrwch chi greu ymadroddion eraill efo'r geiriau hyn?

agored

magu

rheoli

Ystyr y gair **mawr** yn y darn ydy *big*. Edrychwch ar yr isod. Mae **mawr** yn newid yr ystyr – i be?

côt fawr

llygoden fawr

Y Stryd Fawr

ffordd fawr

Siaradwch



Dach chi'n mwynhau bod tu allan? Dach chi'n gwneud rhywbeth tu allan yn eich amser hamdden, e.e. pysgota? Dach chi'n casglu bwyd gwylt, e.e. ffrwythau a madarch?

Nodwch y pethau byddwch chi'n eu gwneud tu allan yn ystod yr wythnos i ddod.

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Gwranddo 2 - Stori Enwog i Blant



1. Edrychwch ar y geiriau newydd byddwch chi'n eu clywed yn y stori.

blaidd clogyn coedwigwr cras syn

Be da chi'n feddwl ydy'r stori?

Efo'ch partner, defnyddiwch y chwe gair yma mewn brawddeg fedrai fod yn y stori enwog yma.

blaidd

Hugan Fach Goch.....

clogyn.....

coedwigwr

cras

syn

2. Gwrandewch ar y stori. Ym mha drefn dach chi'n clywed y geiriau yma? Rhowch rif yn ymyl pob un:

amser maith yn ôl
blaidd
clogyn
coedwigwr
cras
curo
Hugan Fach Goch
mentro
saethu
syn


3. Gweithiwch mewn paru. Cymerwch dro i ddeud stori 'Hugan Fach Goch' wrth eich gilydd. Dyma rai pwyntiau i'ch helpu:
- Roedd Nain Hugan Fach Goch yn sâl. Mi aeth Hugan Fach Goch i ymweld â hi.
 - Mi welodd Hugan Fach Goch y blaidd yn y goedwig. Mi ddudodd o wrthi hi am fynd ar y llwybr anghywir.
 - Mi aeth y blaidd i fwthyn Nain. Mi wisgodd o ei dillad hi.
 - Mi geisiodd y blaidd fwyta Hugan Fach Goch.
 - Mi ddaeth dau goedwigwr heibio, i achub Hugan Fach Goch a Nain.

Siaradwch

”

- Pa storïau plant oeddech chi'n eu hoffi pan oeddech chi'n blant?
- Ydy storïau'n dysgu pethau pwysig i blant?
- Oedd rhai storïau'n codi ofn arnoch chi?

Idiom



Pedwar ban y byd

Uned 4 – Teimlo'n Chwithig

Nod yr uned hon ydy...

- Adolygu'r amodol
- Siarad am bethau sy'n gwneud i ni deimlo'n chwithig
- Dysgu geirfa ac idiomau newydd

Geirfa

alaw(on)	<i>melody (melodies)</i>
cymeradwyaeth	<i>applause</i>
penbleth	<i>quandary, dilemma</i>

difaru	<i>to regret</i>
dychmygu	<i>to imagine</i>
ffraeo (â rhywun)	<i>to argue (with someone), to quarrel</i>
maddau (i rywun)	<i>to forgive (someone)</i>
peri	<i>to cause</i>
pylu	<i>to fade</i>
sylwebu	<i>to commentate</i>
trawsnewid	<i>to transform, to transition</i>

braint ac anrhydedd	<i>an honour and a privilege</i>
bron â marw isio mynd	<i>dying to go</i>
hyd braich	<i>at arm's length</i>
megis	<i>such as, like</i>
Pwy a wŷr?	<i>Who knows?</i>
siarad lol	<i>to talk nonsense</i>
'slawer dydd	<i>back in the day, a long time ago</i>
Y Gamp Lawn	<i>The Grand Slam</i>
yn bennaf	<i>mainly</i>

anrhydedd(au) (gwr + ben)	<i>honour(s)</i>
cyfrwng (cyfryngau)	<i>medium (media)</i>
cywilydd	<i>shame, disgrace</i>
derbyniad(au)	<i>reception(s)</i>
dilledyn (dillad)	<i>garment (clothes)</i>
lol	<i>nonsense</i>
rhywfaint	<i>some, a little</i>

cysurus	<i>comfortable, cosy</i>
chwithig	<i>awkward</i>
democrataidd	<i>democratic</i>
derbyniol	<i>acceptable</i>
emosiynol	<i>emotional</i>
pennaf	<i>main, major, principal</i>
pwyllog	<i>level-headed, measured</i>
rheolaidd	<i>regular</i>
rhwystredig	<i>frustrated</i>
rhyngwladol	<i>international</i>

Geiriau pwysig i mi

×

×

×

×

Yr amodol

Mi faswn i'n hoffi mynd i'r Eidal ar fy ngwyliau nesa.

Be faswn i'n wneud?

Fasai fo byth yn cytuno.

Efo'ch partner, llenwch y bylchau isod, a dudwch y brawddegau a'r ymatebion wrth eich gilydd.

Mi ddudes i rywbeth gwirion. *Faswn i ddim wedi deud be ddudest ti.*

Mi wnes i rywbeth gwirion.

Mi ofynnes i gwestiwn gwirion.

Mi wisges i wisg ffansi wirion.

Mi brynes i rywbeth hurt.

Mi ddewises i'r bwyd anghywir.

Phrynes i ddim teiars newydd. *Taset ti ond wedi prynu teiars newydd.*

Es i ddim i'r garej.

Siarades i ddim efo'r mecanic.

Weles i ddim rhew ar yr ffordd.

Wrandawes i ddim ar y rhybudd.

Arhoses i ddim adre.

Nesa, cyfieithwch:

If only I'd forgiven him.

If only you'd worn a coat. (ti)

If only he'd been more democratic.

If only she'd been more measured.

If only we'd knocked the door.

If only you'd planted the flowers in the spring. (chi)

If only they'd looked at the menu.

Dach chi'n cofio...?

Mi hoffwn i fynd. Mi hoffwn i **fod wedi** mynd.

Mi fedrwn i fynd. Mi fedrwn i **fod wedi** mynd.

Mi ddylwn i fynd. Mi ddylwn i **fod wedi** mynd.

Ymarfer

Efo'ch partner, ysgrifennwch ymatebion. Wedyn, dach chi'n medru ymarfer ar lafar.

Medru

Roeddet ti isio bod yn goedwigwr pan oeddet ti'n blentyn. Mi fedrwn i fod wedi bod yn goedwigwr.

Wnest ti ddim datrys y croesair.

Dwyt ti ddim wedi plannu llawer o flodau yn yr ardd.

Ddeuodd hi ddim byd wrth y cymdogion newydd.

Mae o'n edrych braidd yn flêr.

Mae dy stori di ar dudalen flaen y papur newydd! Fedrwn i ddim bod wedi gwneud yn well na hynny.

Waw – mi redest ti'r 10K mewn llai na 45 munud!

Mae Lisa wedi cyflawni her anodd ac wedi codi mil o bunnau at elusen.

Y tîm coch sy'n fuddugol – mi lwyddon nhw i drechu'r tîm glas!

Siaradwch - Holiadur



Gofynnwch gwestiynau i o leiaf 3 o bobol i lenwi'r holiadur.

Enw	cyn cael cyfweiliad am swydd	cyn ymddeol	pan oeddech chi'n ddeunaw oed

Help llaw



1. Dan ni'n defnyddio'r amodol i siarad am bethau sydd **ddim yn bendant**, fel *would, could* a *should* yn Saesneg. Dyma ferfau defnyddiol yn yr amodol.

Mi faswn i	Taswn i	Mi hoffwn i	Mi fedrwn i	Mi ddylwn i
Mi faset ti	Taset ti	Mi hoffet ti	Mi fedret ti	Mi ddylet ti
Mi fasai fo/hi	Tasai fo/hi	Mi hoffai fo/hi	Mi fedrai fo/hi	Mi ddylai fo/hi
Mi fasen ni	Tasen ni	Mi hoffen ni	Mi fedren ni	Mi ddylen ni
Mi fasech chi	Tasech chi	Mi hoffech chi	Mi fedrech chi	Mi ddylech chi
Mi fasen nhw	Tasen nhw	Mi hoffen nhw	Mi fedren nhw	Mi ddylen nhw

2. Mi fyddwch chi hefyd yn dŵad ar draws y ffurfiau hyn:

Mi fyddwn i	Mi fydden ni
Mi fyddet ti	Mi fyddech chi
Mi fyddai fo/hi	Mi fydden nhw

3. Edrychwch ar y ddwy frawddeg yma:

Mi faswn i'n hoffi mynd.

Bod + yn + berfenw (dim treigladd)

Mi hoffwn i fynd.

Ffurf gryno + berfenw (treigladd meddal)

Mae'r ystyr yr un peth.

4. Edrychwch ar y ddwy frawddeg yma:

Mi faswn i wedi medru mynd.

Bod + wedi + berfenw (dim treigladd)

Mi fedrwn i fod wedi mynd.

Ffurf gryno + bod (treigladd meddal) +
wedi + berfenw

Pan dan ni'n defnyddio'r ffurfiau cryno, rhaid i ni gael y gair **bod** rhwng y **rhagenw** (i, ni, nhw) a **wedi**.

Gwrando - Wil ac Elin yn sgwrsio yn y ffreutur eto



Mi fyddwch chi'n gwrando ar Wil ac Elin yn sgwrsio yn y ffreutur yn y gwaith. Yn gynta, gwrandewch am:

1. Mae gan Wil broblem. Mae o wedi cael cynnig gwneud rhywbeth arall ar ben-blwydd ei wraig o. Efo'ch partner, dychmygwch y sgwrs rhwng Wil ac Elin.
2. Gwrandewch ar y sgwrs. Oedd eich sgwrs chi a'ch partner yn debyg i sgwrs Wil ac Elin? Mi fyddwch chi'n clywed y geiriau newydd yma yn y sgwrs:

ffraeo siarad lol bron â marw maddau

3. **Cywir neu anghywir:** efo'ch partner, penderfynwch be sy'n gywir.

- i. Mae Jac wedi cael tocyn i Wil ar gyfer gêm rygbi.
- ii. Roedd Wil wedi addo mynd â Caren i glwb nos.
- iii. Mae'n rhaid i Caren weithio nos Wener.
- iv. Mae Caren yn hoffi rygbi.
- v. Mae Elin yn meddwl dylai Wil fynd i'r gêm.

4. Mi fyddwch chi'n cael copi o sript y darn gwrando. Efo'ch partner, tanlinellwch y berfau **dyfodol** mewn un lliw, a'r berfau **amodol** mewn lliw gwahanol.



Darllen 1 – Carolyn Hitt yn Ateb y Galw

trawsnewid **cywilydd** **cymeradwyaeth** **yn bennaf**
pylu **dilledyn** **cysurus**

Dewiswch un o'r geiriau i lenwi'r bylchau.

1. Dw i'n hoffi gwisgo dillad
2. Mae gen i.....am be wnes i yn y parti nos Sadwrn.
3. Hen gardigan ydy fy hoff.....
4. Roedd pawb ar eu traed ac roedd y.....yn uchel iawn ar ddiwedd y ddrama.
5. Rhaid i mi wisgo fy sbectol i i ddarllen unwaith mae'r golau'n.....
6. Mi ddaeth yr adeiladwyr i mewn ay tŷ.
7. Mae o'n mynd i astudio Sbaeneg yn y brifysgol,.....achos mae o isio mynd dramor am flwyddyn.

Ateb y galw – Carolyn Hitt

Be ydy dy atgof cyntaf?

Y **trawsnewid** mawr o'r cot i'r 'gwely mawr'.



Be ydy'r digwyddiad sydd wedi codi'r cywilydd mwyaf arnat ti erioed?

Mae gormod! Mewn derbyniad VIP ffansi mewn *marquee* yng Ngŵyl y Gelli unwaith, syrthiais syth ar fy nghefn a chael **cymeradwyaeth** achos llwyddais i gadw'r gwydr *champagne* mewn un darn. Ro'n i'n gorwedd yno fel y *Statue of Liberty* efo fy mraich yn yr awyr!

Oes gen ti unrhyw arferion drwg?

Dw i byth yn mynd i'r gwely'n ddigon cynnar – **yn bennaf** achos fy mod i'n aros ar fy nhraed tan 02:00 yn darllen pethau ar y we. Dw i ddim yn tacluso fy nesg yn ddigon aml chwaith.

Be ydy dy hoff le yng Nghymru, a pham?

Copa Mynydd y Bwlch sy'n edrych dros y Rhondda, lle ces i fy magu. Mae'r olygfa o'r cwm yn hyfryd. Mae'r mynyddoedd yn newid lliw wrth i'r golau **bylu**. Ro'n i wastad yn mynd ag ymwelwyr yno pan o'n i'n blentyn. Mae'n lle emosiynol iawn i mi erbyn hyn achos mai dyna'r lle olaf i mi fynd â Mam ychydig wythnosau cyn iddi farw.

Disgrifia dy hun mewn tri gair.

Creadigol. Cyfeillgar. Sensitif.

Pa ddilledyn faset ti'n methu byw hebdo?

Fy sliperi! Mae bod yn **gysurus** yn y tŷ yn bwysig i fi. Dw i hyd yn oed yn mynd â nhw ar wyliau.

Be ydy dy hoff albwm?

Blue – Joni Mitchell.

Cwrs cyntaf, prif gwrs neu bwdin – pa un ydy dy ffefryn a be fasai'r dewis?

Dw i wrth fy modd efo pwdinau. Pei Key Lime, pei banoffee, hufen iâ cnau coco neu unrhyw beth sy'n dod efo cwstard.

Taset ti'n medru bod yn rhywun arall am ddiwrnod, pwy fasai fo/hi?

Dw i'n ysgrifennu am rygbi rhyngwladol ers bron i 20 mlynedd ond fedra i ddim dychmygu sut deimlad fasai chwarae dros Gymru... y pwysau, y boen, yr **anrhydedd**. Felly, hoffwn i fod yn gaptin dros fy ngwlad mewn gêm sy'n penderfynu'r Gamp Lawn yn erbyn Lloegr – ac ennill, yn amlwg.

1. Dewch o hyd i'r berfau amodol yn y cyfweiliad.
2. Efo'ch partner, ysgrifennwch ddiffiniad (yn Gymraeg) o'r geiriau hyn:

atgof cyntaf

copa mynydd

rygbi rhyngwladol

3. Efo'ch partner, gofynnwch gwestiynau'r holiadur i'ch gilydd.

Gwyllo a gwrando



Mi fyddwch chi'n gwyllo fideo o enwogion yn siarad am brofiadau sy wedi codi cywilydd arnyn nhw.

Lowri Morgan

alaw werin

rheolaidd

rhwystredig

1. Be oedd y digwyddiad achosodd embaras i Lowri Morgan?

.....

2. Sut oedd hi'n teimlo wedyn?

.....

Aneirin Karadog

**peri
amlinell**

**'slawer dydd
megis**

pwylllog

taflunio

1. Pa ran o wyneb Aneirin oedd achos yr embaras?

.....

2. I ba anifail roedd o'n debyg?

.....

Heledd Cynwal

1. Pam oedd y ferch fach ar y rhaglen?

.....

2. Be wnaeth Heledd Cynwal?

.....

Gareth Rhys Owen

sylwebu

1. Be ydy gwaith Gareth Rhys Owen?

.....

2. Be wnaeth o?

.....

Darllen 2 – Ti a Chi



Cyn darllen am **ti** a **chi**, nodwch y ffurfiau cywir yn y blwch isod. Mae'r un cyntaf wedi'i wneud i chi.

ti	chi
Wyt ti'n llawn balchder? Weles i monot ti.	Dach chi'n llawn balchder?
.....	Sut fyddwch chi'n trawsnweid yr ystafell?
Taset ti ond wedi deud.	os gwelwch chi'n dda
.....	Be sy'n bod arnoch chi?
Oeddet ti'n rhwystredig?	Dychmygwch!
.....
Wrandawest ti ar y rhaglen?

Mae'n achosi penbleth i siaradwyr Cymraeg – dach chi'n galw 'ti' neu 'chi' ar rywun?

Geirfa: **democrataidd** **rhywfaint** **cyfrwng**

Mae'n siŵr fod pob un ohonon ni wedi cael y profiad chwithig yma: galw 'chi' ar rywun, a chael 'ti' yn ôl. Neu, yn waeth, cynnig 'ti' a derbyn ateb – caredig ond pendant – efo'r 'chi' mwy ffurfiol. Neu – "llai o'r 'ti' 'na!"

Mae gan bawb farn ar y defnydd o 'ti' a 'chi'. Mae rhai'n meddwl bod 'ti' yn fwy cyfartal a mwy **democrataidd** na 'chi'. Ond i bobl eraill, mae colli'r 'chi' yn arwydd o golli **rhywfaint** o liw'r iaith, ac o golli patrwm cymdeithasol hefyd.

Dydy'r defnydd o 'ti' a 'chi' ddim yn syml. Erbyn heddiw, mae'n arferol i blant alw eu rhieni'n 'ti'. Ond mae rhai **parau priod** sydd wedi magu **llond tŷ** o blant yn galw 'chi' ar ei gilydd. Ac mewn rhai ardaloedd, mae'n gyffredin i fechgyn y teulu fod yn 'ti' i bawb, a'r merched, ar y llaw arall, yn 'chi'.

Mae pobl weithiau'n osgoi defnyddio 'ti' **rhag ofn** iddyn nhw 'siarad i lawr' â rhywun. Mae'r penbleth hwn yn y Ffrangeg hefyd, gyda 'tu' (ti) a 'vous' (chi). Yn yr Oesoedd Canol roedd 'thou' a 'thee' yn cael eu defnyddio yn Saesneg ond maen nhw wedi diflannu erbyn hyn.

Mae'n deg dweud bod 'ti' yn fwy cyffredin ar y we. Mae'n fantais fod 'ti' yn fyrrach na 'chi' wrth gwrs, ond i lawer o ddefnyddwyr y we, mae'n **gyfrwng** democrataidd lle mae pawb yn gyfartal a lle mae defnydd cyson o 'ti' yn dderbyniol. Ond dydy pawb ddim yn cytuno.

Sut byddwn ni'n defnyddio 'ti' a 'chi' yn y dyfodol, felly? **Pwy a wŷr?** Tasa'n rhaid i mi ddyfalu, baswn i'n dweud mai "mwy o'r 'ti' a llai o'r 'chi' 'na" fydd hi!

Addasiad o erthygl gan Dr Dylan Foster Evans i wefan BBC Cymru Fyw, 4 Hydref 2016.

parau priod Mae'n deg dweud Pwy a wŷr? llond tŷ rhag ofn

1. Efo'ch partner, cyfieithwch yr ymadroddion uchod.

.....

.....

2. Efo'ch partner, meddylwch be ydy:

llond llaw
 llond llwy
 llond trol o waith
 llond bol
 llond lle

Fedrwch chi feddwl am **ddwy** frawddeg lle basech chi'n defnyddio'r ymadroddion hyn?

i.

ii.

Siaradwch



- Be dach chi'n ei feddwl o **ti** a **chi**?
- Ydy hi'n bwysig eu defnyddio nhw?
- Dach chi'n defnyddio teitlau, e.e. Mr a Mrs, wrth siarad efo rhai pobol?
- Dach chi'n meddwl bod defnyddio **chi** yn ffordd o gadw pobol hyd braich?

Idiom



Hyd braich

Uned 5 - Celf

Nod yr uned hon ydy...

- Adolygu cymal enwol 'bod' (fy mod i, dy fod ti, ei fod o, ei bod hi, ac ati)
- Siarad am gelf
- Mynegi barn am bethau, pobol a digwyddiadau
- Dysgu geirfa ac idiomau newydd

Geirfa

delw teiliwr *tailor's dummy*

gwinllan(noedd) *vineyard(s)*

siôl (siolau) *shawl(s)*

cyfaddef *to admit*

denu *to attract*

tynnu sylw (at) *to draw attention (to)*

cerflun(iau) *sculpture(s)*

cymal(au) *clause(s); joint(s)*

diafol *devil*

eog(iaid) *salmon(s)*

rhwd *rust*

testun(au) trafod *subject(s) of discussion*

anghyffredin *uncommon*

di-nod *insignificant*

hanfodol *essential*

trefol *urban*

y gwir amdani ydy... *the truth is...*

yn fwriadol *deliberately*

Geiriau pwysig i mi

×

×

×

×



Darllen

Mae'r geiriau sy mewn **print trwm** yn codi yn y darn darllen. Fedrwch chi feddwl am frawddegau eraill sy'n cynnwys y geiriau yma?

1. Mae mynd o ddrws i ddrws yn canu ar ddydd Calan yn hen **draddodiad** yng Nghymru.
2. Mae sioeau talent cystadleuol yn **boblogaidd** iawn ar y teledu'r dyddiau yma.
3. Mae perthynas Wil a Siân wedi bod yn **destun trafod** mawr yn y pentre.
4. Mi anfonnes i ebost i'r cyngor er mwyn **tynnu sylw** at y broblem.
5. Mae pawb yn y dosbarth yn hoffi dawnsio, **heblaw am** Dafydd.
6. Roedd rhaid i mi **gyfaddef** fy mod i wedi twyllo er mwyn cyrraedd y llinell derfyn.

Salem

Cefndir

Capel bach **di-nod** yng Nghefn Cymerau ger Harlech ydy capel Salem. Ond mae capel Salem yn adnabyddus iawn, diolch i lun enwog Sydney Curnow Vosper o'r hen wraig, Siân Owen, Ty'n-y-Fawnog, yn y capel. Cafodd y llun *Salem* ei beintio yn 1908 ac i lawer o bobl, mae'n symbol o **draddodiadau** a **gwerthoedd** Cymreig. Roedd copi o *Salem* mewn llawer o gartrefi yng Nghymru yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif, pan oedd gweld lluniau mewn tai **cyffredin** yn rhywbeth **anghyffredin** iawn. Cwmni Lever Brothers wnaeth y llun yn boblogaidd. Roedd tocynnau yn cael eu rhoi gyda phob pecyn o *Sunlight Soap*. Ar ôl casglu digon o docynnau, roedd pobl yn medru cael print lliw o *Salem*.

Siân Owen

Mae'r llun wedi bod yn **destun trafod** mawr hefyd – mae rhai pobl yn meddwl bod wyneb **y diafol** yn siôl fawr Siân Owen. A gan fod y cloc ar y wal yn dangos ei bod hi bron yn ddeg o'r gloch, mae Siân ychydig yn hwyr yn cyrraedd y capel. Mae hi'n cerdded i'w sedd yn ystod yr amser distaw cyn dechrau'r gwasanaeth. Mae rhai wedi awgrymu ei bod hi'n gwneud hynny'n **fwriadol** er mwyn **tynnu sylw** ati hi ei hun a'i dillad crand.

Creu'r llun

Ond beth ydy'r gwir? I ddechrau, nid gwasanaeth go iawn yng nghapel Salem sydd yn y llun. Roedd Vosper wedi gweld y capel tra oedd o ar ei wyliau yn yr ardal a threfnodd fod nifer o bobol leol yn dŵad i eistedd yno er mwyn iddo gael peintio'r llun. A dweud y gwir, dim ond un ohonyn nhw oedd yn aelod yng nghapel Salem, sef Robert Williams, sy'n eistedd o dan y cloc. Talodd Vosper chwe cheiniog yr awr i bawb sydd yn y llun heblaw am 'Leusa Jones' sydd y tu ôl i Siân Owen. Doedd dim rhaid talu 'Leusa' gan mai **delw teiliwr** oedd hi!



A beth am y siôl enwog? Wel, nid Siân Owen oedd piau hi ac roedd dilledyn mor lliwgar a moethus yn anghyffredin iawn yn yr ardal. Wedi cael ei benthyg gan wraig y ficer yn Harlech roedd y siôl. O ran yr hetiau du tal, **y gwir amdani ydy** mai un het oedd ganddyn nhw a bod honno wedi cael ei phasio o un wraig i'r llall er mwyn i Vosper eu peintio.

Does neb yn siŵr beth oedd neges yr artist. **Chyfaddefodd** Vosper erioed ei fod o wedi peintio'r diafol yn y siôl yn fwriadol.

Trafodwch rôl y bobol neu'r llefydd canlynol yn stori *Salem*:

1. Sydney Curnow Vosper
2. Cefn Cymerau
3. Y Brodyr Lever
4. Siân Owen
5. Robert Williams
6. Gwraig Ficer Harlech
7. 'Leusa Jones'

Ymarfer



1. Mi weloch chi'r gair **di-nod** yn y darn darllen uchod. Mae rhoi **di-** ar ddechrau gair yn golygu **heb**. Trafodwch **dri** gair arall sy'n dechrau efo **di-**:

- i. di-
- ii. di-
- iii. di-

2. Mae **an-** hefyd yn creu ystyr negyddol. Mi weloch chi hyn (efo treigladd) yn y geiriau croes **cyffredin** ac **anghyffredin** uchod. Be ydy'r geiriau croes i'r canlynol?

- i. cywir.....
- ii. caredig.....
- iii. cwrtais.....
- iv. cofio.....

Siaradwch



- Be dach chi'n ei weld yn llun *Salem*?
- Oes gynnoch chi gopi, neu oedd copi yn eich teulu chi?
- Oes gynnoch chi luniau ar y waliau adra?
- Dach chi'n casglu ac yn cadw pob math o bethau, neu ydy hi'n well gynnoch chi gadw'r tŷ'n syml ac yn daclus?
- Oes llun neu addurn diddorol yn eich tŷ chi? Dewch â fo i'r dosbarth i siarad amdano fo.

Adolygu cymal enwol 'bod'

Cysylltwch y ddau gymal i greu brawddeg efo cymal enwol **bod**:

e.e. Mi ddudodd Alun...Mae o'n artist gwych.

Mi ddudodd Alun ei fod o'n artist gwych.

1. Mi ddudodd y tiwtor Dw i'n barod i sefyll yr arholiad.

2. Wrth gwrs Maen nhw yn y stiwdio.

3. Gobeithio Rwyf ti'n deud y gwir.

4. Ro'n i'n gwybod Roedd hi'n deud celwydd.

5. Ella Mae hi wedi anghofio'r paent.

6. Dw i'n meddwl Dan ni yn yr oriel iawn.

7. Doedd hi ddim yn gwybod Mae o'n codi pwysau.

8. Ro'n i'n siŵr Ro'n i wedi cloi'r drws.

9. Maen nhw'n deud Mae'r neuadd dan ei sang.

10. Dw i'n falch Mae'r winllan yn gwneud yn dda.
11. Mae o'n wych! Mi fasai Mae o'n ddawnsiwr proffesiynol.
rhywun yn meddwl
12. Mi ddylet ti wybod Maen nhw wastad yn achosi problemau.
13. Taset ti'n clywed Mae fy mhlentyn i'n camymddwyn, faset ti'n
deud wrtha i?
14. Mi ddylen ni sicrhau Dan ni'n prynu coffi masnach deg i'r swyddfa.

Ymarfer llafar



Roedd **hi** yn y swyddfa tan naw o'r gloch. Dw i'n meddwl ei bod hi'n gweithio'n rhy galed.

Aeth **o** i Amsterdam ar ei wyliau. Mi ddudodd Siân ei fod o'n hoffi blodau tiwlip.

Mae'n ddiwrnod mawr i **mi** ddydd Sadwrn ... Do'n i ddim yn gwybod dy fod ti'n
- ffeinal y cwpan. chwarae pêl-droed.

Maen **nhw**'n hwyr ofnadwy. Ella eu bod nhw wedi mynd ar goll.

Be wyt ti'n feddwl o'r tŷ bwyta newydd 'na yn y dre?

Welest ti'r boi 'na o'r Rhondda ar *Wales has got Talent*?

Maen nhw'n gwneud llawer o waith ar y tŷ.

Ydw i'n nabod Huw Davies?

Y dyfodol a'r amodol



Dan ni ddim yn defnyddio **bod** efo'r **dyfodol** a'r **amodol**. Edrychwch ar y cwestiynau isod. Siaradwch!

- Dach chi'n meddwl bydd pobol yn prynu mwy mewn siopau elusen yn y dyfodol?
- Dach chi'n meddwl byddwch chi'n prynu/symud tŷ yn y pum mlynedd nesa?
- Dach chi'n meddwl byddwch chi'n dysgu sgil newydd yn fuan?
- Dach chi'n meddwl dylai pawb yng Nghymru ddysgu Cymraeg?
- Oeddech chi'n meddwl basech chi'n llwyddo i ddysgu Cymraeg i'r lefel yma?
- Dach chi'n meddwl dylai plant wneud ymarfer corff bob dydd yn yr ysgol?
- Dach chi'n meddwl dylen ni gael wythnos waith o bedwar diwrnod?
- Oeddech chi'n meddwl basech chi'n byw lle dach chi'n byw rŵan?

Help llaw



1. Pryd mae'n rhaid defnyddio **bod**?

Dysgwch pryd i ddefnyddio **bod**. Dyma restr i'ch helpu chi:

Berfau (<i>verbs</i>)	Ansoddeiriau (<i>adjectives</i>)	Eraill
Meddwl bod	Siŵr bod	Wrth gwrs bod
Gwybod bod	Sicr bod	Er bod
Credu bod	Hapus bod	Fallai / Ella bod
Gobeithio bod	Balch bod	(achos bod)*
Deud bod	Diflas bod	
Clywed bod	Pwysig bod	

*Erbyn hyn, mae llawer o bobol yn defnyddio **achos mae** neu **achos roedd** wrth siarad, ac felly, mae **achos bod** mewn cromfachau (*brackets*).

2. Mae **bod** yn cael ei ddefnyddio ar ddechrau cymal heb bwyslais (*a non-emphatic clause*) yn yr amser **presennol** a'r **amherffaith**:

i. Y Presennol:

Dw i'n meddwl

Dw i'n deall.

fy mod i'n deall.

Dw i'n meddwl

Mae o'n ddiddorol iawn.

ei fod o'n ddiddorol iawn.

ii. Yr Amherffaith

Mi ddudes i

Ro'n i ar y trê'n.

fy mod i ar y trê'n.

Roedd o'n meddwl

Roedd hi'n garedig iawn.

ei **bod hi**'n garedig iawn.

Yn yr amser **perffaith** a'r **gorberffaith**, dan ni'n defnyddio **bod wedi**:

iii. Y Perffaith

Mi ddudes i

Dw i wedi bwyta.

fy mod i wedi bwyta.

Dw i'n siŵr

Maen nhw wedi cael hwyl.

eu bod nhw wedi cael hwyl.

iv. Y Gorberffaith

Mi ddudes i

Ro'n i wedi golchi fy nwylo.

fy mod i wedi golchi fy nwylo.

Ro'n i'n gwybod

Roedd o wedi bod yn erio.

ei fod o wedi bod yn erio.

3.

Cofiwch:	Ar lafar yn aml, mi fyddwch chi'n clywed:
fy mod i	mod i
dy fod ti	fod ti
ei fod o	fod o
ei bod hi	bod hi
ein bod ni	bod ni
eich bod chi	bod chi
eu bod nhw	bod nhw



Gwyllo a gwrando - Celf gyhoeddus

Ysgrifennwch be dach chi'n ei weld yn y ffilm yn y blwch:

Nodwch bedwar peth mae pobol Caerfyrddin a Chaernarfon yn eu hoffi am y gelf yn eu trefi nhw, a dau beth dydyn nhw ddim yn eu hoffi:

✓	X
1.	1.
2.	
3.	2.
4.	

Cyfieithwch:

1. *I believe they are a waste of money.*

.....

2. *I think the majority of them are attractive.*

.....

3. *I think there is a bit of interest in them.*

.....

4. *I think art is essential for the town.*

.....

5. *It is also important that young people live around art.*

.....

6. *I think art is a good thing for tourists in Caernarfon.*

.....

7. *I think public art is a good thing.*

.....

Gwrandewch eto ar Eirian James, perchennog siop Palas Print yng Nghaernarfon a llenwch y bylchau:

Dw i'n meddwl _____ celf gyhoeddus yn syniad da achos mae'n ychwanegu lliw at _____ trefol. Mae hefyd yn gwneud _____ bobl edrych ar gelf fyddai fallai ddim fel arfer yn dewis edrych ar gelf. So, ti ddim yn gorfod mynd i mewn i _____ i weld celf gyhoeddus ac mae hwnna'n gallu cosi meddwl pobl ac yn gallu bod yn ffordd i _____ pobl i gelf.

Siaradwch

- Dach chi'n cytuno efo Eirian James?
- Oes 'na gerfluniau neu ddarnau celf amlwg yn eich ardal chi? Be ydy eich barn chi amdany'n nhw?
- Ddylen ni wario arian cyhoeddus ar waith celf gyhoeddus?

Ymarfer Geirfa Uned 5

Gweithiwch efo'ch partner i ddewis y gair cywir i fynd yn y bwlch.

gwerthoedd **gwinllannoedd**

Mi ddaeth perthynas Dafydd a Mari i ben achos bod eu _____ yn rhy wahanol.

Mi fedrwch chi ymweld â llawer o _____ hyfryd yn California.

traddodiad **trawsnewid**

"Mae'r arian grant wedi _____ y dref," meddai'r cynghorydd. Mae _____ y Fari Lwyd yn bwysig i lawer o bobol Bro Morgannwg.

anghyffredin **arferol**

Roedd Alun yn hoffi siopa mewn siopau elusen er mwyn cael dillad _____.

Pris _____ peint o laeth yn siop y pentref ydy 81c.

yn fwriadol **yn y fan a'r lle**

Roedd y cefnogwyr yn meddwl bod y chwaraewr wedi syrthio _____ pan gaeth o ei daclo.

Mi syrthiodd y bocsiwr _____ ar ôl cael ei fwrw ar ei drwyn o.

cyfaddef **cyflawni**

Rhaid i mi _____, dw i'n gwario llawer gormod o bres ar ddillad.

Roedd y tîm rygbi wedi _____ camp arbennig. Roedden nhw wedi ennill pob gêm yn y tymor.

tynnu sylw at **sylwi**

Mae'r adroddiad yn _____ lawer o broblemau traffig yn y dref.

Roedd Elin wedi _____ bod mwy o geir yn y dref ar hyn o bryd.

di-nod **diflas**

Roedd y rhaglen deledu'n _____, felly mi diffoddodd Bryn y teledu.

Roedd Merthyr Tudful yn bentref bach _____ cyn iddyn nhw ddechrau gwneud haearn yno.

testun trafod **neges destun**


Mi anfonodd Morus _____ at ei gariad o i ofyn be oedd hi isio i swper.

Roedd y murlun newydd yn dipyn o _____. Roedd 'na lawer o bobol yn meddwl ei fod o wedi costio gormod o bres.

Dach chi rŵan yn medru darllen y llyfr *Trwy'r Ffenestri* (Atebol). Dyma'r clawr a'r paragraff cynta. Ewch i'ch siop Gymraeg leol neu www.gwales.com.

'Anhygoel! Hollol, hollol anhygoel!'

Doedd Daniel Rowlands ddim yn defnyddio geiriau fel yna'n aml wrth ddisgrifio gwin. Arhosai'r dyn arall yn yr ystafell i weld oedd o'n hoffi'r gwin ai peidio. Roedd ei ddyfodol yn dibynnu ar farn Daniel Rowlands – os oedd o'n ei hoffi, basai'n cael ei brynu gan un o'r archfarchnadoedd mwyaf. Basai'n cael ei werthu ym mhob man. Edrychai perchennog y winllan arno'n nerfus. Dim ond gwinllan fach oedd ganddo – un o'r lleiaf yn Bordeaux, Ffrainc. Tasai o'n gwerthu'r gwin, basai ei fusnes, oedd wedi bod yn ei deulu ers dros ddau gan mlynedd, yn cael ei achub.



Idiom



Dan ei sang

Uned 6 – Y Môr

Nod yr uned hon ydy...

- Adolygu atebion, cytuno ac anghytuno
- Siarad am y môr a glan y môr
- Dysgu geirfa ac idiomau newydd

Geirfa

gwledd(oedd)	<i>feast(s)</i>
llifddor(au)	<i>floodgate(s)</i>
ogof(âu)	<i>cave(s)</i>
trychineb(au)	<i>disaster(s)</i>

boddi	<i>to drown</i>
cysgodi (rhag)	<i>to shelter (from)</i>
chwalu	<i>to wreck</i>
holhti	<i>to split</i>
tincial	<i>to tinkle, to jingle</i>
tueddu (i)	<i>to tend</i>
tywynnu	<i>to shine</i>

esgeulustod	<i>negligence</i>
gweddill(ion)	<i>residue(s), remains</i>
llanw(au)	<i>tide(s)</i>
llongddrylliad(au)	<i>shipwreck(s)</i>
medd	<i>mead</i>
morglawdd (morgloddiau)	<i>barrage(s), sea wall(s)</i>
morlo (morloi)	<i>seal(s)</i>
nofelydd (nofelwyr)	<i>novelist(s)</i>
traï	<i>ebb</i>

cadarn	<i>firm, robust</i>
esgeulus	<i>negligent</i>
ofer	<i>futile</i>
tlws	<i>pert, hardd</i>

ar drai	<i>at low tide; on the decrease, waning</i>
i'r lan	<i>to the shore</i>
mynd dros ben llestri	<i>to go overboard</i>
o'r golwg	<i>out of sight</i>
pen ei thaith / daith	<i>end of her / his / its journey</i>
yn araf bach	<i>gradually</i>
yn ddiarwybod i	<i>unbeknown to</i>

Geiriau pwysig i mi

×

×

×

×

Adolygu atebion ac ymatebion

Ymarfer Paru

Efo'ch partner, dewiswch yr atebion cywir neu'r ffordd gywir o gytuno ar gyfer pob brawddeg. Wedyn, dudwch y brawddegau fel **deialog**, heb edrych ar yr atebion.

Wyt ti wedi bod ar draeth Llanddwyn erioed?	Oedd, roedd hi'n ofnadwy.
Yn sir Fôn mae o.	Baswn.
Roedden ni yno dydd Sadwrn. Roedd hi'n wyntog dydd Sadwrn, toedd?	Naddo. Roedd hi'n sych yma hefyd.
Ond chaethon ni ddim glaw, diolch byth.	Ydy, dw i wedi clywed.
Mae'r tywod yn medru bod yn fwdlyd iawn yno.	Ydyn.
Roedd y ci'n fudr ofnadwy. Mi aeth o i nofio yn y môr. Mae cŵn wrth eu boddau efo'r môr.	Oedd, mae'n siŵr.
Mi aethon ni i gael sglodion wedyn. Roedd angen rhywbeth i'n cynhesu ni.	Ia, dw i'n gwybod hynny.
Faset ti'n licio dŵad efo ni'r tro nesa?	Naddo.

Oes / Ydy

Weithiau, wrth gytuno neu anghytuno â gosodiad, mae'n hawdd drysu wrth ddefnyddio **ydy** ac **oes**.

Ydy (Yes, he/she/it is)	Oes (Yes, there is/are)
Mae'r llong ar y môr.	Mae 'na long ar y môr.
Mae Megan yma.	Mae 'na ormod o bobol yma.
Mae Gareth ar y traeth.	Mae 'na blant ar y traeth.
Mae Llangrannog yn hyfryd.	Mae 'na lawer o wylanod o gwmpas.

Dril - Cytunwch!

Efo'ch partner, edrychwch ar y brawddegau isod a chytunwch.

Mae hi'n braf heddiw.

Mae'r tywydd yn gwella.

Mae 'na dywydd da ar y ffordd.

Mae carnifal y dre yfory.

Mae gan yr ysgol stondin.

Mae'n hysbyseb dda i'r ysgol.

Mae 'na lawer o bobol yno fel arfer.

Mae'n boblogaidd iawn.

Mae gen ti gyhyrau mawr.

Mae o'n chwaraewr corfforol iawn.

Mae'r busnes yn hunangynhaliol erbyn hyn.

Mae gen ti hogan fach benderfynol iawn.



Do / Ia

Efo'ch partner, llenwch y bylchau (✓ cadarnhaol, ✗ negyddol).

Bostiest ti dy basbort di ddoe? ✓ Ddoe postiest ti dy basbort di? ✓

Bostiest ti'r pasbort yn Swyddfa'r Post?..... ✓ Yn Swyddfa'r Post postiest ti'r pasbort? ✓

Brynest ti'r tocynnau bore 'ma? ✗ Bore 'ma prynest ti'r tocynnau? ✗

Dalest ti efo'r cerdyn credyd? ✗ Efo'r cerdyn credyd talest ti? ✗

Smwddiest ti'r dillad yn barod i fynd yn y ces? ✓ Ti smwddiodd y dillad yn barod i fynd yn y ces? ✓

Helpest ti'r plant i bacio? ✓ Ti helpodd y plant i bacio? ✓

Roiest ti oriad y tŷ i Rhys drws nesa? ✗ I Rhys drws nesa rhoiest ti oriad y tŷ? ✗

Atebion trydydd person

Cofiwch fod rhaid i ni fod yn ofalus i ateb yn yr **unigol** neu'r **lluosog**:

Ydy'r clwb newydd yn agor y penwythnos yma?

Ydy.

Ydy'r clybiau newydd yn agor yn fuan?

Ydyn.

Efo'ch partner yma, gweithiwch ar y parau yma. Ymarfer llafar ydy hwn.

Ydy'r lleidr wedi cyfaddef?

Ydy'r lladron wedi cyfaddef?

Oedd y tân yn y ffatri'n un mawr?

Oedd y tanau yn yr ardal yn rhai mawr?

Fydd y gwyddonydd yn datrys y broblem?

Fydd y gwyddonwyr yn datrys y broblem?

Wneith y Prif Weinidog gyhoeddiad heddiw?

Wneith y gweinidogion eraill gyhoeddiad heddiw?

Fasai John yn medru nofio'r Sianel?

Fasai John a Nadia'n medru nofio'r Sianel?

Ddylai'r dosbarth fod ar Zoom?

Ddylai'r dosbarthiadau fod ar Zoom?

Nesaf, ysgrifennwch gwestiwn i fynd efo'r ateb:

.....

Ydyn.

.....

Oedd.

.....

Byddan.

.....

Gwneith.

.....

Basen.

.....

Dylen.

Help llaw



Mae'r tablau isod yn crynhoi (*summarise*) y prif atebion:

1. Y Presennol

Ydw i yn y tîm?/ Dw i yn y tîm.	Wyt/Ydych/Ydach
Wyt ti'n chwarae?/ Rwyd ti'n chwarae.	Ydw
Ydy o'n mynd?/ Mae o'n mynd.	Ydy
Ydy hi'n aros?/ Mae hi'n aros.	Ydy
Ydy'r plant yn sâl?/ Mae'r plant yn sâl.	Ydyn
Ydyn/Ydan ni'n gweithio?/ Dan ni'n gweithio.	Ydyn/Ydan neu Ydych/Ydach
Dach chi'n sicr?/ Dach chi'n siŵr.	Ydw/Ydyn/Ydan
Ydyn nhw'n gyrru?/ Maen nhw'n gyrru.	Ydyn

Cofiwch hefyd:

Sgen ti gar coch?

Oes.

Mae gen ti gar coch.

Oes.

Oes 'na lyfr ar y bwrdd?/Mae 'na lyfr ar y bwrdd.

Oes. (*Yes, there is*)

Ydy'r llyfr ar y bwrdd?/Mae'r llyfr ar y bwrdd.

Ydy. (*Yes, it is*)

2. Yr Amherffaith (roedd...)

O'n i'n hwyr?/ Ro'n i'n hwyr.	Oeddet/Oeddech
Oeddet ti wedi blino?/ Roeddet ti wedi blino.	O'n
Oedd o'n iawn?/ Roedd o'n iawn.	Oedd
Oedd hi'n oer?/ Roedd hi'n oer.	Oedd
Oedd y plant yna?/ Roedd y plant yna.	Oedden
Oedden ni'n gweithio?/ Roedden ni'n gweithio.	Oedden neu Oeddech
Oeddech chi'n siŵr?/ Roeddech chi'n siŵr.	O'n neu Oedden
Oedden nhw'n hapus?/ Roedden nhw'n gyrru.	Oedden

Cofiwch am y ffurf lawn arall hefyd:

Ro'n i - Roeddwn i

3. Y Gorffennol cryno (*short form past tense*)

Dim ond un ateb sy yma – **Do / Naddo** – pob person:

Enilles i? (Wnes i ennill?)

Do.

Glywest ti? (Wnest ti glywed?)

Naddo.

4. Y Dyfodol (*future*)

Fydda i yn y tîm?/ Mi fydda i yn y tîm.	Byddi/Byddwch
Fyddi di'n chwarae?/ Mi fyddi di'n chwarae.	Bydda
Fydd o'n mynd?/ Mi fydd o'n mynd.	Bydd
Fydd hi'n aros?/ Mi fydd hi'n aros.	Bydd
Fydd y plant yna?/ Mi fydd y plant yna.	Byddan
Fyddwn ni'n gyrru?/ Mi fyddwn ni'n gyrru.	Byddwn neu Byddwch
Fyddwch chi'n talu?/ Mi fyddwch chi'n talu.	Bydda/Byddwn
Fyddan nhw yma?/ Mi fyddan nhw yma.	Byddan

Ond, efo'r dyfodol, mae'n rhaid dysgu'r ffurfiau cryno (*short forms*) hefyd. Mae dyfodol y ferf **gwneud** yn bwysig iawn achos dan ni'n defnyddio **gwneud** i ateb.

	Dyfodol Gwneud
Basia i'r arholiad?/ Mi basia i'r arholiad.	Gwnei/Gwnewch
Weli di Siân heno?/ Gweli di Siân heno.	Gwnaf/Wna i
Helpith o?/ Mi helpith o.	Gwneith
Helpith hi?/ Mi helpith hi.	Gwneith
Helpith y plant?/ Mi helpith y plant.	Gwnân
Awn ni allan i fwyta?/ Mi awn ni allan i fwyta.	Gwnawn/Gwnewch
Welwch chi fo fory?/ Mi welwch chi fe fory.	Gwnaf/Gwnawn
Helpan nhw?/ Mi helpan nhw.	Gwnân

Dan ni hefyd yn defnyddio dyfodol **gwneud** i ymateb i orchymyn (*command*):

Ffoniwch fi heno!	Gwnaf/Wna i.
Peidiwch ag aros yn hir.	Na wna/Na wna i.

Efo'r ferf **cael**, rhaid i ni ateb efo ffurfiau **cael**.

Ga i fynd?	Cei/Cewch
Gei di ddwâd allan?	Caf/Ca i
Geith o aros?	Ceith
Geith hi aros?	Ceith
Geith y plant aros?	Cân
Gawn ni weld?	Cawn neu Cewch
Gewch chi fynd i'r cyfarfod?	Caf/Ca i/Cawn
Gân nhw wylio'r ffilm?	Cân

Cofiwch am y **treigladau** yn y **negyddol** – Cei / Na **chei**.

5. Yr Amodol (*conditional*) – Mi faswn i.....

Faswn i'n aros?/ Mi faswn i'n aros.	Baset/Basech
Faset ti'n prynu car?/Mi faset ti'n prynu car.	Baswn
Fasai fo'n gofyn?/ Mi fasai fo'n gofyn.	Basai
Fasai hi'n gofyn?/ Mi fasai hi'n gofyn.	Basai
Fasai'r plant yn gofyn?/ Mi fasai'r plant yn gofyn.	Basen
Fasen ni'n deud?/ Mi fassen ni'n deud.	Basen neu Basech
Fasech chi'n talu?/ Mi fasech chi'n talu.	Basen neu Basech
Fasen nhw'n cystadlu?/ Mi fassen nhw'n cystadlu.	Basen

Cofiwch hefyd am y ffurfiau cryno (*short forms*):

Hoffet ti aros?

Hoffwn.

Ddylai hi aros?

Dylai.

Fedren nhw aros?

Medren.

6. Ia/ Naci

Dan ni'n ateb yn syml efo **la** neu **Naci** pan fydd pwyslais (*emphasis*):

Jac wyt ti?

Ia./Naci.

Y Môr



Nodwch o leiaf 10 gair ar thema **Y Môr** yn y blwch isod:

Darllen 1



Llongddrylliad y *Royal Charter*

llongddrylliad **trychineb** **cysgodi** **holhti** **gweddillion**

Mae'r pum gair newydd yn yr ymadroddion (*phrases*) neu frawddegau isod. Mae'r ymadroddion a'r brawddegau'n dâd o'r darn darllen. Efo'ch partner, dach chi'n medru ad-drefnu (*rearrange*) y geiriau? Ceisiwch wneud hyn heb edrych ar y sgrïpt!

ger digwyddodd pentref trychineb Moelfre

gysgodi penderfynodd Mae Moelfre y capten i aros ym

tonnau a llong daeth holhti'r anferth

am ar ôl llongddrylliad y wythnosau

o dan aeth ffilmio y Royal Charter y môr gweddillion pobl i

Ar 25 Hydref 1859, digwyddodd **trychineb** ger Pentref Moelfre, Ynys Môn. Roedd llong y *Royal Charter* yn teithio'n ôl o Melbourne, Awstralia. Roedd hi bron â chyrraedd **pen ei thaith**, sef Lerpwl.

Aeth y llong trwy stormydd gwyllt ar Fôr Iwerddon, ac yn anffodus, roedd tywydd gwaeth i ddod. Penderfynodd y capten aros ym Mae Moelfre i **gysgodi** rhag y storm. Taflodd yr angor i lawr, ond torrodd yr angor o dan y straen. Cafodd 32 o deithwyr eu taflu yn erbyn y creigiau. Yna, daeth tonnau anferth a **holhti'r** llong yn ddwy. Cafodd gweddill y teithwyr a'r criw eu taflu i'r môr.

Dim ond 21 teithiwr ac 18 aelod o'r criw a ddihangodd. Cafodd o leiaf 452 o bobl eu lladd. Roedd llawer o'r teithwyr wedi bod yn chwilio am aur yn Awstralia, ac wedi ceisio nofio **i'r lan** a'u pocedi'n llawn aur. Roedd gwerth £322,000 o aur ar y llong, ac roedd llawer o bethau gwerthfawr gan y teithwyr dosbarth cyntaf.

Am wythnosau ar ôl y **llongdrylliad**, roedd pobl Moelfre yn **dod o hyd i** gyrff ar y traethau a daeth rhai pobl o hyd i aur. Daeth pobl o bell ac agos i Foelfre i weld safle'r drychineb, gan gynnwys Charles Dickens, y nofelydd enwog.

Yn 2011, aeth pobl o dan y môr i ffilmio **gweddillion** y *Royal Charter*, ac mae pobl wedi dod o hyd i aur yn agos at safle'r llongdrylliad. Mae rhai pobl yn meddwl bod gwerth £1 filiwn o aur ar waelod y môr – **pwyr a wŷyr?**

1. Cytunwch neu anghytunwch â'r brawddegau hyn. Mae'r un gyntaf wedi'i gwneud i chi.

Digwyddodd trychineb ger pentref Moelfre, Ynys Môn ar 25 Hydref 1859.	Do.
Roedd y llong bron â chyrraedd pen ei thaith.
Y <i>Royal Charter</i> oedd enw'r llong.
Roedd y tywydd yn braf ar ddiwrnod y llongdrylliad.
Roedden nhw wedi hwylio o Melbourne.
Dim ond 21 teithiwr a ddihangodd.
Daeth pobl o hyd i aur ar y traethau.
Arthur Conan Doyle oedd enw'r nofelydd enwog a ddaeth i Foelfre.
Mae ffilm ar gael o weddillion y llong o dan y môr.

2. Be ydy...?

i'r lan
dod o hyd i
Pwyr a wŷyr?
pen ei thaith

3. Fedrwch chi feddwl am **dri** gair neu ymadrodd arall sy'n cynnwys **pen**?

.....

.....

.....

4. Meddyliwch am yr ymadroddion: **gweddill y teithwyr, safle'r drychineb a safle'r llongdryliad**. Cyfieithwch y rhain i'r Gymraeg:

the site of the accident

the rest of the sand

the night of the party

the captain of the ship

the people of the valley

5. Ysgrifennwch mewn geiriau:

452

£322,000

2011

Siaradwch



- Oes gynnoch chi gwch neu dach chi'n nabod rhywun sy'n berchen ar gwch?
- Pryd wnaethoch chi deithio ar y môr ddiwetha?
- Dach chi wedi bod ar fordaith fawr?
- Dach chi'n mwynhau bod ar y môr, neu ydy'r môr yn codi ofn arnoch chi?
- Be ydy'ch hoff ddull chi o deithio?

Gwranddo Stori Cantre'r Gwaelod



Mae hon yn stori adnabyddus iawn am y môr.

Cysylltwch y gair â'r diffiniad cywir:

morglawdd	Mae hyn yn digwydd i'r môr bob dydd.
llanw a thrai	parti mawr
esgeulus	rhywbeth dan ni ddim yn ei weld
gwledd	torri
chwalu	ddim yn ofalus
o'r golwg	wal i geisio stopio llifogydd

1. Lle oedd Cantre'r Gwaelod?

Pwy oedd Gwyddno Garan Hir?

Be oedd y broblem efo'r tir?

Be oedd gwaith Seithenyn?

Oedd o'n berson addas i wneud y gwaith?

Be oedd yn digwydd yng Nghastell y Brenin?

Be fedrwch chi ei glywed ar noson dawel?

2. Edrychwch ar y llun yma o storm ym Mae Ceredigion.

Pa dywydd eithafol dach chi'n ei gofio?

Dach chi'n poeni am dywydd eithafol fel hyn?

Dach chi'n poeni bod lefel y môr yn codi?

Ydy llywodraethau'r byd yn gwneud digon?



Llun: Storm Aberystwyth,
Keith Morris



Darllen 2 – Clychau Cantre'r Gwaelod

Mae hon yn gerdd enwog am Gantre'r Gwaelod.

Geirfa:

tlos

ofer

esgeulustod

Clychau Cantre'r Gwaelod

O dan y môr a'i donnau

Mae llawer dinas **dlos**

Fu'n gwrando ar y clychau

Yn canu gyda'r nos;

Trwy **ofer esgeulustod**

Y gwylwr ar y tŵr

Aeth clychau Cantre'r Gwaelod

O'r golwg dan y dŵr.

J.J. Williams

Siaradwch:

- Dach chi'n cofio dysgu cerddi yn yr ysgol? Dach chi'n cofio rhai ohonyn nhw?
- Ydy hi'n bwysig dysgu pethau ar ein cof?
- Dach chi'n darllen cerddi rŵan?



Gwyllo a gwrando - Aberteifi

Mi fyddwch chi'n gwyllo darn o'r rhaglen deledu *Codi Pac* (Boom Cymru, 2017), lle mae Geraint Hardy yn mynd allan ar gwch i weld bywyd gwylt y môr yn ardal Aberteifi.

- Yn y fideo, mi fyddwch chi'n clywed Geraint yn deud:
"Am fore braf!"
"Co fe!"

Am fore braf! (What a fine morning!)

Yn syml iawn, aralleiriwch y brawddegau isod, gan ddechrau â'r gair **am** bob tro:

Mae'n noson braf.

Mae'n noson wyllt.

Mae'n siâp rhyfedd.

Mae'n ogof bert.

Mae'n glogwyn serth.

Mae'n ardal brydferth.....

'Co fe!

Mae'r ymadrodd yma'n ffordd gyffredin iawn o ddweud 'Dacw fo' neu 'Dynafo' yn y De.

Gwylwch y ffilm a gwrandewch am y ddau ymadrodd yma.

- Mi fydd Geraint yn mynd i bedwar lle, ond ym mha drefn? Ysgrifennwch rif wrth ochr yr enwau llefydd:

Cardigan Island ☐☐☐☐☐

Cemaes ☐☐☐☐☐

Gwbert ☐☐☐☐☐

Mwnt ☐☐☐☐☐

3. Nodwch ddau reswm pam fwynheuodd Geraint ei hun yn y cwch:

i.

ii.

4. Gwylwch ran olaf y fideo eto a llenwch y bylchau:

A dyna ni – ar y môr ar ben. 'Yn ni'n

..... nawr. Am fore ! Roedd y dolffiniaid
yna'n rhywbeth y gwna i gofio am byth. Ro'n i'n teimlo fel plentyn bach unwaith
yn..... . Am fore gwych!

5. Efo'ch partner, trafodwch yr ymadroddion isod. Fedrwch chi esbonio eu hystyr (yn Gymraeg)?

hwyl a sbri

yn ôl y sôn

Maen nhw'n dangos eu hunain

ar ben

Idiom



Mae'n bosib mai ystyr **llestri** yn yr idiom yma ydy *vessels*, fel cychod a llongau. Felly, ella bod yr idiom yn sôn am donnau yn mynd dros ben cychod a llongau, nid dŵr yn mynd dros ben platiau a chwpanau!

Dros ben llestri

Uned 7 – Arferion

Nod yr uned hon ydy...

- Defnyddio cynffoneiriau (tydy? toedd? toes? ac ati)
- Siarad am arferion
- Dysgu geirfa ac idiomau newydd

Geirfa

adduned(au) *resolution(s)*

syifaen (sylfeini) *basis (bases)*

baglu *to trip*

brolio *to boast*

canmol *to praise*

cynhyrchu *to produce*

ffidlan *to fiddle*

gwerthfawrogi *to appreciate*

llygru *to contaminate,
to pollute*

pigo *to pick*

**taenu
(menyn, ac ati)** *to spread*

arbenigwr (-wyr) *specialist(s),
expert(s)*

**briwsionyn
(briwsion)** *crumb(s)*

lleiafrif(oedd) *minority
(minorities)*

ôl (olion) *remain(s)*

pechod(au) *sin(s)*

allweddol *key, critical*

bwriadol *deliberate*

gorlawn *llawn iawn, iawn*

penwan *crac iawn*

byth a beunydd *time and again*

dŵad ar draws *to come across*

tân ar groen *a thorn in one's flesh*

... yn fy ngyrru i'n wallgo *... drives me up the wall*

Geiriau pwysig i mi

×

×

×

×

Adolygu atebion a chwestiynau

Edrychwch ar yr atebion a chwblhewch y cwestiynau isod.

- | | |
|---|--------|
| 1. 'na ddigon o le i bawb yn y neuadd? | Oes. |
| 2. 'r Cymry'n mynd i drechu'r Eidalwyr yn y gêm? | Ydyn. |
| 3. ti i'r parti neithiwr? | Do. |
| 4. y morglawdd yn cynhyrchu trydan? | Bydd. |
| 5. ti wedi clywed canlyniad yr etholiad? | Do. |
| 6. llysenwau da gan eich athrawon chi yn yr ysgol? | Oedd. |
| 7. i dynnu sylw at y camgymeriad? | Dylet. |
| 8. ni rywfaint o amser rhydd yn ystod y dydd? | Cewch. |
| 9. awgrymodd hyn? | Ia. |
| 10. 'n well gen ti hedfan yn uniongyrchol? | Basai. |

Yna, trowch bob **cwestiwn** yn frawddeg **gadarnhaol**.

e.e. Mae 'na ddigon o le i bawb yn y neuadd.

Dis siarad




Mewn grwpiau, taflwch ddis a meddylwch am gwestiwn addas a fydd yn rhoi'r ateb sy'n cyfateb i'r rhif ar y dis. Gofynnwch y cwestiwn i'r rhai sydd yn eich grŵp chi a thrafodwch.



Ydw



O'n



Oes



Baswn



Do



Ie

Darllen



Arferion drwg

Mae gynnon ni i gyd ein harferion bach rhyfedd, toes? Ac mae rhai o'n harferion yn ein bywydau bob dydd yn **dân ar groen** y bobol **o'n cwmpas ni**. Mae gen i restr hir o bethau mae aelodau'r teulu yn eu gwneud adref sy'n **fy ngyrru i'n wallgo!**

Y plant

Gawn ni ddechrau efo'r plant? Maen nhw **byth a beunydd** yn bwyta neu'n yfed rhywbeth mewn 'stafelloedd gwahanol o gwmpas y tŷ. A bob dydd, dw i'n **ddwâd ar draws** llestri budr wedi eu gadael yn y 'stafell fyw, neu wrth ochr y cyfrifiadur, yn eu hystafelloedd gwely, neu hyd yn oed yn y 'stafell 'molchi! Dydy hi ddim yn ormod disgwyl iddyn nhw ddod â'u llestri budr yn ôl i'r gegin, nac ydy?

Peth arall y maen nhw'n ei wneud ydy tynnu eu cotiau a'u hesgidiau wrth ddwâd i mewn i'r tŷ a'u gadael yng nghanol llawr y gegin. Dw i'n meddwl weithiau eu bod nhw'n **fwriadol** isio i mi **fraglu** er mwyn gweld dysglaid o lasagne yn hedfan ar draws y gegin, yn enwedig pan fydd bagiau ysgol yn rhan o'r 'cwrs rhwystrau' hefyd! Dydyn nhw ddim yn cael gwersi rheoli risg yn yr ysgol!

Y wraig

A be am y wraig? Ei **phechod** mawr hi ydy defnyddio cyllell i daenu menyn ar dost a defnyddio'r un gyllell i **daenu** jam ar y tost. Wedyn, mae hi'n ei defnyddio hi efo ail ddarn o dost, tydy? Canlyniad hyn ydy bod **olion** menyn yn gymysg yn y pot jam a bod y menyn wedi ei **lygru** â jam a **briwsion** tost – ych a fi!

Roedd hi'n arfer cynnau pob golau yn y tŷ ond efo'r biliau trydan mor uchel, mae hi wedi stopio gwneud hynny, diolch byth.

Fi

A be am fy arferion drwg i? Be dw i'n ei wneud sy'n **dân ar groen** aelodau eraill y teulu? Wel, does dim isio sôn am y pethau hynny rwan, nac oes?

1. Nodwch y cynffoneiriau yn y darn darllen uchod – y *tags* dan ni'n eu hychwanegu at ddiwedd brawddegau weithiau i'w troi nhw'n gwestiynau.
 - i.
 - ii.
 - iii.
 - iv.
2. Mae'r ymadrodd **o'n cwmpas ni** yn y darn. Nodwch sut mae'r ymadrodd hwn yn newid efo personau gwahanol:
 - i. o gwmpas – fi
 - ii. o gwmpas – ti
 - iii. o gwmpas – fo
 - iv. o gwmpas – hi
 - v. o gwmpas – chi
 - vi. o gwmpas – nhw

3. Mae **ar ôl** ac **wrth ochr** yn arddodiaid eraill sy'n 'rhedeg' mewn ffordd debyg. Be ydy *after us* a *near us* yn Gymraeg?

Siaradwch



Pa arferion drwg dach chi'n eu casáu mewn pobol eraill? Mi fedrwch chi ddefnyddio'r ymadroddion canlynol i ddeud eich deud:

- Dw i ddim yn hoffi pan fydd pobol yn...
- Fedra i ddim dioddef pobol yn...
- Mae pobol sy'n ... yn dân ar fy nghroen i.
- Mae'n fy ngyrru i'n wallgo pan fydd rhywun yn...
- Does dim byd gwaeth na rhywun sy'n...
- Mae yn mynd ar fy nerfau i.
- Does dim ots gen i pan fydd pobol yn...

Edrychwch drwy'r rhestr isod o arferion a rhowch sgôr o 0 i 5 i bob un (0 = ddim yn poeni dim arna i, 5 = yn dân ar fy nghroen i) ac wedyn trafodwch eich ymatebion chi.

1. Bwyta â'u ceg ar agor
2. Siarad wrth edrych ar y teledu
3. Ailadrodd eu hunain
4. Cyrraedd yn hwyr
5. Torri ar draws
6. Cusanu yn gyhoeddus
7. Ddim yn ffonio'n ôl
8. Ffidlan ar eu ffôn symudol byth a beunydd
9. Deud rhywbeth fel "Dw i ar y trê'n" wrth siarad ar ffôn symudol
10. Gyrru'n rhy gyflym
11. Siarad wrth fwyta
12. Peidio diffodd eu ffôn yn y theatr/sinema/mewn cyfarfod
13. Siarad efo anifeiliaid fel tasen nhw'n bobol

14. Pigo eu trwyn yn y car
15. Siarad gormod
16. Dangos eu hunain
17. Sefyll wrth ddrws siop yn siarad a rhwystro pawb arall rhag mynd heibio
18. Ysmygu
19. Brolio'n ddi-baid
20. Chwarae cerddoriaeth yn uchel

Pa arferion eraill sy'n dân ar eich croen chi?
Dach chi'n gwneud rhai o'r pethau hyn eich hun?

Cynffoneiriau / tagiau

Dril

Mae hi'n braf heddiw, tydy?

Mae hi'n oer heddiw,

Mae hi'n gweithio'n galed,

Mae hi'n gyflym,

Mae o'n gyflym,

Mae o'n gwybod,

Mae'r llyfr yn dda,

Mae 'na law yn dŵad i mewn trwy'r to,

Mae 'na law ar y ffordd,

Mae gynno fo lais cras,

Mae 'na gyfres newydd yn dechrau heno,

Mae'r rhaglen yn dda,

Mae 'na fywyd ar blaned Mawrth,

Mae o'n hoffi preifatrwydd,

Dydy hi ddim yn mynd ar gais y pennaeth, nac ydy?

Dydy hi ddim yn bwrw,

Dydy hi ddim yn parchu neb,

Dydy hi ddim yn gwybod,

Dydy o ddim yn gwybod,

Dydy o ddim mewn rheolaeth,

Dydy'r bwyd ddim yn dda,

Dydy'r dŵr ddim yn boeth,

Does 'na ddim dŵr poeth,

Does 'na ddim ots,

Does 'na ddim amser,

Dydy hwn ddim yn amser da,

Dydy'r stori ddim ar y dudalen flaen,

Does 'na ddim sicrwydd,

Help llaw



Cynffoneiriau ydy'r geiriau ar ffurf cwestiwn mae pobol yn eu hychwanegu at ddiwedd brawddeg (fel cynffon!) yn aml wrth siarad. Canolbwyntiwch ar ddysgu rhai yn yr amser presennol am y tro.

Mae hi'n braf, **tydy?**

Dydy hi ddim yn dda, **nac ydy?**

Maen nhw'n gwybod, **tydyn?**

Dydyn nhw ddim yn gwybod, **nac ydyn?**

Mae 'na dywydd braf ar y ffordd, **toes?**

Does 'na ddim bwyd yn y parti, **nac oes?**

Dyma rai enghreifftiau eraill:

Mi est ti i'r gwely'n hwyr neithiwr, **on'd do?** Ddudest ti ddim byd, **naddo?**

Roedd y gêm yn dda, **toedd?** Doedd o ddim yn dda, **nac oedd?**

Mi fydd hi'n bwrw glaw fory, **on' bydd?** Fydd hi ddim yn hwyr, **na fydd?**

Mi fasai fo'n medru gwneud y gwaith, **on' basai?** Fasai fo ddim yn helpu, **na fasai?**

Byddwch yn ofalus efo'r cynffonair ar ôl **pwyslais**:

Siôn wyt ti, **ynte?**

Nid Siôn wyt ti, **naci?**

Mi fyddwch chi hefyd yn clywed ffurfiau eraill, e.e. yn y de-orllewin mi fyddwch chi'n clywed **nag** yn lle **on'd** – Mae hi'n braf, nag yw hi? Ac yn y gogledd, mi fyddwch chi'n clywed **yn** – Aeth hi i Ffrainc, yn do?

Ymarfer



Dyma nifer o ddriliau i chi gael ymarfer. Ymaferion llafar ydyn nhw. Ychwanegwch y cynffoneiriau.

Mi chwaraeon nhw'n dda,

?

Mi siaradon nhw'n dda,

?

Mi siaradodd o'n dda,

?

Mi ganodd o'n dda,

?

Mi ganoch chi'n dda,

?

Phrynest ti ddim byd,

?

Phrynodd o ddim byd,

?

Ddudodd o ddim byd,

?

Ddudon nhw ddim byd,

?

Ddudoch chi ddim byd,

?

Roedd y ffilm yn dda,

?

Roedd y ffilmiau'n dda,

?

Roedd y plant yn dda,

?

Roedd o'n dda,

?

Roeddet ti'n dda,

?

Doedd y llyfr ddim yn dda,?
Doedd y llyfrau ddim yn dda,?
Doedd y plant ddim yn dda,?
Doedd o ddim yn dda,?
Doeddet ti ddim yn dda,?
Mi fydd hi'n pasio'r prawf,?
Mi fydd o'n pasio'r prawf,?
Mi fyddan nhw'n pasio'r prawf,?
Mi fydd y plant yn pasio'r prawf,?
Mi fydda i'n pasio'r prawf,?
Fydd hi ddim yn y briodas,?
Fydd o ddim yn y briodas,?
Fyddan nhw ddim yn y briodas,?
Fyddi di ddim yn y briodas,?
Fyddwch chi ddim yn y briodas,?
Mi fasai fo'n addas,?
Mi fasai hi'n addas,?
Mi fasen nhw'n addas,?
Mi faswn i'n addas,?
Mi fasen ni'n addas,?
Fasai fo ddim yn chwarae,?
Fasai hi ddim yn chwarae,?
Fasai'r plant drws nesa ddim yn chwarae,?
Faset ti ddim yn chwarae,?
Fasech chi ddim yn chwarae,?
Sam wyt ti,?
Ti ydy'r hyna,?
Yng Nghaernarfon rwyd ti'n byw,?
Nid Sam wyt ti,?
Nid ti ydy'r hyna,?
Nid yng Nghaernarfon rwyd ti'n byw,?

Ychwanegwch gynffoneiriau at y brawddegau hyn:

1. Wnaeth hynny ddim drwg,?
2. Roedd hi'n gêm dda,?
3. Dafydd Huws oedd seren y gêm,?
4. Mae gen ti gar mawr,?
5. Mae'r car gen ti heddiw,?
6. Does 'na ddim byd yma at dy ddant di,?
7. Mi ddylai hi longyfarch y pennaeth,?
8. Mi fyddi di'n ei gweld hi heno,?
9. Dydyn nhw ddim yn gweithio heddiw,?
10. Mi fasai fo'n flin iawn tasai fo'n gwybod,?



Gwyllo a gwrando

Mi fyddwch chi'n gwyllo darn o raglen *Heno* lle bydd Alun a Mari ar y sofa yn y stiwdio yn cyflwyno Yvonne, sy'n siarad ag Anna Reich yn ei champfa yng Nghaerdydd.

1. Mae'r geiriau/ymadroddion ar y chwith yn dŵad o'r clip. Cysylltwch bob un â'r ymadrodd ar y dde sy'n esbonio'r ystyr orau.

yn orlawn	deud "da iawn" wrth rywun
gwneud adduned	dangos eich bod chi'n gwerthfawrogi ymdrech rhywun
ar ôl yr holl fwyta	ddylech chi ddim disgwyl i bethau wella'n syth
canmol	gormod o bobol yno
peidio bod yn rhy lym	dangos eich bod chi'n barod i ddechrau rhywbeth
rhaid bod yn amyneddgar	penderfynu newid rhywbeth yn eich bywyd chi
chwarae teg iddyn nhw	wedi cael llawer iawn o fwyd
yn barod amdani	peidio â bod yn rhy galed

2. Rhowch ✓ yn y blwch priodol bob tro y byddwch chi'n clywed un o'r siaradwyr yn deud y geiriau neu'r ymadroddion sydd yn y tabl isod.

	Mari	Alun	Yvonne	Anna
<i>gym(s)/campfa</i>				
cadw'n heini				
adduned(au)				
allweddol				
bod yn realistig				
ychydig bach mwy				

3. Trafodwch y cwestiynau canlynol – mae'r atebion yn y clip fideo:

i. Pwy sydd mewn **lleiafrif** (*minority*) bach iawn, a pham?

.....

ii. Ym mha fis mae pobol yn gwneud fwy o ymarfer corff – ym mis Rhagfyr, ym mis Ionawr, ym mis Chwefror neu ym mis Mawrth?

.....

iii. Ym mha un o'r misoedd hyn **ddylai** pobol wneud fwy o ymarfer corff?

.....

Siaradwch



- Dach chi'n gwneud addunedau blwyddyn newydd fel arfer?
- Pa fath o addunedau ydyn nhw?
- Dach chi'n dda am gadw at eich addunedau chi?
- Dach chi'n cofio unrhyw adduned arbennig o'r gorffennol?
- Dach chi'n gwneud unrhyw beth yn rheolaidd i gadw'n heini neu'n iach?
- Dach chi wedi rhoi cynnig ar ryw ffordd newydd o gadw'n heini neu wedi meddwl dechrau gwneud hynny?
- Dach chi'n bwyta deiet cytbwys?

Idiom



Tân ar groen

Uned 8 – Arwyr

Nod yr uned hon ydy...

- Adolygu'r goddefol, e.e. mi gaeth o ei adeiladu
- Siarad am arwyr ddoe a heddiw
- Dysgu geirfa ac idiomau newydd

Geirfa

brwydr(au)	<i>battle(s)</i>
derwen (deri)	<i>oak tree(s)</i>
hawl(iau)	<i>right(s), entitlement(s)</i>
ymgyrch(oedd)	<i>campaign(s)</i>

aberthu	<i>to sacrifice</i>
anrhydeddu	<i>to honour</i>
beirniadu	<i>to criticise; to adjudicate</i>
cosbi	<i>to punish</i>
claddu	<i>to bury</i>
crogi	<i>to hang</i>
dadorchuddio	<i>to uncover, to unveil</i>
dylanwadu (ar)	<i>to influence</i>
edmygu	<i>to admire</i>

beili (beiliaid)	<i>bailliff(s)</i>
diffoddwr (-wyr) tân	<i>firefighter(s)</i>
gelyn(ion)	<i>enemy (enemies)</i>
statws	<i>status</i>
synnwyr (synhwyr)	<i>sense(s)</i>
ymgyrchydd (ymgyrchwyr)	<i>campaigner(s)</i>
ynad(on)	<i>magistrate(s)</i>

amrywiol	<i>varied; various</i>
cyson	<i>consistent; regular</i>
dylanwadol	<i>influential</i>
dyledus	<i>due; in debt</i>

mynd â'r maen i'r wal	<i>to follow something through to a successful conclusion</i>
wastad	<i>always</i>

Geiriau pwysig i mi

×

×

×

×

Adolygu cynffoneiriau

Rhowch y cynffoneiriau cywir yn y ddeialog hon. Yna, darllenwch y ddeialog efo'ch partner.

A: Ti wnaeth hyn, ? Gobeithio bod gen ti gywilydd.

B: Gwneud be?

A: Bwyta'r pwdin siocled! Roedd o i fod i swper heno,!

B: Be sy mor bwysig am swper heno?

A: Rwyt ti wedi anghofio, ? Mae Mam yn dŵad i gael swper efo ni, ?

B: O. Wel, pam wyt ti mor siŵr mai fi fwytodd o? Mae gan y peintiwr ddant melys, Mae o wedi bod yn gweithio yma drwy'r dydd.

A: Dw i ddim isio ffraeo efo ti. Dos i edrych yn y drych. Wyt ti'n gweld? Mae gen ti saws siocled o gwmpas dy geg i gyd,?

B: Oes. Rwyt ti'n iawn. Fi wnaeth. Dwyt ti byth yn anghywir,?

Y goddefol (e.e. mi ges i fy ngeni)

Dach chi'n cofio?

Mae'r tŷ yn cael ei addurno.

Mi gaeth y plant eu hyfforddi.

Mi fydd yr ysgol yn cael ei thacluso.

Mi gawn ni ein dysgu.

Dril

Mae gynno fo ddigon o bres.

Mi gaeth o ei dalu ddoe.

Mae o yn swyddfa'r heddlu.

Mae o yn y carchar.

Mae 'na blastar ar ei goes o.

Dydy'r llythyr ddim wedi cyrraedd.

Dydy o ddim isio mynd i'r ysgol heddiw.

Mae 'na lyfr newydd gan Sam Jones.

Does gynno fo ddim gwaith.

Mae 'na gerflun newydd ar Sgwâr y Dref.

Mae'r siwt ugain punt yn rhatach heddiw.

Ymarfer y goddefol



Ysgrifennwch y manylion (*details*) mewn brawddegau llawn.

Enw: Saunders Lewis
Geni: 1893
Magu: Wallasey
Carcharu: am dri mis
Claddu: Penarth

Mi gaeth Saunders Lewis ei eni yn...

Enw: Betty Campbell
Geni: 1934
Magu: Tre-biwt, Caerdydd
Dysgu: Ysgol Hawardian
Cyflogi: Ysgol Gynradd
 Mount Stuart

Enw: Dic Penderyn
Geni: 1808
Magu: Aberafan
Crogi: 1831
Claddu: Aberafan

Enw: Gwenllian ferch
 Gruffydd
Geni: 1097
Magu: Aberffraw
Lladd: 1136

Mi fyddwch chi'n gwneud **pum brawddeg** efo'ch partner yn defnyddio'r **goddefol**. Nodwch nhw fan hyn.

1.

.....

2.

.....

3.

.....

4.

.....

5.

.....

Mi fydd eich tiwtor yn arddweud Bwletin Newyddion. Ysgrifennwch y tair stori yma.

Stori 1

.....

.....

.....

.....

.....

Stori 2

.....

.....

.....

.....

.....

Stori 3

.....

.....

.....

.....

.....

Ysgrifennwch **dair brawddeg** am bob stori yn defnyddio'r berfenwau yn y **goddefol**.

Stori 1

Llosgi

Achub

Anafu

Stori 2

Achub

Galw

Rhybuddio

Stori 3

Curo

Cosbi

Beirniadu

Help llaw – Y goddefol



Dan ni'n defnyddio'r goddefol (*passive*) i siarad am bethau sy'n cael eu gwneud i ni. Mi fyddwch chi'n clywed y goddefol ar y newyddion, er enghraifft:

Cawson nhw eu hanafu. Cafodd dyn ei ladd yn y ddamwain.

Cofiwch am y treigladau hyn wrth ddefnyddio'r goddefol:

Rhagenw + treigladau	gweld	cosbi	anafu
fy trwynol	Ces i fy ngweld / Mi ges i fy ngweld	Ces i fy nghosbi / Mi ges i fy nghosbi	Ces i fy anafu / Mi ges i fy anafu
dy meddal	Cest ti dy weld / Mi gest ti dy weld	Cest ti dy gosbi / Mi gest ti dy gosbi	Cest ti dy anafu / Mi gest ti dy anafu
ei (gwr) meddal	Cafodd o ei weld / Mi gaeth o ei weld	Cafodd o ei gosbi / Mi gaeth o ei gosbi	Cafodd o ei anafu / Mi gaeth o ei anafu
ei (ben) llaes a h o flaen llafariad	Cafodd hi ei gweld / Mi gaeth hi ei gweld	Cafodd hi ei chosbi / Mi gaeth hi ei chosbi	Cafodd hi ei hanafu / Mi gaeth hi ei hanafu
ein dim treigladau ond h o flaen llafariad	Cawson ni ein gweld / Mi gaethon ni ein gweld	Cawson ni ein cosbi / Mi gaethon ni ein cosbi	Cawson ni ein hanafu / Mi gaethon ni ein hanafu
eich dim treigladau	Cawsoch chi eich gweld / Mi gaethoch chi eich gweld	Cawsoch chi eich cosbi / Mi gaethoch chi eich cosbi	Cawsoch chi eich anafu / Mi gaethoch chi eich anafu
eu dim treigladau ond h o flaen llafariad	Cawson nhw eu gweld / Mi gaethon nhw eu gweld	Cawson nhw eu cosbi / Mi gaethon nhw eu cosbi	Cawson nhw eu hanafu / Mi gaethon nhw eu hanafu

Mae **person** y ferf a'r **rhagenw'n** cytuno:

Mi ges **i fy** ngeni. Mi gaeth **o ei** eni. Mi gaeth **y plant eu** geni.

Mae'r goddefol yn cael ei ddefnyddio mewn **amserau eraill** hefyd, wrth gwrs:

Mae'r tŷ'n cael ei adeiladu rŵan. Mi fydd y gweithwyr yn cael eu talu fory.
Roedd y plant yn cael eu dysgu. Mi fasai'r siop yn cael ei chau.

Cofiwch, rhaid i chi wybod be ydy **enedl yr enw** (*gender of the noun*) er mwyn **treiglo'n gywir**.

Mae'r ardd yn cael ei **th**acluso. (gardd = benywaidd)
Mae'r adeilad yn cael ei **d**acluso. (adeilad = gwrywaidd)

Siaradwch - Arwyr



Wn i ddim beth yw'ch barn chi, ond weithiau rwy'n teimlo bod rhai geiriau yn cael eu defnyddio'n llawer rhy rwydd. Un gair sy'n cael ei glywed yn gyson yw 'arwr'. Er enghraifft, 'arwr pêl-droed', 'arwr pop', 'arwr y sgrin fach neu fawr' ... ond beth sy'n gwneud arwr mewn gwirionedd?

Ioan Wyn Evans, Rhagair *Dianc i Ryddid* (Gwasg Gomer, 2015)

- Dach chi'n cytuno?
- Pwy ydy eich arwyr chi?
- Pwy dach chi'n ei edmygu?
- Pwy sy wedi eich helpu chi neu wedi dylanwadu arnoch chi?

Gwyllo a gwrando - Eileen Beasley



A. Yn gyntaf, mi fyddwch chi'n gwrando ar adroddiad newyddion am Eileen Beasley.

1. Mi fyddwch chi'n clywed y geiriau newydd yma yn yr adroddiad newyddion:

ymgyrchwyr statws ymgyrch ynadon

Dach chi'n medru cynnwys y pedwar gair mewn dwy frawddeg?

.....

.....

2. Edrychwch ar y rhifau hyn. Be ydy arwyddocâd (*significance*) y rhifau?

91

1952

12

2

1960

3. Meddyliwch am y geiriau **ymgyrchwyr**, **ymgyrch** ac **ymgyrchu**. Efo'ch partner, llenwch y bylchau yn y tabl:

ymgyrch	ymgyrchu	ymgyrchwyr
adeilad		
		cystadleuwyr
gwaith		

B. Rŵan mi fyddwch chi'n gwylio cyfweiliad o'r rhaglen *Heno* sy'n adrodd hanes Eileen a Trefor Beasley, ac yn cynnwys cyfweiliad efo Mrs Beasley.

1. Edrychwch ar y brawddegau yma sy'n dŵad o'r darn. Mae 'na bedwar gair newydd yn y brawddegau.

Does dim **synnwyr** yn hyn.

O hynny ymlaen dechreuodd **y frwydr**.

Rwy'n cofio 1959 yn arbennig. Y tro hwnnw fe glirion nhw'r parlwr o'r carped a'r piano **a'r cwpwrdd llyfrau deri**, drych.

2. Ar ôl gwylio'r darn, nodwch o leiaf **dri pheth** dach chi wedi eu dysgu am frwydr Eileen a Trefor Beasley.

3. Be ydy lluosog y geiriau hyn?

gŵr

ffŵl

swyddog

anrheg

Siaradwch



- Oeddech chi wedi clywed am Eileen a Trefor Beasley cyn gwyllo'r fideo? Dach chi'n meddwl bod siaradwyr Cymraeg heddiw yn ddyledus iddyn nhw?
- Fasech chi'n protestio am unrhyw beth?
- Dach chi'n medru meddwl am bobol sy wedi llwyddo i fynd â'r maen i'r wal wrth brotestio?
- Dach chi'n derbyn biliau yn Gymraeg?
- Dach chi'n gofyn am unrhyw wasanaeth yn Gymraeg?

Mae'r gân yn y cefndir yn deud '**Daw, fe ddaw yr awr yn ôl i mi**'.
Pa ddigwyddiadau pwysig dach chi'n eu cofio?

Darllen



Arwres – Y Farwnes Tanni Grey-Thompson

Efo'ch partner, dewiswch y geiriau cywir i lenwi'r bylchau yn y darn gan dreiglo os oes angen. Mi fydd angen defnyddio rhai berfau ddwywaith.

galw anrhydeddu geni penodi magu cyflwyno

Cafodd Tanni Grey-Thompson ei yn 1969. Cafodd ei yng Nghaerdydd. Ei henw ydy Carys Davina Grey-Thompson ond cafodd ei yn Tanni gan ei chwaer. Graddiodd hi o Brifysgol Loughborough yn 1991.

Cafodd hi ei â spina bifida, ac mae hi'n defnyddio cadair olwyn. Hi ydy un o athletwyr anabl mwyaf llwyddiannus Prydain.

Mae hi wedi derbyn MBE, OBE a DBE gan y Frenhines. Cafodd hi ei gan Orsedd y Beirdd yn Eisteddfod Genedlaethol y Bala, 2009.

Enillodd Tanni Grey-Thompson y gystadleuaeth Cariad@iaith ar y teledu yn 2005 ac mae hi bob amser yn barod i gefnogi'r Gymraeg.

Cafodd hi ei yn gapten tîm Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad, 2006.

Ers iddi hi ymddeol o fyd athletau yn 2007, mae hi wedi ymladd dros hawliau pobl anabl a chwaraeon i ferched, ac wedi helpu llawer o elusennau. Mae hi wedi cael ei gan lawer o Brifysgolion. Yn 2010, cafodd hi ei i Dŷ'r Arglwyddi. Ei theitl yw 'Y Farwnes Tanni Grey-Thompson o Eaglescliff, Swydd Durham'. Mae hi'n byw yn Swydd Durham efo Ian Thompson, ei gŵr, a Carys Olivia, eu merch.

Siaradwch

”




Y Fonesig Tanni Grey Thompson,
Celf Stryd yn Shoreditch
gan Duncan C. CC BY-NC 2.0.

Pobol ddylanwadol

Meddyliwch am bobol sy wedi bod yn ddylanwadol. Trafodwch a chytunwch ar **dri** enw ar gyfer pob categori. Rhaid i chi ddeud pam dach chi wedi dewis y bobol yma.

Cymru	Y Deyrnas Unedig	Y byd

Idiom



Mynd â'r maen i'r wal

Uned 9 – Trefnu Digwyddiad

Nod yr uned hon ydy...

- Adolygu cyffredinol
- Trefnu digwyddiad codi pres
- Dysgu geirfa ac idiomau newydd

Geirfa

bendith(ion) *blowing(s)*

cronfa (-feydd) *fund(s);
reservoir(s)*

ymwybyddiaeth *awareness*

awyrgylch *atmosphere*

cyfraniad(au) *contribution(s)*

cyhoeddusrwydd *publicity*

becso *poeni (de Cymru)*

meithrin *to nurture, to
cultivate*

pennu *to set
(e.e. dyddiad)*

ymgasglu *to gather
together*

agoriadol *opening*

poblog *populated*

cynulleidfa darged *target audience*

ei siapio hi *to hasten, to get on with it*

er mwyn *in order to; for the sake of*

hen bryd *high time*

mewn dim o dro *in no time at all*

y cyfryngau cymdeithasol *social media*

Geiriau pwysig i mi

×

×

×

×

Adolygu

A. Y Cymal Enwol (defnyddio **bod**)

Sgwennwch yr ail hanner:

Mi fues i yn Nhŷ Bwyta'r Hen Sgubor bythefnos yn ôl...	
Dw i'n mynd i'r Llew Coch bob nos Wener...	
Mae Dafydd yn hoffi mynd i'r Taj Mahal...	
Mi aeth Mair i'r Mochyn Pinc dydd Sadwrn...	
Dw i ddim wedi bod yn y Rendezvous eto...	
Mi aeth Dai ac Alun allan i Dafarn y Fwch nos Sadwrn...	
Os nad wyt ti wedi cael te prynhawn yng Nghaffi Penbryn eto...	
Maen nhw'n troi'r hen orsaf dân yn dŷ bwyta moethus...	

B. Cynffoneiriau

Gweithiwch efo'ch partner i roi brawddegau cyn y cynffoneiriau.

1. , tydy?
2. , toes?
3. , toedd?
4. , on' byddan nhw?
5. , on' baswn i?
6. , ynte?
7. , on'd do?
8. , naci?
9. , nac wyt?
10. , na fasen?
11. , nac fyddwch?
12. , nac oes?
13. , nac o'n?

C. Y goddefol

Gorffennwch y brawddegau.

1. Mae'r gronfa'n cael
2. Mi fydd y dyledion yn cael
3. Mi gaeth yr ymgeisydd

Adolygu - Geirfa

Defnyddiwch yr ymadroddion yma i aralleirio'r brawddegau isod:

**cael gwared ar
bron â marw
llond llaw**

**magu hyder
heblaw am
tynnu sylw**

**testun trafod
o'r golwg**

**yr oriau mân
siarad lol**

1. Mi sefes i yno, yn codi fy llaw i ffarwelio wrth i'r bws ddiflannu yn y pellter.
Mi sefes i yno, yn codi fy llaw i ffarwelio wrth i'r bws fynd
2. Doedd be roedd hi'n ei ddeud ddim yn gwneud synnwyr o gwbl.
Roedd hi'n
3. Dw i isio i chi edrych ar waith corfforol arbennig Dafydd Morris yn y ryciau.
Dw i isio at waith corfforol arbennig Dafydd Morris yn y ryciau.
4. Dw i'n gwybod fod ti'n rhwystredig rwan ond mi fyddi di'n dŵad yn fwy hyderus wrth i ti ymarfer mwy.
Dw i'n gwybod fod ti'n rhwystredig rwan ond mi fyddi di'n
5. Mi aeth o allan yn gynnar iawn yn y bore.
Mi aeth o allan yn
6. Mi roiodd Siân ei llaw yn y twb a mynd â chymaint o dda-da ag roedd hi'n medru cydio ynddyn nhw.
Mi aeth Siân â o dda-da o'r twb.
7. Doedd o ddim yn medru aros i ddeud y newyddion da wrthoch chi.
Roedd o isio deud y newyddion da wrthoch chi.
8. Mae'r malwod yn dal yn yr ardd eleni, dim ots be dw i'n ei wneud.
Dw i'n methu y malwod o'r ardd eleni.
9. Dim ond Alun oedd ddim wedi cael pwddin toffi.
Mi gaeth pawb bwdin toffi Alun.
10. Roedd pawb yn y ffatri'n siarad am ymweliad y Prif Weinidog.
Ymweliad y Prif Weinidog oedd y yn y ffatri.



Darllen

Darllenwch eich darn chi ac atebwch y cwestiynau yn y tabl isod am eich darn chi'n unig.

Darn 1: Diwrnod Plant Mewn Angen – Ysgol Uwchradd Llanaber

Mae staff a disgyblion Ysgol Uwchradd Llanaber bob amser wrth eu boddau'n casglu arian at achosion da. Cafwyd llawer o hwyl yn casglu arian at Ddiwrnod Plant Mewn Angen a chafodd dros £900 ei gasglu. Roedd y chweched dosbarth yn brysur iawn yn trefnu gweithgareddau ac yn casglu arian drwy'r dydd. Roedd hi'n ddiwrnod heb wisg ysgol ac mi fuodd llawer o ddisgyblion yn coginio cacennau blasus i'w gwerthu amser egwyl.



Cafodd y cacennau i gyd eu gwerthu mewn dim o dro. Mae'r ysgol yn credu'n gryf mewn meithrin talent, felly trefnodd y chweched dosbarth gystadleuaeth 'Just Dance' rhwng yr athrawon yn y neuadd amser cinio. Diolch i Miss Morgan, Miss Roberts, Miss Davies, Mr Smith, Mr Jones a Mr Humphreys am gymryd rhan ac i'r chweched dosbarth am drefnu'r holl ddigwyddiadau. Mae Miss Morgan yn gystadleuol iawn!

Darn 2: Bore Coffi Mwya'r Byd – Dysgu Cymraeg Gwent



Cynhaliwyd Bore Coffi arbennig yng Nglyn Ebwy ar y 27ain o Fedi rhwng 9.30-12.30 **er mwyn** codi **ymwybyddiaeth** ac arian i Ofal Canser Macmillan. Dyma hanes y dydd gan Sarah Meek:

"Gan ein bod ni'n rhedeg Bore Coffi Cymraeg bob bore dydd Gwener yng Nglyn Ebwy, penderfynon ni fod yn rhan o 'Fore Coffi Mwya'r Byd' sy'n cael ei drefnu gan Macmillan.

"Roedd llawer o bobl, gan gynnwys ein dysgwyr ni, yn brysur iawn cyn y digwyddiad i wneud yn siŵr fod digon o deisennau hyfryd ar gael i bawb, yn union fel 'The Great Welsh Bake Off'! Roedd te a choffi ar gael hefyd. Roedd yr ymateb yn wych – daeth llawer o ddysgwyr a phobl eraill i'r sesiwn i'n cefnogi ni. Roedd pawb yn **hael** iawn, rhaid i mi ddweud!

"Yn ogystal â gwerthu teisennau, gaethon ni raffl gyda llawer o wobrau hyfryd – diolch yn fawr iawn i'r cwmnïau lleol a wnaeth **gyfrannu** gwobrau!

"Mwynheuodd pawb y sesiwn yn fawr iawn a 'dyn ni mor falch ein bod ni wedi helpu achos mor dda ac ymarfer ein Cymraeg ar yr un pryd! Felly, diolch o galon i bawb a oedd yn rhan o'r peth, ond yn bennaf ein dysgwyr ni". Byddwch chi'n falch o glywed ein bod ni wedi codi cyfanswm o £307.81 i Macmillan! Newyddion ffantastig!"

Darn 3: Beicio o Baris i'r Bont



Ym mis Awst, mi fuodd tri o aelodau Côr y Cwm ar daith seiclo o Baris i Bontafon er mwyn codi arian at y cynlluniau i adnewyddu Neuadd y Pentref. Gadawodd Alun Morris, Mai Jones a Geraint Lewis o gysgod Tŵr Eiffel fore dydd Sul yr 20fed ac roedd tyrfa fawr o bobl y pentref

wedi **ymgasglu** ar sgwâr Pontafon i'w croesawu 'nôl am dri o'r gloch ddydd Sadwrn y 26ain. Roedd y tri wedi blino'n lân ar ôl eu taith, ond yn falch iawn o'u hymdrech.

Yn ôl Geraint, "Mae fy nghoesau i fel jeli ac mae fy mhen-ôl i'n boenus iawn – mi geith y beic aros yn y garej am dipyn rŵan! Ond dan ni'n falch iawn ein bod ni wedi llwyddo i godi dros fil o bunnau, diolch i bawb am y cyfraniadau hael."

Cynhaliodd y côr gyngerdd yn y Neuadd ar y nos Sadwrn hefyd, ac **er gwaetha'r** blinder, roedd Alun, Mai a Geraint yno'n canu efo nhw ac yn mwynhau'r cymdeithasu wedyn tan yr **oriau mân!** Roedd pawb ar eu traed ar ddiwedd y cyngerdd i roi cymeradwyaeth i'r tri ohonyn nhw. Cafodd cyfanswm o £750 ei ychwanegu at y **gronfa** drwy werthu tocynnau a thocynnau raffl ar y noson.

1. Atebwch y cwestiynau ar gyfer y darn darllen y mae'r tiwtor wedi ei roi i chi yn y tabl isod. Wedyn holwch aelodau o'r ddau grŵp arall i gael yr atebion am eu darnau darllen nhw.

	Darn 1	Darn 2	Darn 3
At ba achos roedd pres yn cael ei godi?			
Sut gaeth y pres ei godi?			
Pryd gaeth y digwyddiad codi pres ei gynnal?			
Pwy oedd yn cymryd rhan yn y digwyddiad? Be oedd eu rôl nhw?			
Faint o bres gaeth ei godi?			

2. Trafodwch: Pa weithgaredd fasech chi fwya tebygol o gymryd rhan ynddo fo?
3. Mae'r ymadrodd **er mwyn** mewn dau o'r darnau darllen. Yr ystyr yma ydy *in order to* – felly **er mwyn codi arian** = *(in order) to raise money*. Gorffennwch y brawddegau isod er mwyn esbonio pam gwnaethoch chi'r pethau hyn:
- Mi es i i'r farchnad er mwyn
 - Mi dynnes i bres allan er mwyn
 - Mi brynes i bapur newydd er mwyn
 - Mi ffonies i fo er mwyn
4. Mae **er mwyn** yn medru golygu *for the sake of* neu *for the benefit of* hefyd, e.e. mi wnes i hynny **er dy fwyn di**. Dangoswch sut mae'r ymadrodd hwn yn newid efo personau gwahanol:
- er mwyn – fi
 - er mwyn – ti
 - er mwyn – fo
 - er mwyn – hi
 - er mwyn – ni
 - er mwyn – chi
 - er mwyn – nhw

Siaradwch



Meddyliwch am ddigwyddiad codi pres dach chi wedi bod ynddo fo. Trafodwch:

- Be oedd y digwyddiad?
- Lle a phryd gaeth o ei gynnal?
- At be roedd pres yn cael ei godi?
- Pwy oedd yno? Faint o bobol?
- Dach chi'n gwybod faint o bres gaeth ei godi?

Deialog

- Siân:** S'mae, Dai? Bechod dy fod ti ddim yn y dosbarth ddoe. Dan ni wedi penderfynu trefnu ffair haf yn y Ganolfan.
- Dai:** Syniad da! Dach chi wedi pennu dyddiad?
- Siân:** Do. Tair wythnos i fory – ar y pumed ar hugain.
- Dai:** Mi fydd rhaid i ni **ei siapio hi**, 'ta – gwell i mi fwcio'r Ganolfan rŵan.
- Siân:** Popeth yn iawn – mi wnes i hynny ddoe, yn syth ar ôl y dosbarth.
- Dai:** O, iawn. Gwell i mi wneud poster, 'ta.
- Siân:** Paid â phoeni, mae Petra'n gwneud hynny.
- Dai:** Ocê. Mi wna i rywbeth i'w roi ar Facebook, 'ta.
- Siân:** 'Sdim angen i ti, mae Ashok yn mynd i wneud hynny heddiw.
- Dai:** Iawn. Be am i mi gysylltu â Radio Cymru, 'ta?
- Siân:** Na, mae Alys am wneud hynny.
- Dai:** O, dyna ni. Does 'na ddim byd ar ôl i mi ei wneud, 'ta!
- Siân:** O oes, Dai! I'r gwrthwyneb. Mi benderfynon ni mai ti fydd yn cael torri'r rhuban i agor y ffair!
- Dai:** Wel, am anrhydedd. Dw i'n teimlo'n reit emosiynol.



Gwyllo a gwrando – *Priodas Pum Mil*

Ar y rhaglen deledu *Priodas Pum Mil*, mae'r cyflwynwyr, Trystan ac Emma, yn gorfod trefnu priodas am £5,000. Yn ystod haf 2020, yng nghanol y pandemig byd-eang, cynhaliwyd bendith briodas yn fyw ar draeth bendigedig Trefor yng ngogledd-orllewin Cymru.

1. Gwylwch y ffilm heb unrhyw sain ac ysgrifennwch rai o'r pethau dach chi'n eu gweld yn y blwch isod:

2. Mi fyddwch chi'n clywed Trystan ac Emma'n deud:

Trystan: "Mae'r £5,000 wedi mynd yn bell tu hwnt."

Emma: "Mae'n deud y cyfan."

Trystan: "neb llai na Dafydd Iwan"

Trystan: "Dan ni ddim isio dim gwell."

Trystan: "Basai ambell un yn dadlau..."

Trystan: "Dewch i ni ddod i nabod Siân a Stuart ryw fymryn yn well."

Gwylwch y ffilm heb unrhyw dasg heblaw am wrando am y brawddegau yma. Mi fydd y geiriau'n dŵad ar y sgrin.

3. Gwylwch eto a llenwch y tabl. Be mae Trystan ac Emma wedi gorfod ei drefnu ar gyfer y briodas?

Be?	Un ffaith

4. Atebwch y cwestiynau:

i. Be sy'n wahanol am briodas Siân a Stuart?

ii. Sut mae Siân a Stuart yn ymateb i weld Dafydd Iwan?

iii. Sut gaeth Siân a Stuart eu dewis fel y cwpl i briodi ar y traeth?

5. Siaradwch


- Siaradwch am y tro diwetha buoch chi mewn priodas.
- Dach chi erioed wedi bod mewn priodas ar draeth?
- Tasech chi'n cael parti o ryw fath yn lle priodi ar draeth, pa fwyd fasech chi'n ei ddewis?
- Be dach chi'n ei wybod am Dafydd Iwan a Band Pres Llaireggub?

Siaradwch - Trefnu digwyddiad codi pres



- Pa fath o ddigwyddiad dach chi isio ei drefnu?
- At ba achos dach chi isio codi pres?
- Penderfynwch ar ddyddiad, lleoliad a phris(iau).
- Pwy ydy'ch **cynulleidfa darged** chi? Sut fyddwch chi'n rhoi gwybod i bobol?
- Pwy fydd yn gwneud be?
- Trefnwch y **cyhoeddusrwydd** – rhannwch y gwaith o drefnu cyhoeddusrwydd (e.e. poster, taflen, hysbys ar gyfer gwefan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, y **cyfryngau cymdeithasol**, papur bro, cyhoeddiad ar gyfer y radio/teledu).

Idiom



Oriau mân y bore

Uned 10 – Cymuned

Nod yr uned hon ydy...

- Ymarfer cymharu ansoddeiriau
- Siarad am eich cymuned chi a chymunedau eraill
- Dysgu geirfa ac idiomau newydd

Geirfa

blaenoriaeth(au) *priority (priorities)*

hiliaeth *racism*

addoldy (addoldai) *place(s) of worship*

annibendod *mess*

mentergarwch *entrepreneurship*

pardwn (pardynau) *pardon(s)*

terfysg(oedd) *riot(s)*

adlewyrchu *to reflect*

allforio *to export*

cyd-fyw â *to cohabit with*

gwirfoddoli *to volunteer*

hyrwyddo *to promote*

llofruddio *to murder*

penlinio *to kneel*

trosglwyddo *to transmit, to transfer*

cydweithredol *co-operative*

chwyldroadol *revolutionary*

distaw *tawel*

hiliol *racist*

marwaidd *lifeless; listless*

ar gam *wrongfully, unjustly*

cynifer (â) *as many (as); so many*

ddim yn fêl i gyd *not all good, not a bed of roses*

fawr o neb *hardly anyone*

galw mawr *great demand*

pedwar ban y byd *four corners of the earth*

pwysedd gwaed *blood pressure*

yn ei anterth *in its prime*

Geiriau pwysig i mi

×

×

×

×

Siaradwch Be sy'n digwydd yn y llun yma?



Llun: Cymuned, Keith Morris

Cymharu ansoddeiriau – y radd gyfartal (mor oer â)

Gwnewch y dril yma efo'ch partner, yna llenwch y bylchau isod.

Roedd ffair yr ysgol yn brysur.

Doedd hi ddim mor brysur â hynny.

Roedd ffair yr ysgol yn wag.

Roedd ffair yr ysgol yn ddistaw.

Roedd ffair yr ysgol yn llawn.

Roedd ffair yr ysgol yn llwyddiannus.

diog

Mae'r bachgen 'i dad.

creadigol

Dydy hi ddim chwaer.

gwyddonol

Dydy o ddim frawd.

cysurus

Dydy'r dillad newydd ddim 'r hen ddillad.

gwyntog

Dydy hi ddim heddiw ddoe.

llawen

Roedd hi 'r gog* ar ôl ennill y gystadleuaeth.

rhad

Dydy'r siop yma ddim archfarchnad.

* y gwcw

Dyma'r ansoddeiriau afreolaidd: **mawr, bach, da, drwg**.

mawr	cymaint cymaint â	<i>so much/many as much/many as</i>	Dw i erioed wedi gweld cymaint o sbwriel ar y stryd. Does dim cymaint o bobol â'r llynedd wedi dŵad i'r wyl.
bach	cyn lleied cyn lleied â	<i>so little/few as little/few as</i>	Pam mae cyn lleied o bobol wedi gwirfoddoli i helpu? Mi fedrwch chi brynu car ail-law da am gyn lleied ag £800.
da	cystal cystal â	<i>so good as good as</i>	"Ydy hi'n well?" "Na, dydy hi ddim cystal heddiw, yn anffodus." Mae'r canlyniad cystal â'r disgwyl.
drwg	cynddrwg cynddrwg â	<i>so bad as bad as</i>	Doedd y llanast ddim cynddrwg wedi'r cyfan. Mae'r cymdogion cynddrwg â'i gilydd am ffræo.

- Mae **cynifer** hefyd yn cael ei ddefnyddio i olygu *so many / as many as*. Mi fyddwch chi'n siŵr o glywed y gair wrth wrando ar y newyddion yn Gymraeg, e.e.:

'... y broblem ydy bod **cynifer** o bobl ddi-waith yn y dref...'

'mae **cynifer** â chant o lyfrau ar goll.'

Ymarfer y radd gyfartal



Llenwch y bylchau yn y ddeialog yma. Yna, darllenwch y ddeialog efo'ch partner.

A: Bore da, sut dach chi'n teimlo heddiw?

B: Gwell. Dim (drwg) ddoe.

A: Da iawn. Gadewch i mi edrych ar eich pwysedd gwaed chi. Da iawn, dydy o ddim uchel ddoe. Mae o wedi gostwng dipyn dros nos. Gysgoch chi'n weddol?

B: Dim (da) ag arfer. Dw i wedi blino. Ches i ddim llawer o lonydd neithiwr efo'r holl sŵn ar y ward.

A: Druan ohonoch chi, ond dach chi'n bendant yn gwella. Yr unig beth sy'n fy mhoeni i rŵan ydy eich bod chi'n bwyta (bach). Oes 'na broblem?

B: Nac oes. Dim (mawr) o awydd bwyd ag arfer, dyna i gyd.

A: Iawn. Wel, trïwch fwyta tamaid bach yn fwy heddiw. Mi fyddwch chi'n iawn. cyn diwedd yr wythnos, mi gewch chi weld!



Help llaw - Y radd gyfartal

Dan ni'n defnyddio'r **radd gyfartal** i ddeud **mor gyflym â** (*as fast as*).

Dyma batrwm ansoddeiriau rheolaidd:

mor + ansoddair (treigladd meddal) + **â** (+ treigladd llaes)

Dydy hi ddim mor oer â ddoe.

Dydy Abertawe ddim mor brysur â Chaerdydd.

Dydy sglodion ddim mor iachus ag afalau.

- Cofiwch fod **â** yn troi yn **ag** o flaen llafariad (*vowels*).
- Dydy **ll** a **rh** ddim yn treiglo ar ôl **mor**.



Darllen

Cymuned Somali Caerdydd

Llenwch y bylchau ag un o'r geiriau yma:

allforio **terfysgoedd** **hiliol** **hyrwyddo** **hiliaeth**
cyd-fyw **llofruddio** **pardwn** **adlewyrchu**

1. Roedd Caerdydd yn _____ llawer o lo i wledydd eraill.
2. Roedd y ddwy gymuned yn _____ yn hapus am gyfnod.
3. Mae'n bwysig _____ diddordebau cymaint o bobol â phosib yn y cyrsiau Cymraeg.
4. Mae pêl-droedwyr yn penlinio cyn gemau i ddangos eu bod nhw yn erbyn _____ yn ein cymunedau.
5. Mae Dysgu Cymraeg yn _____ cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.
6. Mi ddylen ni herio pobol sy'n deud pethau _____.
7. Mi gaeth dynes ei _____ yn Llanaber neithiwr.
8. Mi gaeth Dic Penderyn ei arestio yn y _____ ym Merthyr Tudful.
9. Mae 'na ymgyrch wedi bod i gael _____ i Dic Penderyn.

Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, daeth llawer o Affricanwyr i ddociau Caerdydd i weithio fel llongwyr. Roedd **galw mawr** am longwyr achos bod Caerdydd yn **allforio** cymaint o lo i **bedwar ban y byd**. Daeth hanner y llongwyr hyn o Somalia, a dyma oedd dechrau'r gymuned Somali hyna ym Mhrydain. Daeth rhagor o Somaliaid i helpu yn y dociau adeg y ddau ryfel byd, nes bod cymaint â 6,500 o Somaliaid yn Nhre-biwt a Grangetown.

Ym mis Mehefin 1919 digwyddodd **terfysgoedd hiliol** yng Nghaerdydd ac aeth y sefyllfa **o ddrwg i waeth** ar ôl i Brif Gwnstabl Caerdydd ddweud pethau hiliol am Somaliaid. Yn 1930 cafodd Cymdeithas Gyfeillgar Meibion Affrica ei sefydlu i **hyrwyddo** darlun positif o Affrica ac Affricanwyr, ond roedd **hiliaeth** cynddrwg ag erioed yn yr ardal.

Cafodd mosg ei adeiladu gan y Somaliaid yn 1947, ac roedden nhw erbyn hynny yn **cyd-fyw**'n agos â chymunedau o bob rhan o'r byd. Ond doedd pethau **ddim yn fêl i gyd**. Yn 1952 cafodd Mahmood Hussein Mattan ei grogi **ar gam** yng Ngharchar Caerdydd am **lofruddio** siopwraig. Roedd y prif dyst wedi cael arian gan yr heddlu a doedd y pedwar tyst arall ddim wedi adnabod Mattan! Cafodd Mattan **bardwn** yn 2001.

Erbyn heddiw, mae llawer o siaradwyr Cymraeg yn byw yn Nhre-biwt a Grangetown. Agorodd ysgol Gymraeg gyntaf Tre-biwt yn 2016, sef Ysgol Hamadryad. Cafodd yr ysgol ei henwi ar ôl llong ysbyty *Hamadryad*, oedd yn arfer bod wrth angor yn ymyl yr ysgol. Roedd y llong yn ysbyty i longwyr o bob rhan o'r byd, ac mae **adlewyrchu** diwylliant arbennig Tre-biwt a Grangetown yn bwysig iawn i Ysgol Hamadryad.

1. Edrychwch ar yr ymadroddion hyn sy yn y darn darllen:

**galw mawr
o ddrwg i waeth**

**pedwar ban y byd
ar gam**

ddim yn fêl i gyd

Efo'ch partner, ailysgrifennwch y brawddegau isod, gan ddefnyddio'r ymadroddion cywir.

i. Roedd Sam a Nia yn mwynhau gweithio efo'i gilydd, ond doedd pethau ddim yn hawdd bob amser.

ii. Roedd poblogaeth y pentref yn isel, ac mi aeth pethau'n ddrwg ar ôl cau'r ysgol.

iii. Breuddwyd Iona ydy gwneud gwaith gwirfoddol mewn llawer o wledydd tramor.

iv. John gaeth y bai am dorri'r ffenest, ond dim fo wnaeth.

v. Roedd 'na lawer o wledydd isio glo o Gymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

2. Cyfieithwch:

i. *Cardiff exported so much coal.*

ii. *As many as 6,500 Somalis lived in Butetown and Grangetown.*

iii. *Racism was as bad as ever in the area.*

Dach chi'n gweld **cyd-fyw** yn y darn darllen. Yma, ystyr **cyd** ydy gwneud rhywbeth efo rhywun arall neu co. Felly, sut fasech chi'n cyfieithu'r geiriau hyn? Cofiwch fod treigladd meddal ar ôl **cyd**.

<i>colleague</i>	<i>coincidence</i>
<i>co-members</i>	<i>fellow students</i>
<i>to play together</i>	<i>to perform together</i>
<i>cyd-weld</i>	<i>cyd-dynnu</i>
<i>cydymdeimlo</i>	<i>ar y cyd</i>

Cymharu ansoddeiriau – y radd gymharol (yn dalach na...)

Cywirwch yr ansoddair sy mewn print tywyll:

1. Mae Everest yn **is** na'r Wyddfa.
2. Mae Caerdydd yn **llai** nag Abertawe.
3. Mae BMW yn **rhatach** na Fiesta.
4. Mae Patagonia yn **agosach** na Pharis.
5. Mae bwyta salad yn **waeth** i ni na bwyta sglodion.
6. Mae eliffant yn **ysgafnach** na phluen.
7. Mae 'na **fwy** o bobol yn byw yn y Ffindir nag yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r ansoddeiriau hyn yn afreolaidd

Ansoddair	Cymharu
hawdd	haws (neu 'hawddach')
anodd	anos (neu 'anoddach')
llydan	lletach
hen	hŷn (mae 'henach' hefyd yn bosib)
ifanc	iau (mae 'ifancach' a 'fengach' hefyd yn bosib)
cynnar	cynharach (mae cynt * hefyd yn bosib)
tlawd	tlotach
braf	brafiach

*Mae **cynt** yn cael ei ddefnyddio weithiau fel ffurf gymharol **cyflym**, e.e. yn **gynt** na'r **gwynt**. Fel arfer, **cyflymach** sy'n cael ei ddefnyddio.

Efo'ch partner, gwnewch frawddegau sy'n cymharu'r pethau hyn:

1. Pontypridd + Bangor
2. bwydydd parod + bwydydd ffres
3. nofelau + llyfrau ffeithiol
4. malwen + ysgyfarnog
5. gwyddoniaeth + mathemateg
6. gor-wŷr + Nain
7. y lleuad + y ddaear
8. mordaith + hedfan
9. madarch + sglodion
10. blaidd + ci

Cyfieithwch:

1. *It is more difficult to get volunteers after five o'clock.*

.....

2. *Things are going from bad to worse.*

.....

3. *Food is cheaper here than in the supermarket.*

.....

4. *The playing field is better now. They have repaired the fence.*

.....

5. *Welsh is easier than English.*

.....

6. *The road will be wider after the work is completed.*

.....

7. *He wants to travel the world when he's older.*

.....

8. *My brother is six years younger than me.*

.....

Siaradwch

Mewn grwpiau, edrychwch ar y rhestr hon o gyfleusterau yn y gymuned. Rhowch nhw yn nhrefn eu **blaenoriaeth** (*priority*) o ran eu pwysigrwydd. Er enghraifft, "Mae'r llyfrgell yn **bwysicach** na'r dafarn."

canolfan hamdden

tafarn

llyfrgell

swyddfa'r post

cae chwarae

theatr / sinema

parc

toiledau cyhoeddus

addoldy (e.e. eglwys)

banc



Help llaw – Y radd gymharol

Pan dan ni'n deud *bigger than* neu *smaller than*, dan ni'n defnyddio'r **radd gymharol**.

Y patrwm ydy: **-ach + na** (+ treigladau llaes).

Mae Lois yn dal**ach na** Nia.

Mae Madrid yn boeth**ach na** Chaernarfon.

- O flaen llafariad (vowel), mae **na** yn troi'n **nag**:

Mae Bangor yn oerach **nag** Aberystwyth.

- Os bydd ansoddair byr yn gorffen efo **b, d**, neu **g** mae'r llythyren olaf yn 'caledu':

gwly**b** → gwlyp**ach** rhad → rhata**ch**
cyfoeth**og** → cyfoetho**ch**

- Mae **w** yn medru troi yn **y**, e.e. tr**wm** → try**m**ach

- Rhaid i ni roi **mw**y / **llai** o flaen ansoddeiriau hir, gan gofio bod **mw**y yn treiglo ar ôl **yn**:

Mae'r ci newydd yn **fw**y cyfeillgar **na**'r hen gi.

Rwyf ti'n **llai** dibynadwy **na** dy frawd.



Gwranddo – Tafarn y Fic

Geirfa:

cydweithredol
mentergarwch

chwyldroadol
marwaidd

fawr o neb
yn ei anterth

Mi fyddwch chi'n gwranddo ar Aled Hughes yn sgwrsio efo Lois Ellis, sy'n helpu i redeg Tafarn y Fic yn Llithfaen. Pentref bach ger Nant Gwrtheyrn ym Mhen Llŷn ydy Llithfaen. Mae'r Fic yn dafarn **gydweithredol**, ac roedd tad Lois yn un o'r criw wnaeth gasglu arian i brynu'r dafarn ar ôl iddi hi gau.

- Be ydy arwyddocâd y rhifau hyn yn y darn gwranddo?

1988

12,000

1963

2. Mae Lois yn rhestru'r pethau oedd wedi cau yn y pentref. Fedrwch chi enwi **tri** ohonyn nhw?

.....

.....

.....

3. Yn ôl Lois, pa fath o le fasai Llithfaen tasen nhw heb achub y dafarn?

.....

4. Sut mae'r Fic yn helpu'r pentref?

.....

5. Mae dau ansoddair newydd yn y darn yma, sef **cydweithredol** a **chwyldroadol**. Fedrwch chi a'ch partner feddwl am ansoddair arall sy'n gorffen ag **-ol**?

Wrth feddwl am y ddau ansoddair newydd, dyfalwch be ydy ystyr:

cydweithredu

Y Chwyldro Ffrengig

Siaradwch



- Oes tafarn, caffi neu fenter gydweithredol arall yn eich ardal chi?
- Fasech chi'n hapus i gyfrannu arian at fenter gydweithredol?
- Lle dach chi'n hoffi mynd i gymdeithasu?

Adolygu Geirfa Uned 10

Gweithiwch efo'ch partner i ddewis y gair cywir i fynd yn y bwlch. Ella bydd angen treiglo.

hiliaeth **hiliol**

Mae hi'n esbonio yn y llyfr sut roedd hi'n gweld _____ ym mhobman.

Rhaid i ni beidio ag anghofio am yr hanesion _____ yn ein cymunedau yng Nghymru.

gwirfoddoli **gwirfoddol**

Mae _____ yn ffordd dda o ddŵad i adnabod pobol yn y gymuned.

Mae 'na lawer o waith _____ ar gael mewn siopau elusen.

lladd **llofruddio**

Mi gaeth dynes ei _____ yng nghanol y ddinas neithiwr.

Mi gaeth dynes ei _____ mewn damwain ar yr M4 y bore 'ma.

penlinio **pen-glin**

Rhaid i mi gael llawdriniaeth ar fy _____.

Rhaid i mi gael llawdriniaeth achos dw i ddim yn medru _____.

pasio **trosglwyddo**

Mae hi'n bwysig _____'r iaith yn y teulu i wneud yn siŵr bod 'na ddyfodol da i'r Gymraeg.

Mi fydda i'n _____'r fferyllfa ar y ffordd adre o'r gwaith.

cydweithredol **chwyldroadol**

Mi ddaeth y pentrefwyr at ei gilydd i agor siop _____.

Mae'r blaid newydd wedi cyhoeddi rhaglen _____ fasiain gwneud newidiadau mawr i'n cymunedau ni.

yn ei anterth **yn fyw ac yn iach**

Roedd y chwarel _____ yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg.


Y tro diwethaf i mi ei weld o, roedd o _____.

fawr o neb **cynifer**

Doedd _____ yn y dafarn neithiwr. Mi ges i un peint a mynd adre.

Roedd _____ o bobol yn y dafarn neithiwr, mi ges i un peint a mynd adre.

Dach chi rŵan yn medru darllen y llyfr *Cofio Anghofio* (CAA). Dyma'r clawr a'r paragraffau cynta. Ewch i'ch siop Gymraeg leol neu www.gwales.com.



Cododd Siân y ffôn a ffonio rhif ei chwaer, ond dim ond neges peiriant gafodd hi. "Mae'n ddrwg gen i. Does neb ar gael i ateb y ffôn. Gadewch neges ar ôl y bîp."

Ceisiodd Siân ddweud beth oedd ei neges heb fynd yn grac.

"Helô, Catrin. Siân sy 'ma. Mae'n ddrwg gen i, ond bydd rhaid i ti ddod lawr at Mam. Mae'n rhaid i ni siarad. Dw i'n gwybod dy fod ti wastad yn brysur, ond bydd rhaid i ti ddod. Mae Mam wedi mynd yn ormod i fi. Ffonia fi 'nôl yn nhŷ Mam mor gyflym â phosib."

Idiom



Ddim yn fêl i gyd

Uned 11 – Teulu a Ffrindiau

Nod yr uned hon ydy...

- Defnyddio ansoddeiriau'r radd eithaf, e.e. hyna, tala, mwya
- Siarad am deuluoedd a ffrindiau
- Dysgu geirfa ac idiomau newydd

Geirfa

bord(ydd) *table(s)*
(De Cymru)

cenhedlaeth
(cenedlaethau) *generation(s)*

bwrw golwg
(dros) *to take a look,*
to cast an eye
(over)

Seisnigo *to Anglicize*

wynebu *to face*

ymchwilio (i) *to research*

blaendal(iadau) *deposit(s),*
retainer(s)

cyfrifoldeb(au) *responsibility*

dull(iau) *method(s),*
procedure(s)

enw(au) bedydd *Christian*
name(s)

golwg *sight;*
appearance

gor-wŷr
(gorwyrion) *great grandson*
(great
grandchildren)

cyn gynted â phosib *as soon as possible*

gorau po fwy *the more the better*

Gwener y Grogolith *Good Friday*

Geiriau pwysig i mi

.....
×

.....
×

.....
×

.....
×

Adolygu Uned 10

- **SGLODION** •
- **CAWS** •
- **BANANAS** •
- **BARA** •
- **CYRRI** •
- **CACENNAU** •
- **CAWL** •
- **PASTA** •

Edrychwch ar y geiriau ar y chwith.

Defnyddiwch yr ansoddeiriau hyn yn y **radd gymharol** i gymharu'r bwydydd efo'i gilydd, e.e. Mae pasta'n iachach na sglodion.

iach
melys

blasus
drwg i ni

poeth
drud

Nodwch o leiaf 10 gair ar y thema **Teulu a Ffrindiau** yn y blwch isod:

Darllen



Cyfenwau Cymru

Geirfa: **ymchwilio** **enw bedydd** **cenhedlaeth**
 Seisnigo **dull**

Os dach chi'n **ymchwilio** i hanes eich teulu yng Nghymru, y broblem fwyaf fel arfer ydy'r ffaith bod llawer iawn o bobol yn defnyddio'r un cyfenwau – Price, Griffiths, Rees, Williams, Davies – a Jones wrth gwrs! Wrth fynd yn bellach i'r gorffennol, mae hi hyd yn oed yn fwy cymhleth. Roedd pobol yn arfer defnyddio **enw bedydd** y tad fel cyfenw, oedd yn golygu bod cyfenw'r teulu'n newid bob **cenhedlaeth**. Er enghraifft:

Gwilym ap Dafydd → **Gruffudd ap Gwilym** → **Iolo ap Gruffudd**

Roedd merched yn defnyddio 'ferch' neu 'ach' yn lle 'ap', e.e. Branwen ferch Llŷr, sydd mewn hen chwedl Gymraeg. Doedd merched ddim yn newid eu henwau ar ôl priodi.

Enwau llefydd a llysenwau am olwg person

Weithiau, roedd rhai pobol yn rhoi enw lle fel cyfenw, megis lolo Morganwg, sy'n enwog hyd heddiw am sefydlu Gorsedd y Beirdd yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Arfer arall oedd defnyddio llysenwau oedd yn disgrifio golwg person, e.e. Llwyd neu Fychan.

Seisnigo enwau ac enwau seintiau

Erbyn 1837, pan ddechreuodd cofrestru sifil yn Saesneg, roedd y Cymry'n defnyddio cyfenwau Saesneg. Cafodd llawer o'r cyfenwau yma eu creu wrth **Seisnigo** enwau fel ap Hywel (Powell), ap Rhys (Price) ac ap Rhisiart (Pritchard) a Llwyd (Lloyd), Du (Dee), Fychan (Vaughan) a Goch (Gough). Hefyd, er mwyn cael cyfenw Saesneg, roedd llawer o Gymry'n dewis enwau seintiau poblogaidd fel John, David, Thomas (Jones, Davies a Thomas). Dyna pam, felly, mae cymaint o bobol Cymru yn defnyddio'r un cyfenwau.

Arferion heddiw

Yn ystod yr hanner can mlynedd diwethaf, mae'r **dull** traddodiadol o enwi plant (e.e. ap Dafydd) wedi dŵad yn fwy poblogaidd yng Nghymru eto, efo siaradwyr Cymraeg, a llawer o bobol eraill, yn sillafu eu cyfenwau yn y ffordd Gymraeg, e.e. Prys yn lle Price a Gruffudd yn lle Griffiths. Mae defnyddio enwau llefydd fel cyfenwau hefyd yn dŵad yn fwy cyffredin, a rhai Cymry adnabyddus yn defnyddio cyfenwau fel Gwynedd, Clwyd, Llŷn a Teifi.

1. Cyfieithwch y canlynol, heb edrych yn ôl ar y darn os ydy hi'n bosib:

the biggest problem

further

more complicated

so many

more popular

more common

2. Yn y darn yma, mae **tri** darn neu ymadrodd sy'n cynnwys y gair **enw**. Ysgrifennwch nhw yma:

.....

3. Efo'ch partner, trafodwch be ydy:

**Cymru
Seisnigo**

Cymry

Cymraeg

Cymreig

Saesneg

Meddyliwch am ddiffiniad byr i bob gair.

4. O'r cyfenwau hyn, pa un ydy'r **mwya cyffredin** a pha un ydy'r **lleia cyffredin** yng Nghymru, yn eich barn chi?

Lewis

Davies

Thomas

Hughes

Roberts

5. Llenwch y bylchau yn y tabl isod. Mae'r wlad gyntaf wedi ei gwneud i chi.

Gwlad	Dyn	Menyw	Pobol	Iaith	Ansoddair
Cymru	Cymro	Cymraes	Cymry	Cymraeg	Cymreig
Lloegr					
Ffrainc					
Iwerddon					
Yr Eidal					
America					
Sbaen					
Yr Alban					

Siaradwch



- Oes gynnoch chi gyfenw diddorol?
- Dach chi'n hoffi eich enw bedydd? Fasech chi'n licio cael enw gwahanol?
- Gaethoch chi eich enwi ar ôl rhywun?
- Oes problemau'n codi efo'ch enw chi?
- Oes gynnoch chi ddiddordeb yn hanes eich teulu chi?

Adolygu Ansoddeiriau – Y radd eithaf (y cyflyma)

Pobol y Cwm ydy'r rhaglen orau ar y teledu.

Pa un ydy'r tŷ mwy?

Dafydd ydy'r cyflyma.

Mari ydy'r gyflyma.

Dafydd ydy'r mwya penderynol.

Dysgwch yr ansoddeiriau yma:

hawdd	hawsa
tlawd	tlota
llydan	lleta
hen	hyna
ifanc	fenga

Ymarfer



Llyfrau

Edrychwch ar fanylion y nofelau. Ysgrifennwch frawddegau gan ddilyn y patrwm. Cofiwch fod **nofel** yn fenywaidd.

1. hira *Rhosyn y Marchog* ydy'r nofel hira.
2. byrra
.....
3. mwya poblogaidd
.....
4. lleia poblogaidd
.....
5. trista
.....
6. mwya doniol
.....
7. gorau
.....
8. gwaetha
.....

Teitl: <i>Y Ferch ar y Bws</i> Tudalennau: 235 Wedi gwerthu: 1.5 miliwn Trist / doniol? 😊😊 Adolygiadau: 👍👍👍👍	Teitl: <i>Hen Fwthyn Nain</i> Tudalennau: 450 Wedi gwerthu: 500,000 Trist / doniol? 😊😊😊 Adolygiadau: 👍👍👍👍	Teitl: <i>Jeli i Frecwast</i> Tudalennau: 159 Wedi gwerthu: 1.2 miliwn Trist / doniol? 😊😊😊 Adolygiadau: 👍👍👍	Teitl: <i>Fi a Mot y Ci</i> Tudalennau: 305 Wedi gwerthu: 2 filiwn Trist / doniol? 😊😊😊 Adolygiadau: 👍👍
Teitl: <i>Arwr yr Andes</i> Tudalennau: 266 Wedi gwerthu: 200,000 Trist / doniol? 😊 Adolygiadau: 👍👍👍	Teitl: <i>50 Arlliw o Goch</i> Tudalennau: 257 Wedi gwerthu: 1.8 miliwn Trist / doniol? 😊😊 Adolygiadau: 👍	Teitl: <i>Gwibdaith yn y Gofod</i> Tudalennau: 390 Wedi gwerthu: 300,000 Trist / doniol? 😊😊😊😊😊 Adolygiadau: 👍👍👍👍	Teitl: <i>Rhosyn y Marchog</i> Tudalennau: 500 Wedi gwerthu: 250,000 Trist / doniol? 😊😊😊 Adolygiadau: 👍👍👍👍

Teuluoedd

Edrychwch ar fanylion y Teulu Rossi. Ysgrifennwch frawddegau i ddeud pa aelod o'r teulu ydy'r:

1. hyna
2. fenga
3. tryma
4. ysgafna
5. cyfoethoca
6. tlota
7. tala
8. byrra

Enw: Elena Rossi Dyddiad geni: 07.02.98 Taldra: 1.77m Pwysau: 75kg Pres yn y banc: £50	Enw: Fabrizio Rossi Dyddiad geni: 25.04.31 Taldra: 1.55m Pwysau: 70kg Pres yn y banc: £8,000	Enw: Emilio Rossi Dyddiad geni: 30.12.55 Taldra: 1.89m Pwysau: 98kg Pres yn y banc: £1,000	Enw: Lucia Rossi Dyddiad geni: 05.10.76 Taldra: 1.56m Pwysau: 69kg Pres yn y banc: £47,000
Enw: Gina Rossi Dyddiad geni: 30.10.61 Taldra: 1.61m Pwysau: 48kg Pres yn y banc: £158	Enw: Mared Rossi Dyddiad geni: 05.05.99 Taldra: 1.70m Pwysau: 59kg Pres yn y banc: £13	Enw: Lisa Rossi-Morus Dyddiad geni: 28.02.85 Taldra: 1.25m Pwysau: 50kg Pres yn y banc: £250	Enw: Owain Rossi Dyddiad geni: 23.01.98 Taldra: 1.9m Pwysau: 95kg Pres yn y banc: £30

Holiadur

Mae angen **treiglo** ansoddair sy'n disgrifio berf **yn feddal**, fel sy'n digwydd yn y cwestiynau isod.

Gofynnwch y cwestiynau i **dri** aelod o'ch dosbarth chi.

Cwestiwn	1	2	3
Pa raglen deledu dach chi'n ei hoffi fwy?			
Pa waith tŷ dach chi'n ei gasáu fwy?			
Pa bobol yn ein cymdeithas dach chi'n eu parchu fwy?			
Pwy sy'n rhedeg gyflyma yn eich teulu / gweithle chi?			
Pa dywydd dach chi'n ei hoffi leia?			
Pa gêm fwrdd neu gardiau dach chi'n ei chwarae amla?			

Help llaw – Y radd eithaf



I greu **gradd eithaf** yr ansoddair dan ni'n ychwanegu **-a** at ansoddeiriau rheolaidd sy'n eithaf byr.

Mewn Cymraeg mwy ffurfiol, dan ni'n ychwanegu **-af**.

- Mae'r ansoddair yn **treiglo'n feddal** os dan ni'n disgrifio un **ferch/ddynes** neu un **peth benywaidd**, e.e.

Mared ydy'r **dawela** yn y dosbarth. Dyna'r gath **ddela** ohonyn nhw i gyd.

- Os bydd ansoddair byr yn gorffen efo **b**, **d** neu **g**, mae'r llythyren olaf yn 'caledu' cyn **-a**:

gwly**b** → gwly**pa** rhad → rhata drud → druta / dryta
caled → caleta cyfoethog → cyfoethoca

- Mae **w** yn medru troi yn **y**, e.e. trwm → tryma
- Rhaid i ni roi **mwya / lleia** o flaen ansoddeiriau hir, a **threiglo**'r geiriau hynny'n **feddal** ar ôl gair benywaidd:

Dyma'r nofel **fwya** poblogaidd eleni. Dyna'r dyn **lleia** trefnus yn y swyddfa.

- Mae angen dysgu'r pedwar ansoddair afreolaidd (*irregular*): **mawr, bach, da, drwg**.

Mae ystyr y geiriau'n medru newid (*biggest/most; smallest/least*).

mawr	mwya	Twm ydy'r mwya yn y dosbarth. Sara ydy'r fwya dibynadwy.	<i>biggest most</i>	Mae mwya a lleia hefyd yn golygu <i>major</i> a <i>minor</i> , e.e. wrth ddisgrifio cerddoriaeth.
bach	lleia	Hwn ydy'r pysgodyn lleia yn y siop. Hi ydy'r athrawes leia blêr yn yr ysgol.	<i>smallest least</i>	
da	gorau	Morgan ydy'r dyn gorau i wneud y gwaith. Hon ydy'r gân orau ar yr albwm.	<i>best</i>	
drwg	gwaetha	Fo ydy'r chwaraewr gwaetha yn y tîm eleni. Hi ydy'r ferch waetha am golli gwersi.	<i>worst</i>	

- Yn Saesneg, dan ni'n defnyddio'r radd gymharol wrth ddeud:

'He is my elder brother' neu 'Upper Brynaman'.

Ond yn Gymraeg, dan ni'n defnyddio'r radd eithaf, felly'r cyfieithiadau Cymraeg cywir ydy:

'Fo ydy fy mrawd hyna' a 'Brynaman Ucha'.

- Dyma dabl i'ch helpu chi:

tal mor dal â talach tala(f)	mawr cymaint â mwy mwya(f)	bach cyn lleied â llai lleia(f)	da cystal â gwell gorau	drwg cynddrwg â gwaeth gwaetha(f)
uchel uwch ucha(f)	isel is isa(f)	hawdd haws hawsa(f)	anodd anos anodda(f)	braf brafiach brafia(f)
hen hÿn hyna(f)	ifanc fengach/iau fenga/ieuenga(f)	tlawd tlotach tlot(f)	llydan lletach lleta(f)	tenau teneuach teneua(f)
pwysig pwysicach pwysica(f)	rhad rhatach rhata(f)	gwlyb gwlypach gwlypa(f)	cynnar cynharach/cynt cynhara(f)/cynta(f)	esgeulus mwy esgeulus mwya(f) esgeulus



Gwrando – Trefnu parti pen-blwydd

Mi fyddwch chi'n gwranddo ar sgwrs ffôn rhwng Deborah ac Ifan. Mae Ifan yn gweithio yng Ngwesty Min-y-Môr ac mae Deborah yn ffonio i drefnu parti pen-blwydd i'w thaid hi. Mae hi am wneud yn siŵr y bydd ei thaid hi'n wên o glust i glust wrth gael ei syrpréis o.

Rhowch gylch o gwmpas y geiriau hyn pan fyddwch chi'n eu clywed nhw. Mae'r geiriau du yn eiriau newydd yn Uned 11 ac mae'r geiriau coch yn ymadroddion bach defnyddiol.

parti a hanner	neuadd fawr	dydd Gwener y Groglith	gorau po fwya
gorwyrion	gor-or-wŷr	o leia	hollol addas
bwrw golwg	blaendal	cyn gynted â phosib	

1. Pryd hoffai Deborah gynnal y parti i'w thaid hi?
2. Faint o bobol fydd yn dŵad i'r parti?
3. Nodwch **dri** chwestiwn arall y mae Deborah yn eu gofyn i Ifan:

.....

.....

.....

4. Nodwch **dri** o'r perthnasau sy'n cael eu henwi yn y sgwrs.

.....

5. Meddyliwch am y geiriau **gor-wŷr** a **gor-or-wŷr**. Mae **gor** yn golygu *over*, *hyper* neu *ultra*. Felly, sut fasech chi'n cyfieithu'r geiriau hyn? Cofiwch fod treigladd meddal ar ôl **gor**.

overtime

to overdo

to overfill

.....

.....

.....

to overwork

to overact

.....

.....

gorboethi

gorhyderus

gorymateb

.....

.....

gordewdra

gorboblogi

goryrru

.....

.....

gor-ddeud

gorddibyniaeth

gorflino

.....

.....

.....

6. Yn y sgwrs, dach chi'n clywed **mynediad** (*access/entry*) a **mynedfa** (*entrance*). Fedrwch chi feddwl am **dri** gair arall sy'n gorffen efo **-fa**, a **thri** gair sy'n gorffen efo **-iad**?

.....

7. Mae'r ymadroddion yma i gyd yn y darn gwrando. Llenwch y bylchau:

aelod ein teulu ni yr yn flwydd oed
 y dydd Gwener fasai yr yn gant
 te p'nawn fasai dim ond y i fy hen daid

Gwrando a gwylio – *Bois y Rhondda*



cyfrifoldeb

wynebu

Dach chi'n mynd i wyllo clip byr o *Bois y Rhondda*, rhaglen a gafodd ei gwneud gan gwmni Rondo i ddangos grŵp o fechgyn ifanc yn tyfu i fyny efo'i gilydd yng Nghwm Rhondda. Mae'r clip yma'n dŵad o'r ail gyfres ac mae'r bechgyn wedi gadael yr ysgol ac wedi mentro i fyd gwaith.

1. Mi fyddwch chi'n gwylio'r clip heb unrhyw sain. Nodwch gymaint o eirfa â phosib – be dach chi'n ei weld yn y clip?

2. Atebwch y cwestiynau.

i. Lle mae'r bechgyn yn gweithio rŵan?

.....

ii. Sut dach chi'n gwybod bod y bechgyn yn ffrindiau da?

.....

3. Y gân sy'n rhan o'r clip ydy 'Dawnsia' gan y grŵp Fleur dy Lys. Dyma'r geiriau dach chi'n eu clywed:

Bellach dw i'n ugain oed,
 'Di tyfu mewn i 'nghroen,
 'Di blasu beth 'di byw,
 'Di teimlo bach o boen.

Yn y clip, dach chi'n clywed "Dyw troi'n oedolyn ddim bob amser yn hawdd".
 Dach chi hefyd yn clywed, "Ni wastad yma i'n gilydd, dim ots beth".

Siaradwch:

- Sut brofiad oedd troi'n oedolyn i chi? Ydy hi'n anodd i bobol ifanc y dyddiau yma?
- Pa **gyfrifoldebau** mae'n rhaid i bobol eu **hwynebu** wrth droi'n oedolion?
- Pa mor bwysig ydy cael ffrindiau da? Dach chi'n medru cofio amser pan oedd ffrind wedi eich helpu chi?
- Dach chi'n fwy pwylllog rŵan nag oeddech chi pan oeddech chi'n ddeunaw oed?

4. Dach chi'n clywed bod "dim byd i boeni amdano" yn ystod dyddiau ysgol.

Sut mae deud:

nothing to talk about

nothing to write about

nothing to think about

nothing to look for

nothing to pay for

Idiom



Yn wên o glust i glust

Uned 12 – Bwyd

Nod yr uned hon ydy...

- Defnyddio'r lluosog
- Siarad am fwyd ac arferion bwyta
- Dysgu geirfa ac idiomau newydd

Geirfa

caead(au)	<i>lid(s)</i>
canolbwynt	<i>focus</i>
cnwd (cnydau)	<i>crop(s)</i>
cynhwysyn (cynhwysion)	<i>ingredient(s)</i>
llysiuwr (-wyr)	<i>vegetarian(s)</i>
mewnfudwr (-wyr)	<i>immigrant(s)</i>
Mwslim(iaid)	<i>Muslim(s)</i>
nod(au)	<i>aim(s)</i>
planhigyn (planhigion)	<i>plant(s)</i>
pliciwr (-wyr)	<i>peeler(s)</i>
proffwyd(i)	<i>prophet(s)</i>

rhoi'r byd yn ei le *to put the world to right*

bwytdwy	<i>edible</i>
cartrefol	<i>homely, domestic</i>
cyfan	<i>whole</i>
cyfartalog	<i>average</i>
chwerw	<i>bitter</i>
effro	<i>awake</i>
ffurfiol	<i>formal</i>
llwglyd	<i>hungry</i>

canolbwyntio	<i>to concentrate</i>
cynhyrchu	<i>to produce</i>
godro	<i>to milk</i>
ymprydio	<i>to fast</i>

Geiriau pwysig i mi

×

×

×

×

Adolygu'r radd eithaf

Defnyddiwch y cardiau dinasoedd i weld pa un ydy...

- y ddinas hyna
- y ddinas fenga
- y ddinas fwya
- y ddinas leia
- y ddinas fwya poblog
- y ddinas leia poblog
- y ddinas boetha yn yr haf
- y ddinas oera yn y gaeaf

Y Lluosog

Rhowch o leia un gair lluosog ym mhob colofn. Mae un ym mhob un yn barod.


-au	-iau	-ion	-oedd	-od
planedau	ffilmiau	oedolion	mynyddoedd	llewod
-i	-wyr	Gollwng terfyniad	Newid llafariad	Newid llafariad ac ychwanegu terfyniad
capeli	gofodwyr	pysgod	ceir	meibion

Deialog – Byw yn y wlad

Geirfa: cynhyrchu cnydau godro

- A:** Bore da. Dw i yma heddiw ar fferm Dyffryn Glas efo'r teulu Jones. Fedrwch chi ddeud wrtha i be dach chi'n ei **gynhyrchu** yma?
- B:** Llefrith yn bennaf. Mae gynnon ni gant dau ddeg o fuchod. Ond dan ni hefyd yn cadw 100 o ddefaid, ac wedi cael pedwar oen bach newydd yr wythnos yma.
- A:** Dach chi'n brysur! Oes **cnydau** ar y fferm hefyd?
- B:** Nac oes, dan ni ddim yn tyfu cnydau ond mae gynnon ni ardd lysiau. Mae'r plant yn tyfu moron a thatws.
- A:** Faint o blant sy gynnoch chi?
- B:** Pump. Dau fab a thair merch.
- A:** Ydyn nhw'n helpu efo'r anifeiliaid?
- B:** Ydyn, chwarae teg. Mae'r ferch hyna yn mwynhau helpu efo'r **godro** yn rheolaidd, ac mae'r ddwy arall yn cadw ieir. Y merched sy'n gofalu am y cathod hefyd.
- A:** Be am y meibion?
- B:** Maen nhw'n fengach na'u chwiorydd. Maen nhw'n wyth ac yn chwech oed, ac mae'n well gynnyn nhw fod tu allan efo'r cŵn a'r defaid. Dydyn nhw ddim yn helpu llawer, a deud y gwir!
- A:** Diolch yn fawr iawn am siarad efo fi.
- B:** Croeso!

Efo'ch partner, llenwch y bylchau yn y tabl isod. Mae'r un cyntaf wedi ei wneud i chi.

unigol	lluosog	Help llaw
cnwd	cnydau	<p>Help llaw</p> <ul style="list-style-type: none"> Cofiwch: Faint o blant ond Sawl plentyn  Faint o + lluosog Sawl + unigol Efo nifer isel, dan ni'n defnyddio'r unigol, e.e. 'dau fab'. Dan ni'n defnyddio rhif + o + lluosog efo nifer uwch, e.e. 'cant o ddefaid'. Mae llawer o anifeiliaid yn ffurfio'r lluosog efo-od, e.e. buchod, cathod, cwningod, llwynogod. Os ydy gair yn gorffen efo -nt, mae dwy n fel arfer yn y lluosog, e.e. dannedd, cannoedd, punnau/punnoedd. Mae enwau llefydd yn aml yn gorffen efo -fa, e.e. amgueddfa, meddygfa, swyddfa. Mae'r -fa yn newid i -feydd yn aml iawn yn y lluosog, e.e. swyddfeydd. Ond sylwch: cynulleidfa – cynulleidfaoedd. Pan fydd y sain aw mewn gair, mae'n aml yn troi'n o wrth ffurfio'r lluosog: brawd – brodyr; cylchgrawn – cylchgronau; sawdl – sodlau Ond sylwch ar lawnt – lawntiau. Pan fydd enw yn gweithio fel ansoddair ac yn disgrifio enw arall, mae'r Gymraeg yn defnyddio'r lluosog mewn llawer o achosion lle byddai'r Saesneg yn defnyddio'r unigol: e.e. past dannedd cig moch cas pensiliau sosban sglodion pliciwr tatws cadach llestri
fferm		
	buchod	
	defaid	
oen		
	plant	
mab		
merch		
	chwirydd	
	anifeiliaid	
	ieir	
	cŵn	
gardd		
cath		
cig		
	tatws	
	llysiau	
diod		

Felly, be ydy'r enwau hyn yn Gymraeg?

Enw gwrywaidd	Yn Gymraeg?	Enw benywaidd	Yn Gymraeg?
<i>student village</i>		<i>bus station</i>	
<i>chequebook</i>		<i>bookshop</i>	
<i>dishwasher</i>		<i>vegetable garden</i>	

Bwyd

Nodwch o leiaf 10 gair ar y thema 'Bwyd' yn y blwch isod.

Gwyllo a gwrando



Sara Yassine yn trafod Ramadan

Mi fyddwch chi'n gwyllo fideo a wnaeth Radio Cymru yn ystod y Cyfnod Clo lle mae Sara Yassine yn trafod pwysigrwydd Ramadan. Dyma'r eirfa newydd:

ymprydio
nod

Mwslimiaid
llwglyd

canolbwyntio

proffwyd

Rhowch un o'r geiriau yn y bylchau:

Mae hi'n anodd _____ am amser hir ar Zoom.

Doedd gen i ddim amser i gael cinio yn y gwaith felly ro'n i'n teimlo'n _____ erbyn cyrraedd adre.

_____ y gwersi coginio ydy helpu rhieni a phlant i goginio efo'i gilydd.

Mae _____ yn mynd i'r mosg i weddio.

Mae'r geiriau'n dŵad o lyfr y _____.

Weithiau, mae pobl yn protestio trwy _____.

Gwylwch Sara Yassine yn siarad a llenwch y tabl.

	Be mae hi'n ei ddeud am fwyd?	Nodwch un peth mae hi'n ei ddeud am gyfnod Ramadan
3.45am		
1pm		
6pm		
bron 8.30pm		
8.38pm		

Sylwch ar y ffordd mae Sara'n defnyddio'r gair **bach** yn lle **tipyn bach** neu **ychedig bach**:

Mae hi'n deud bydd hi'n bwyta **bach o ddêts**.

Mae hi'n deud bydd hi'n darllen **bach o'r Qur'an**.

Mae hi'n deud bydd hi'n yfed **bach o ddŵr**.

Mae hi'n deud ei bod hi'n teimlo **bach yn flinedig**.

Siaradwch



- Dach chi'n cymryd rhan yn Ramadan neu oes gynnoch chi deulu neu ffrindiau sy'n gwneud?
- Dach chi erioed wedi ymptydio am gyfnod? Ydy ymptydio am gyfnodau byr erioed wedi bod yn rhan o'ch ffordd o fyw chi?
- Mae Sara'n deud ei bod hi'n medru bod yn anodd canolbwyntio heb fwyta. Be arall sy'n effeithio ar ein gallu i ganolbwyntio?

Darllen



Bwyd y Wladfa

Geirfa:

**canolbwynt
effro
cartrefol**

**mewnfudwyr
cyfan
rhoi'r byd yn ei le**

**chwerw
ffurfiol**

**planhigyn,
bwydadwy**

Defnyddiwch y geiriau yma i greu brawddeg ar y thema **bwyd**.

canolbwynt

chwerw

planhigion

bwydadwy

Os ewch chi ar wyliau i'r Wladfa Gymreig yn yr Ariannin, efallai byddwch chi'n teimlo fel tasech chi mewn cornel fach o Gymru. Ond dewch chi i ddeall bod llawer o arferion y Wladfa yn wahanol iawn i rai Cymru – yn enwedig arferion bwyta.

I ddechrau, mae pobl y Wladfa yn bwyta pryd o fwyd tua naw neu ddeg y nos. Gwelwch chi bobl a phlant o bob oed mewn bwytai, yn bwyta ac yn sgwrsio tan yr oriau mân.

Cig ydy **canolbwynt** prydau bwyd traddodiadol y wlad. Wedi dweud hynny, daeth **mewnfudwyr** o'r Eidal ac felly mae pasta neu *pizza* heb gig ar fwydlenni fel arfer. Mae 'na rywbeth at ddant pawb yn y Wladfa erbyn hyn.

Mae llawer o dai te Cymreig yn y Wladfa, ond diod o'r enw *mate* ydy ffeffryn pobl y paith. Diod boeth **chwerw** ydy *mate*, sy'n cael ei gwneud o **blanhigyn** *yerba mate*. Dach chi'n ei hyfed trwy diwb o'r enw *bombilla*, ac mae llawer o bobl yn cario fflasg o ddŵr poeth i bob man, er mwyn yfed *mate* drwy'r dydd. Fel coffi, mae'n help i gadw pobl yn **effro**, ac mae hefyd yn cadw pobl i fynd os ydyn nhw'n rhy brysur (neu'n rhy dlawd) i gael pryd o fwyd.

Yn ystod eich ymweliad, efallai byddwch chi'n ddigon ffodus i gael gwahoddiad i'r *quincho* am *asado*. Be ydy hynny, tybed?

Wel, yn syml, ystafell fwyta ydy *quincho* efo popty i wneud *asado*, sef fersiwn yr Ariannin o'r barbeciw. Ond nid byrgers a selsig o'r archfarchnad sydd ar y tân, ond darnau mawr o gig – neu efallai oen **cyfan** – a phob rhan **fwytadwy** o'r anifail. Mae'r *quincho* fel arfer mewn garej neu mewn cwt yn yr ardd fel bod mwg ac arogleuon ddim yn lledu o amgylch y tŷ. Does dim byd **ffurfiol** am y *quincho*; mae'n ystafell **gartrefol** lle mae ffrindiau a theulu'n ymlacio ac yn **rhoi'r byd yn ei le**.

1. Yn y tabl isod, ysgrifennwch y gair lluosog o dan y gair unigol. Yna, ysgrifennwch ddau air lluosog arall â'r un terfyniad (*ending*) lluosog. Mae'r cyntaf wedi ei wneud i chi.

unigol	cornel	ymweliad	planhigyn	archfarchnad
lluosog	corneli			
dau air arall â'r un terfyniad lluosog	bisgedi rhaglenni			

2. Be ydy'r gwahaniaeth rhwng **prydau** a **prydiau**?

3. Be ydy ffurfiau **unigol** yr enwau lluosog isod?

gwyliau bwytai llysieuwyr
 mewnfudwyr bwydlenni tai
 arogleuon arferion oriau

4. Fel arfer yn Gymraeg, pan fydd yr enw lluosog yn cael ei ddefnyddio'n amlach na'r enw unigol, **-en** neu **-yn** ydy terfyniad y gair unigol. Er enghraifft, coed > coeden; pysgod > pysgodyn. Felly, be dach chi'n meddwl ydy unigol y geiriau hyn?

selsig llygod
 moron blew
 pys adar
 tatws plu
 bresych dail

Mae **-en** yn dangos bod enw unigol yn **fenywaidd**, fel arfer – ond nid bachgen!
 Ac mae **-yn** yn dangos bod enw unigol yn **wrywaidd**.

Rhowch ansoddair ar ôl pob un o'r enwau unigol y byddwch chi wedi'u hysgrifennu uchod er mwyn dangos ydyn nhw'n enwau benywaidd neu'n enwau gwrywaidd.

Idiom



Rhoi'r byd yn ei le

Uned 13 – Byw heb...

Nod yr uned hon ydy...

- Adolygu arddodiaid
- Siarad am bobol sy'n byw heb rywbeth
- Dysgu geirfa ac idiomau newydd

Geirfa

caniatâd *permission*

chwiban(au) *whistle(s)*

dinistr *destruction*

dyfarnwr (-wyr) *referee(s)*

smotyn (smotiau) *spot(s)*

Y Grawys *Lent*

caeth (i) *captive;
addicted (to)*

Cristnogol *Christian*

dibwys *unimportant,
trivial*

llyfn *smooth*

bachu *to grab, to hook*

heidio *to swarm*

ymdopi *to cope*

ar bigau'r drain *on tenterhooks*

trydarwr brwd *a keen Twitterer
(rhywun sy'n defnyddio Twitter yn aml)*

Geiriau pwysig i mi

×

×

×

×

Adolygu'r unigol a'r lluosog



Llenwch y bylchau ag enw unigol neu lluosog addas. Ella bydd angen treiglo weithiau.

1. Mae bost y pentref ar agor ar ddydd Mawrth a dydd lau.
2. Mae nifer o post yn y Deyrnas Unedig wedi cau dros y pum mlynedd diwethaf.
3. Mi fydd yr ysgol ar gau ddydd Llun nesaf oherwydd bod yr ar streic.
4. Does 'na ddim llawer o da ar y teledu y dyddiau 'ma.
5. Mae 'na filoedd o bobol yn heidio i Eryri bob penwythnos yn yr haf i ddringo'r Wyddfa a eraill.
6. Cofiwch gloi'r i gyd wrth i chi adael y tŷ.
7. Mae cwmni adeiladu Cartref Clyd wedi cael caniatâd i godi hanner cant o newydd yn y pentref.
8. Dan ni'n prynu gormod o parod o'r archfarchnad yn lle coginio ein bwyd ein hunain.
9. Dw i'n hoff iawn o liwiau'r hydref pan fydd y ar y yn newid eu lliw.
10. Mi aeth fy ffrind â fi allan ar ei gwch i bysgota ddoe, ond dim ond un ddaliais i drwy'r dydd.

Darllen



Faswn i byth yn medru byw heb...

Addasiad o erthygl ar wefan *BBC Cymru Fyw*

Cristnogol

Y Grawys

llyfn

trydarwr brwd

caeth

dibwys

Ad-drefnwch y geiriau i greu brawddegau sy'n dŵad o'r darn darllen.

at cadw
nifer o

Cristnogol
Y Grawys

bobl draddodiad
yn

Mae

.....

a edrych i 'ngwallt i llyfn Mae'n 'neud theimlo'n

chi'n Byddwch ei drydarwr brwd fod
gwybod yn

Dw gaeth hollol i i'n dechnoleg.

fo hen ddibwys iddo Mae 'na ochr

Mae dewis mynd heb rywbeth am gyfnod yn rhywbeth mae llawer o bobl yn ei wneud. Yn ystod mis Ramadan, dydy Mwslimiaid ddim yn bwyta yn ystod golau dydd. Hefyd, mae nifer o bobl yn cadw at draddodiad **Cristnogol y Grawys** ac yn rhoi'r gorau i fwyta neu yfed rhywbeth am y deugain diwrnod cyn y Pasg. Ond oes rhai pethau na fedrech chi fyw hebddyn nhw, hyd yn oed am gyfnod byr?

Gofynnodd *Cymru Fyw* i rai o'n sêr adnabyddus beth fasen nhw'n methu byw hebdo:

Mae **Rhodri Owen** yn gyflwynydd ar raglenni *Prynhawn Da a Heno* a basai'n anodd iawn iddo fyw heb ei goffi cryf bob bore.

"Byddwn i'n methu byw heb fy *double espresso* yn y bore. Dw i'n cael un bob bore a dw i'n berson hapusach ar ôl ei yfed. Dw i'n trio cadw'n ffit ar y foment a ges i gyngor gyda rhywun i roi lan y *lattes*, felly droiais i at yr *espresso*.



"Dw i ddim yn meddwl byddai fy mab i'n fodlon i fi fynd heb goffi chwaith achos bod fy mhersonoliaeth i'n newid ar ôl ei yfed."

"Allwn i byth fyw heb fy *Moroccan Oil conditioner*! Mae'n 'neud i 'ngwallt i edrych a theimlo'n **llyfn** ac mae'n gwynto'n lyfli!" meddai **Eleri Siôn**, sy'n cyflwyno rhaglenni ar BBC Radio Wales.



Os dach chi'n dilyn y comediwr **Tudur Owen** ar *Twitter*, byddwch chi'n gwybod ei fod yn **drydarwr brwd** ac mae'n cyfaddef na fasai'n medru byw heb ei ffôn.



"Dw i'n hollol **gaeth** i dechnoleg a gwefannau cymdeithasol. Mi ges i gyfnod o fod yn styc yn y tŷ ar ôl cael anaf yn sgïo. Y ffôn oedd yr unig beth oedd yn fy nghadw i mewn cysylltiad â gweddill y byd. Dw i'n ei ddefnyddio ar gyfer ebostio, tecstio a hefyd o ran fy ngwaith."

"Mae comediwyr yn rhannu syniadau dros *Twitter*. Mae 'na hen ochr **ddibwys** iddo fo, fel darllen be' ma' pobl 'di gael i frechwast, ond mae 'na ochr ddefnyddiol a faswn i ddim yn medru byw hebdo."

- Basai Rhodri Owen, Eleri Siôn a Tudur Owen yn methu byw heb rywbeth. Be?

Rhodri Owen	
Eleri Siôn	
Tudur Owen	

- Mae'r sêr yn deud yr isod mewn ffordd wahanol, gan fenthyg o'r Saesneg. Pa eiriau maen nhw'n eu defnyddio?

- rhoi'r gorau i... ..
- arogli'n hyfryd
- bod yn gaeth i'r tŷ.....

- Mae'r arddodiad **heb** yn rhedeg pan fydd yn cael ei ddefnyddio efo rhagenwau. Mae **hebdo (fo)** yn cael ei ddefnyddio yn y darn uchod. Ysgrifennwch y ffurfiau ar gyfer y rhagenwau eraill:

.....	i	ni
.....	ti	chi
hebdo fo		nhw
.....	hi		

Siaradwch



- Fasech chi'n medru byw heb de neu goffi?
- Pa mor anodd fasai hi i chi byw heb ffôn symudol?
- Am faint fasech chi'n medru byw heb sebon, siampw a phast dannedd?
- Sut fasech chi'n teimlo tasai rhaid i chi fyw heb gerddoriaeth?
- Fasech chi'n rhwystredig tasech chi ddim yn medru teithio'n rhyngwladol?

Nodwch efo **sgôr o 0-5** pa mor anodd fasai hi i chi fyw heb y canlynol am gyfnod (**0 = dim trafferth o gwbl, 5 = fedrwn i byth fyw heb...**) ac wedyn trafodwch eich atebion:

awyrennau	siocled
teledu	sliperi
radio	sychwr gwallt
gardd	llyfrau
cyfrifiadur	preifatrwydd



Gwranddo

Mi fyddwch chi'n clywed Siân ac Eifion yn cyfarfod ei gilydd ac yn mynd i gaffi.

1. Mae Siân wedi rhoi'r gorau i goffi a phethau melys. Efo'ch partner, meddyliwch pam fasai hi'n rhoi'r gorau i'r pethau yma a beth mae hi'n yfed yn lle coffi.
2. Pa un o'r ddau dach chi'n meddwl sy:
 - i. fwy prysur
 - ii. â'r deiet mwya iachus
 - iii. yn gweithio fwy
 - iv. fwy trefnus
 - v. yn cyflawni fwy
 - vi. hapusa

3. Gwrandewch am yr ymadroddion sydd ar y chwith isod yn y sgwrs. Cysylltwch nhw â'r ymadrodd ar y dde sydd â'r un ystyr:

i. yn ofnadwy o brysur
ii. coffi bach sydyn
iii. bachu'r bwrdd 'na
iv. cacen yr un i ni
v. mynd o un peth i'r llall

cacen i ti a chacen i mi
gwneud cyfres o wahanol bethau
yn brysur iawn
sicrhau bwrdd yn y caffi
coffi cyflym

4. Mae Siân yn deud: "Dw i'n meddwl yn llawer **cliriach**". Dach chi'n medru meddwl am ansoddair arall lle dan ni'n ychwanegu **-iach**, nid **-ach**?

Siaradwch



Dach chi wedi gwneud ymdrech arbennig rywbryd i fyw heb rywbeth am gyfnod neu i roi'r gorau i rywbeth yn barhaol, neu dach chi'n nabod rhywun arall sy wedi gwneud hynny? Sut hwyl gaethoch chi / gaethon nhw?



Arddodiaid

Mae'r tabl isod yn cynnwys enghreifftiau o arddodiaid a rhai o'r berfenwau maen nhw'n cysylltu â nhw.

Yn y golofn gyntaf, rhowch fwy o enghreifftiau o ferfau sy'n cysylltu â'r gwahanol arddodiaid a llenwch y bylchau yn y tabl sy'n dangos sut mae'r arddodiaid yn rhedeg efo rhagenwau.

â ymuno â ymweld â	â fi	â ti	â fo	â hi	â ni	â chi	â nhw
*am siarad am poeni am	amdana i	amdanat ti			amdanon ni		
ar edrych ar ymosod ar			arno fo				arnyn nhw
at cofio at pwyntio at		atat ti				atoch chi	
i gofyn i diolch i	i mi						iddyn nhw
*wrth ymddiheuro wrth sôn wrth		wrthat ti		wrthi hi			

*Cofiwch ein bod ni'n deud **wrth** rywun **am** wneud rhywbeth.

Ymarfer



Newidiwch yr **enwau**, ac atebwch efo **rhagenwau**:

e.e. Oedd o'n gweiddi ar <u>Bob</u> ?	Oedd, roedd o'n gweiddi arno fo.
Oedd hi'n chwilio am <u>ei chwaer</u> ?	Oedd, roedd hi'n chwilio hi.
Ofynnest ti i'r <u>athrawes</u> ?	Do, mi ofynnes i
Edrychest ti ar <u>y papur</u> ?	Do, mi edryches i
Redodd o at <u>ei wraig</u> ?	Do, mi redodd o
Wyt ti wedi deud wrth <u>y plant</u> ?	Do, dw i wedi deud ...
Ydw i'n medru ymddiried yn <u>Huw</u> ?	Wyt. Rwyd ti'n medru ymddiried

Llenwch y bylchau ag **arddodiaid**:

1. Pryd wyt ti'n mynd i ddeud nhw be ddigwyddodd? Mae pawb ar bigau'r drain.
2. Rhaid i chi ysgrifennu y bardd buddugol i ddeud fo fod yn y pafiliwn cyn pedwar o'r gloch.
3. Mi chwythodd y dyfarnwr ei chwiban a phwyntio y smotyn.
4. Mi ddaeth o ni neithiwr – roedd o'n gyfeillgar iawn ac yn barod iawn i siarad pawb.
5. Dw i wastad wedi breuddwydio fyw ar arfordir efo golygfa hyfryd dros y môr.
6. Mi fues i'n chwilio nhw am oriau.
7. Gofynnwch fo oes 'na brydau llysieuol ar y fwydlen.
8. Doedd Mrs Evans ddim yn athrawes boblogaidd iawn – roedd hi'n gweiddi y plant drwy'r amser. Doedd hi ddim yn medru cadw rheolaeth.
9. Oeddet ti wedi sylwi y newidiadau yn yr ardd ac yn yr ardal o dan do?
10. Cofia fi nhw pan fyddi di'n ymweld nhw wythnos nesa.
11. Wyt ti'n berchen gar trydan?



Gwranddo 2

Dros Ginio Storm Arwen: Jennifer Jones yn siarad efo Emyr Bell

Rhwng 25 a 29 Tachwedd 2021, mi darodd storm fawr o'r enw Arwen wledydd Prydain. Cyn gwranddo ar y sgwrs rhwng Jennifer Jones ac Emyr Bell, dyfalwch pa eiriau sy ar goll yn y cyflwyniad yma:

'Rwân, dim trydan, dim ffôn, ac mewn rhai, dim dŵr. Dyna'r sydd wedi wynebu rhai cymunedau yn dilyn y **dinistr** gan Storm Arwen dros y penwythnos.

Mae dros 400 o gartrefi'n parhau drydan yma yng Nghymru, ond un o'r gafodd ei tharo oedd Sir Aberdeen yn yr Alban, ac yn efo ni o Castle Fraser mae Emyr Bell. Pnawn da i chi, Emyr!

1. Cwestiwn cyntaf Jennifer Jones ydy 'Sut dach chi wedi bod yn ?'
2. Be mae Emyr a'i deulu wedi bod yn ei wneud adre?
.....
3. Pam mae Emyr yn deud bod ei deulu o'n fwy 'ffodus' na llawer o deuluoedd eraill yr ardal?
.....
4. Sut mae o a'i deulu wedi bod yn helpu pobol y pentref?
.....
5. Be mae'r SSE (Scottish and Southern Energy) wedi'i wneud i helpu pobol?
.....

Be ydy...?

The community is pulling together

without any electricity

We have been taking hot water.

Siaradwch:

- Dach chi erioed wedi bod heb drydan am gyfnod? Lle a pham?
- Be fasech chi'n wneud i gadw'n brysur tasai gynnoch chi ddim trydan?
- Meddylwch am bopeth dach chi wedi'i wneud heddiw. Faint o weithiau dach chi wedi defnyddio trydan? Ydan ni'n dibynnu gormod ar drydan?
- Dach chi'n cynnau'r golau yn y tŷ heb fod gwir angen gwneud?

Idiom

Ar bigau'r drain

Uned 14 - Ffasiwn

Nod yr uned hon ydy...

- Defnyddio arddodiaid cyfansawdd (e.e. ar ôl, o flaen)
- Siarad am ddillad, siopa a ffasiwn
- Dysgu geirfa ac idiomau newydd

Geirfa

cred(oau)	<i>belief(s)</i>
doler(i)	<i>dollar(s)</i>
elfen(nau)	<i>element(s)</i>
haen(au)	<i>layer(s)</i>
sêl frenhinol	<i>royal seal</i>
stryd fawr	<i>high street</i>

blewyn (blew)	<i>a hair, a whisker (whiskers, fur)</i>
catrawd (catrodau)	<i>regiment(s)</i>
cyndaïd (cyndeidiau)	<i>forefather(s)</i>
cynnyrch	<i>produce</i>
dilynwr(-wyr)	<i>follower(s)</i>
dillad isaf	<i>underwear</i>
gwallt gosod	<i>wig</i>
plwm	<i>lead</i>
tecstil(au)	<i>textile(s)</i>
tywysog(ion)	<i>prince(s)</i>

arbrofi	<i>to experiment</i>
britho	<i>to go grey, to dapple, to fleck, to mottle</i>
coelio	<i>to believe</i>
masnachu	<i>to trade</i>
tarfu	<i>to interrupt, to disturb</i>
torri ar draws	<i>to interrupt</i>
ysgafnhau	<i>to lighten</i>

anferthol	<i>huge, momentous</i>
crefftus	<i>skilled</i>
llac	<i>loose</i>
pigog	<i>spiky; touchy (person)</i>
unigryw	<i>unique</i>

ar draws	<i>across</i>
cymryd yr awenau	<i>to take the reins</i>
o blaid	<i>in favour of</i>

Geiriau pwysig i mi

×

×



Adolygu Arddodiaid

Cwestiwn	Person 1	Person 2	Person 3
O le dach chi'n dŵad yn wreiddiol?			
Ar ba raglenni radio dach chi'n hoffi gwranddo?			
I le dach chi'n hoffi mynd am dro?			
At bwy dach chi'n anfon ebyst?			
Gan bwy dach chi wedi cael cyngor da?			
Dros bwy dach chi wedi pleidleisio mewn rhaglen realaeth?			
Drwy ebost neu drwy'r post dach chi'n hoffi cael gwybodaeth?			
Am be dach chi'n siarad pan fyddwch chi yn y siop trin gwallt?			
O le dach chi'n prynu eich dillad fel arfer?			

Geirfa - Dillad

Nodwch unrhyw eirfa newydd fan hyn.

Gwyllo a gwrando – O Gymru Fach



1. Edrychwch ar y geiriau yma. Am be dach chi'n meddwl mae'r fideo?

Harrods	ffatri	cwmni
llywiau cryf	defnydd	peiriant

2. Nesa, dyma'r geiriau newydd byddwch chi'n eu clywed. Ydyn nhw'n enwau, berfau neu ansoddeiriau?

cynhyrchu	tecstilau	cynnyrch	sêl frenhinol	tywysog
cyndeidiau	unigryw	gwlan	catrodau	crefftus
masnachu	tarfu			

Enwau	Berfau	Ansoddeiriau

3. Yn olaf, cyn gwyllo'r clip, dyma dair brawddeg byddwch chi'n eu clywed:

Mae'r cwmni bellach yn cael ei redeg gan...

Roedd e'n hen hen dad-cu i fi.

Beth sy'n arbennig am y cwmni 'ma, 'te?

4. Efo'ch partner, trafodwch y geiriau isod ac esboniwch pam mae'r geiriau hyn yn codi yn y darn.

cenhedlaeth
John Rees Jones
Sir Benfro
10 awr

5. Enwch **bedair** gwlad sy'n mewnforio cynnyrch Corgi.

6. Cysylltwch yr idiom isod â'r diffiniad cywir:

yn eu plith
pedwar ban y byd
cymryd yr awenau

dod yn rheolwr/arweinydd
yn eu canol nhw
dros y byd i gyd

Arddodiaid cyfansawdd

Mae arddodiaid cyfansawdd yn arddodiaid sy'n dŵad mewn **dwy ran**. Efo'ch partner, rhwch y Gymraeg am yr arddodiaid sy yn y blwch:

<i>after</i>	<i>above</i>
<i>near</i>	<i>among</i>
<i>across</i>	
<i>around</i>	
<i>in front of</i>	
<i>in favour of</i>	

Ar ei hôl hi!

Ar ei hôl hi!
Ar ei hôl hi!



Oes 'na le i mi
eistedd wrth eich
ochr chi?



Peidiwch â thorri ar
fy nhraws i pan dw
i'n siarad efo chi!




Mae mwd o'n
cwmpas ni ym mhob
man!



Gad iddo fo fynd o
dy flaen di.



Mae popeth o'i
phlaid hi. Dw i'n siŵr
mai hi sy'n mynd i
ennill y ras!



O na! Edrycha be
sy uwch ein
pennau ni!



Edrychwch ar y lluniau eto a newidiwch berson yr arddodiaid. Mae'r cynta wedi ei wneud i chi.

1. (fo) *Ar ei ôl o! Ar ei ôl o!*
2. (ti)
3. (hi)
4. (ni)
5. (chi)
6. (nhw)
7. (fi)

Ar gyfer

Mae o wedi gwneud siwt ar fy nghyfer i

- Mae o wedi gwneud siaced di.
 Mae o wedi gwneud siwt yr athro.
 Mae o wedi gwneud ffrog yr athrawes.
 Mae o wedi gwneud gwasgod o.
 Mae o wedi gwneud ffrog hi.
 Mae o wedi gwneud siwtiau ni.
 Mae o wedi gwneud siwtiau chi.
 Mae o wedi gwneud siwtiau nhw.

Efo'ch partner, cyfieithwch y brawddegau i'r Gymraeg:

1. *Who sat beside you (ti) on the bus?*
.....
2. *He's preparing a special meal for me.*
.....
3. *They've argued with the people who live in the flat above them.*
.....
4. *You shouldn't interrupt him when he's speaking.*
.....
5. *She is frustrated because she thinks that everyone is against her.*
.....
6. *The lorry was in front of them.*
.....
7. *They should go after you (chi).*
.....
8. *They were quarreling in front of us.*
.....
9. *I think that the vote will go in your favour.*
.....



Help llaw

Efo rhai arddodiaid cyfansawdd, mae'n rhaid gwybod be ydy'r **gair gwreiddiol** sy'n dilyn yr arddodiad er mwyn treiglo'n gywir.

traws > ar draws	cyfer > ar gyfer
ar fy nhraws i	ar fy nghyfer i
ar dy draws di	ar dy gyfer di
ar ei draws o	ar ei gyfer o
ar ei thraws hi	ar ei chyfer hi
ar ein traws ni	ar ein cyfer ni
ar eich traws chi	ar eich cyfer chi
ar eu traws nhw	ar eu cyfer nhw

- Efo **o flaen** (blaen), **o gwmpas** (cwmpas) ac **o blaid** (plaid), rhaid i ni fod yn ofalus efo'r cwtogiadau (*contractions*) ar ôl **o** hefyd. Er enghraifft: o fy mlaen i / o dy flaen di / o'i flaen o / o'i blaen hi / o'n blaen ni / o'ch blaen chi / o'u blaen nhw.
- Mae **uwchben** ac **ymhlith** yn rhannu'n ddwy ran (uwch + pen) ac (yn + cylch). Er enghraifft, **uwch** fy **mhen**, **yn** ein **plith**.
- Cofiwch, efo **tu** mae isio **y** o'i flaen ac **i** ar ei ôl o. Er enghraifft: **y** tu ôl **i**r gadair, **y** tu allan **i**r dref, **y** tu mewn **i**r adeilad, **y** tu hwnt **i** Gymru.
- Hefyd, mae hi'n bosib defnyddio ffurfiau lluosog **blaen (blaenau)** a **pen (pennau)** efo **ni, nhw**, a **chi** (lluosog). Er enghraifft: uwch ein **pennau** ni, uwch eich **pennau** chi, uwch eu **pennau** nhw; o'n **blaenau** ni, o'ch **blaenau** chi, o'u **blaenau** nhw.

Efo'ch partner, ysgrifennwch **bum** brawddeg yn defnyddio'r **arddodiaid cyfansawdd yma**:

yn erbyn

ar gyfer

o flaen

uwchben

ar ôl

1.
.....
2.
.....
3.
.....
4.
.....
5.
.....

Cwis – Y Gwir, yr Holl Wir a Dim Ond y Gwir – Byd Ffasiwn

Geirfa:

dillad isaf

doleri

gwallt gosod

pigog

Mae rhai o'r ffeithiau hyn yn wir, a rhai ohonyn nhw'n gelwyddau! Penderfynwch pa ffeithiau sy'n wir.

1. Roedd yr hetiau Cymreig cyntaf yn cael eu gwneud o flew ceffylau du.
2. Yn oes y Frenhines Elisabeth I, roedd pobl yn mynd yn sâl achos eu bod nhw'n gwisgo colur wedi ei wneud o blwm.
3. Yn 2016, mi gaeth un o ffrogiau Marilyn Monroe ei gwerthu am 4.8 miliwn o **ddoleri**.
4. Roedd y Frenhines Victoria yn gwrthod gwisgo **dillad isaf** cotwm. Roedd yn rhaid iddi gael dillad isaf sidan bob amser.
5. Mae lycra yn cael ei wneud o fandiau lastig wedi eu hailgylchu.
6. Y defnydd druta yn y byd ydy gwllân y ddafad vucana o Beriw.
7. Yn yr Hen Aifft, roedd dynion a merched yn gwisgo colur a **gwallt gosod**.
8. Yn y 1920au, roedd y gantores jazz Vera Louise yn enwog am wisgo côt o ffwr llygod bach.
9. Mae UDA yn gwario mwy ar ddillad nag unrhyw wlad arall yn y byd.
10. Roedd gwallt milwyr Celtaidd yn wyn ac yn **bigog**.

Nodwch enwau neu ferfau i fynd efo'r geiriau isod. Cofiwch fod **het**, **ffrog** a **chot** yn **enwau benywaidd**. Mae rhai enghreifftiau yno i chi.

het	ffrog	dillad	gwallt	cot
	ffrog briodas		gwallt gosod	cot law

Gwranddo – Gwallt



Geirfa:

britho

elfen

cred

sylw

coelio

Mi fyddwch chi'n gwranddo ar bedwar person yn siarad am eu gwallt, sef **Bethan Mair**, **Owain Jones**, **Sara Manchipp** a **Sonia Kaur**.

Gwnewch nodiadau wrth wrando ar bob clip sain. Yna, mi fydd eich tiwtor yn eich rhannu chi'n grwpiau. Mi fydd pob grŵp yn canolbwyntio ar **un clip**, ac yn meddwl am **ddau gwestiwn** i'w gofyn i weddill y dosbarth am y clip.

Idiom



Cymryd yr awenau

Uned 15 – Amser

Nod yr uned hon ydy...

- Ymarfer defnyddio rhifolion
- Siarad am amser hamdden
- Dysgu geirfa ac idiomau newydd

Geirfa

Aberhonddu	<i>Brecon</i>
cyfrifiadureg	<i>computer science</i>
rhoces(i)	<i>girl(s)</i> (yn sir Benfro)

darlledu	<i>to broadcast</i>
ymgynull	<i>to assemble, to congregate</i>

crynodeb(au)	<i>summary</i> (summaries)
cynhyrchydd (-wyr)	<i>producer(s)</i>
darlledwr (-wyr)	<i>broadcaster(s)</i>
doc(iau)	<i>docks</i>
Gweinidog Addysg	<i>Education Minister</i>
rhediad(au)	<i>a run (runs)</i>
sylwebydd (sylwebwyr)	<i>commentator(s)</i>
tamaid (tameidiau)	<i>bit(s), bite(s), morsel(s)</i>

clòs	<i>close, sultry</i>
coffa	<i>memorial</i>
hynod	<i>remarkable</i>

Hir oes!	<i>A long life! (fel 'lechyd da!')</i>
yr ardegau	<i>the teenage years</i>

Geiriau pwysig i mi

×

×

×


×

Siaradwch - Sut dach chi'n treulio'ch amser?



Ar y siart isod, nodwch faint o'ch amser chi dach chi'n ei roi i'r pethau hyn:

teulu, gwaith, gwaith tŷ, garddio, diddordebau, cymdeithasu, gwaith gwirfoddol, dysgu Cymraeg, astudio, arall.



Rhifau

Llenwch y bylchau – dilynwch yr enghraifft:

Mae Rhys yn ddwy ar bymtheg oed.	Deunaw y flwyddyn nesa!
Mae Nia'n ugain oed. y flwyddyn nesa!
Mae Mali'n dri deg naw. y flwyddyn nesa!
Mae Gethin yn bum deg naw. y flwyddyn nesa!
Mae Gwilym yn saith deg naw. y flwyddyn nesa!
Mae Efa'n naw deg naw. y flwyddyn nesa!

Amser

Yn y blwch, ysgrifennwch gymaint o barau o eiriau â phosib – geiriau sy'n medru cael eu rhoi efo'r gair **amser** i wneud pâr, e.e. amser da.

amser da

Ysgrifennwch yr amseroedd yn llawn, gan ddefnyddio'r **rhifau traddodiadol**:

12:28	8:19
4:40	11:16
9:47	10:18
3:35	2:13

Newidiwch y brawddegau hyn gan ddefnyddio **rhifolion traddodiadol** yn lle rhifolion modern:

1. Mae'r un deg un chwaraewr yn iach ar gyfer y gêm heno.
.....
2. Mi gododd hi am ddau ddeg chwe munud wedi wyth y bore 'ma.
.....
3. Erbyn hyn, dim ond un deg tri o blant sy yn yr ysgol.
.....
4. Mae hi'n edrych ymlaen at ddathlu ei phen-blwydd yn un deg wyth oed yn yr haf.
.....
5. Ar gais aelodau'r clwb, dim ond un deg saith milltir ydy'r daith gerdded eleni.
.....
6. Maen nhw'n dathlu eu pen-blwydd priodas arian eleni – dau ddeg pum mlynedd!
.....

Help llaw – Rhifolion



1 un + Tr. Meddal os ydy'r enw'n fenywaidd	11 un ar ddeg	21 un ar hugain	31 un ar ddeg ar hugain
2 dau + Tr. Meddal / dwy + Tr. Meddal	12 deuddeg	22 dau / dwy ar hugain	40 deugain
3 tri + Tr. Llaes / tair	13 tri / tair ar ddeg	23 tri / tair ar hugain	50 hanner cant
4 pedwar / pedair	14 pedwar / pedair ar ddeg	24 pedwar / pedair ar hugain	60 trigain
5 pump (pum cyn enw)	15 pymtheg	25 pump ar hugain	70 deg a thrigain
6 chwech (chwe cyn enw + Tr. Llaes)	16 un ar bymtheg	26 chwech ar hugain	80 pedwar ugain
7 saith	17 dau / dwy ar bymtheg	27 saith ar hugain	90 deg a phedwar ugain
8 wyth	18 deunaw	28 wyth ar hugain	100 cant
9 naw	19 pedwar / pedair ar bymtheg	29 naw ar hugain	Fel arfer, dan ni'n defnyddio'r dull modern efo rhifau dros 31 sydd ddim yn gorffen efo 0 , e.e. pedwar deg un, pum deg dau, chwe deg tri, saith deg pedwar.
10 deg	20 ugain	30 deg ar hugain	
Os oes enw efo'r rhif, mae'n dŵad ar ôl yr elfen gyntaf , e.e.: 13 diwrnod = tri diwrnod ar ddeg 8:27 = saith munud ar hugain wedi wyth			



Gwranddo – Bwletin Newyddion

Efo'ch partner, parwch y gair newydd byddwch chi'n ei glywed yn y bwletin â'r diffiniad.

crynodeb	Mi fyddwch chi'n gweld llongau yma.
dociau	cwrs coleg
Gweinidog Addysg	Mae cleifion yn mynd yma i wella.
Cyfrifiadureg	Mae'n gweithio yn y llywodraeth.
Aberhonddu	Mae S4C yn gwneud hyn yn Gymraeg.
Ysbyty Coffa	pobol yn dŵad at ei gilydd
darlledu	tref farchnad yn agos i Fannau Brycheiniog
ymgynnull	darn sy'n cynnwys dwy frawddeg yn lle ugain brawddeg

1. Rhowch gylch o gwmpas y geiriau uchod pan fyddwch chi'n eu clywed nhw.
2. Atebwch y cwestiynau hyn am y bwletin newyddion.
 - i. Be fydd yn digwydd yn y ganolfan dechnoleg newydd yn Abertawe?
.....
 - ii. Be achosodd y ddamwain?
.....
 - iii. Pa fath o gêm sy'n digwydd yn Madrid heno?
.....
 - iv. Sut fydd y ras yn helpu'r gymuned leol?
.....

3. Mi fydd eich tiwtor yn rhoi copi o sgrïpt y bwletin i chi. Llenwch y bylchau yn y sgrïpt â'r rhifau cywir.
4. Meddylwch am y gair **ymgynnull**, sydd yn y stori newyddion olaf. Fedrwch chi feddwl am eiriau eraill sy'n dechrau efo **ym-**? Nodwch nhw fan hyn.

Darllen - Iaith y rhifau



(Addasiad o erthygl yn *BBC Cymru Fyw*)

Siaradwch:

- Pwy ydy'ch hoff **sylwebydd** neu **ddarllledwr**?
- Pa raglenni oeddech chi'n mwynhau pan oeddech chi yn eich **arddegau**?

Sut basech chi'n darllen y ffigwr 18 ar lafar – 'deunaw' neu 'un deg wyth'? Beth am 37 – 'dau ar bymtheg ar hugain' neu 'tri deg saith'?

Mae'n debyg mai blaenoriaeth ysgolion Cymru ydy cael plant i ddefnyddio rhifau'n iawn, yn hytrach na'u dysgu i ddweud rhifau mewn ffordd arbennig. Ond oes peryg ein bod ni'n **aberthu** ein traddodiadau am ein bod ni'n chwilio am ffyrdd haws o ddweud rhifau?

Cyfoeth iaith

Roedd John Ifans yn **sylwebydd** chwaraeon i'r BBC, ac mae o'n meddwl bod lle i ddefnyddio'r hen ddull traddodiadol yn y cyfryngau.

"Pan oeddwn i'n sylwebu ar griced a snwcer yn y 60au a'r 70au doedd dim problem o gwbl. Pan oedd chwaraewr snwcer ar ganol rhediad, roedd e'n saith ar bedwar ugain yn aml iawn. Yn Nhregaron, ble ro'n i'n byw, *thirty-seven* oedd e'n aml iawn yn yr 1940au a'r 50au - fyddai neb byth yn dweud tri deg saith, heb sôn am ddau ar bymtheg ar hugain. Ond beth yw rôl y **darllledwr**? Gwneud pwynt o'n i fod cyfoeth iaith i'w gael 'da ni."

laith sy'n hawdd ei deall

Roedd Aled Glynne Davies yn gweithio i Radio Cymru ac yn meddwl bod rhaid gwneud y newyddion yn ddealladwy i gynifer o bobl â phosib.

"Mi ddechreuodd pan o'n i yn fy **arddegau**. Roedd newyddion radio yn Gymraeg ac yn Saesneg o gwmpas yr un o'r gloch. Roedd hyn cyn dyddiau Radio Cymru. A dw i'n cofio'n iawn - er mai Cymraeg oedd fy iaith gynta' i, ro'n i'n dallt y bwletinau Saesneg yn well na'r bwletin Cymraeg. Dw i'n cofio penderfynu fy mod i isio bod yn **newyddiadurwr** – a baswn i wrth fy modd yn sgwennu newyddion mewn iaith roedd pawb yn ei dallt. Dydw i ddim yn meddwl y byddai llawer o bobl sy'n dathlu eu pen-blwydd yn dri deg saith yn deud yn y dafarn leol eu bod nhw'n ddwy ar bymtheg ar hugain mlwydd oed."

Siaradwch: Yn eich grwpiau, nodwch y **tri phwynt pwysica** sy'n codi yn yr erthygl.

1. Heb edrych yn ôl ar y darn darllen, ysgrifennwch **ffurfiau lluosog** y geiriau hyn:

rhif traddodiad ffordd
cyfrwng bwletin dydd

2. Mae John Ifans yn dod o Dregaron yn ne Cymru. Ysgrifennwch **dri pheth** yn ei baragraff sy'n dangos ei fod o'n dod o'r De:

Mae Aled Glynne Davies yn dod o'r Gogledd. Ysgrifennwch **dri pheth** o'i baragraff sy'n dangos ei fod o'n dod o'r Gogledd:

Siaradwch



- Dach chi'n cytuno efo John Ifans neu efo Aled Glynne Davies?
- Be sy'n bwysig wrth ddysgu mathemateg i blant?
- Ddylai oedolion ddysgu'r rhifau traddodiadol o gwbl?
- Mae defnyddio rhifau yn Gymraeg wedi newid efo amser. Dach chi'n gwybod am unrhyw beth arall sy wedi newid yn yr iaith?
- Be sy bwysica i chi wrth ddysgu Cymraeg - medru deud pethau'n gywir neu fagu hyder i sgwrsio?



Gwyllo a gwrando – Yr Hen Galan

Parwch y ddau hanner i'ch helpu chi i ddysgu rhai o'r geiriau newydd y byddwch chi'n eu clywed yn y ffilm.

Hen	bach
cymuned	Galan
rhoces	glòs
tamaid	oes
Hir	fach

Yn y darn, mi fyddwch chi hefyd yn clywed:

"Mae wedi bod **erioed**."

"Dw i'n cwrdd â phobl **sa i** wedi gweld ers blwyddyn."

"**tra hynod**"

Yn 1752, mi ddaeth newid mawr i fywydau pobol Prydain. Roedd rhaid iddyn nhw ddechrau defnyddio Calendr Gregori (*Gregorian Calendar*) yn lle'r Calendr Iwlaidd (*Julian Calendar*). Roedd llawer o bobol yn anhapus am hyn achos eu bod nhw'n colli 11 diwrnod o'r flwyddyn.

Mae pobol Cwm Gwaun yn sir Benfro yn parhau i ddathlu'r **Hen Galan**, sef 13 Ionawr. Hwn ydy diwrnod cynta'r flwyddyn os dach chi'n dilyn y Calendr Iwlaidd.

Mi fyddwch chi'n gwyllo fideo o blant Cwm Gwaun yn dathlu'r Hen Galan trwy fynd o dŷ i dŷ yn canu calennig, sef anrhegion i groesawu'r flwyddyn newydd.

1. Gwrandewch am y geiriau a'r patrymau uchod.

2. Atebwch y cwestiynau hyn am y fideo

i. Faint o'r gloch dechreuon nhw ganu?

ii. Be ydy enw'r fferm y mae'r plant yn ymweld â hi?

iii. Pwy sy'n byw yno?

iv. Be ydy'r **calennig** y mae'r plant yn ei gael?

v. Mae Bessie yn deud ei bod hi wedi rhoi calennig i **22 o blant**. Mi fydd hi'n rhoi calennig i **40 o blant** cyn diwedd y dydd. Ysgrifennwch hyn yn y ffordd draddodiadol.

.....

vi. Yn ôl Bessie, sut roedd yr Hen Galan yn wahanol o'r blaen?

.....

vii. Llenwch y bylchau cyn gwrando ar ran olaf y sgwrs rhwng Yvonne a Bessie unwaith eto.

Yvonne: Beth _____ atgofion chi o'r Hen Galan pan o'ch chi'n rhoes fach?

Bessie: Roedd 'na lawer _____ o drafael o un tŷ i'r _____. Pob man yn yr ardal yn dathlu. Ble _____ 'sech chi'n mynd, 'sech chi'n cael tamaid _____ fwyd, cacen, arian, popeth.


Yvonne: Wel, Bessie. Hir _____!

Siaradwch – Sut oeddech chi'n treulio'ch amser?

Ar y siart isod, nodwch faint o'ch amser roeddech chi'n ei roi i'r pethau hyn ddeg mlynedd yn ôl:

teulu, gwaith, gwaith tŷ, garddio, diddordebau, cymdeithasu, gwaith gwirfoddol, dysgu Cymraeg, chwarae, gwneud gwaith cartref, astudio, arall.

Ydy siâp eich siart chi wedi newid? Pam?



Adolygu Geirfa Uned 15

Gweithiwch efo'ch partner i ddewis y gair cywir i fynd yn y bwlch. Ella bydd angen treiglo.

cyfrifiadureg

Mi astudies i _____ yn y coleg.

Mae angen _____ ar y staff.

cyfrifiaduron

Aberhonddu

Pen y Fan ydy'r mynydd uchaf ym _____.

Tref farchnad ydy _____.

Bannau Brycheiniog

crynodeb

Mi godon ni _____ o bum mil o bunnoedd i Ambiwlans Awyr Cymru.

Doedd 'na ddim amser i ddarllen yr adroddiad yn llawn, felly mi ddarllenes i'r _____.

cyfanswm

rhediad

Mi gaeth y chwaraewr snwcer _____ o gant.

Mi sgoriodd y cricedwr gant o _____ cyn colli ei wiced.

rhediadau

cynhyrchydd

Mi ddiolchodd y _____ i'r staff ym mharti lansio'r llyfr.

Mi ddiolchodd y _____ i gast y ffilm yn y parti lansio.

cyhoeddwr

sylwadau

Dw i'n mwynhau gwyllo'r rygbi ar S4C achos dw i'n hoffi gwrando ar y _____ gwych.

Mae 'na le i adael _____ ar waelod y ffurflen.

sylwebwyr

atgofion

Mae gen i _____ hapus iawn o fynd i gyngherddau pan o'n i'n iau.

Mae'r cyngerdd yn y neuadd _____.

coffa

casglu

Mi fyddwn ni'n _____ bwyd ffres o'r archfarchnad ar gyfer y project rhannu bwyd.

Mi fyddwn ni'n _____ am saith, ac yn bwyta am hanner awr wedi saith.

ymgynnull

fy ardegau

Mi fydda i'n ymddeol pan fydda i'n _____.

Ro'n i'n mynd i glwb ieuenctid bob wythnos pan o'n i yn _____.


trigain

Dach chi rŵan yn medru darllen y llyfr *Cyffesion Saesnes yng Nghymru* (Atebol). Dyma'r clawr a rhan o'r paragraff cynta. Ewch i'ch siop Gymraeg leol neu www.gwales.com.



Ro'n i'n siŵr iawn o gyfeiriad fy mywyd, nes torrodd y *sat nav* ... yn llythrennol. Ro'n i'n bump ar hugain oed, yn joio bywyd fel cynyrchudd teledu.

Idiom



Hir oes!

Uned 16 – Y tro cynta!

Nod yr uned hon ydy...

- Ymarfer defnyddio trefnolion
- Siarad am y tro cynta i chi (neu bobol eraill) wneud rhywbeth
- Dysgu geirfa ac idiomau newydd

Geirfa

ergyd(ion)

blow(s)

achlysur(on)

occasion(s)

corwynt(oedd)

gale(s)

cyfuniad(au)

combination(s)

gwrthrych(au)

object(s)

lddew(on)

Jew(s)

llythrennedd

literacy

trothwy

threshold

**dychwelyd
(i rywle, at rywun)**

to return (to)

dyddio

to date

ffynnu (ar)

to thrive (on)

hiraethu (am)

to long (for)

ymwneud â

*to be concerned
with*

abl

able

arloesol

pioneering

clou

*cyflym (de
Cymru)*

cyflogedig

employed

cyn-derfynol

semi-final

sylfaenol

basic

ymarferol

practical

(y) cyw melyn ola

y plentyn ieuenga yn y teulu

tridiau

tri diwrnod

Geiriau pwysig i mi

×

×

×

×

Siaradwch – Y tro cynta!



Edrychwch ar y syniadau yn y blwch a dewiswch unrhyw **bump** ohonyn nhw i drafod eich profiad personol.

Y tro cynta i mi brynu record neu CD	Y tro cynta i mi gusanu rhywun
Y tro cynta i mi siarad Cymraeg y tu allan i'r dosbarth	Y tro cynta i mi brynu tŷ
Y tro cynta i mi ddarllen llyfr Cymraeg	Y tro cynta i mi brynu car
Y tro cynta i mi gael swydd	Y tro cynta i mi ysmegu
Y tro cynta i mi fynd i'r ysgol	Y tro cynta i mi symud tŷ

Trefnolion



Dyna'r tro cynta i mi fynd yno.
Ro'n i yn yr ail flwyddyn ar y pryd.

Cyfieithwch:

- The third result is good.*
.....
- There is also a second advantage.*
.....
- Go to the fourth entrance on the left.*
.....
- Welcome to the tenth championship!*
.....
- What is the sixth planet from the sun?*
.....
- I'll give you a second chance.*
.....

Atebwch:

Ar ba ddyddiad mae dydd Nadolig?

Ar ba ddyddiad mae dydd Santes Dwynwen?

Ar ba ddyddiad mae Calan Gaeaf?

Os ydy dydd Gwener y Groglith ar yr unfed
ar bymtheg, pryd mae dydd Sul y Pasg?

Os ydy'r cwrs tridiau'n dechrau ar y trydydd,
pryd mae o'n gorffen?

Os dan ni'n mynd ar wyliau am wythnos ar y
deuddegfed, pryd fyddwn ni'n dŵad adre?

Pa ganrif?

1282 y drydedd ganrif ar ddeg.....

1861

1999

1588

2016



Help llaw - Trefnolion

1 cynta(f)	11 unfed ar ddeg	21 unfed ar hugain	31 unfed ar ddeg ar hugain
2 ail	12 deuddegfed	22 ail ar hugain	40 deugeinfed
3 trydydd/trydedd	13 trydydd/trydedd ar ddeg	23 trydydd/trydedd ar hugain	50 hanner canfed
4 pedwerydd/ pedwaredd	14 pedwerydd/ pedwaredd ar ddeg	24 pedwerydd/ pedwaredd ar hugain	100 canfed
5 pumed	15 pymthegfed	25 pumed ar hugain	Os oes enw efo'r trefnolyn, mae'n dŵad ar ôl yr elfen gyntaf , e.e.: yr unfed chwaraewr ar ddeg yr ail ganrif ar bymtheg
6 chweched	16 unfed ar bymtheg	26 chweched ar hugain	
7 seithfed	17 ail ar bymtheg	27 seithfed ar hugain	
8 wythfed	18 deunawfed	28 wythfed ar hugain	
9 nawfed	19 pedwerydd/ pedwaredd ar bymtheg	29 nawfed ar hugain	
10 degfed	20 ugeinfed	30 degfed ar hugain	
Edrychwch ar y patrwm treiglo:			
y bachgen cynta yr ail f achgen y trydydd bachgen y pedwerydd bachgen y pumed bachgen	y f erch g ynta yr ail f erch y d rydedd f erch y b edwaredd f erch y b umed f erch		
<ul style="list-style-type: none"> • Fel arfer, mae treigladd meddal ar ôl enw benywaidd unigol: y ferch gynta. • Mae popeth yn treiglo ar ôl ail: ail lyfr, ail fantais. • Mae'r trefnolyn benywaidd yn treiglo'n feddal ar ôl y/r: y bumed nofel, hi ydy'r gyntaf. • Mae enw benywaidd yn treiglo'n feddal yn dilyn trefnolyn: seithfed flwyddyn, wythfed wers. 			

Gwranddo – Bwletin Newyddion Hanesyddol – Y Tro Cynta!



1. Edrychwch ar y geiriau newydd mewn brawddegau a newidiwch y geiriau sy wedi'u tanlinellu, os ydy hi'n bosib, i siarad am rywbeth sy yn y newyddion rŵan.

Mae seremoni'r cadeirio yn yr Eisteddfod yn **achlysur** arbennig.

Mae busnesau sy'n gwerthu ar-lein yn **ffynnu** ar hyn o bryd.

Mi gaeth **gwrthrych** pwysig ei ddarganfod yn Wrecsam yn ddiweddar.

Mae'r polisiau wedi **dyddio**.

Mi wnaeth gwyddonwyr waith **arloesol** yn ystod pandemig Covid-19.

Roedd **corwynt** mawr yn rhan o storm Barra yn 2021.

2. Llenwch y tabl

Lle? / Pwy?	Be?

3. Cyfieithwch:

four hundred and fifty years

six pounds (£)

the eighteenth century

4. **Siaradwch** – Pa stori yn y bwletin yr hoffech chi wybod mwy amdani hi, a pham?

Darllen – Gadael y nyth am y tro cynta moyn = isio; llefen = crio; trial = trio.



Geirfa:

hiraethu **abl**

Mae miloedd o bobl ifanc yn gadael eu cartrefi i fynd i'r brifysgol a dechrau byw yn annibynnol am y tro cynta bob mis Medi. I'r myfyrwyr, mae'n ddechrau newydd, ond i'r rhieni, mae'n ddiwedd cyfnod ac yn medru bod yn amser emosiynol iawn.



Profiad dwy fam

Mae mab Elin Maher yn mynd i Brifysgol Guilford:

"Fel mam, sydd â'i phlentyn yn mynd am y tro cynta, dw i'n teimlo'n gymysg am y peth. Dyw hwn ddim yn rhywbeth unigryw i fi ond dyma'r tro cynta i fi a phan mae'n dro cynta i rywun, mae'n teimlo'n fwy o beth. Bydda i'n **hiraethu**, ond beth sy bwysica yw gwbod bod Rhys yn mynd i 'neud rhywbeth mae e'n mo'yn 'neud, y bydd e'n hapus, a bydd yn ddechre newydd iddo fe. Mae'r teimlad yna'n gryfach na'r hiraeth. Fydda i ddim yn eistedd gartre yn lfenen y glaw. Dw i'n meddwl 'nôl i fy nyddiau coleg i, roedd rhaid ciwio i ffonio, ond mae technoleg gyda ni erbyn hyn, tecstio, *Facetime*, *Skype*. Dw i'n siŵr y bydd ambell i decst yn dod i gadw Mam yn hapus!"

Mae Sharon Laban o Bontypridd yn fam i ddau sy wedi gadael y nyth.

"Aeth Tomos i'r coleg yn Aberystwyth. Dw i'n cofio ei adael e, ro'n i'n gyffrous drosto ond ro'n i'n poeni tipyn hefyd. Roedd yn dod 'nôl ag atgofion o fy mam a fy nhad yn fy ngadael i ym Mhontypridd pan es i i'r coleg. Do'n i ddim mor *upset* â hynny, achos roedd Rhiannon yn dal i fod gyda ni, ond roedden ni i gyd yn ei golli fe, wrth gwrs. Fe wnaethon ni addasu ac ymdopi'n weddol glou, ond pan aeth Rhiannon i Lundain, hi oedd y plentyn ola i adael y nyth, roedd hynny'n fwy o ergyd. Y cyw melyn ola wedi mynd!

Wrth gwrs roedd e'n newid byd i ni fel rhieni... llai o waith siopa a llai o olch, ond dw i'n meddwl ei bod hi'n bwysig i wŵr a gwraig gael digon o ddi-ddordebau fel bod bywyd yn parhau ar ôl i'r plant adael.

Fel rhiant, rwy't ti'n trial paratoi dy blant i allu sefyll ar eu traed eu hunain. Dw i'n meddwl ei bod hi'n bwysig dysgu sgiliau sylfaenol iddyn nhw, fel sut i agor cyfrif banc a choginio bwyd syml fel *scrambled eggs* a *chilli*. Ro'n i'n gwybod wedyn fod y ddau yn ddigon **abl** i ofalu amdany'n nhw eu hunain."

(Addasiad o erthygl ar wefan *BBC Cymru Fyw*)

Ar ôl darllen y darn:

1. Trafodwch efo'ch partner **dri** pheth mae Elin yn eu teimlo am ei mab yn mynd i ffwrdd.

i.

ii.

iii.

2. I le aeth plant Sharon a sut geisiodd hi eu helpu nhw i ymdopi?

.....

.....

.....

3. Pa eiriau yn y darn sy'n dangos mai o Dde Cymru mae Elin a Sharon yn dŵad?

Siaradwch

Dach chi'n cofio gadael y nyth am y tro cynta, neu oes gynnoch chi, neu'ch teulu a ffrindiau, blant sy wedi gadael y nyth?

Gwyllo a gwrando - Mynd dramor am y tro cynta



Gwrandewch ar Hannah, Gareth ac Efa yn sôn am y tro cynta iddyn nhw fynd dramor a llenwch y tabl:

Enw	Lle?	Pryd?	Un ffaith am y profiad
Hannah			
Gareth			
Efa			

Siaradwch

- Dach chi'n cofio eich taith gynta dramor? Trafodwch y profiad.
- Sut mae teithio dramor wedi newid ers pan oedd eich rhieni chi'n ifanc?


Darllen - Y flwyddyn newydd o gwmpas y byd



Geirfa: Iddewon trothwy

Dan ni'n cysylltu'r flwyddyn newydd efo gwneud pethau am y tro cyntaf, ond hefyd mae 'na rai pethau sy'n cael eu gwneud bob blwyddyn. Dyma bum traddodiad diddorol am bobol yn dathlu dechrau'r flwyddyn mewn ffyrdd gwahanol iawn. Dyfalwch am ba wlad mae pob un o'r paragraffau. Ysgrifennwch enw'r wlad yn y blwch. Dyma'r gwledydd:

Gwlad Thai **Iran** **Israel** **Tsieina** **yr Alban**



1. Rosh Hashanah (pen y flwyddyn) ydy diwrnod cyntaf mis Tishrei, (Medi neu Hydref) yn _____. Pen-blwydd y byd ydy o yn ôl yr **Iddewon**, achos eu bod nhw'n credu mai ar y dydd hwn gaeth y byd ei greu. Mae Iddewon yn mynd i synagog i wasanaeth arbennig ac yn bwyta afalau a mêl er mwyn cael blwyddyn felys.
2. Mae'r flwyddyn newydd yn _____ yn cael ei dathlu ar ddiwedd Ionawr neu ddechrau Chwefror efo lleuad newydd gyntaf y mis ac mae'r wyl yn gorffen efo'r lleuad lawn. Mae'n gyffredin i weld dawnys llewod neu ddraig ar y strydoedd. Mae'n debyg mai dyma pryd mae'r nifer mwyaf o bobol yn teithio drwy'r flwyddyn yn y byd, efo pobol yn mynd i weld eu teuluoedd mewn rhannau eraill o'r wlad.
3. Mae blwyddyn newydd _____ o gwmpas Mawrth 21. Enw'r wyl ydy Nowruz sy'n golygu 'dydd newydd' yn Farsi. Mae bwydydd Persiaidd yn rhan bwysig o'r dathlu, efo saith eitem o fwyd sy'n dechrau â'r llythyren S yn cael eu rhoi ar fwrdd. Hefyd mae'n draddodiadol i rai pethau eraill fod ar y bwrdd, megis blodau arbennig, drych, llyfr a physgodyn aur.
4. Yn _____, mae'n bwysig bod y person cyntaf sy'n croesi **trothwy'r** tŷ ar ôl hanner nos Rhagfyr 31 yn ddyn efo gwallt tywyll, yn cario darn o lo. Am hanner nos mae pawb yn canu'r gân '*Auld Lang Syne*' mewn cylch, ac mae'r parti Hogmanay yn parhau am yn hir wedyn tan oriau mân bore Calan.
5. Yng _____, enw dathliad y flwyddyn newydd ydy Songkran. Mae'n cael ei ddathlu ar y 13eg o Ebrill. Mae'n enwog am ddathliadau efo dŵr – i olchi'r hen flwyddyn i ffwrdd. Maen nhw'n golchi cerfluniau o'r Bwda ond hefyd yn mwynhau taflu dŵr dros ei gilydd mewn partion mawr ar y strydoedd, mewn afonydd ac ar lan y môr.

Ymarfer y dyddiad:

- i. Ar ba ddyddiad mae Tishrei?
.....
- ii. Yn agos at ba ddyddiad mae'r Nowruz?
.....
- iii. Ar ba noson mae pobol yn dathlu yn yr Alban?
.....
- iv. Pryd mae Songkran?
.....
- v. Pa wlad sy'n dathlu ar yr unfed ar ddeg ar hugain o Ionawr?
.....

Idiom



Cyw melyn olaf

Uned 17 – Trefnu Taith

Nod yr uned hon ydy...

- Adolygu
- Trefnu taith
- Dysgu geirfa ac idiomau newydd

Geirfa

caer(au)	<i>fort(s)</i>
cyfradd(au) llog	<i>interest rate(s)</i>
daeargryn(feydd)	<i>earthquake(s)</i>
ymddiriedolaeth(au)	<i>trust(s)</i>
ymerodraeth(au)	<i>empire(s)</i>

darganfod *to discover*

cyflogwr (-wyr)	<i>employer(s)</i>
cynefin(oedd)	<i>habitat(s)/home area(s)</i>
eilydd(ion)	<i>substitute(s)</i>
eithriad(au)	<i>exception(s)</i>
plwyf(i)	<i>parish(es)</i>
trawiad (ar y galon)	<i>heart attack</i>
y Chwyldro Diwydiannol	<i>the Industrial Revolution</i>

archaeolegol	<i>archaeological</i>
elusennol	<i>charitable</i>
Rhufeinig	<i>Roman</i>

Geiriau pwysig i mi

×

×

×

×



Siaradwch

Taflwch y dis a siaradwch am y pwnc.

- | | |
|----------------------|---------------------|
| 1. ffilmiau clasurol | 4. llyfrau diddorol |
| 2. bwyd amrywiol | 5. caneuon bywiog |
| 3. penwythnosau diog | 6. dinasoedd mawr |



Adolygu Geirfa

Defnyddiwch yr ymadroddion hyn i aralleirio'r brawddegau isod:

bwrw golwg dros o ddrwg i waeth hyd yn hyn	bai ar gam torri ar ei draws o yn eich plith chi	galw mawr gorau po gynta	tridiau yn ystod
---	---	-------------------------------------	-----------------------------

- Roedd o'n meddwl mai fi wnaeth y llanast, ond ro'n i'n ddiheuog.
Nid fi wnaeth y llanast; mi ges i
- Mi gyrhaeddodd hi ddydd Mawrth ac mae hi'n ddydd Gwener rŵan.
Mae hi yma ers
- Mae llawer o gyflogwyr yn chwilio am bobol sy â sgiliau technoleg gwybodaeth da.
Mae am weithwyr sy â sgiliau technoleg gwybodaeth da.
- Wnei di ddarllen drwy fy ffurflen gais a deud beth wyt ti'n feddwl?
Wnei di fy ffurflen gais i a deud beth wyt ti'n feddwl?
- Dos mor gynnar â phosibl rhag ofn i ti gael dy ddal yn y traffig.
..... yr ei di er mwyn osgoi'r traffig.
- Mae angen i chi fynd i'r swyddfa heddiw – mae hi ar agor trwy'r bore a'r prynhawn.
Rhaid i chi fynd i'r swyddfa ryw bryd y dydd.
- Mae pobol wedi rhoi £5,000 i Blant Mewn Angen ac mae mwy i ddŵad.
Dan ni wedi casglu £5,000 i Blant Mewn Angen
- Doedd y tîm ddim wedi chwarae'n dda yn yr hanner cynta, ond roedden nhw'n ofnadwy yn yr ail hanner.
Mi aeth perfformiad y tîm ar ôl yr egwyl.
- Gadewch iddo fo orffen siarad cyn i chi ddeud rhywbeth! Mae'r sefyllfa'n chwithig.
Peidiwch â ! Mae'r sefyllfa'n chwithig.
- Dw i'n gwybod bod rhai ohonoch chi'n chwarae pêl-droed rhyngwladol.
Dw i'n gwybod bod pel-droedwyr rhyngwladol.....

Arddodiaid cyfansawdd (e.e. ar ôl, uwchben)

Rhowch ffurfiau cywir yr arddodiaid yn y bylchau.

1. Mae hiliaeth ni ym mhob man. (o gwmpas)
2. Mi fydd adloniant chi gyda'r nos. (ar gyfer)
3. Roedd o'n torri hi drwy'r amser. (ar draws)
4. Mae'r bobol adnabyddus i gyd o. (o blaid)
5. Dim ond henaint sy i erbyn hyn. (o flaen)
6. Mae'r adar yn nythu yn y to ni. (uwchben)

Rhifau

Darllenwch y paragraff am drefnu taith a rhowch y rhifau yn y bylchau.

Mae angen trefnu taith y tîm rygbi i rownd derfynol y cwpan mis nesaf.

Mi fydd _____ (15 players) yn y tîm,

_____ (5 substitutes), a _____ (7 members)

o'r tîm hyfforddi. Felly, dyna gyfanswm o _____

(27). Os cawn ni fws â (45 seats) _____

, mi fydd 'na le i _____ (18 supporters).

Pris y bws fydd _____ (£500). Mi godwn ni

_____ (£17) y pen ar y cefnogwyr, fydd yn cynnwys

tocyn mynediad i'r gêm sy'n costio _____ (£6). Mi fydd y clwb

yn talu dros bawb arall. Dan ni'n lwcus bod y siop bapurau newydd wedi rhoi

_____ (£2,000) i'r clwb eleni.

Trefnolion

Mi drefnodd Dysgu Cymraeg hanner marathon wythnos diwetha a dyma'r

bobol orffennodd yn yr ugain uchaf. Gofynnwch gwestiynau i'ch partner i

lenwi'r tabl. Cofiwch ddefnyddio'r trefnolion, e.e. trydydd, pumed, unfed ar ddeg.

Hanner Marathon Dysgu Cymraeg – Partner A

1 – Aled Davies	2	3 – Owain Roberts	4	5 – Marc Morgan
6	7 – Catrin Haf	8	9 – Siôn Williams	10
11 – Llinos Lloyd	12	13	14 – Geraint Môn	15
16 – Siân Clwyd	17 – Dai Morris	18	19 – Angharad Stephens	20

Hanner Marathon Dysgu Cymraeg – Partner B

1	2 – Dewi Jones	3	4 – Mair Howells	5
6 – Dona Griffiths	7	8 – Ifor Hughes	9	10 – Tomos Hywel
11	12 – Iestyn Brown	13 – Ifan Dafydd	14	15 – Mared Dafis
16	17	18 – Gareth Price	19	20 – Robat Wyn Jones

Geirfa – Gwledydd, Pobol, Iaith ac Ansoddeiriau

Mi fyddwch chi'n gweld y geiriau **Rhufeinig** a **Rhufeiniaid** yn y darn darllen isod. Rhufeiniaid ydy pobol Rhufain, neu'r bobol oedd yn perthyn i **Ymerodraeth Rhufain**. Fel arfer, mae'r enw am bobol sy'n dod o wlad neu genedl yn gorffen efo naill ai **-iaid** neu **-wyr**, mae'r ansoddair sy'n disgrifio rhywbeth sy'n perthyn i'r genedl honno yn gorffen efo **-ig** neu **-aidd** ac mae'r enw ar yr iaith yn gorffen efo **-eg**. Mae nifer o eithriadau, wrth gwrs! Llenwch y bylchau yn y tabl i ddeud pa eiriau sy'n cael eu defnyddio wrth sôn am bobol o'r gwledydd hyn, eu hiaith nhw a phethau sy'n perthyn i'r wlad.

Gwlad/Cenedl	Pobol	Iaith	Pethau
Ffrainc			Ffrenig
Sbaen	Sbaenwyr		
Yr Almaen		Almaeneg	
Gwlad y Basg		Basgeg	
Llydaw			Llydewig
(Unol Daleithiau) America			
Rhufain			



Darllen – Dewch am dro

Mae 'na nifer o eiriau newydd yn y darn darllen. Mae'r geiriau hyn mewn ffont tywyll yn y brawddegau isod. Mae un ffaith anghywir ym mhob brawddeg. Cywirwch y ffeithiau efo'ch partner.

1. Mae o isio **darganfod** mwy am hanes ei deulu o, felly mi eith o i'r archfarchnad yfory.
2. Ar ôl cael **trawiad** ar ei galon, mi dreuliodd fy mhartner i chwe wythnos yn y brifysgol.
3. Mae fy anifail anwes i'n gwneud llawer o waith **elusennol** ers ymddeol.
4. Efo cymorth yr **Ymddiriedolaeth Archaeolegol**, mi wnes i ymchwil ar wrthrychau gaeth eu darganfod yn yr awyr.
5. Mae athro'n gofalu am dair eglwys yn y **plwyf**.
6. Roedd y **ddaeargryn** fwyaf erioed yng Nghymru.
7. Mae 'na glwb nos ym mhob lle sy'n dechrau efo **Caer-**.
8. Mae 'na raglen deledu o'r enw **Cynefin** ar ITV.
9. Mi aeth llawer o bobol i'r Rhondda i weithio yn y pyllau nofio yn ystod y **Chwyldro Diwydiannol**.

Mae Gareth Roberts isio i bawb gael cyfle i gadw'n iach a **darganfod** cyfrinachau hanesyddol eu bro. Er mwyn hybu hyn, mae'n creu mapiau o'i ardal sy'n dangos ddoe a heddiw. Esboniodd Gareth fwy am ei waith a sut ddechreuodd y cyfan:

"Roeddwn yn sâl iawn ar ôl **trawiad** ar y galon. Ond mi wellais a phenderfynais weithio i fod yn heini eto. Gweithiais fel llefarydd i Sefydliad Prydeinig y Galon yng Nghymru, yn annog pobl i fynd allan a cherdded.

"Mi wnes i hefyd ddechrau trefnu teithiau cerdded **elusennol** ar hen lwybrau'r ardal oedd heb gael eu cerdded ers canrifoedd. Efo cymorth yr **Ymddiriedolaeth Archaeolegol**, mi wnes i ymchwilio i'r hen ffordd Rufeinig o Gaernarfon i Gaer, a phenderfynu mai fi fyddai'r person cyntaf i'w cherdded mewn mil o flynyddoedd!

"Oherwydd y gwaith yma, gofynnodd Cyngor Gwynedd i mi greu mapiau cerdded hanesyddol, gan gychwyn efo **plwyf** Llanddeiniolen. Mae'r mapiau yma yn dangos hanes yr ardal o'r cyfnod cyn y **Rhufeiniaid** hyd at heddiw. Maen nhw wedi cael derbyniad da iawn gan y bobol leol.

"Mae Llanddeiniolen yn ardal fawr, o'r Felinheli i Fethel a Rhiwlas ac mae llawer o weddillion archaeolegol i'w gweld. Mae olion **daeargryn** 200 mil o flynyddoedd yn ôl, a hefyd gweddillion 'spa' oedd yn enwog iawn yn oes Victoria, ond sydd rwan yn gasgliad o gerrig yn y goedwig.

"Fel ffotograffydd, dw i'n gweithio i ddangos y llefydd yma heddiw a sut roedden nhw'n wreiddiol. Dw i wedi ail-greu lluniau o Landdeiniolen Oes yr Iâ ac Oes y Rhufeiniaid a dangos sut roedd cromlechi'n edrych.

"Mi gafodd pob tŷ yn yr ardal gopi o'r map o Landdeiniolen ac mi ges i sioc pan glywais fod plant lleol wedi penderfynu mynd am dro i chwilio am yr hanesion ar y map. Doeddwn i ddim yn disgwyl hynny o gwbl. Mae eraill wedi dweud nad oedden nhw'n gwybod bod **caer** yn y cae drws nesa, er enghraifft, a'u bod rwan am fynd allan i ddarganfod eu hanes lleol.

"Dw i wrth fy modd fy mod i'n helpu pobl i ddarganfod eu **cynefin** am y tro cyntaf. Dw i'n trefnu teithiau cerdded efo arweinyddion rŵan hefyd. Mae thema i bob taith, er enghraifft **y Chwyldro Diwydiannol**. Os ydach chi'n awyddus i wneud rhywbeth a fydd yn dda i'ch iechyd chi ac yn eich helpu i ddysgu mwy am hanes yr ardal ar yr un pryd, bydd croeso mawr i chi!"

(Addasiad o erthygl ar wefan *BBC Cymru Fyw*)



Ymarfer




1. Mi fuodd Gareth yn gweithio i Sefydliad Prydeinig y Galon fel llefarydd. Mi fyddwn ni'n clywed yn aml ar y newyddion am rywbeth sy wedi cael ei ddeud "gan lefarydd ar ran" rhyw sefydliad neu fudiad. Gorffennwch y brawddegau isod, gan gysylltu enw'r sefydliad â'r neges:

Dywedodd llefarydd ar ran ...

Heddlu Dyfed-Powys	na fydd Josh Tomos yn ffit ar gyfer gêm nesa'r bencampwriaeth.
Banc Lloegr	y bydd y Gwasanaeth Iechyd yn cael 2% yn fwy o arian y flwyddyn nesaf.
Cymdeithas yr Iaith	fod 600,000 o bobol wedi bod ar gopa'r Wyddfa dros y flwyddyn ddiwethaf.
Undeb Rygbi Cymru	y bydd cyfres ddrama newydd yn cael ei ffilmio ym Machynlleth yn ystod y gaeaf.
Llywodraeth Cymru	eu bod nhw wedi arestio tri dyn yn Aberystwyth neithiwr.
Parc Cenedlaethol Eryri	y dylai'r archfarchnadoedd dalu mwy i ffermwyr am eu llefrith.
S4C	y byddan nhw'n cynnal ymgyrch i gael gwasanaeth Cymraeg gwell gan y banciau.
Undeb Amaethwyr Cymru	na fydd cyfraddau llog yn codi'r mis nesaf.

2. Dach chi'n gwybod be ydy cromlech? Sut mae cromlechi'n edrych (neu sut oedden nhw'n edrych yn hanesyddol)? Tynnwch lun o gromlech yma i'ch helpu chi i'w disgrifio hi:



3. Siaradwch:

- Dach chi'n nabod eich cynefin chi ac yn gwybod hanes yr ardal?
- Oes gweddillion neu olion hanesyddol ger eich cartref chi?
- Dach chi'n cerdded llawer? Oeddech chi'n cerdded llawer yn ystod cyfnodau clo COVID-19?
- Dach chi'n fwy tebygol o gerdded yn agos at gartref neu'n bellach i ffwrdd?
- Dach chi'n cerdded efo grŵp ffurfiol, ar eich pen eich hun neu efo teulu/ffrindiau?

Gwyllo a gwrando - Trefnu teithiau cerdded



Edrychwch ar y darn fideo a nodwch be mae'r siaradwr yn awgrymu ydy'r pethau pwysicaf i'w cofio wrth drefnu taith.

1.
2.
3.

Ydy'r math o deithiau sy'n cael eu trafod yn y fideo yn apelio atoch chi?

Mae Derec Stockley yn sôn sawl gwaith am Gymdeithas Edward Llwyd yn y darn. Mae'r Gymdeithas yn trefnu teithiau cerdded bob dydd Sadwrn. Dyma gyfeiriad y wefan i chi ddysgu mwy: <https://cymdeithasedwardllwyd.cymru/>. Mae ymuno â thaith yn ffordd wych o ymarfer eich Cymraeg chi.

Siaradwch



Meddyliwch am daith gofiadwy y buoch chi arni hi efo grŵp o bobol. Trafodwch:

- Taith i le oedd hi?
- Pwy oedd ar y daith a sut deithioch chi?
- Be weloch chi a/neu be wnaethoch chi?
- Wnaethoch chi fwynhau?
- Dach chi'n cofio faint gostiodd y daith?
- Wnaethoch chi unrhyw waith rheoli risg cyn y daith?

Deialog

Cymerwch un o rannau'r ddeialog a'i hymarfer efo'ch partner. Ar ôl ymarfer, ceisiwch ailadrodd cymaint ag sy'n bosib heb edrych ar y sgript! Wedyn, ewch drwyddi eto gan newid y rhannau sy wedi eu tanlinellu.

Mari: Hei Huw! Dw i isio siarad efo ti. Mae'n amser i ni drefnu trip Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6.

Huw: Wel, wel, mae'r amser yna o'r flwyddyn wedi dŵad eto – mae'r wythnosau yn mynd heibio yn gynt ac yn gynt bob blwyddyn!

Mari: Ydyn wir, a'r blynyddoedd yn mynd heibio hefyd! Beth bynnag, yn ôl at y trefniadau – wyt ti'n hapus i ni drefnu ar gyfer y ddau ddsbarth efo'i gilydd eto?

Huw: O ydw, mae'n arbed gwaith i'r ddau ohonon ni – mi fasai rhaid i mi wneud dwywaith cymaint o waith taswn i'n trefnu ar fy mhen fy hun.

Mari: Mi fasai'r gost yn uwch hefyd, efo hanner y seddi ar y bws yn wag. Reit, i le awn ni eleni 'ta? Dyma'r penbleth blynyddol.

Huw: Ia, dw i ddim yn siŵr. I le aethon ni'r llynedd, dwed?

Mari: I'r Amgueddfa Lechi, ac mi aethon ni yno dair blynedd yn ôl hefyd. Dw i ddim isio mynd yno am y trydydd tro.

Huw: Na, na finnau chwaith. Be am Alton Towers?

Mari: O na, mi fydd y plant yn mynd yn wyllt yno. Mi fasai'n well gen i ymweld â rhywle mwy addysgiadol.

Huw: Mi fedren ni fynd i'r Llyfrgell Genedlaethol 'ta – mi fyddan nhw'n ddistawach yn fan 'na!

Mari: Hmmm, ychydig bach yn rhy ddistaw, ella, ac mi fassen nhw'n fwy gwyllt ar y bws wedyn!

Huw: Pwynt da. Oes gen ti unrhyw syniadau 'ta?

Mari: Nac oes, ond dyma'r chweched trip i mi efo Blwyddyn 6 ac mi hoffwn i fynd i rywle gwahanol y tro 'ma.

Huw: Be am ofyn i'r plant 'ta – ella byddan nhw'n medru meddwl am rywle da.

Mari: Syniad da – mi ofynna i i Flwyddyn 6 y prynhawn 'ma a gofynna di i Flwyddyn 5. Os bydd gynnyn nhw lawer o syniadau, mi fedrwn ni fod yn ddemocrataidd a gofyn iddyn nhw bleidleisio.

Huw: Dyna ni 'ta, dyna hynny wedi'i setlo!

Trefnu taith y dosbarth

”

- Pa fath o daith dach chi am ei threfnu?
- I le dach chi am fynd a phryd?
- Sut dach chi isio teithio?
- Oes angen bwcio tocynnau i rywle?
- Oes angen trefnu bwyd? Oes angen bwcio ymlaen llaw?
- Faint fydd y daith yn ei gostio?
- Penderfynwch pwy sy'n gyfrifol am bob agwedd ar y trefniadau, am gysylltu ag unrhyw leoliad, cwmni bws/teithio ac ati, ac am gadarnhau'r manylion.

Idiom



Bai ar gam

Uned 18 – Does 'na nunlle'n debyg i adre...

Nod yr uned hon ydy...

- Dysgu pryd i ddefnyddio **y** efo'r cymal enwol
- Trafod cartrefi o bob math
- Dysgu geirfa ac idiomau newydd

Geirfa

clicied(au) *catch(es),
latch(es)*

gast (geist) *bitch(es)*

bawd (bodiau) *thumb(s)*

bod(au) dynol *human being(s)*

bwa (bwâu) *arch(es)*

bwriad(au) *intention(s)*

cleient(iaid) *client(s)*

gwneuthurwr (-wyr) *manufacturer(s)*

mwythau *hugs, caresses*

camu *to step*

cysuro *to comfort*

anghysbell *remote*

clyd *cosy*

cyfyng *confined*

gaeafol *wintry*

rhwydd *hawdd*

teilwng *deserving,
worthy*

ben bore (y) peth cyntaf yn y bore

Geiriau pwysig i mi

×

×

×

×

Siaradwch - Be sy yn y newyddion?



--	--	--	--	--	--

Yng Nghymru	Ym Mhrydain	Yn y byd
--------------------	--------------------	-----------------

Be sy yn y newyddion?

Y cymal enwol

Deialog

- A:** Rwy't ti'n ôl yn gynnar! Be sy'n bod? Pam rwy't ti'n edrych arna i fel yna?
Rwy't ti'n edrych yn syn!
- B:** Ro'n i'n meddwl (y) baset ti wedi tacluso tra o'n i allan.
- A:** Paid â siarad lol. Oes angen tacluso?
- B:** Wrth gwrs bod angen tacluso! Edrycha ar y llestri ym mhob man!
- A:** Do'n i ddim wedi sylwi. Ella (y) dylet ti fod wedi gofyn i mi...
- B:** Do'n i ddim yn meddwl bod angen gofyn. Be wyt ti wedi bod yn wneud?
- A:** Ymlacio. Mae gen i hawl i ymlacio ar ddydd Sadwrn, toes? Dw i ddim yn meddwl (y) ca i funud i mi fy hun wythnos nesa. Mae hi fel ffair yn y gwaith ar hyn o bryd.
- B:** Nac oes, does gen ti ddim hawl i ymlacio pan fydd blerwch fel hyn yn y tŷ. Roeddet ti'n meddwl (y) baswn i'n tacluso ar dy ôl di, toeddet?
- A:** Nac o'n i wir! Ond mi a' i i dacluso rŵan. Wyt ti'n meddwl y byddi di'n hapus wedyn?

Help llaw - 'y' efo'r Cymal Enwol



Dan ni'n defnyddio **bod** i ffurfio'r cymal enwol efo'r **amser presennol**, y **perffaith** (wedi), yr **amherffaith** (roedd) a'r **gorberffaith** (roedd wedi), e.e.

Dw i'n meddwl **ei bod hi'n** athrawes wych.
Roedd o'n meddwl **ei fod o** wedi cael bargaen.

Efo'r **dyfodol** a'r **amodol**, dan ni'n defnyddio **y** i gysylltu dau hanner y frawddeg, e.e.

Mae o'n meddwl **y bydd o'n** cael lifft Dw i'n meddwl **y dylet ti** fynd adre.

Mae o'n meddwl **y ceith o'r** swydd.

Dw i'n meddwl y **medrwn i** newid olwyn car.

Ro'n i'n gwybod **y basech chi'n** ennill.

Mae **y** yn troi'n **yr** o flaen llafariad, e.e.:

Dw i'n gobeithio **yr eith o** adre cyn bo hir.

Does 'na ddim treigladau ar ôl **y**.

Dydy pobol ddim bob amser yn deud **y** wrth siarad, ond mae **y** yn gyffredin iawn wrth ysgrifennu.

Ymarfer



Llenwch y bylchau yn y golofn ar y dde. Yna, gwnewch yr ymarfer efo'ch partner, heb edrych ar y papur.

Dy fai di ydy o.

Dw i'n meddwl y dylwn i ymddiheuro.

Fy mai i ydy o.

Dw i'n meddwl y dylet ti ymddiheuro.

Ei fai o ydy o.

Dw i'n meddwl ymddiheuro.

Ei bai hi ydy o.

Dw i'n meddwl ymddiheuro.

Ein bai ni ydy o.

Dw i'n meddwl ymddiheuro.

Eu bai nhw ydy o.

Dw i'n meddwl ymddiheuro.

Cysylltu cymalau

Cysylltwch y ddau gymal i greu brawddeg yn y **dyfodol** neu'r **amodol**. Mae'r un cyntaf wedi ei wneud i chi.

Y Dyfodol

1. Mi ddudodd y tiwtor + ni + sefyll arholiad yn yr haf.

Mi ddudodd y tiwtor y byddwn ni'n sefyll arholiad yn yr haf.

2. Dw i'n meddwl + fi + ymlacio dydd Sadwrn.

3. Gobeithio + chi + hapus yn eich cartref newydd.

4. Mae hi'n siŵr + hi + talu'r biliau'n uniongyrchol i'r cwmni.

Yr Amodol

1. Ella + ti + tacluso'r garej.
Ella y dylet ti dacluso'r garej.

2. Maen nhw'n meddwl + nhw + symud i fyw mewn byngalo.
.....

3. Dw i'n meddwl + ti + peintio'r gegin yn las.
.....

4. Mae o'n meddwl + fo + cadw pawb hyd braich.
.....

Efo'ch partner, meddyliwch am ymatebion i'r brawddegau hyn gan ddefnyddio **y + bydd/dylai**, e.e.:

1. Maen nhw wedi colli'r bws. Dw i'n meddwl y dylen nhw ffonio am dacsî.

2. Sut fydd y tywydd fory?
.....

3. Dw i ddim yn siŵr lle i fynd ar fy ngwyliau i eleni.
.....

4. Mae 'na lawer o chwyn yn yr ardd.
.....

5. Wyt ti'n meddwl y byddi di'n byw yn y fflat yma am dipyn?
.....

Y tro yma, newidiwch y **ferf**:

1. Wyt ti wedi gweld Dai yn ddiweddar? Dw i'n siŵr y gwela i fo fory.
2. Wyt ti wedi ffonio Dai yn ddiweddar?
3. Wyt ti wedi siarad efo Dai yn ddiweddar?
4. Wyt ti wedi talu Dai yn ddiweddar?

Y tro hwn, rhaid penderfynu oes isio **bod** neu **y**. Unwch ddau hanner y brawddegau:

1. Maen nhw'n deud mi fydd cyfraddau llog yn codi'r mis nesa.
.....
2. Diolch byth rwyt ti wedi galw ar yr adeg iawn.
.....
3. Mi ddudodd hi roedd hi'n bwriadu astudio cyfrifiadureg.
.....
4. Ro'n i'n gobeithio basai'r elfennau gwahanol yn dŵad at ei gilydd.
.....
5. Maen nhw'n sicr mi fydd pobol yn heidio yn eu miloedd.
.....
6. Y newyddion da ydy dw i'n mynd i'r Wladfa ar wyliau.
.....

Cyfieithwch:

1. *I heard that he lives in a remote cottage.*
.....
2. *They think there will be an earthquake in the area.*
.....
3. *The doctor said that she has had a heart attack.*
.....
4. *He was hoping there would be a strong community in the parish.*
.....

5. *I'm sure I'll wear the dress again on a special occasion.*

.....

6. *I know that a balanced diet is important.*

.....

7. *I'm sure he'll work in a scientific field.*

.....

8. *The children are afraid of the teacher because he has a rough voice.*

.....

9. *He said that it would be an honour.*

.....

10. *Of course I'm level-headed.*

.....

Gwyllo a gwrando



Mi fyddwch chi'n gwyllo rhan o'r rhaglen *Adre*, lle mae Nia Parry yn ymweld â chartref y bardd Aneirin Karadog ym Mhontyberem yn Sir Gaerfyrddin. Mi enillodd o'r gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Sir Fynwy yn 2016.

1. Mae Aneirin yn fardd ac felly mi fyddwch chi'n clywed nifer o eiriau o fyd llenyddiaeth.

Be dach chi'n feddwl ydy:

cadair farddol

lolfâ lôn

cynganeddu

2. Yn y clip, mi fyddwch chi'n gweld Nia ac Aneirin yn mynd i edrych ar y golygfeydd hyfryd o ardd Aneirin. Mi fyddwch chi'n clywed **Mae hi braidd yn aeafol**. Dan ni'n defnyddio **braidd** efo ansoddeiriau i gyfieithu *rather*.

Sut mae deud?

rather touchy

rather cold

rather tired

3. Mae'r geiriau newydd yma hefyd yn codi yn y darn:

cyfyng gwneuthurwr mwythau cleientiaid bwriad

Gwrandewch am y geiriau yma y tro cynta byddwch chi'n gwylio'r fideo.

4. Atebwch y cwestiynau.

i. Pa fath o fwrdd sy gynnyn nhw? Pam?

.....

ii. Be mae Laura, gwraig Aneirin, yn ei wneud yn y lolfa?

.....

iii. Be ydy canolbwynt y lolfa?

.....

iv. I ba gyfeiriad mae'r ardd yn wynebu? Be sy'n dda am hynny?

.....

v. Yn ôl Sisial, merch Aneirin a Laura, pwy sy ddim yn cael eistedd yn y gadair farddol?

.....

vi. Pa fath o offer sy mewn bocsys yn swyddfa Aneirin?

.....

vii. Pa fath o lyfrau ydy rhai Laura?

.....

viii. Be sy ar y poster yn swyddfa Aneirin?

.....

5. Nesaf, gwyliwch ran o'r fideo eto a llenwch y bylchau.

Nia: Felly, yr _____ mae rhywun yn cerdded mewn, mae rhywun yn gweld mai _____ ydy hwn. Y pethau plant, y calendr. Pethau sydd angen i blant os, ynde! A wedyn be sy gynnnon ni? Pa _____?

Aneirin: Dyma'r _____. Mae sgidiau mwdlyd o fod yn cerdded y _____ fan 'na. A wedyn drwodd fan 'na mae'r gegin, sy'n eitha _____, ond jyst yn ddigon mawr i ni allu _____.

Nia: Be ydy'r _____ yna o dan y...?

Aneirin: Mae'n _____. Mae cadair yr Urdd fan hyn. Peidiwch â dweud wrth y _____. Mae'n mynd i gael lle teilwng ond ar y foment mae'n dal pethau yn eu lle ac yn glyd o dan y _____.

Siaradwch


”

	Cwestiwn	Enw
	Pwy sy'n byw mewn hen dŷ?	
	Pwy sy wedi syrthio mewn cariad â thŷ neu adeilad o'r blaen?	
	Pwy oedd yn treulio amser o ben bore tan ddiwedd p'nawn yn chwarae ac yn crwydro tu allan pan oedd o neu hi'n blentyn?	
	Oes gan rywun gi? Neu oedd gan rywun gi pan oedd o neu hi'n blentyn?	
	Oes gan rywun ddrws neu ddrysau lle mae angen rhoi bawd ar y glicied i agor y drws?	
	Oes rhywun yn defnyddio cerddoriaeth fel ffordd o'i gysuro ei hun neu o'i chysuro ei hun?	
	Oes gan rywun dân?	
	Oes 'na rywun wedi camu i mewn i adeilad a chael sioc?	
	Pwy fasai'n hoffi byw mewn lle anghysbell, heb unrhyw fodau dynol o'i gwmpas o neu o'i chwmpas hi?	

Darllen



Addasiad o *Yn y Tŷ Hwn* gan Siân Northey



Ar ei phen ei hun roedd hi y tro cyntaf iddi weld Nant yr Aur, plentyn un ar ddeg oed, braidd yn unig, ychydig yn rhamantus, yn crwydro ar ei phen ei hun efo'i chi. Roedd ganddi ddarlun clir yn ei meddwl o Meg, yr **ast** goch, yn rhedeg i lawr at yr afon. Yr adeg honno crwydrai Anna ar ei phen ei hun o **ben bore** tan ddiwedd pawns heb neb yn poeni amdani.

Ac fe welodd hi'r tŷ gwag, ymhell o bob man. Eisteddodd wrth y drws yn bwyta'i brechdan gaws gan deimlo mai hi oedd ei berchennog.

Hyd yn oed yn ei harddegau, byddai'n crwydro yno pan fyddai pethau'n ddrwg gartref. Roedd Meg yn rhy hen i ddod efo hi, ac yn hytrach na bwyta brechdan gaws, byddai'n mwynhau sigarét dawel a gadael i'r tŷ ei **chysuro**. Welodd hi neb arall yno erioed. Efallai mai dyna pam roedd hi mor **rhwydd** meddwl mai hi oedd perchennog Nant yr Aur.

Roedd drws Nant yr Aur yn un llydan, a cherrig yn **fwa** uwch ei ben. Cerddodd yn syth ato. Rhoddodd ei **bawd** ar y **glicied** a gwthio. Ac am y tro cyntaf erioed, fe agorodd y drws, yn llydan agored. Doedd dim amser i ailfeddwl. Ystafell wedi'i haddurno'n syml iawn, a thân coed yn y pen – ystafell heb 'run **bod dynol** ynddi. **Camodd** i mewn.

© y testun Siân Northey

Yn y Tŷ Hwn (Gwasg Gomer, 2011)

Diolch yn fawr i Siân Northey am ei chaniatâd i addasu rhan o'i nofel.

1. Heb edrych yn ôl, ceisiwch gofio pa air sy'n dilyn y geiriau yma yn y darn:

darlun

brechdan

sigarét

tân

2. Efo'ch partner, ffeindiwch y cyfieithiad Cymraeg i'r geiriau hyn:

from early morning to late afternoon

rather than

She never saw anyone else there.

wide open

Idiom



Ben bore

Uned 19 – Cerddoriaeth

Nod yr uned hon ydy...

- Defnyddio pwyslais efo'r cymal enwol
- Trafod cerddoriaeth o bob math
- Dysgu geirfa ac idiomau newydd

Geirfa

allweddell(au) *keyboard(s)*

anelu (at) *to aim for*

bodoli *to exist*

dosbarthu *to distribute,
to deliver; to
classify*

gwireddu *to realise*

ysbrydoli *to inspire*

trydanol *electric,
electrical*

curiad(au) *beat(s)*

gweithdy (gweithdai) *workshop(s)*

lleisydd (lleiswyr) *vocalist(s)*

paratoad(au) *preparation(s)*

**soddgrwth
(soddgrythau)** *cello(s),
violoncello(s)*

tant (tannau) *string(s)*

**tiwniwr (tiwnwyr)
piano** *piano tuner(s)*

uchelfan(nau) *peak(s), height(s)*

chwa o awyr iach *a breath of fresh air*

ochr yn ochr *side by side*

Geiriau pwysig i mi

×

×

×

×



Adolygu 'y' efo'r cymal enwol

Gweithiwch efo'ch partner.

- Edrychwch ar y gweithgareddau yn y blwch isod.
- Penderfynwch (yn unigol) pa weithgaredd yr hoffech chi fynd iddo, a rhowch gylch o'i gwmpas.
- Yna, fel pâr, rhaid i chi ddyfalu pa weithgaredd yr hoffai pob aelod arall o'r dosbarth fynd iddo, a chreu brawddegau gan ddefnyddio **y** efo'r cymal enwol, e.e. 'Dan ni'n meddwl y basai XX yn dewis mynd i gyngerdd clasurol'.
- Mi fydd y tiwtor yn holi i weld pa weithgaredd yr hoffai pob aelod o'r dosbarth fynd iddo. Mi fyddwch chi'n cael pwynt am bob ateb cywir. Pob lwc!

opera	cyngerdd roc trwm mewn stadiwm	sesiwn werin yn y dafarn
sioe gerdd	cyngerdd band pres	ymarfer côr recorders
cyngerdd clasurol	cyngerdd band pop	cyngerdd côr meibion
dawnsio mewn clwb nos		

Siaradwch – Dangoswch eich hoff albwm neu lun o'ch hoff artist cerddorol. Pam mae'r albwm neu'r artist yn bwysig i chi?



Pwyslais efo'r Cymal Enwol

Sam ydy o/hi.

Dw i'n gwybod mai Sam ydy o/hi.

Dw i'n gwybod bod Sam yn nyrs.

Dw i'n gwybod mai nyrs ydy Sam.

Dw i'n gwybod mai nyrs oedd Sam.

Deialogau

A: Be oedd dy hoff raglen deledu pan oeddet ti'n blentyn?

B: Mi faswn i'n deud mai *Top of the Pops* oedd hi.

A: *Top of the Pops*! Be ydy dy oedran di?!

A: Be oedd dy hoff bwnc di yn yr ysgol?

B: Mae'n anodd deud ond dw i'n meddwl mai cerddoriaeth oedd o.

A: Cerddoriaeth! Dwyt ti ddim yn medru canu dau nodyn mewn tiwn!

Ymarfer

Unwch ddau hanner y brawddegau hyn.

1. Ella + fo ydy drymiwr y band.
Ella mai fo ydy drymiwr y band.

2. Dw i'n sicr + yng Nghanolfan y Mileniwm mae'r cyngerdd.

3. Dw i'n sicr + mae'r gêm yn Stadiwm y Mileniwm.

4. Mae o'n deud + mae John yn ysgrifennu alaw newydd.

5. Mae o'n deud + am naw o'r gloch mae'n rhaid iddo fo adael.

6. Dw i'n gobeithio + dyma'r gân olaf am heno.

7. Dw i'n gobeithio + mi fyddan nhw'n canu eu sengl newydd.

8. Dw i'n clywed + Erin ydy'r arweinydd heno.

9. Dw i'n clywed + mae Erin yn arwain y côr heno achos bod Bethan yn sâl.

10. Mae'n debyg + mae pobol yn dŵad i'r cyngerdd o bedwar ban y byd.

Llenwch y bylchau hyn a siaradwch am eich atebion â'ch partner:

1. Dw i'n meddwl mai ydy
un o fy hoff gantorion.
2. Dw i'n sicr mai ydy
un o fy hoff ganeuon erioed.
3. Dw i'n meddwl mai
oedd fy hoff grŵp pan o'n i yn yr ysgol.
4. Dw i'n meddwl mai
ydy un o'r lleoliadau gorau ar gyfer cyngerdd yng Nghymru.

Dewiswch gyfnod a thrafodwch: Dw i'n meddwl mai cerddoriaeth y 50au/60au/70au/80au/90au/00au/presennol ydy'r gerddoriaeth orau.

Cwis Gwrando

Mi fyddwch chi'n gweithio mewn timau. Rhaid i chi ddyfalu be ydy'r 10 offeryn sy'n cael eu chwarae. Adroddwch yn ôl i'r dosbarth yn defnyddio **mai**, e.e. 'Dan ni'n meddwl mai piano ydy o'. Pob lwc!

Help llaw – PWYSLAIS efo'r Cymal Enwol

Yn Uned 18, mi wnaethon ni ymarfer defnyddio **y** efo'r cymal enwol. Rŵan dan ni'n ymarfer pwyslais efo'r cymal enwol.

Edrychwch ar y brawddegau hyn:

Mae Gwen yn gantores opera.	DIM PWYSLAIS
Cantores opera ydy Gwen.	PWYSLAIS
Dw i'n gwybod bod Gwen yn gantores opera.	DIM PWYSLAIS
Dw i'n gwybod mai cantores opera ydy Gwen.	PWYSLAIS

Dan ni'n defnyddio'r gair **mai** i gysylltu dau hanner y frawddeg, a **does dim** angen newid yr ail hanner.

Does dim treigladau ar ôl **mai**.



Darllen



O'r chwith i'r dde: Richard Lloyd (gitâr flaen), Geraint Evans (drymiau), Dafydd Evans (gitâr fas); Maldwyn Pate (prif leisydd) a Dave Williams (allweddellau).
Llun: Alcwyn Evans

Pwy oedd Y Blew?

Darllenwch y pedair brawddeg nesaf i ddysgu pedwar gair neu ymadrodd (*phrase*) newydd ac i ddysgu pedwar peth am Y Blew cyn darllen yr erthygl.

Roedden nhw'n **bodoli** am wyth mis.

Grŵp roc **trydanol** oedden nhw.

Roedden nhw'n **dosbarthu** llawer o daflenni i hysbysebu.

Roedd rhai pobol yn meddwl eu bod nhw'n **chwa o awyr iach**.

Dim ond un sengl recordion nhw, a dim ond am 8 mis yn 1967 roedden nhw'n **bodoli**. Serch hynny, maen nhw'n fand pwysig iawn yn hanes cerddoriaeth Gymraeg. Pam? Wel, maen nhw'n dweud mai nhw oedd y grŵp roc trydanol cyntaf i ganu yn Gymraeg.

Pump o fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth oedd aelodau'r band.

Ar ôl eu gigs llwyddiannus yn ardal Aberystwyth, aethon nhw ati i drefnu 50 o gigs o gwmpas de Cymru. Yn wahanol i fandiau Cymraeg eraill y cyfnod, roedd agwedd broffesiynol iawn ganddyn nhw. Gwarion nhw lawer o arian ar offer a hysbysebu. Prynnon nhw fan roedden nhw'n ei galw'n 'Blewfan' a **dosbarthu** miloedd o daflenni'n dweud "Mae'r Blew yn dod!".

Daeth llawer o bobl i weld y ffenomen newydd yma. Ar ôl un gig roedd merched wedi ysgrifennu negeseuon mewn lipstic dros y 'Blewfan'.

Recordiodd y band eu sengl – 'Maes B' – yn haf 1967. Mi chwaraeon nhw yn yr Eisteddfod yn Y Bala yr haf hwnnw hefyd. Doedd 'na ddim lle i gynnal gigs yn yr Eisteddfod bryd hynny ac mi berfformiodd Y Blew yn Y Babell Lân! I rai, roedd y perfformiad fel **chwa o awyr iach** yn yr Eisteddfod ond i eraill roedd hi'n sgandal.

Yn 1997, aeth yr Eisteddfod yn ôl i'r Bala ac roedd llawer o sôn am Y Blew ac Eisteddfod 1967. Penderfynwyd galw'r ardal newydd i bobl ifanc yn 'Maes B'. Ers hynny mae Maes B wedi denu cannoedd o bobl ifanc bob blwyddyn i fwynhau cerddoriaeth roc yn Gymraeg.

1. Ar ôl darllen yr erthygl, edrychwch ar y brawddegau yma efo'ch partner a deud 'Dw i'n meddwl mai...' os ydy'r frawddeg yn wir, neu 'Dw i ddim yn meddwl mai...' os ydy'r frawddeg ddim yn wir. Er enghraifft:

Band gwerin oedd Y Blew. = > Dw i ddim yn meddwl mai band gwerin oedd Y Blew.

- i. Yn y Bala roedd yr Eisteddfod yn 1967.
 - ii. Pedwar o aelodau oedd yn y grŵp.
 - iii. Un record wnaeth Y Blew.
 - iv. 'Chwa o awyr iach' oedd barn pawb am Y Blew yn yr Eisteddfod.
 - v. Maes X ydy enw'r ardal i bobl ifanc yn yr Eisteddfod Genedlaethol.
2. Enwau benywaidd ydy **cerddoriaeth** a **cân**. Cofiwch fod ansoddair yn treiglo'n **feddal** ar ôl enwau benywaidd. Felly, be ydy:

folk song *good song*
classical music *different music*
sad song *popular music*

Siaradwch:

- Dach chi'n gwranddo ar unrhyw gerddoriaeth Gymraeg?
- Dach chi'n gwranddo ar gerddoriaeth mewn ieithoedd eraill?
- Pa mor bwysig ydy iaith caneuon i chi?





Gwyllo a gwrando 1

Mi fyddwch chi'n gwyllo fideo am fachgen o'r enw Gwydion Rhys a gaeth ei ddewis i arwain Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC yng ngŵyl 'Proms yn y Parc' rai blynyddoedd yn ôl.

1. Mae saith o eiriau neu ymadroddion newydd yn y darn:

**tant curiad paratodau gweithdy ochr yn ochr soddgrwth
anelu am yr uchelfannau**

Faint o'r geiriau hyn sy'n perthyn i thema **cerddoriaeth**? Ysgrifennwch nhw yn y blwch:

Geiriau/ymadroddion sy'n perthyn i fyd cerddoriaeth	Geiriau/ymadroddion cyffredinol

2. Rhowch y rhifau cywir (mewn geiriau) yn y bylchau.

- i. Hwn oedd yr fed tro i wyl 'Proms yn y Parc' gael ei chynnal.
- ii. Roedd Gwydion Rhys yn oed ar y pryd.
- iii. Mae o bobl wedi gwyllo'r fideo ar y we.

3. Atebwch y cwestiynau hyn:

- i. Pam doedd Gwydion Rhys ddim isio arwain y gerddorfa i ddechrau?

- ii. Be mae'r Proms yn ei wneud, yn ôl Anwen Rees?

- iii. Be oedd prif ddiddordeb Gwydion Rhys ar y pryd?

- iv. Pa offerynnau mae o'n eu chwarae?

Siaradwch

”

- Oeddech chi'n chwarae offeryn pan oeddech chi'n fengach?
- Oedd gynnoch chi hobi neu ddiddordeb dach chi ddim yn ei ddilyn erbyn hyn? Pam mae hynny?
- Dach chi'n difaru rhoi'r gorau i unrhyw hobi?

Gwyllo a gwrando 2



Gwylwch y fideo yma o Kizzy Crawford yn siarad am ei cherddoriaeth, a'i fersiwn hi o'r gân werin Gymraeg, 'Dafydd y Garreg Wen'.

1. Lle gaeth Kizzy Crawford ei magu?

.....

2. Ar ba fath o gerddoriaeth roedd hi'n gwrando pan oedd hi'n ifanc?

.....

3. Be ysbrydolodd hi i gyfansoddi caneuon?

.....

4. Sut ddysgodd hi 'Dafydd y Garreg Wen'?

.....


5. Pam roedd hi'n hoffi fersiwn Bryn Terfel o'r gân?

.....

6. Beth roedd hi isio ei wneud yn ei fersiwn hi?

.....

Idiom



Ochr yn ochr

Uned 20 – Fi ydy'r person gorau i'r swydd!

Nod yr uned hon ydy...

- Defnyddio pwyslais mewn brawddegau
- Siarad am fyd gwaith
- Dysgu geirfa ac idiomau newydd

Geirfa

archif(au) *archive(s)*

cenhinen (cennin) *daffodil(s)*

Pedr

cynhadledd (cynadleddau) *conference(s)*

desg (desgiau) *enquiry desk(s)*

ffedog(au) *apron(s)*

Gwlad Pwyl *Poland*

prentisiaeth(au) *apprenticeship(s)*

tystysgrif(au) *certificate(s)*

cymhwyster (cymwysterau) *qualification(s)*

cynorthwydd (-wyr) *assistant(s)*

datblygiad(au) *development(s)*

hylendid *hygiene*

labordy (labordai) *laboratory (-ies)*

morgais (morgeisi) *mortgage(s)*

nawddsant *patron saint*

saer (seiri) *carpenter(s)*

ymgeisydd (ymgeiswyr) *candidate(s)*

diogelu *to protect,
to safeguard*

tanlinellu *to underline*

ymddwyn *to behave*

uchelgeisiol *ambitious*

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Additional Learning Needs

am y tro *for the time being*

ar fy liwt fy hun *freelance*

credwr cryf *a great believer*

llawn cystal *just as good, equal to*

parti plu *hen party*

twll o le *lle diflas iawn*

yn y pen draw *in the long run*

Geiriau pwysig i mi

×

×

×

×

Pwyslais - ydy

Gyrrwr tacsï ydy o./Mae o'n gyrrwr tacsï.

Sam ydy'r gyrrwr tacsï.

Sam ydy'r tala.

Pâr o jeans glas ydy fy hoff ddilledyn i.

Nyrs oedd hi./Roedd hi'n nyrs.

Athrawes fydd hi./Mi fydd hi'n athrawes.



Help llaw

Meddyliwch am **ydy** fel =. Dan ni'n siarad am yr un peth neu'r un person bob ochr i'r **ydy**.

Os bydd **ydy** yn yr amser presennol, mi fydd **oedd** yn yr amherffaith a **fydd** yn y dyfodol:

Megan **ydy**'r pennaeth.

Megan **oedd** y pennaeth.

Megan **fydd** y pennaeth.

Pwyslais - sy

Ysgrifennwch enw person **sy** neu **oedd** yn gwneud y pethau hyn.

teithio llawer yn y gwaith _____	gwisgo dillad arbennig yn y gwaith _____	gyrru i'r gwaith _____	teithio i'r gwaith ar y bws neu ar y trê _____	cerdded i'r gwaith _____
mynd i lawer o gyfarfodydd _____	gweithio adre _____	gweithio mewn swydd allweddol _____	gweithio ar ei liwt ei hun _____	gwneud gwaith corfforol _____
gweithio o dan do _____	gweithio yn yr awyr agored _____	gweithio mewn diwydiant _____	gweithio ym maes iechyd _____	gweithio ym maes addysg _____



Help llaw

Os byddwn ni'n pwysleisio'r **goddrych** (*subject*) yn yr amser presennol, dan ni'n defnyddio **sy**. Mi fydd **treigladd meddal** yn yr amserau eraill:

Pwyslais

Mae Mari'n gweithio adre.

Roedd Tom yn y swyddfa'n hwyr neithiwr.

Mi fydd Mair yn agor y gynhadledd.

Mi fasai Dafydd yn hoffi gweithio adre.

Mi gyrhaeddodd y pennaeth mewn tacsî. Y pennaeth **gyrhaeddodd** mewn tacsî.

Dydy hi ddim yn naturiol i siarad fel hyn, ond dan ni'n defnyddio'r patrwm i **ateb cwestiwn** neu i **bwysleisio**, e.e. i gywiro ffaith.

Mari sy'n gweithio adre heddiw, dim Siân.

Dim Pwyslais

Mari sy'n gweithio adre.

Tom oedd yn y swyddfa'n hwyr neithiwr.

Mair **fydd** yn agor y gynhadledd.

Dafydd **fasai'n** hoffi gweithio adre.

Efo'ch partner, tanlinellwch y **goddrych** yn y brawddegau ac wedyn ailysgrifennwch y brawddegau, gan bwysleisio'r goddrych.

1. Mae John yn prynu car newydd o'r garej yn Aberdaron.

.....

2. Mae Liz yn mynd i weld ffilm yn y sinema heno.

.....

3. Mae'r plant drws nesa'n gweryslla wrth y llyn.

.....

4. Dach chi ar y rota i weithio nos Sadwrn.

.....

5. Mae 'na gwrs hyfforddi yn y neuadd heddiw.

.....

6. Dw i'n talu am ein cinio ni heddiw.

.....

7. Roedd o yn y dafarn neithiwr.

.....

8. Mi fydd pennaeth yn hedfan i'r gynhadledd.

.....

9. Mi fasai Olwen yn hoffi mynd yn ôl i'r brifysgol.

.....

10. Mi gaeodd Jac y drws.

.....

Ymarfer

Dach chi'n gwybod yr atebion i'r cwestiynau yma? Atebwch efo pwyslais.

1. Pwy ydy nawddsant Cymru?

.....

2. Pa liw ydy cennin Pedr?

.....

3. Be ydy mynydd ucha Cymru?

.....

4. Be sy'n digwydd ar 25 Ionawr?

.....

5. Pwy oedd Richard Burton?

.....

6. Be oedd syniad Aneurin Bevan?

.....

7. Pwy oedd 'Bardd y Gadair Ddu'?

.....

8. Be sy ar faner Cymru?

.....

9. Be sy'n cael ei chwarae yn Stadiwm Principality?

.....

10. Faint o barciau cenedlaethol sy yng Nghymru?

.....

11. Pa raglenni fydd ar S4C heno?

.....

Pwyslais - mae

Edrychwch ar y ddeialog nesa. Mae *alien* wedi cyrraedd Cymru ac yn cael gwerau!

Alien: Be ydy o?

Chi: Beiro ydy o.

Alien: Lle mae o?

Chi: Ar y bwrdd mae o.

Help llaw



Os byddwn ni'n pwysleisio rhan o'r frawddeg **heblaw am y goddrych**, dan ni'n newid trefn y frawddeg, gan roi'r rhan dan ni eisiau ei phwysleisio ar y dechrau. Does dim angen treigladau wedyn.

Mae Siôn yn gweithio yng Nghaernarfon. Yng Nghaernarfon mae Siôn yn gweithio.

Roedd Eirian yn y gêm neithiwr. Yn y gêm roedd Eirian neithiwr.

Efo'ch partner, pwysleisiwch y geiriau sy wedi'u tanlinellu.

1. Mae John yn prynu car newydd o'r garej yn Aberdaron.

2. Mae Liz yn mynd i weld ffilm yn y sinema heno.

3. Mae'r plant drws nesa'n gweryslla wrth y llyn.

4. Dach chi ar y rota i weithio nos Sadwrn.

5. Mae'r cwrs hyfforddi yn y neuadd heddiw.

6. Mae'r staff yn chwerthin am y syniad.

7. Roedd e yn y dafarn neithiwr.

8. Mi fydd y pennaeth yn hedfan i'r gynhadledd.

9. Mi fasai Olwen yn dewis cacen hufen.

10. Prynodd Jac ei siwt newydd yn Llundain.

Deialogau

Darllenwch y deialogau hyn efo'ch partner. Yna, darllenwch nhw eto gan bwysleisio'r geiriau sy wedi'u tanlinellu. Cofiwch mai **ia / naci** ydy'r ateb i frawddegau pwysleisiol, felly mi fydd angen newid ambell ateb, sy wedi'u tanlinellu hefyd.

Deialog 1

A: Be ydy gwaith dy bartner di?

B: Mae o'n gogydd.

A: Ydy o'n gweithio mewn bwyty?

B: Nac ydy. Mae o'n gweithio mewn cartref henoed.

A: Ael y Bryn?

B: Naci. Mae o'n gweithio yn Awel Deg.

A: Hwnna ydy'r cartref wrth yr ysgol, ia?

B: Ia, dyna ti. Mae cwpwl hyfryd o Wlad Pwyl yn rhedeg y lle. Mae o'n mwynhau gweithio yno.

Deialog 2

Geirfa:

morgeisi **desg ymholiadau**

A: Lle rwyt ti'n gweithio erbyn hyn?

B: Dw i'n dal yn y banc ond mi symudes i i **gangen** newydd tua dwy flynedd yn ôl. Dw i'n gweithio ym Mhorthmadog rwan.

A: Sut mae pethau'n mynd?

B: Da iawn. Dw i'n rheoli'r adran **forgeisi**.

A: Ydy Claire Williams yn dal i weithio ar y **ddesg ymholiadau**?

B: Ydy. Mae Claire yn dal yno. Mae hi'n un dda. Be amdanat ti? Wyt ti yn swyddfa'r cyfreithiwr?

A: Ydw – ers ugain mlynedd! Paid â sôn – mae o'n dwll o le!



Darllen - Lleisiau o lawr y ffatri

Atebwch y cwestiynau:

Be fasech chi'n ei weld mewn **archif** fel arfer?

bwyd a diod
esgidiau
papurau a lluniau

Be ydy *to safeguard*?

diogel
diogelu
diogelwch

Lle fasech chi'n gwisgo **ffedog** fel arfer?

yn y gegin
yn y lolfa
yn y swyddfa

Rhowch **llawn cystal** yn y bwlch cywir:

Mae Aled yn araf ond mae Bryn _____ â fo.

Mae Aled yn dda ond mae Bryn _____ â fo.

Mae Aled yn ofnadwy ond mae Bryn _____ â fo.

Be fasai **saer** yn ei wneud i chi?

ffôn
oergell
silffoedd llyfrau

Prosiect cyffrous gan **Archif Menywod Cymru** ydy **Lleisiau o Lawr y Ffatri**. Mae'n nodi hanesion merched oedd yn gweithio mewn ffatrioedd yng Nghymru rhwng 1945 ac 1975. Recordiwyd siaradwyr oedd yn gweithio mewn dros 200 o wahanol ffatrioedd. Erbyn hyn, mae'r rhan fwyaf o'r ffatrioedd hyn wedi cau.

Hanes Eirlys Lewis

Cafodd Eirlys Lewis ei geni ar Fawrth y cyntaf, 1949, i deulu mawr ym mhentref Garnswllt ger Rhydaman yn sir Gaerfyrddin.

Gadawodd Eirlys yr ysgol yn bymtheg oed. Cafodd hi ei swydd gyntaf yn ffatri Pullman Flexolators, a oedd yn gwneud pethau metel fel sbrings ar gyfer gwelyau.

Ar ôl wythnos roedd hi wedi cyfarwyddo â sŵn mawr y ffatri ac yn teimlo'n ddigon cartrefol. Roedd ei brawd yn gweithio yno hefyd. Doedd hi ddim yn ennill cymaint o arian â'i brawd achos ei bod hi'n iau (ac o bosib, achos ei bod hi'n ferch) ond doedd hynny ddim yn ei phoeni hi ar y pryd.

Gwaith budr oedd o, yn ôl Eirlys. Un dasg beryglus oedd dipio pethau mewn asid i'w glanhau. Doedd dim gogls i **ddiogelu'r** llygaid. Y cyfan oedd ar gael oedd **ffedog** a phâr o fenig.

Er hynny, roedd hi'n mwynhau ei gwaith. "Roedd hwyl i'w gael mewn ffatri. Dych chi'n griw gyda'ch gilydd ac mae pob un â'i stori."

Ar ôl gweithio mewn ffatrioedd lleol eraill, cafodd Eirlys waith yn Vandervell Products, Caerdydd. Hyfforddwyd hi efo dynion i weithio efo peiriannau mawr trwm y ffatri. Roedd llawer o ddynion yn anhapus bod merch yn gwneud yr un gwaith â nhw, ond yn y diwedd bu'n rhaid i lawer o ddynion ofyn iddi hi am help.

"Roedd fy nheulu i'n gofyn pam ro'n i'n gwneud yr un gwaith â dyn," meddai hi. "Ro'n i'n dweud, 'Achos fy mod i'n **llawn cystal** â dyn, os nad gwell.' Taswn i wedi cael y cyfle pan o'n i'n ifanc, baswn i wedi mynd naill ai'n fecanic neu'n **saer**."

Yn 1981, priododd Eirlys a gadael ffatri Vandervell. Aeth yn ôl i sir Gaerfyrddin i ffermio efo'i gŵr. Doedd dim cyfle wedyn i ddefnyddio'r sgiliau ddysgodd hi yng Nghaerdydd.

Gorffennwch y brawddegau hyn gan ddefnyddio gwybodaeth o'r darn darllen:

1. Ym mhentref Garnswllt ger Rhydaman
2. Yn ffatri Pullman Flexolators
3. Tasg beryglus oedd
4. Dim ond ffedog a menig
5. Gwaith Eirlys yn Vandevell oedd
6. Ffermio wnaeth

Mi fasai Eirlys wedi mwynhau bod yn fecanic neu'n saer. Be fasech chi wedi mwynhau ei wneud? Trafodwch efo'ch partner, yna gorffennwch y frawddeg hon:

Taswn i wedi cael y cyfle pan o'n i'n ifanc, mi faswn i wedi ...

.....

.....

.....



Gwyllo a gwrando – Cyfweiliad am swydd

Mi fyddwch chi'n gwyllo fideo o dri ymgeisydd yn cael cyfweiliad am swydd cynorthwydd dosbarth mewn ysgol gynradd. Y tro cyntaf, nodwch pwy sy'n deud y pethau yma.

	Hannah	Rhun	Manon	Aelod o'r panel
'Sai'r swydd yma'n iawn am y tro .				
Fi'n gredwr cryf mewn trefn.				
Allwch chi ddeud rhywbeth am eich cymwysterau chi?				
Pam byddech chi'n hoffi bod yn gynorthwydd dosbarth?				
Gwnes i ddiploma gofal dysgu a datblygiad plant.				
Do'n i ddim eisiau mynd yn ôl i weithio mewn labordy .				
Mae 'da fi 8 TGAU – gradd A i C – a tystysgrif hylendid bwyd .				
Es i i wneud prentisiaeth i fod yn fecanic.				
Mae'n ffrind i, Siân, â parti plu .				
Fi'n uchelgeisiol dros ben.				
Licwn i fod yn bennaeth ysgol yn y pen draw .				

Nesaf, llenwch y tabl. Yna, trafodwch yr ymgeiswyr efo'ch partner chi. Pwy ydy'r ymgeisydd gorau?

Enw	Hannah	Rhun	Manon
Profiad			
Pam mae o/hi isio'r swydd?			
Cymwysterau			
Syniadau			
Personoliaeth			
Gwisg a golwg			
Marc allan o 10			

Pwy ydy'r ymgeisydd gorau i'r swydd? Pam?

Adolygu Geirfa Uned 20

Gweithiwch efo'ch partner i ddewis y gair cywir i fynd yn y bwlch. Ella bydd angen treiglo.

prentisiaeth

prentisiaid

Mae 'na gwrs i _____ yn y coleg wythnos yma.

Ro'n i'n ddigon lwcus i gael _____ efo cwmni lleol.

cyfarfod

cynhadledd

Mae 'na _____ heno i drefnu'r eisteddfod leol.

Mae 'na dri siaradwr yn dŵad i'r _____ mis nesaf.

cymwysterau

tystysgrifau

Sgen i ddim digon o _____ i gynnig am y swydd.

Rhaid i mi lungopio fy _____ i fy nghyflogwyr newydd.

am y tro

ar y pryd

Mi fydd y swydd hon yn iawn _____.

Ro'n i'n ddiflas iawn yn fy swydd i _____.

ar fy liwt fy hun

ar ben fy hun

Dw i'n gweithio fel ffotograffydd _____.

Mi es i allan am dro i dynnu lluniau _____.

mis mêl

parti plu

Mi aethon ni i Ddilyn ar ein _____.


Mi es i i Ddilyn i gael fy _____.

lle arbennig

twll o le

Dw i ddim isio mynd yno byth eto – mae o'n _____.

Mi hoffwn i fynd yno eto – mae o'n _____.



Dach chi rŵan yn medru darllen *Cawl a Straeon eraill* (Y Lolfa). Dyma'r clawr a'r paragraff cynta:

Dw i ddim yn gwybod pam o'n i'n synnu. Dywedodd Tommy ei fod yn mynd i werthu côt Ruby. Er hynny, pan welais i hi, yn hongian yn llipa yn ffenest y siop ffeirio, ro'n i'n teimlo fel tasai Tommy wedi fy mwrw i yn fy mol. Atseiniodd ei eiriau yn fy mhen.

Idiom



Ar ei liwt ei hun

Uned 21 – Anifeiliaid anwes

Nod yr uned hon ydy...

- Defnyddio'r amodol cryno
- Siarad am anifeiliaid anwes
- Dysgu geirfa ac idiomau newydd

Geirfa

barddoniaeth	<i>poetry</i>
tystiolaeth(au)	<i>evidence(s)</i>
ystyriaeth(au)	<i>consideration(s)</i>

caedigrwydd	<i>kindness</i>
crud(au)	<i>cradle(s)</i>
gofyniad (gofynion)	<i>requirement(s)</i>
gwirionedd(au)	<i>truth(s)</i>
hoffter	<i>fondness</i>
milgi (milgwn)	<i>greyhound(s)</i>

ailgartrefu	<i>to rehouse</i>
amddiffyn (rhag)	<i>to protect, to defend</i>
dyblu	<i>to double</i>
meiddio	<i>to dare</i>
mwytho	<i>to pet, to fondle, to pamper</i>
paru	<i>to pair</i>

darpar	<i>prospective, expectant; to be</i>
delfrydol	<i>ideal</i>
ffyddlon	<i>faithful</i>

bod â meddwl mawr o rywun	<i>to hold someone in high regard</i>
trwy gydol	<i>throughout</i>
wrth reswm	<i>it stands to reason</i>

Geiriau pwysig i mi

×

×

×

×

Yr Amodol Cryno

Dach chi'n cofio?

Mi ddylwn i ddyblu fy ymdrechion i ddŵad yn rhugl yn Gymraeg.

Mi hoffwn i ddychwelyd i Batagonia ryw ddiwrnod.

Be ydy'r ymatebion? Gweithiwch efo'ch partner.

Dw i ddim yn medru mynd â'r ci am dro heno.

Mi fedrwn i wneud yn dy le di.

Dydy Jac ddim yn medru bwydo'r pysgod.

Dydy Sali ddim yn medru mynd â'r gath at y milfeddyg.

Dan ni ddim yn medru rhoi bath i'r ci.

Dydy'r plant ddim yn medru edrych ar ôl y bochdew.

Mae **mi hoffwn i**, **mi fedrwn i** a **mi ddylwn i** yn gyffredin iawn, ond mae'n bosib defnyddio ffurfiau cryno efo berfau eraill.

Edrychwch ar y deialogau yma:

A: Wyt ti'n meddwl bydd Jac yn cael y swydd?

B: Synnwn i ddim, gan mai fo ydy mab y bôs.

A: Liciet ti ddarn arall o gacen?

B: Ddudwn i ddim na, mae'n hyfryd.

A: Mae Mari wedi anghofio ei phres hi.

B: Mi dalwn i drosti hi, ond sgen i ddim pres chwaith.

Edrychwch ar y berfau yma:

Synnu	Gofyn	Talu	Gweld
Mi synnwn i	Mi ofynnwn i	Mi dalwn i	Mi welwn i
Mi synnet ti	Mi ofynnet ti	Mi dalet ti	Mi welet ti
Mi synnai fo / hi	Mi ofynnai fo / hi	Mi dalai fo / hi	Mi welai fo / hi
Mi synnen ni	Mi ofynnen ni	Mi dalen ni	Mi welen ni
Mi synnech chi	Mi ofynnech chi	Mi dalech chi	Mi welech chi
Mi synnen nhw	Mi ofynnen nhw	Mi dalen nhw	Mi welen nhw

Efo'ch partner, gorffennwch y brawddegau:

1. Taswn i'n eistedd yn y cefn... .. welwn i ddim llawer o'r cyngerdd.
2. Tasai Mair yn eistedd yn y cefn
3. Tasai Nasir yn eistedd yn y cefn
4. Tasen ni'n eistedd yn y cefn
5. Tasai'r plant yn eistedd yn y cefn

Y tro hwn, ymatebwch. Gweithiwch efo'ch partner chi:

1. Dw i'n mynd ar streic. Feiddiet ti ddim!
2. Mae o'n mynd ar streic.
3. Mae hi'n mynd ar streic.
4. Dan ni'n mynd ar streic.
5. Maen nhw'n mynd ar streic.

Ymarfer



Rhowch y **ffurfiau cryno** yn lle'r **ffurfiau cwmpasog** yn y brawddegau hyn. Mae'r frawddeg gyntaf wedi'i gwneud i chi. Cofiwch y treigladau ar ôl berf gryno!

1. Mi faswn i'n hoffi cael ci, ond dw i'n gweithio oriau hir.
Mi hoffwn i gael ci, ond dw i'n gweithio oriau hir.
2. Faswn i ddim yn medru cadw anifail anwes yn y fflat yma.
.....
3. Mi fasai'r ci yn bwyta fy nghinio i tasai fo'n cael cyfle.
.....
4. Mi fasai hi'n hoffi cael cath, ond mae gynni hi alergedd i flew cath.
.....
5. Does 'na ddim lle i gwningen yma ond mi faset ti'n medru cael bochdew.
.....
6. Faswn i ddim yn hoffi cael aderyn yn anifail anwes.
.....
7. Mi fasen nhw'n cerdded bob dydd tasai gynnyn nhw gi.
.....

8. Mi faswn i wedi medru mynd â'r ci am dro taset ti wedi gofyn i mi.

.....

9. Mi faswn i wedi hoffi cael anifail anwes pan o'n i'n blentyn.

.....

10. Fasen ni ddim wedi medru ennill yn y sioe gŵn heb dy help di.

.....

Help llaw



1. Mae ffurfiau'r amodol cryno'n defnyddio'r un rheolau treiglo â berfau cryno eraill:

Mi welech chi **lawer** o anifeiliaid.

(Mae'r gwrthrych yn treiglo ar ôl **ffurf gryno**.)

Welech chi ddim **llawer** o anifeiliaid.

(Dydy'r gwrthrych ddim yn treiglo ar ôl **ddim**.)

2. Dyma'r ffurfiau ffurfiol ar gyfer y berfau afreolaidd (*irregular*). Mi fyddwch chi'n gweld y ffurfiau hyn mewn rhai cylchgronau a llyfrau. Does dim rhaid i chi eu defnyddio nhw, dim ond eu hadnabod nhw os dewch chi ar eu traws nhw.

Mynd	Dod/Dŵad	Cael	Gwneud
Awn	Down	Cawn	Gwnawn
Aet	Doet	Caet	Gwnaet
Âi	Dôi	Câi	Gwnâi
Aem	Doem	Caem	Gwnaem
Aech	Doech	Caech	Gwnaech
Aent	Doent	Caent	Gwnaent

3. I ddefnyddio'r **amodol** yn y **gorffennol**, cofiwch fod rhaid defnyddio'r geiriau **bod wedi** efo berf gryno, fel hyn:

Mi hoffwn i fod wedi mynd. *I would like to have gone.*

Mi fedren ni fod wedi ennill. *We could have won.*

Mi ddylai hi fod wedi gofyn. *She should have asked.*

Hoffwn i ddim bod wedi mynd. *I wouldn't have liked to have gone.*

Fedren ni ddim bod wedi ennill. *We couldn't have won.*

Ddylai hi ddim bod wedi gofyn. *She shouldn't have asked.*

Mi fedrwn chi ddefnyddio'r **ffurf gwmpasog** hefyd, e.e. 'Mi faswn i wedi hoffi mynd' ac ati.

Gwyllo a gwrando – Canolfan Anifeiliaid Llys Nini



Mi fyddwch chi'n gwyllo fideo am Ganolfan Anifeiliaid Llys Nini. Mae'r Ganolfan yn ailgartrefu anifeiliaid anwes.

1. Cyn gwyllo'r fideo, siaradwch efo'ch partner chi. Dach chi'n meddwl bod y ffeithiau yma'n **gywir** neu'n **anghywir**?

	Eich barn	Ateb
Mae canolfannau anifeiliaid yn brysur drwy gydol y flwyddyn.		
Mae hi'n hawdd iawn ailgartrefu anifeiliaid mewn cartrefi delfrydol .		
Yr unig bethau sy'n bwysig mewn darpar berchnogion ydy caedigrwydd a hoffter at anifeiliaid.		
Un ystyriaeth wrth ddewis darpar berchnogion ydy oriau gwaith pobol.		
Cathod brown ydy'r anifeiliaid anoddaf eu hailgartrefu .		

2. Efo'ch partner, esboniwch pam mae'r geiriau hyn yn cael eu deud yn y fideo:

addas

tad a mab

anifeiliaid cymdeithasol

3. Ar be mae'r RSPCA yn edrych wrth baru anifail â pherchennog? Nodwch o leiaf **dri** pheth.

.....

.....

.....

4. Chi ydy Macsen y ci. Mi fyddwch chi'n deud wrth eich partner pa fath o fywyd sy gynnoch chi yn eich cartref newydd chi. Mi gewch chi wneud nodiadau yma i'ch helpu chi.

5. Cyn gwyllo rhan gyntaf y darn eto, ceisiwch lenwi'r bylchau.

Mae canolfannau anifeiliaid yn brysur drwy gydol y flwyddyn ond mae mis Ionawr yn _____ na'r arfer. Yma _____
 _____ Llys Nini yn Abertawe, mae hi'n gyfnod **arbennig o brysur**.
 Pan fo un anifail yn gadael a chael ei ailgartrefu, mae un _____ yn
 cael ei dderbyn. Er _____ 'na restr o bobl sy'n aros _____ gi neu
 gath neu gwningen o'r Ganolfan, dyw hi ddim _____ yn rhwydd dod
 o hyd i'r cartref delfrydol. **Wrth reswm**, mae gofynion gofal rhai anifeiliaid
 anwes yn _____ na'i gilydd ac wrth fynd i ganolfan achub, bydd
 darpar berchnogion yn _____ eu hasesu i sicrhau eu bod yn gallu
 darparu cartref addas.

Mae 'na rai pethau diddorol yn y paragraff yma:

Ystyr **arbennig o brysur** ydy prysur iawn. Defnyddiwch **arbennig o** i ymateb i'r cwestiynau yma:

Oedd y bwyd yn dda?

Oedd y wybodaeth yn ddefnyddiol?

Oedd y plant yn gwrtais?

Oedd y llyfr yn ddiddorol?

Ystyr **wrth reswm** ydy *it stands to reason*.

Be ddudodd y bobol yma?

Pennaeth ysgol – Wrth reswm, mi fydd yr ysgol yn

Prif Weinidog – Wrth reswm, mi fydd y llywodraeth yn

Hyfforddwr Tîm Rygbi Cymru – Wrth reswm, mi fyddwn ni'n

Rheolwr archfarchnad fawr – Wrth reswm, mi fydd y cwmni'n

6. Mae'r cyflwynydd yn sôn am **ofynion gofal** (*care requirements*). Fedrwn chi feddwl am ymadroddion eraill sy'n cynnwys y gair **gofal**?

.....

.....

.....

7. Mi fyddwch chi hefyd yn clywed y cyflwynydd yn deud **darpar berchnogion** (*prospective owners*.) Mae **darpar** yn ansoddair sy'n golygu *prospective*, *expectant* neu *to be*. Mae'n dŵad **cyn** yr enw bob amser, ac felly dan ni'n treiglo'n **feddal** ar ei ôl. Be, felly, ydy:

*prospective buyer**husband to be**expectant mother**prospective student**expectant parents**prospective teachers*

Darllen



Gelert – Ci ffyddlon Llywelyn Fawr

Mae 'na lawer o eiriau newydd yn y darn:

ffyddlon**amddiffyn****mwytho****gwarchod****barddoniaeth****tystiolaeth****crud****milgi****gwirionedd**

Mae un ansoddair, tri berfenw a phum enw. Rhowch nhw yn y tabl. Dach chi'n medru gweld cysylltiad â rhai geiriau eraill? Er enghraifft:

Enw	Cerflun	Mae'r gair llun yn rhan o'r gair.
-----	---------	--

Fydd hi ddim yn bosib ysgrifennu rhywbeth am bob gair.

Ansoddair		
Berfenw		
Berfenw		
Berfenw		
Enw		
Enw		
Enw		
Enw		
Enw		

Gelert oedd ci **ffyddlon** Llywelyn Fawr, Tywysog Cymru (1173–1240). Tasech chi'n mynd i bentref hardd Beddgelert ger Llanberis yng ngogledd Cymru, gwelech chi ei fedd a cherflun ohono. Ond beth oedd mor arbennig am y ci hwn? Wedi'r cyfan, anifeiliaid i **hela** ac **amddiffyn** oedd cŵn amser maith yn ôl – nid anifeiliaid i'w **mwytho** ar y sofffa. Doedd pobol ddim yn eu caru nhw fel dan ni'n ei wneud heddiw ... nac oedden?

Wel, yn ôl y chwedl, roedd gan Llywelyn feddwl mawr o Gelert. Mae'r stori gynharaf amdano yn dod o'r bymthegfed ganrif. Yn y fersiwn yma, mae Gelert (neu 'Cilhart') yn marw o flinder ar ôl **hela** anifail am filltiroedd, ac mae Llywelyn yn ei gladdu mewn bedd arbennig.

Daeth fersiwn arall o'r stori yn boblogaidd yn y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn hon, mae Llywelyn yn mynd i **hela** ac yn dweud wrth Gelert am **warchod** ei fab bach, sy'n cysgu mewn crud. Daw Llywelyn adref i weld y crud ar y llawr a gwaed ar geg Gelert. Mae'n meddwl bod Gelert wedi lladd ei fab, felly mae'n lladd Gelert yn y fan a'r lle. Ond yna, mae'n clywed sŵn ei fab yn crio ac yn gweld corff blaidd ar y llawr. I'r gwrthwyneb, roedd Gelert wedi **amddiffyn** ei fab rhag y blaidd.

Mae chwedlau tebyg i hon gan lawer o wledydd eraill. Mae rhai'n meddwl mai perchennog gwesty'r Goat ym Meddgelert a gysylltodd y chwedl â'r pentref i ddenu twristiaid yno ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Does dim sôn am Gelert a Llywelyn mewn hen **farddoniaeth**, nac mewn hen lyfrau am ardal Beddgelert.

Ond, mae ychydig o **dystiolaeth** ei bod hi'n hen stori Gymreig. Er enghraifft, dyma lun oedd gan Richard III, brenin Lloegr, i gynrychioli Cymru: **crud** aur a **milgi**.

Ella bod rhywfaint o **wirionedd** yn y stori. Beth dach chi'n feddwl?



Efo'ch partner...

1. Heb edrych yn ôl ar y stori, dudwch stori Gelert a'r blaidd wrth eich gilydd.
2. Edrychwch ar y frawddeg yma o'r darn darllen:

Roedd Gelert wedi **amddiffyn** ei fab **rhag** y blaidd.

Dan ni hefyd yn defnyddio **rhag** efo **dianc** a **cysgodi**.

Mi lwyddodd y lladron i **ddianc rhag** yr heddlu.

Dw i'n **cysgodi rhag** y glaw.

Mae **rhag** yn rhedeg. Llenwch y bylchau.

rhagddo _____	_____ ni
_____ ti	_____ chi
_____ fo	_____ nhw
_____ hi	

Ymatebwch:

Ydy o wedi dianc rhagddot ti? Ydy, mae o wedi.....

Ydy o wedi dianc rhag y plismon?

Ydy o wedi dianc rhag yr athrawes?


Ydy o wedi dianc rhagddoch chi?

Ydy o wedi dianc rhag yr heddlu?

3. Mae 'na un enghraifft o'r **amodol cryno** yn y darn. Dach chi'n medru ei ffeindio hi?
.....

4. Roedd gan Llywelyn **feddwl mawr** o Gelert. Oes gynnoch chi feddwl mawr o rywun? Siaradwch amdano fo / amdani hi (neu ella bod gynnoch chi feddwl mawr o'ch anifail anwes hefyd!).

Idiom



Meddwl mawr o rywun

Uned 22 - Teithio Cymru

Nod yr uned hon ydy...

- Ymarfer defnyddio **byth** ac **erioed**
- Siarad am lefydd diddorol yng Nghymru
- Dysgu geirfa ac idiomau newydd

Geirfa

atynfa (-feydd)	<i>attraction(s)</i>
dynolryw	<i>mankind</i>
hunaniaeth	<i>identity</i>
pendro (y bendro)	<i>vertigo, dizziness</i>
treftadaeth	<i>heritage</i>

adfer	<i>to restore; to rehabilitate</i>
caniatáu	<i>to allow, to permit</i>

anghofus	<i>forgetful</i>
arwyddocaol	<i>significant</i>
diwydiannol	<i>industrial</i>
nodedig	<i>notable, remarkable</i>
Sioraidd	<i>Georgian</i>

adfail (adfeilion)	<i>ruin(s)</i>
anialwch	<i>desert, waste, wilderness</i>
arglwydd(i)	<i>lord(s)</i>
atyniad(au)	<i>attraction(s)</i>
cyflwr (cyflyrau)	<i>state(s), condition(s)</i>
ffotograffydd (-wyr)	<i>photographer(s)</i>
generadur(on)	<i>generator(s)</i>
harddwch	<i>beauty</i>
pwl (pyliau)	<i>bout(s)</i>
rhyfeddod(au)	<i>wonder(s)</i>
syndod	<i>surprise, amazement</i>
trigolion	<i>inhabitants</i>

dibynnu'n llwyr (ar)	<i>to completely depend (on)</i>
gadael eu hôl	<i>to leave a (their) trace</i>
yn gyffredinol	<i>generally</i>
yn hytrach (na/nag)	<i>rather (than)</i>

Geiriau pwysig i mi

.....
×

.....
×

.....
×

.....
×

Byth ac erioed

Newidiwch y geiriau sy wedi'u tanlinellu:

Dw i erioed wedi bwyta octopws.

Fues i erioed yn Awstralia.

Dw i byth yn siopa yn Tesbury's.

Faswn i byth yn gwneud naid bynji.

Do'n i byth yn helpu yn y tŷ pan o'n i'n blentyn.

Deialogau

A: Wyt ti erioed wedi bod ar gopa'r Wyddfa?

B: Naddo, erioed. Wyt ti?

A: Do, ond a' i byth yno eto.

B: Pam? Mae'r olygfa'n wych, tydy?

A: Ydy. Ond dw i erioed wedi bod mor sâl.

B: Be oedd yn bod? Fwytest ti rywbeth anarferol?

A: Naddo. Fydda i byth yn bwyta bwydydd anarferol. Pwl o'r bendro oedd o.

B: Ia?

A: Do'n i byth yn diodde o'r bendro pan o'n i'n fengach.

B: Druan ohonat ti. Diolch byth, dw i erioed wedi cael y bendro.

A: Mi weles i Lyn yn y cyfarfod. Roedd hi mor bigog ag erioed.

B: Dydy'r ddynes yna byth yn newid.

A: Roedd Sam yno hefyd – yn edrych yn dda. Do'n i erioed wedi'i weld o'n edrych cystal.

B: Faset ti byth yn meddwl ei fod o wedi bod yn sâl. Chlywes i erioed mohono fo'n cwyno.

A: Ti'n iawn. Mi gaethon ni fwffe hyfryd. Y bwffe gorau erioed.

B: Ti'n lwcus. Dan ni byth yn cael bwffe yn ein cyfarfodydd ni.

A: Nac ydach. Ond mae Gwil yn dŵad â *brownies* i chi, cofia. Dw i erioed wedi blasu *brownies* cystal â rhai Gwil.



Ymarfer

Heb edrych yn ôl, llenwch y bylchau yn y deialogau efo'ch partner.

Wyt ti wedi bod ar gopa'r Wyddfa?

Naddo, Wyt ti?

Ydw, ond a' i yno eto.

Pam? Mae'r olygfa'n wych, tydy?

Ydy. Ond dw i wedi bod mor sâl.

Be oedd yn bod? Fwytest ti ryw beth anarferol?

Naddo. Fydda i yn bwyta bwydydd anarferol. Pwl o'r bendro oedd o.

Ia?

Do'n i yn diodde o'r bendro pan o'n i'n fengach.

Druan ohonat ti. Diolch, dw i erioed wedi cael y bendro.

.....

Mi weles i Lyn yn y cyfarfod. Roedd hi mor bigog ag

Dydy'r ddynes yna yn newid.

Roedd Sam yno hefyd – yn edrych yn dda. Do'n i wedi'i weld o'n edrych cystal.

Faset ti yn meddwl ei fod o wedi bod yn sâl.

Chlywes i mohono fo'n cwyno.

Ti'n iawn. Mi gaethon ni fwffe hyfryd. Y bwffe gorau

Ti'n lwcus. Dan ni yn cael bwffe yn ein cyfarfodydd ni.

Nac ydach. Ond mae Gwil yn dŵad â *brownies* i chi, cofia. Dw i wedi blasu *brownies* cystal â rhai Gwil.

Cyfieithwch:

1a. *I have never worked in the beauty industry.*

1b. *I'll never work in the beauty industry.*

2a. *He has never written poetry.*

2b. *He never used to write poetry when he was a child.*

.....

3a. *We will never watch a horror film again.*

3b. *We had never seen a horror film before.*

4a. *She never helped.*

4b. *She'll never help again.*



Help llaw

Byth	Erioed
<p>Mewn brawddeg negyddol: byth = <i>never</i> Dw i byth yn bwyta caws.</p> <p>Mewn cwestiwn: byth = <i>ever</i> Wyt ti byth yn bwyta caws?</p> <p>Diolch byth = <i>thank goodness</i></p> <p>Sylwch: dan ni <u>byth</u> yn treiglo byth e.e. Cymru am byth!</p>	<p>Mewn brawddeg negyddol: erioed = <i>never</i> Dw i erioed wedi byw yng Nghymru.</p> <p>Mewn cwestiwn: erioed = <i>ever</i> Wyt ti erioed wedi byw yng Nghymru?</p> <p>Mewn brawddeg gadarnhaol: erioed = <i>always</i> Dw i wedi byw yng Nghymru erioed. mor ag erioed = <i>as as ever</i></p>
<p>Dan ni'n defnyddio byth efo'r... Presennol Dydy'r ddynes yna byth yn newid. (<i>never</i>)</p> <p>Dyfodol A' i byth yno eto. (<i>never</i>)</p> <p>Amherffaith Do'n i byth yn diodde o'r bendro pan o'n i'n fengach. (<i>never</i>)</p> <p>Amodol Faset ti byth yn meddwl ei fod o wedi bod yn sâl. (<i>never</i>)</p>	<p>Dan ni'n defnyddio erioed efo'r Gorffennol Chlywes i erioed mohono fo'n cwyno. (<i>never</i>)</p> <p>Perffaith Wyt ti erioed wedi bod ar gopa'r Wyddfa? (<i>ever</i>) Dw i erioed wedi bod ar gopa'r Wyddfa. (<i>never</i>)</p> <p>Gorberffaith Do'n i erioed wedi'i weld o'n edrych cystal. (<i>never</i>)</p>

Gwyllo a gwrando 1

3 Lle: Sean Fletcher ym Mro Gŵyr

Geirfa: hunaniaeth

Efo'ch partner, atebwch y cwestiynau:



- Sut mae Sean Fletcher yn disgrifio Bae Tor?
- Pam mae Bae Tor yn bwysig iddo fo?
- Be mae Sean Fletcher yn ei ddeud am y profiad o ddysgu Cymraeg?

Mae Sean yn deud am ei blant o: Roedden nhw'n helpu fi.

Mae hyn yn gyffredin iawn ar lafar.

Mae hefyd yn bosib deud: Roedden nhw'n fy helpu i.

Llenwch y tabl:

Llafar	Safonol (<i>Standard</i>)
Roedden nhw'n dysgu fi.	
	Roedden nhw'n dy helpu di.
Roedden nhw'n amddiffyn hi.	
Roedden nhw'n cysuro fo.	
	Roedden nhw'n ein credu ni.
	Roedden nhw'n eich cosbi chi.
Roedden nhw'n dosbarthu nhw.	

Siaradwch

Pam wnaethoch chi ddysgu Cymraeg? Siaradwch am eich profiadau chi'n dysgu'r iaith efo'ch partner.



Darllen

Cymru: Y 100 lle i'w gweld cyn marw gan John Davies a Marian Delyth (Y Lolfa, 2009)

yn hytrach
treftadaeth

dynolryw
adfail (adfeilion)

gadael eu hôl **syndod**

Mae traethau a mynyddoedd Cymru yn ymddangos yn aml mewn rhestrï o'r llefydd harddaf yn y byd. Ond nid golygfeydd adnabyddus o Eryri a sir Benfro sydd yn y llyfr yma. **Yn hytrach**, mae'r hanesydd Dr John Davies a'r ffotograffydd Marian Delyth wedi canolbwyntio ar 'ffrwyth gwaith **dynolryw**', sef llefydd mae pobl wedi **gadael eu hôl** arnyn nhw mewn rhyw ffordd. Felly, byddwch chi'n dod o hyd i'r rhan fwyaf o'r 100 lle mewn ardaloedd poblog yn y de-ddwyrain, sydd ddim fel arfer yn denu llawer o dwristiaid. Mae'r llyfr yn dangos bod pob math o adeiladau hanesyddol a hardd yng Nghymru – nid dim ond cestyll.

Treuliodd Dr John Davies y rhan fwyaf o'i fywyd yng Ngheredigion. Ond, cafodd ei eni yn y Rhondda a dyna lle'r oedd o'n byw tan oedd o'n saith oed. Does dim **syndod** felly mai'r lle pwysicaf iddo fo o'r 100 lle yn y llyfr ydy Parc **Treftadaeth** Cwm Rhondda.

1. Yn y darn, mae **canolbwyntio ar**. Nodwch ddau ferfenw arall sy'n cael eu dilyn gan yr arddodiad **ar**.

2. Dach chi'n cofio be ydy ystyr y geiriau isod? Cyfieithwch nhw:

poblog poblogaidd

poblogaeth


Siaradwch – Edrychwch ar restr y 100 lle sydd yn y llyfr.

- Dach chi erioed wedi bod yn rhai o'r llefydd hyn?
- Oes 'na lefydd pwysig ar goll o'r rhestr, yn eich barn chi?
- Pa fath o lefydd dach chi'n hoffi ymweld â nhw: llefydd o harddwch naturiol neu lefydd lle mae adeiladau neu **adfeilion** diddorol?



Y 100 lle i'w gweld cyn marw

- | | | |
|---|--|---|
| 1 Mynydd Parys ac Amlwch | 35 Ystrad-fflur | 69 Parc Cathays |
| 2 Barclodiad y Gawres a Bryn Celli Ddu | 36 Llananno | 70 Bae Caerdydd |
| 3 Biwmares | 37 The Pales | 71 Llandaf |
| 4 Pontydd Menai | 38 Llanandras | 72 Sain Ffagan |
| 5 Bangor | 39 Talgarth | 73 Y Castell Coch |
| 6 Caernarfon | 40 Llangors | 74 Caerffili |
| 7 Tre'r Ceiri | 41 Tretŵr | 75 Pontypridd |
| 8 Llanberis | 42 Aberhonddu | 76 Parc Treftadaeth Cwm Rhondda |
| 9 Gwydir | 43 Y Garn Goch a Chastell Carreg Cennen | 77 Treflun y Rhondda |
| 10 Bodnant | 44 Llandeilo a Dinefwr | 78 Aberdâr |
| 11 Conwy | 45 Aberteifi | 79 Aber-fan |
| 12 Rhuddlan a Llanelwy | 46 Foel Drygarn | 80 Merthyr Tudful |
| 13 Dinbych | 47 Pentre Ifan | 81 Dowlais |
| 14 Treffynnon | 48 Tyddewi | 82 Y Drenewydd (Butetown) |
| 15 Ewlo a Phenarlâg | 49 Hwlfordd | 83 Tredegar |
| 16 Yr Wyddgrug | 50 Penfro | 84 Bryn-mawr |
| 17 Gresffordd | 51 Llandyfai a Maenorbŷr | 85 Canol Casnewydd |
| 18 Y Bers ac Erddig | 52 Dinbych-y-pysgod | 86 Cyrion Casnewydd |
| 19 Wrecsam | 53 Hendy-gwyn | 87 Gwastadeddau Gwent |
| 20 Y Waun | 54 Caerfyrddin | 88 Caerlioni |
| 21 Pont Cysyllte | 55 Yr Ardd Fotaneg Genedlaethol | 89 Cwmbrân |
| 22 Llangollen | 56 Llanelli | 90 Pont-y-pŵl |
| 23 Rhuthun | 57 Abertawe | 91 Blaenafon |
| 24 Penllyn a'r Bala | 58 Y Mwmbwls | 92 Y Fenni |
| 25 Blaenau Ffestiniog | 59 Treforys | 93 Llanddewi Nant Hodni |
| 26 Portmeirion | 60 Gwaelodion Cwm Tawe | 94 Y Teirtref |
| 27 Harlech | 61 Castell-nedd | 95 Rhaglan |
| 28 Pennant Melangell | 62 Margam | 96 Tryleg |
| 29 Y Trallwng | 63 Cynffig a'i chyffiniau | 97 Tyndyrn |
| 30 Trefaldwyn | 64 Ewenni | 98 Caer-went |
| 31 Y Drenewydd | 65 Llanilltud Fawr | 99 Yr Ail Groesfan ar draws Aber Afon Hafren |
| 32 Canolfan y Dechnoleg Amgen | 66 Y Barri | 100 Cas-gwent |
| 33 Aberystwyth | 67 Hen Fewpyr | |
| 34 Aberaeron | 68 Castell Caerdydd | |





Gwyllo a gwrando 2

Codi Pac: Castell Aberteifi

Geirfa: yn gyffredinol adfer anialwch cyflwr
 Sioraidd arglwydd

Mi fyddwch chi'n clywed y geiriau uchod yn y darn. Mi fydd eich tiwtor yn rhoi'r geiriau i chi mewn brawddegau neu ymadroddion o'r darn. Ysgrifennwch nhw.

yn gyffredinol

adfer

anialwch

cyflwr

Sioraidd

arglwydd

Ar ôl gwyllo'r fideo, llenwch y bylchau hyn efo'ch partner:

1. Aberteifi oedd porthladd mwya Prydain ar ôl Lerpwl a Llundain.
2. Castell Aberteifi ydy adeilad Aberteifi.
3. Yn 2003, mi Cyngor Sir Ceredigion safle Castell Aberteifi.
4. Mi y Castell wobr Prosiect **Adfer** y Flwyddyn Sianel Pedwar.
5. Y Normaniaid y castell cyntaf ar y safle yn 1093.
6. Mae Castell Aberteifi yn enwog achos dyma lle gaeth yr Eisteddfod gyntaf ei chynnal.
7. Mi yr Arglwydd Rhys i Aberteifi yn 1171.
8. Yr Arglwydd Rhys oedd y cyntaf i adeiladu castell o gerrig.
9. Mi orffennodd o adeiladu'r castell yn 1176 ac i hynny, mi gynhaliodd o eisteddfod.
10. Mi ddaeth o bobol i eisteddfod yr Arglwydd Rhys.


Siaradwch

Mae'r rhaglen yn dangos ymweliad Geraint Hardy â thref Aberteifi.



- Lle arall dach chi'n meddwl y dylai fo fynd? Meddyliwch am dref arall yng Nghymru.
- Be sy i'w wneud yno? Lle ddylai fo aros? Esboniwch eich dewis wrth weddill y dosbarth.

Amdani



Dach chi rŵan yn medru darllen *Rob*, llyfr yng nghyfres Amdani. Dyma'r clawr a'r paragraff cyntaf.

Pan mae mwg du yn dod allan o injan car, dydy o byth yn newyddion da. A dydy o'n bendant ddim yn newyddion da yng nghanol nunlle yn y tywyllwch.

Idiom



Gadael ei ôl

Uned 23 – Mynd allan am fwyd

Nod yr uned hon ydy...

- Adolygu cyffredinol
- Trefnu mynd allan am bryd o fwyd
- Dysgu geirfa ac idiomau newydd

Geirfa

chwedl ddinesig *urban myth(s)*
(chwedlau dinesig)

eirinen (eirin) *plum(s)*

gyrfa(oedd) *career(s)*

llugaeronen *cranberry*
(llugaeron) *(-berries)*

rhagfarn(au) *prejudice(s)*

ciniawa *to dine*

goruchwyllo *to supervise*

bythgofiadwy *unforgettable*

tebygol *likely*

trawsffurfiol *transformational*

adolygiad(au) *review(s)*

addasiad(au) *adaptation(s)*

agoriad llygad *eye-opener*

ansawdd *quality*

awgrym(iadau) *suggestion(s)*

carcharor(ion) *prisoner(s)*

carw (ceirw) *deer*

crwban(od) *tortoise(s)*

cyflwyniad(au) *introduction(s);
presentation(s)*

diferyn (diferion) *drop(s)*

diwedd glo *ending*

gweinyddwr (-wyr) *administrator(s)*

gwendid(au) *weakness(es)*

proffesiynoldeb *professionalism*

rhiniog(au) *threshold(s)*

sinsir *ginger*

dan glo *under lock and key*

nid ar chwarae bach mae... *it's no mean feat to... / ... is no easy task*

wrth gefn *in reserve*

Geiriau pwysig i mi

×

×

×

×



Adolygu - Geirfa

Defnyddiwch yr ymadroddion hyn i aralleirio'r brawddegau isod. Ella bydd angen treiglo neu wneud newidiadau eraill.

gadael eu hôl	meddwl mawr	perchennog	wrth reswm
yn hytrach na	y math yna o beth	ochr yn ochr	ar fy liwt fy hun
llawn cystal	dyblu		

- Dw i ddim yn hoffi pethau fel yr *X Factor* ar y teledu.
Dw i ddim yn hoffi'r *X Factor* a'r ar y teledu.
- Wnaeth hi ddim dewis y cig oen, mi ddewisodd hi'r pryd llysieuol efo madarch.
Mi ddewisodd hi'r pryd llysieuol efo madarch 'r cig oen.
- Mae'r darten afalau'n hyfryd iawn a'r pwdin taffi hefyd.
Mae'r darten afalau'n hyfryd iawn ac mae'r pwdin taffi
- Mae prisiau tai yn yr ardal ddwywaith cymaint ag roedden nhw ddeng mlynedd yn ôl.
Mae prisiau tai yn yr ardal wedi dros y deng mlynedd diwethaf.
- Mae'r rheolwr yn meddwl bod Sam Pascales yn chwaraewr ifanc da iawn.
Mae gan y rheolwr o'r chwaraewr ifanc, Sam Pascales.
- Mae Siân yn hunangyflogedig.
Mae Siân yn gweithio
- Dach chi'n medru gweld bod beiciau modur wedi bod ar y llwybr.
Mae beiciau modur wedi ar y llwybr.
- Does dim rhaid deud bod yr ysgyfarnog yn medru rhedeg yn gyflymach na'r crwban.
..... , mae'r ysgyfarnog yn medru rhedeg yn gyflymach na'r crwban.
- Wneith pwy bynnag sy biau'r Ford Fiesta coch sy wedi'i barcio o flaen y drws ei symud ar unwaith, os gwelwch chi'n dda?
Wneith y Ford Fiesta coch sy wedi'i barcio o flaen y drws ei symud o ar unwaith, os gwelwch chi'n dda?
- Mi safodd pob aelod o'r tîm wrth ochr ei gilydd i wynebu'r *Haka* cyn y gic gyntaf.
Mi safodd pob aelod o'r tîm i wynebu'r *Haka* cyn y gic gyntaf.



Adolygu – Patrymau

Darllenwch y parau yma o frawddegau efo'ch partner, ac wedyn addaswch y brawddegau trwy newid yr elfen sydd wedi'i thanlinellu yn y frawddeg ar y chwith. Mae un enghraifft wedi ei dangos i chi.

Dw i wedi bwcio bwrdd i ni yn y Llew Aur nos Wener.

Da iawn, Dw i'n siŵr y cawn ni fwyd hyfryd.

e.e. Dw i wedi bwcio bwrdd iddyn nhw yn y Llew Aur nos Wener.

Da iawn, dw i'n siŵr y cân nhw fwyd hyfryd.

Maen nhw'n mynd i Casa Gigio eto nos fory.

Mi ddudon nhw eu bod nhw'n hoff iawn o fwyd Eidalaid.

Wnaeth o ddim mwynhau yn Nhŷ Bwyta'r Ardd?

Naddo, ddim o gwbl! Mi ddudodd o mai dyna'r pryd gwaetha iddo fo ei gael erioed!

Dw i ddim wedi bod yn y Crochan Aur ers i'r perchnogion newydd gymryd drosodd.

Naddo? Dw i'n meddwl y synnet ti faint sy wedi newid yno.

Doedd o ddim yn cofio fy mod i ddim yn bwyta cig.

Mi ddylai fo fod wedi cofio hynny.

Storom Eirfa – Mynd allan am fwyd



Ysgrifennwch o leiaf 10 gair yn y blwch:



Darllen – *The Clink*

Edrychwch ar y lluniau a pharwch y gair â'r ffrwyth:



eirin



llugaeron



mango



riwbob

Pa ffrwythau dach chi'n eu bwyta? Pa un ydy eich hoff ffrwyth chi?

'Gadewch eich rhagfarnau ger y drws, a phrofwch bŵer trawsffurfiol pryd o fwyd.'

Do'n i erioed wedi bod yn y carchar o'r blaen, cyn cael cinio ym mwyty *The Clink* – **agoriad llygad** o brofiad. Roedd y bwyty wedi hawlio'r penawdau yn ddiweddar wedi iddo gyrraedd deg uchaf Trip Advisor ledled Prydain.

Nid ar chwarae bach mae rhywle fel hwn yn cadw cwmni i Michel Roux a Raymond Blanc, a bu'n rhaid i mi fynd i brofi'r bwyty yng Ngharchar Caerdydd. Agorodd *The Clink* yn 2012, ger mynedfa Carchar Caerdydd. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithwyr – o'r cogyddion i'r **gweinyddwyr** – yn garcharorion Categori D. Yn eu **goruchwylio** i gyd mae Chef Royston Somersall o ddociau Caerdydd. Er nad oes ganddo brofiad o gwbl o garchar, mi fuodd ei dad **dan glo** ers blynyddoedd.

O'r eiliad y croesais i **riniog** *The Clink*, ces fy synnu gan **ansawdd** y lle; o'r croeso a'r décor, i gerddoriaeth Ella Fitzgerald. Clywais **chwedl ddinesig** mai cylyll a ffyrac plastig a geir yno ond nonsens pur yw hynny; roedd pob bwrdd wedi'i osod i'r un safon â bwytaï gorau'r ddinas. Yn wir, yr unig wahaniaeth mawr rhwng *The Clink* a bwytaï eraill Caerdydd yw nad oes un **diferyn** o alcohol yn cael ei weini yno. Oherwydd hynny, archebais *mocktail* y dydd, oedd yn cynnwys mango, llugaeron a sinamon. Ar ôl y **cyflwyniad** blasus hwnnw, ces i bryd tri chwrs ardderchog.

Tyfir y ffrwythau, y llysiau a'r perlysiâu a weinir yn y bwyty yng ngerddi carchardai Prescoed a Chaerdydd. Chewch chi ddim byd mwy lleol a blasus na'r Salad Hydref a archebais fel cwrs cyntaf mewn unrhyw fwyty yng Nghaerdydd. Roedd cig **carw** fy ail gwrs yn berffaith – yn binc yn y canol, wedi'i ffrio'n ysgafn, ac fe doddodd yn fy ngheg efo'r tatws a'r llysiau rhost. Yr unig **wendid** i mi oedd y tortelloni diflas oedd efo fo. Ond roedd y pwdin wedyn yn ardderchog hefyd; tarten eirin a riwbob gyda sorbet **sinsir**. **Diweddglo** campus i bryd bwyd o safon uchel iawn.

Ond beth wnaeth y pryd yn 'brofiad arbennig' oedd **proffesiynoldeb** a chwmni diddorol y staff; roedd nifer yn siarad yn agored am eu bywydau **dan glo**, a pham roedden nhw yno. Y gobaith i'r rhan fwyaf yw gadael y carchar gyda chymhwyster a dilyn **gyrfa** yn y maes a dydyn nhw ddim yn **debygol** o ddychwelyd i'r carchar wedi cael cyfle o'r fath. Gadewch eich **rhagfarnau** ger y drws, a phrofwch bŵer **trawsffurfiol** pryd o fwyd; nid gimic mo'r *Clink*, ond profiad **bythgofiadwy**, i bawb.

(Addasiad o erthygl o wefan Lowri Haf Cooke – www.lowrihafcooke.wordpress.com)



1. Llenwch y bwlch cyn y gair sy ar y dde efo'r gair mwyaf addas o'r rhestr ar y chwith:

tarten	reis
tatws	llawn
wy	riwbob
brecwast	oren
brechdan	gleision
sudd	wedi'i ferwi
cregyn	rhost
pwdin	gaws

Pa rai o'r bwydydd hyn dach chi'n eu bwyta'n aml?

2. Nid ar chwarae bach mae rhywle fel hwn yn **cadw cwmni i** Michel Roux a Raymond Blanc.

Sut mae deud:

He is keeping me company.

I am keeping her company.

They are keeping us company.

3. Dydyn nhw ddim **yn debygol o** ddychwelyd i'r carchar.

Yn debygol **o** = likely **to**

Mae'r arddodiad **o** yn dilyn rhai ansoddeiriau eraill hefyd.

Sut mae deud:

He is sure to have a dessert.

I'm glad to accept.

I am determined to pass.

Siaradwch



- Pryd fwytoch chi allan ddiwetha?

Rhowch farciau rhwng 1 a 5 (1 = ofnadwy, 5 = ardderchog) am yr elfennau canlynol:

Lleoliad 1 ○ 2 ○ 3 ○ 4 ○ 5 ○

Gwasanaeth 1 ○ 2 ○ 3 ○ 4 ○ 5 ○

Bwydlen/Dewis 1 ○ 2 ○ 3 ○ 4 ○ 5 ○

Safon y bwyd 1 ○ 2 ○ 3 ○ 4 ○ 5 ○

Gwerth am arian 1 ○ 2 ○ 3 ○ 4 ○ 5 ○

- Oes gynnoch chi hoff fwyty? Pam?
- Be sy'n bwysig i chi wrth ddewis bwyd mewn bwyty? Dach chi'n tueddu i ddewis yr un bwyd bob tro?
- Sut mae arferion bwyta allan pobol wedi newid?



Gwyllo a gwrando – *The Clink*

Dach chi wedi darllen darn Lowri Haf Cooke am fwyty *The Clink*. Rŵan, mi fyddwch chi'n gweld fideo sy'n dangos ymweliad Lowri a Llinos Lee o raglen *Heno â'r bwyty*.

1. Edrychwch ar y geiriau newydd – **carcharorion**, **beirniad**, **adolygiadau** – mewn dwy frawddeg sy'n dŵad o'r clip:

Dan ni'n fwyty sydd yn hyfforddi **carcharorion**.
Mae Lowri yn **feirniad** bwytai ac yn sgwennu **adolygiadau**.

2. Be mae Lowri'n ei wneud i gylchgronau *Red Handed*, *Y Dinesydd* a *Barn*?

.....

3. Pam roedd Lowri'n arbennig o ddiolchgar i Llinos am y gwahoddiad?

.....

4. Llenwch y bylchau:

Bydd y carcharion sy'n cael eu hyfforddi yn *The Clink* yn aros yn y carchar am rhwng a mis arall.

5. Pwy sy'n bwyta be? Efo'ch partner, rhowch y bwydydd yma yn y lle iawn yn y tabl.

	caws brie salad hydrefol	tarten eirin cig carw	tarten siocled
	Llinos	Lowri	
cwrs cyntaf			
prif gwrs			
pwdin			

Dan ni ddim yn clywed be gaeth Llinos fel ei phrif gwrs. Be dach chi'n meddwl ydy o? (Edrychwch ar y fideo.)

6. Be ydy barn Lowri am brisiau'r bwyd yn *The Clink*?

.....

Deialog

Cymerwch un o rannau'r ddeialog a'i hymarfer efo'ch partner.

Dai: **O Siân, fan hyn rwyf ti!** Dw i wedi bod yn chwilio amdanat ti.

Siân: Be sy'n bod, Dai?

Dai: Mae'r dosbarth wedi gofyn i mi drefnu i ni fynd allan am bryd o fwyd wythnos nesa.

Siân: Grêt. Lle dan ni'n mynd?

Dai: Dyna'r broblem - dw i mewn penbleth. Dw i ddim yn gwybod lle i ddechrau. **Mi synnet ti faint o fwytai sy yn y dre.** Oes gen ti unrhyw awgrymiadau?

Siân: Be am Tandoori Glanyrafon? Dw i wedi clywed bod y bwyd yno'n hyfryd.

Dai: Ydy, dw i'n gwybod, ond dydy Mair ddim yn licio cyrri.

Siân: Be am Dafarn y Felin? Maen nhw'n deud bod hwnnw'n lle neis. Ac mae'n dafarn annibynnol hefyd.

Dai: Mae'r gerddoriaeth yn rhy uchel yno; mi fyddwn ni isio sgwrsio, on' byddwn?

Siân: O, byddwn, wrth gwrs. Be am Fwyty'r Hen Fanc, 'ta? Mae'n ddistaw ac mae'r bwyd yn dda.

Dai: Ydy, ond mae'n ddrud iawn. **Dw i ddim yn meddwl y bydd pawb isio gwario cymaint.**

Siân: Ocê. Be am y Bistro Bach? **Dw i erioed wedi bod yno** ond dw i'n meddwl bod y prisiau'n ddigon rhesymol yno.

Dai: Ydyn, ond mae'n lle bach iawn. Dw i ddim yn meddwl y basai 'na ddigon o le i ni.

Siân: Dw i ddim yn gwybod lle arall medra i ei gynnig, 'ta.

Dai: Dw i'n gwybod. Mi awn ni i'r Pelican Glas. **Mi ddudodd y tiwtor mai'r Pelican Glas ydy ei hoff dŷ bwyta yn y dre.**

Siân: Syniad gwych – mae 'na ddewis da o fwyd yno, mae'r prisiau'n rhesymol, mae'n lle cysurus ac mi fydd 'na ddigon o le i bawb.

Dai: Diolch yn fawr am dy help di, Siân. Dw i ddim yn gwybod be faswn i'n wneud hebdat ti!

Siaradwch



Mynd allan am bryd o fwyd

- Pa fath o fwyd mae pawb yn ei hoffi?
- I le dach chi isio mynd a phryd?
- Be ydy'r cynllun wrth gefn os nad ydy hynny'n bosib – newid lleoliad, neu newid amser/dyddiad?
- Pwy sy'n mynd i gysylltu â'r lleoliad?
- Pwy fydd yn casglu'r dewisiadau a'r pres (os oes angen rhoi blaendal)?

Idiom



Nid ar chwarae bach

Uned 24 - Cyfathrebu

Nod yr uned hon ydy...

- Ymarfer defnyddio **hwn, hon** a **hyn**
- Siarad am wahanol ffyrdd o gyfathrebu
- Dysgu geirfa ac idiomau newydd

Geirfa

bydwraig *midwife*
(bydwragedd) *(midwives)*

gweledigaeth(au) *vision(s)*

pregeth(au) *sermon(s)*

trafodaeth(au) *discussion(s)*

anwybyddu *to ignore*

curadu *to curate*

cyfyngu ar *to limit; to restrict*

diweddarau *to update*

elwa (ar) *to profit (from)*

llacio *to loosen*

llorio *to floor*

anabledd(au) *disability(-ies)*

brigyn (brigau) *twig(s),
branch(es)*

cnawd *flesh*

cyfyngiad(au) *limitation(s);
restriction(s)*

dylanwadwr (-wyr) *influencer(s)*

lles *benefit*

podlediad(au) *podcast(s)*

prysurdeb *busyness*

swildod *shyness*

unigrwydd *loneliness*

chwyldroadol *revolutionary*

rhithwir *virtual*

cadw mewn cof *to keep in mind*

mynd o nerth i nerth *to go from strength to strength*

yn ei anterth *in his prime*

Geiriau pwysig i mi

×

×

×

×



Ymarfer – hwn, hon, hyn, y rhain

Mae'r bwrdd hwn yn grwn.

Mae hwn yn sgwâr.....

Mae'r llyfr hwn yn dda.

.....

Mae'r cyfrifiadur hwn yn newydd.

.....

Mae'r bag hwn yn drwm.

.....

Mae'r gadair hon yn galed.

Mae hon yn feddal.....

Mae'r gôt hon yn wlyb.

.....

Mae'r ffeil hon yn ysgafn.

.....

Mae'r ffenest hon yn fudr.

.....

Mae'r dillad hyn yn ffasiynol.

Mae'r rhain yn hen ffasiwn.....

Mae'r bisgedi hyn yn hyfryd.

.....

Mae'r da-da/fferins hyn yn felys.

.....

Mae'r pensiliau hyn yn anobeithiol.

.....

Efo'ch partner, meddyliwch am enw yn lle'r rhain/hwn/hon:

Mae'r rhain yn flasus.

Mae'r selsig hyn yn flasus.....

Mae hwn yn fawr.

.....

Mae hon yn lân.

.....

Mae hon yn ifanc.

.....

Mae'r rhain yn dda.

.....

Mae hwn yn ofnadwy.

.....

Mae'r rhain yn oer.

.....

Mae hwn yn gryf.

.....

Mae hyn yn bosib.

Mae hyn yn amhosib.....

Mae hyn yn hawdd.

.....

Mae hyn yn arferol.

.....

Mae hyn yn wych.

.....

Help llaw



<i>this / these yn Gymraeg</i>				
	gwrywaidd	benywaidd	lluosog	haniaethol
annibynnol (anffurfiol a ffurfiol)	hwn Mae hwn yn ddyn prysur.	hon Mae hon yn ddynes alluog.	y rhain Mae'r rhain yn anifeiliaid peryglus.	hyn Mae hyn yn amhosib. Mi fydd hyn yn broblem. Ar hyn o bryd.
disgrifio (anffurfiol)	y ... yma Mae'r bwyd yma'n hallt. Mae'r gath yma'n byw drws nesa. Mae'r sanau yma'n fudr.			
disgrifio (ffurfiol)	y ... hwn Mae'r bwyd hwn yn hallt. Mi fasai'r llun hwn yn berffaith yn y lolfa.	y ... hon Mae'r gath hon yn byw drws nesaf. Roedd y ffrog hon yn hanner pris.	y ... hyn Mae'r hosanau hyn yn fudr. Dydy'r lluniau hyn ddim yn glir.	

Ymarfer – hwnna, honna, hynny, y rheina

Rhaid i mi bobî cacen.	Mae hynny'n hawdd.....
Mae fy chwaer newydd gael babi.
Dw i'n gorfod gweithio tan 11 o'r gloch heno.
Dw i isio trio nofio o Gymru i Batagonia.
Rhaid i mi orffen fy ngwaith i gyd heddiw.
Rhaid i mi dalu dwbl achos ro'n i'n hwyr yn talu.
Dw i wedi ennill gwyliau yn Sbaen.



Ymarfer

Efo'ch partner, cyfieithwch y brawddegau hyn:

1a. *This is a good idea.*

1b. *This idea is good.*

1c. *That is a good idea.*

1ch. *That idea is good.*

1d. *This is good.*

1dd. *That is good.*

2a. *This is a tasty cake.*

2b. *This cake is tasty.*

2c. *That is a tasty cake.*

2ch. *That cake is tasty.*

3a. *These are easy books.*

3b. *These books are easy.*

3c. *Those are easy books.*

3ch. *Those books are easy.*

3d. *These are easy.*

3dd. *Those are easy.*



Help llaw

<i>that / those yn Gymraeg</i>				
	gwrywaidd	benywaidd	lluosog	haniaethol
annibynnol (anffurfiol)	hwanna Mae hwanna'n lle braf.	honna Mae honna'n dre ddiflas.	y rheina Mae'r rheina'n blant da.	hynny Mae hynny'n anodd.
disgrifio (anffurfiol)	y ... yna Mi gaeth o ei eni yn y pentre yna. Roedd y gân yna'n dda. Maen nhw'n hoff o'r syniadau yna.			
	gwrywaidd	benywaidd	lluosog	haniaethol
disgrifio (ffurfiol)	y ... hwnnw Cafodd ei eni yn y pentref hwnnw. Tryfan ydy enw'r mynydd hwnnw.	y ... honno Roedd y gân honno'n dda. Gawsoch chi ateb i'r broblem honno?	y ... hynny Maen nhw'n hoff o'r syniadau hynny. Pwy ydy'r bobol hynny?	

Deialog

Geirfa:

gweledigaeth

chwyldroadol

A: Am be mae hwn yn cwyno eto?

B: Am bopeth dan haul, wrth gwrs. Ond am ddiffyg gweledigaeth y pennaeth, yn bennaf.

A: Mae honna wedi dringo'n uchel yn gyflym iawn, tydy?

B: Ydy. Ond mae pethau fel hyn wedi digwydd yn y cwmni 'ma erioed.

A: Mae'r bôs mawr yn licio rhoi swyddi da i'w ffefrynnau fo.

B: A dydy'r rheina ddim yn bobol chwyldroadol! Felly, cwyno bydd hwn am dipyn eto, dw i'n ofni.

Efo'ch partner, ysgrifennwch y paragraff yn **fwy ffurfiol**:

Amser maith yn ôl, pan o'n i'n blentyn, ro'n i'n sgwennu llythyrau'n aml. Mae'r llythyrau 'ma yn dal i fod gen i mewn drôr yn rhywle. Ond y dyddiau 'ma, mae pawb yn cyfathrebu heb godi beiro – ffôn, tecst, trydar, Instagram. Be nesa? Dw i ddim yn gwybod. Lle fydd hyn yn gorffen? Fydd neb yn siarad efo'i gilydd yn y dyfodol! Rŵan, lle aeth y ffôn yna?

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Gwyllo a gwrando – Defnyddio Instagram i wneud gwahaniaeth



Mi fyddwch chi'n gwyllo clip o'r rhaglen ddogfen *Drych*. Yn y clip, mae Jess Davies, sy'n ddylanwadwr ar y cyfryngau cymdeithasol, yn cyfarfod Caryl Gruffydd Roberts sy'n byw yn ardal Aberystwyth.

1. Be ydy dylanwadwr? Trafodwch efo'ch partner.
2. Yn y clip, mi fyddwch chi'n clywed Caryl yn defnyddio **hyn** a **hwanna**:

magu plentyn

Mae **hyn** yn anodd.

magu plentyn

Mae **hyn** yn galed.

magu plentyn

Dw i ddim yn credu bod **hyn** mor anodd.

grŵp cerdded

Mae **hwanna** wedi mynd o nerth i nerth.

grŵp cerdded

Dw i wedi ffeindio bod **hwanna** yn rhywbeth sy'n helpu fi lot.

3. Edrychwch ar y geiriau newydd a pharwch y gair â'r diffiniad:

cadw mewn cof	dewis y pethau dach chi'n eu dangos yn ofalus
bydwraig	Os dach chi ddim yn ymdopi, dach chi'n medru cael eich _____.
curadu	nyrs sy'n dŵad â babanod i'r byd
llorio	tyfu neu lwyddo
mynd o nerth i nerth	cofio

4. Cywir neu Anghywir. Rhowch ✓ neu X ar y llinell.

Mi ddechreuodd Caryl ddefnyddio Instagram ar ôl cael ei phlentyn cyntaf.

Mae Caryl yn berson diog.

Mae Caryl yn siarad yn onest ar Instagram.

Mae llun ar Instagram yn deud sut mae rhywun yn teimlo dros gyfnod o amser.

Mi gaeth Caryl gymorth gan fydwraig o Abertawe.

Roedd Caryl yn gwerthfawrogi medru gwneud rhywbeth heblaw am ofalu am y plant ar ddydd lau.

Mae'r gefnogaeth i'r grŵp cerdded wedi lleihau dros amser.

5. Dach chi wedi dysgu **cadw mewn cof**. Dach chi'n medru meddwl am enghreifftiau eraill lle dan ni'n defnyddio **cadw**?

6. Siaradwch:

”

- Dach chi'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol? Os ydych chi, pa mor aml dach chi'n diweddarau'ch proffil chi? Os na, pam ddim?
- Mi gaeth Caryl sioc fod magu plentyn mor anodd ac mi drodd hi at Instagram. Dach chi'n medru deall hyn? Be oedd pobol yn ei wneud cyn dyddiau'r cyfryngau cymdeithasol?
- Ydy'r cyfryngau cymdeithasol yn gwneud mwy o les nag o ddrwg?
- Pa blatfformau sy yn eu hanterth ar hyn o bryd?

Darllen



COVID-19 yn gwella cyfleoedd

Geirfa: cyfyngiadau swildod unigrwydd yn y cnawd prysurdeb trafodaeth llacio cyfyngu elwa rhithwir pregeth anabledd anwybyddu

Mae hanner y geiriau yma'n hawdd eu dysgu achos eich bod chi'n gwybod rhan ohonyn nhw:

Cymraeg	Saesneg	Cymraeg	Saesneg
cyfyng		cyfyngiadau	
		cyfyngu	
ymlacio		llacio	
anabl		anabledd	
swil		swildod	
prysur		prysurdeb	
unig		unigrwydd	
trafod		trafodaeth	

Dewiswch **un o'r pum gair arall** i lenwi'r bylchau yma bob tro:

Mi weles i loan yn y dre ddoe ond mi _____ o fi.

"Oedd y gwersi'n ddefnyddiol?" "Oedden, dw i wedi _____ 'n fawr."

Testun y _____ oedd helpu pobol mewn angen.

Mi gaethon ni gyfarfod _____ achos bod y tywydd mor ofnadwy.

Mae'n well gen i gael sgwrs go iawn efo rhywun _____.

Mae MS ar Siân Roberts ac mi ysgrifennodd hi'r erthygl yma yn ystod y cyfnod pan oedd **cyfyngiadau**'n codi ar ôl y cyfnodau clo a phobol yn dechrau cyfarfod unwaith eto.

"O, bydd hi'n braf cyfarfod fel o'r blaen!"

Sawl gwaith glywoch chi aelodau cymdeithasau gwahanol yn dweud hynny dros gyfnod y pandemig?

Roedd hiraeth arnon ni am gael cyfarfod **yn y cnawd**. Roedden ni'n gweld eisiau gwên gynnes, ysgwyd llaw, tameidiau o newyddion dibwys, cydganu, paned...

Yn ystod y pandemig, llwyddodd llawer o gymdeithasau a sefydliadau i addasu gan ddefnyddio cyfryngau gwahanol i gyrraedd pobl. Mae nifer o gymdeithasau'n dweud eu bod wedi cyrraedd pobl hollol newydd gan ddyblu eu cynulleidfaoedd, a mwy.

Tybed beth fydd yn digwydd nawr, a'r cyfyngiadau ar gyfarfod yn cael eu **llacio**? Dydy cyfarfod wyneb yn wyneb ddim yn hawdd, na hyd yn oed yn bosibl, i lawer.

Mae cant o mil o resymau pam mae'n haws gan bobl fynd i gyfarfod **rhithwir** nag i gyfarfod 'go iawn', e.e. henaint, afiechyd, **anabledd**, cyfrifoldebau gofalu, **swildod** a **phrysurdeb**. Dyma unig ddewis rhai pobl.

Mae MS yn **cyfyngu** ar fy ngallu i i fynd i ddigwyddiadau. Ond yn ystod dim ond un wythnos yn y cyfnod clo cyntaf, mi fues i mewn cyngerdd, darlith, parti pen-blwydd, **pregeth**, sesiwn cadw'n heini, seminar a chwis – a'r cyfan yn fy slipars!

Nawr, mae'r cyfyngiadau'n dod i ben ac fe gaiff y rhan fwyaf o bobl gyfarfod fel o'r blaen. Ydy pobl anabl ac eraill yn mynd i gael eu **hanwybyddu** a'u hanghofio? Fydd **unigrwydd** yn codi ei ben unwaith eto? Byddai'n drueni colli cwmni'r bobl hyn.

Mae rhai sefydliadau wedi dechrau cynnal digwyddiadau *hybrid*, gyda rhai pobl yn cyfarfod yn y cnawd ac eraill yn ymuno o bell. Gall hyn weithio'n o lew gydag un neu ddau siaradwr ond anodd cynnal **trafodaeth** gyda rhai aelodau mewn canolfan ac eraill gartref.

Yr her fydd darparu ar gyfer pawb sy'n awyddus i fod yn rhan o ddigwyddiadau gan **elwa** ar y gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig.

1. Efo'ch partner, dewch o hyd i'r ymadroddion hyn yn Gymraeg:

- i. *like before*
- ii. *over the period of the pandemic*
- iii. *shaking hands*.....
- iv. *completely new people*.....
- v. *caring responsibilities*
- vi. *during only one week*.....
- vii. *disabled people and others*
- viii. *one or two speakers*

2. Atebwch y ddau gwestiwn nesaf yn y ddau flwch:

- i. Sut helpodd y pandemig Siân i gadw mewn cysylltiad â phobol eraill?
- ii. Pwy fydd yn colli allan os bydd cyfarfodydd rhithwir yn dŵad i ben yn llwyr?
Trafodwch â'ch partner, yna rhestrwch dri pheth yn y ddwy golofn.

i.	ii.
1.	1.
2.	2.
3.	3.

Siaradwch:

- Sut newidiodd eich bywyd chi yn ystod y pandemig?
- Pa bethau dach chi'n dal i'w gwneud yn rhithwir?
- Be oeddech chi'n ei gollu fwya yn ystod y pandemig?
- O ran cyfathrebu, pa wersi dan ni wedi eu dysgu ers y pandemig?

Idiom



Yn eu hanterth

Uned 25 - Yr Amgylchedd

Nod yr uned hon ydy...

- Ymarfer defnyddio **mewn** ac **yn**
- Siarad am yr amgylchedd
- Dysgu geirfa ac idiomau newydd

Geirfa

amlosgfa *crematorium(s)*
(amlosgfeydd)

hinsawdd *climate*

masnach *trade*

ailblannu *to replant*

amlosgi *to cremate*

amsugno *to absorb*

ynysu (rhag) *to insulate (from);
to isolate*

llaith *damp*

cardfwrdd *cardboard*

cludiant cyhoeddus *public transport*

cydbwysedd *balance,
equilibrium*

cynrychiolydd (-wyr) *representative(s)*

eiddo *property*

erw(au) *acre(s)*

gwair *grass; hay*

newyn(au) *famine(s), hunger*

sychder(au) *drought(s),
dryness*

sylw (sylwadau) *comment(s)*

cynhesu byd-eang *global warming*

erbyn meddwl *come to think of it*

masnach deg *fair trade*

nerth ei phen *at the top of her voice*

nwyon tŷ gwydr *greenhouse gases*

pwnc llosg *burning issue, hot topic*

Y Parchedig (Y Parch.) *The Reverend (dyn neu ddynes)*

Yr Athro *Professor (dyn neu ddynes)*

Geiriau pwysig i mi

×

×

×

×

Siaradwch



- Dach chi'n teimlo'n fwy hyderus yn defnyddio patrymau ar ddiwedd Uwch 1? Oes 'na batrymau hoffech chi eu hadolygu?
- Dach chi wedi cael digon o gyfle i siarad yn y dosbarth? Dach chi'n hoffi siarad am bethau pob dydd neu am y themâu sy yn y cwrs?
- Ydy eich sgiliau gwrando a gwylio wedi gwella? Dach chi'n gwrando ar Radio Cymru neu ar bodlediadau, neu'n edrych ar S4C yn gyson?
- Dach chi'n mwynhau darllen yn y dosbarth? Pa lyfrau Cymraeg dach chi wedi'u darllen?
- Sut dach chi'n dysgu geirfa?
- Be fyddwch chi'n ei wneud i ddatblygu'ch Cymraeg chi dros y cyfnod nesa?

Mewn ac Yn

Newidiwch y geiriau sy wedi'u tanlinellu:

Mewn

Dw i'n byw **mewn** pentref.

Dw i'n gweithio **mewn** caffi.

Dw i'n gweithio **mewn** siop lyfrau.

Yn

Dw i'n byw **yn y** pentref.

Dw i'n gweithio **yngh Nghaffi Bella**.

Dw i'n gweithio **yn siop lyfrau'r brifysgol**.

Ymarfer



Ydy hi'n gweithio'n galed?

Dydy hi ddim yn credu mewn gweithio'n galed.

Ydy hi'n gwneud ymarfer corff?

Ydy hi'n bwyta'n iach?

Ydy hi'n helpu pobol eraill?

Ydy hi'n ailgylchu sbwriel?

Ydy hi'n meithrin talentau'r bobol ifanc?.....

Oes gynno fo ddiddordeb mewn hanes? Oes, mae gynno fo ddiddordeb yn hanes Cymru.

Oes gynno fo ddiddordeb mewn nofelau?

Oes gynno fo ddiddordeb mewn barddoniaeth?.....

Oes gynno fo ddiddordeb mewn ffilmiau?

Oes gynno fo ddiddordeb mewn alawon gwerin?.....

Deialogau - Mewn / Yn

Deialog 1

A: Bore da, Swyddfa'r Cyngor. Lyn yn siarad.

B: Bore da. Dw i angen bagiau ailgylchu. Ydyn nhw ar gael **yn** eich swyddfa chi?

A: Nac ydyn. Maen nhw ar gael **mewn** unrhyw lyfrgell, neu **yn** eich Swyddfa Bost leol.

B: Fedra i gael bagiau bwyd **yn** fy llyfrgell i hefyd?

A: Na fedrwch, mae'n ddrwg gen i. Mi fydd rhaid i chi brynu bagiau bwyd **mewn** archfarchnad.

B: Pa un?

A: Maen nhw ar gael **yn** y ddwy archfarchnad yn y dref.

B: Diolch am eich help.

A: Hwyl!

Deialog 2

A: Wyt ti'n poeni am newid hinsawdd?

B: Wrth gwrs mod i. Dyma'r broblem fwyaf **yn** y byd.

A: Ond dydy'r sefyllfa ddim yn ddifrifol **yng** Nghymru eto.

B: Sut wyt ti'n medru deud hynny? Mae 'na newidiadau mawr wedi bod **ym** mhatrymau'r tywydd. Dan ni'n cael llawer mwy o stormydd a thywydd eithafol y dyddiau hyn.

A: Rwyt ti'n iawn, erbyn meddwl. Ac mae'n waeth byth i bobol **mewn** gwledydd tlawd.

B: Mae newid hinsawdd yn beryglus dros ben **yn** y gwledydd hynny.

A: Dw i wedi darllen erthyglau diddorol **mewn** nifer o bapurau newydd a chylchgronau yn ddiweddar.

B: A finnau. Mae gwyddonwyr yn deud bydd y môr yn codi dros y tir **mewn** llawer o drefi **ym** Mhrydain hyd yn oed. Mi fydd cymunedau **mewn** perygl.

A: Mae fel stori Cantre'r Gwaelod.

B: Ydy. Rhaid i ni i gyd gymryd cyfrifoldeb am y sefyllfa.



Ymarfer

Rhowch **yn** neu **mewn** yn y bylchau. Ella bydd rhaid treiglo hefyd.

1. Mae llygredd yn broblemdinasoedd mawr.
2. Does 'na ddim problem sbwriel fy mhentref i.
3. Rhowch eich eitemau plastig un o fagiau glas y cyngor.
4. Mi fedrwch chi adael hen offer trydanol rhai safleoedd ailgylchu.
5. Rhowch eich gwastraff bwyd chi y bin bwyd.
6. Maen nhw'n casglu gwydr safle ailgylchu Nant-y-caws.
7. Does 'na ddim lle pentref bach fel hwn i ailgylchu batris.
8. Ella eich bod chi'n medru ailgylchu batris ychydig o ysgolion yn yr ardal.
9. Gaf i roi fy hen feic i eich sgip chi?
10. Mi fedrwch chi roi gwastraff metel biniau.
11. Mi ddylai fod safle ailgylchu pob ardal.
12. Dwyt ti ddim i fod i roi gwastraff bwyd tri bin.

Efo'ch partner, trafodwch be ydy'r brawddegau hyn yn Gymraeg:

She was talking at the top of her voice yesterday.

He should be in bed because he has a cold.

"What are we doing in class tonight?"

I see them in town every lunchtime.

We do our best to recycle in work.

She has a daughter at university.

He arrived at college breathless.

Astronauts work in space.



Help llaw - Mewn / Yn

Amhendant (<i>Indefinite</i>) mewn + enw	Pendant (<i>Definite</i>) yn + y/yr + enw	Pendant (<i>Definite</i>) yn + enw pendant
Dw i'n gweithio mewn siop. = <i>in a shop</i>	Dw i'n gweithio yn y siop. = <i>in the shop</i>	Dw i'n gweithio yn siop John. = <i>in John's shop</i>
Dw i'n byw mewn tref. = <i>in a town</i>	Dw i'n byw yn y dref. = <i>in the town/in town</i>	Dw i'n byw yn nhref Caernarfon. = <i>in the town of Caernarfon</i>
Dw i'n gweithio mewn swyddfa. = <i>in an office</i>	Dw i'n gweithio yn y swyddfa. = <i>in the office</i>	Dw i'n gweithio yn swyddfa'r Cyngor. = <i>in the Council's office</i>
Dw i'n gweithio mewn ysbyty. = <i>in a hospital</i>	Dw i'n gweithio yn yr ysbyty. = <i>in the hospital</i>	Dw i'n gweithio yn Ysbyty Bronglais. = <i>in Bronglais Hospital</i>
Mae gen i ddiddordeb mewn llyfrau gwyddoniaeth. = <i>in science books</i>	Mae gen i ddiddordeb yn y llyfrau gwyddoniaeth hyn. = <i>in these science books</i>	Mae gen i ddiddordeb yn llyfrau gwyddoniaeth Dr Davies. = <i>in Dr Davies's science books</i>
Mae gen i ddiddordeb mewn hanes. = <i>in history</i>	Mae gen i ddiddordeb yn yr hanes. = <i>in the history</i>	Mae gen i ddiddordeb yn hanes Gogledd America. = <i>in North American history</i>
Mae'r sbwriel mewn sgip. = <i>in a skip</i>	Mae'r sbwriel yn y sgip. = <i>in the skip</i>	Mae'r sbwriel yn sgip Anna. = <i>in Anna's skip</i>

Hefyd ...

Mewn

- cyn **berfenwau**: Does gen i ddim diddordeb **mewn gweithio**'n llawn amser. Dydy o ddim yn credu **mewn arbed** ynni.

- cyn **rhifau**: Mae o'n gweithio **mewn tri** ysbyty. Mi dorrodd hi ei braich **mewn dau** le.

ond: Mae o'n canu **yn y ddau** gôr. (*in the two / in both*)

- efo'r geiriau **rhyw** a **rhai**: Maen nhw **mewn rhyw** gaffi newydd.

mewn rhai sefyllfaoedd **mewn rhai** trefi

- o flaen **llawer**, **gormod**, **digon**, **ychydig**: Mae 'na gorau **mewn llawer** o drefi. Mi gyrhaeddtes i **mewn digon** o amser.

Yn

- cyn **rhagenwau** (**fy**, **dy**, **ei**, **ein**, **eich**, **eu**) **yn fy** marn i **yn eich** tŷ chi **yn ei** gwaith hi

- cyn **pob** **ym mhob** gwlad **ym mhob** tref

Cofiwch: yn aml mae **y** yn Gymraeg lle does 'na ddim *the* yn Saesneg:

in town = yn y dref

in school = yn yr ysgol

in bed = yn y gwely

in class = yn y dosbarth


in / at work = yn y gwaith

at university = yn y
brifysgol

Yr Amgylchedd

Geirfa

Nodwch o leiaf 10 gair yn y blwch ar y thema **Yr Amgylchedd**:



Siaradwch



Gofynnwch i bump o bobol be maen nhw'n ei wneud i helpu'r amgylchedd.

Enw	Ailgylchu popeth	Cawod/bath	Diffodd y golau	Prynu nwyddau masnach deg

Gwyllo a gwrando 1 - Ailgylchu



Mi fyddwch chi'n gwyllo fideo o bobol yng Nghaerdydd ac yn Rhuthun yn siarad am eu harferion ailgylchu nhw.

Gwnewch nodiadau. Yna, efo partner, paratowch grynodedb o **sylwadau** pobol yn y ddau le.

Caerdydd	Rhuthun



1. Gwrandewch ar y siaradwraig gyntaf eto a llenwch y bylchau. Mae hi'n defnyddio llawer o eirfa sy'n ddefnyddiol wrth drafod ailgylchu:

Dw i'n ailgylchu. Mae gynnon ni _____ sy'n mynd allan unwaith yr wythnos a bin _____ sy'n mynd allan unwaith bob pythefnos. Dw i'n didoli'r _____ a'r _____ i mewn i ddau fin gwahanol a hefyd yn gwahanu _____ hefyd. Dw i'n credu bod ailgylchu yn hynod bwysig a bod angen i ni _____ ein gwastraff cyffredinol.

2. Cyfieithwch:

in black bags
We put paper and glass in one bag.
in another little bin

3. Mae'r siaradwraig olaf yn sôn am **gerrig mân**. Be dach chi'n feddwl ydy:

cerrig mân _____ glaw mân _____
 oriau mân _____ arian mân _____

Siaradwch

Be sy bwysica er mwyn gwella'r amgylchedd? Trafodwch mewn grwpiau, a rhowch nhw yn nhrefn eu blaenoriaeth.

Geirfa: amlogi cludiant cyhoeddus ynysu

Paneli solar

Cael eich **amlogi** yn hytrach na'ch claddu

Ailddefnyddio amlenni

Defnyddio **cludiant cyhoeddus**

Ailgylchu ffonau symudol

Bancio ar y we

Peidio â phrynu ffrwythau a llysiau mewn pecynnau

Ynysu'r to

Troi'r gwres i lawr

Diffodd y teledu a chyfrifiaduron, yn lle eu rhoi i gysgu



Gwyllo a gwrando 2 - Her yr Hinsawdd

Geirfa:

**ailblannu
cynrychiolwyr
Y Parchedig**

**amsugno
llaith**

**cydbwysedd
newyn**

**cynhesu byd-eang
nwyon tŷ gwydr**

Llenwch y bylchau â'r geiriau newydd. Mi fyddwch chi'n dysgu tipyn am y fideo wrth lenwi'r bylchau.

Mae hi'n _____ yn Kampala.

Dydy'r wlad ddim yn cyfrannu llawer at broblem _____
_____.

Mae effaith _____ yn achosi pob math o broblemau.

Mae elusen sy'n ymladd _____ yn cael cymorth gan
Lywodraeth Cymru.

Mae _____ coed yn bwysig.

_____ Apolo ydy arweinydd y tîm.

Mae 'na _____ o elusennau o Gymru yn Mbale.

Mae'r plant yn dysgu bod coed yn cyfrannu at _____ y blaned.

Mae'r plant yn dysgu bod coed yn _____ carbon deuocsid.

Mi fyddwch chi'n gwyllo rhan o'r rhaglen *Her yr Hinsawdd*, lle mae'r Athro Siwan Davies yn ymweld â Mbale yn Uganda i weld sut mae newid hinsawdd wedi effeithio ar fywydau pobol yno.

1. Be mae Siwan Davies yn ei ddeud am...

y glaw?

y cnydau?

ailblannu coed?

2. Gorffennwch y brawddegau hyn:

i. Roedd y plant wedi paratoi i Siwan Davies.

ii. Mae Siwan Davies yn cael croeso mawr achos

.....

iii. Bob tro mae babi yn cael ei eni yng Nghymru mae

..... yn Mbale.

3. Be mae'r plant yn ei ddeud ydy effaith torri'r coed, yn eu drama nhw?

.....

Adolygu Geirfa Uned 25

Gweithiwch efo'ch partner chi i ddewis y gair cywir i fynd yn y bwlch. Ella bydd angen treiglo.

amlosgfa

amlosgi

Mae cyrff yn cael eu _____.

Mae'r angladd yn yr _____.

cynrychioli

cynrychiolydd

Mi fydd _____ o'r undeb yn bresennol yn y cyfarfod.

Mae swyddog yr undeb yn _____ ei gleient.

ailblannu

ailgylchu

Mae hi'n bwysig _____ cardfwrdd.

Mae hi'n bwysig _____ coed.

hunanyngysu

ynysu

Mi fuodd miliynau o bobol yn _____ yn ystod pandemig COVID-19.

Rhaid i mi _____ to'r atig cyn y gaeaf nesaf.

nerth ei ben

nerth ei phen

Roedd hi'n gweiddi _____.


Roedd o'n gweiddi _____.

cydbwysedd

gweddill


Mi ddylen ni gael _____ yn ein deiet.

Rhaid i mi dalu'r _____ erbyn diwedd y mis.



Dach chi rŵan yn medru darllen *Llwybrau Cul* gan Mared Lewis (Gomer). Dyma'r clawr:

Idiom



Nerth ei ben

Gwaith cartref

Unedau 1 - 25

Gwaith cartref Uned 1 - Her



i. Dach chi'n cofio'r geiriau hyn?

Fedrwch chi greu gair gwahanol gan ddefnyddio **tri** o'r geiriau isod?
Rhowch y gair newydd mewn brawddeg. Er enghraifft:

gwaith Rhaid i mi **weithio** dros y penwythnos.

herio balchder corfforol cystadleuol llongyfarch

1.

.....

2.

.....

3.

.....

ii. Rhowch ffurf gywir y ferf yn y bylchau, gan dreiglo os oes angen.

1. Mi hi hanner marathon pan oedd hi'n 60 oed. [rhedeg]
2. ti i'r dosbarth? i ddim. [cerdded]
3. Mi o at y llinell derfyn a'i wynt yn ei ddwrn. [gwibio]
4. i ddim ar awyren, mi i ar long. [teithio, hwylio]
5. Mi nhw'r map ond mi nhw ar goll. [darllen, mynd]

iii. **Ysgrifennwch ddarn am rywbeth heriol dach chi neu rywun dach chi'n ei nabad wedi ei wneud.** Rhedeg ras? Pobi llawer o gacennau? Mynd ar wifren sip? Dysgu sgîl newydd? Ceisiwch ddefnyddio berfau cryno yn eich gwaith, e.e. mi redes i, mi gyrhaeddes i.

iv. Darllenwch stori Guto Nyth Brân eto. Mae'r berfau sy'n dŵad o'r berfenwau hyn ar goll. Rhowch nhw yn y bylchau.

ennill	rhoi	gwibio
sylweddoli	trefnu	dŵad
cael	syrthio	rasio

Rhedwr cyflym iawn oedd Guto Nyth Brân. Mi ei eni yn 1700 yn y Rhondda, a'i enw go iawn oedd Griffith Morgan. Mi gaeth ei lysenw achos ei fod o'n byw ar fferm o'r enw Nyth Brân.

Pan oedd Guto'n fachgen ifanc, mi ei dad o fod dawn arbennig ganddo. Roedd o'n medru casglu defaid at ei gilydd yn gyflymach na'r cŵn, ac yn medru dal ysgyfarnogod a llwynogod ar ei ben ei hun.

Cariad Guto oedd Siân y Siop, a hi oedd yn trefnu ei rasys. Mi ras i Guto yn erbyn capten o Loegr ar Gomin Hirwaun, ger Aberdâr yn ne-ddwyrain Cymru. Doedd y capten erioed wedi colli ras. Ond Guto enillodd, ac mi gaeth £400 yn wobwr.

Ymhen amser, roedd Guto wedi trechu holl redwyr yr ardal. Ond, yn 1737, mi rhedwr newydd i'w herio, sef Prince o Fedwas.

Mi Guto yn erbyn Prince o Gasnewydd i Fedwas (tua 12 milltir). Roedd cefnogwyr Prince wedi taflu gwydr ar y llwybr er mwyn ceisio anafu Guto. Prince oedd ar y blaen am amser hir, ond wrth ddringo'r allt serth ar y ffordd i mewn i Fedwas, mi Guto heibio iddo a'i wynt yn ei ddwrn. Mi y ras mewn 53 munud, a'i wobwr oedd 1,000 Gini (£150,000 heddiw).

Roedd Siân yn aros am Guto wrth y llinell derfyn. Mi ei breichiau amdano, a churo'i gefn i'w longyfarch.

Roedd calon Guto'n curo'n drwm ar ôl ei waith caled. Yn drist iawn, mi Guto'n farw yn y fan a'r lle.



Gwaith cartref Uned 2 – Edrych i'r Dyfodol

i. Darllenwch y darn darllen **Ceir di-yrwr** unwaith eto, ac atebwch y cwestiynau hyn:

1. Be fydd prif fantais ceir di-yrwr, yn ôl yr erthygl?

.....

2. Nodwch un fantais i bobol sy ddim yn hoffi parcio.

.....

3. Nodwch un anfantais o ddibynnu ar gyfrifiadur.

.....

4. Nodwch un peth bydd rhaid ei wneud i baratoi ar gyfer ceir di-yrwr.

.....

ii. Cyfieithwch:

1. *I'll give you a lift.*

2. *I'll buy a cuppa for you.*

3. *I'll listen to the programme.*

4. *He'll tell you later on.*

5. *They won't say anything.*

6. *Will we see you tomorrow?*

iii. Gan ddefnyddio'r **dyfodol**, ysgrifennwch be fyddwch chi'n ei wneud wythnos nesaf.

Dydd Llun	
Dydd Mawrth	
Dydd Mercher	
Dydd Iau	
Dydd Gwener	
Dydd Sadwrn	
Dydd Sul	

iv. Meddyliwch am y gwaith grŵp **Siarad am y dyfodol** wnaethoch chi yn y dosbarth. Ysgrifennwch **ddau beth** fydd **yn** digwydd yn y flwyddyn 2150, a **dau beth** fydd **ddim** yn digwydd, yn eich barn chi. Defnyddiwch **mi fydd / mi fyddwn ni** neu **fydd 'na ddim / fyddwn ni ddim** i wneud brawddegau. Ysgrifennwch eich gwaith ar ddarn o bapur.

Gwaith cartref Uned 3 - Y Goedwig



i. Trowch y brawddegau hyn o amser y **gorffennol** i amser y **dyfodol**.

1. Mi aeth hi i'r dref. > *Mi eith hi i'r dref.*

2. Mi glywodd o sŵn.

3. Mi fwytes i frechdan jam.

4. Mi helpodd dy frawd di'r heddlu.

5. Mi ddaethon ni ar y trê.

6. Mi gerddon nhw yma.

7. Mi atebes i'r cwestiwn.

8. Mi ofynnodd o am help.

ii. **Cyfiethwch:**

1. *I would be in a quandry.*

2. *We wouldn't have asked what you asked.*

3. *If they'd only listened to the warning.*

4. *I could have planted more flowers.*

5. *I'd liked to have gone to the concert.*

6. *You shouldn't have argued with her.*

iii. Edrychwch eto ar y darn darllen **Coedwigoedd yn y Ffindir**. Dewch o hyd i **bum berfenw** ac ysgrifennwch frawddeg efo nhw yn amser y dyfodol, e.e. treulio > Mi dreulia i'r gwyliau haf yn Sbaen eleni.

1.

2.

3.

4.

5.

Gwaith cartref Uned 4 – Teimlo'n Chwithig



i. Ysgrifennwch **gwestiynau** i gyd-fynd â'r atebion hyn.

e.e. Lle hoffech chi fynd ar eich gwyliau? Mi faswn i'n hoffi mynd i Awstralia.

..... Mi fasai hi'n hoffi cael brechdan gaws.

..... Mi fasen nhw'n hoffi chwarae pêl-droed.

..... Mi fasen ni'n hoffi mwy o goffi.

..... Mi fasai fo'n hoffi diffodd y radio.

ii. Edrychwch eto ar ddarn **Darllen 2** ac atebwch y cwestiynau hyn:

1. Pam mae rhai pobol yn poeni am golli'r 'chi'?

.....

2. Mewn rhai ardaloedd, sut mae 'ti' a 'chi' yn cael eu defnyddio'n wahanol efo hogiau a genod?

.....

3. Pam mae rhai pobol yn poeni am ddefnyddio 'ti'?

.....

4. Pa wlad arall sy â phenbleth fel hyn?

.....

5. Be ydy mantais 'ti' wrth ysgrifennu ar y we?

.....

iii. Meddyliwch am y gair **trawsnewid**. Ysgrifennwch **ddau air** neu ymadrodd (*phrase*) yn defnyddio **traws**.

.....

Gwaith cartref Uned 5 – Celf



i. Cysylltwch y ddau gymal i greu brawddeg efo **bod**:

1. Mi ddudodd Amanda Mae hi'n gweithio yn yr Adran Clefion Allanol.

2. Doedd gen i ddim syniad Roedden nhw wedi mynd ar eu gwyliau.

3. Mae hi'n poeni Rwyt ti'n bwyta gormod o bethau melys.

4. Maen nhw'n meddwl Dw i'n greadigol iawn.

5. Ella Mae o'n dŵad yn ôl wythnos nesa.

ii. Cyfieithwch:

1. *I think he's an excellent artist.*

2. *I was sure there was someone in the room.*

3. *He said that she is working too hard.*

4. *Perhaps they are lost.*

5. *Do you think we'll be in the team?*

6. *Did you think you would win the competition?*

iii. Rhowch eich barn am **bedwar** darn celf gan ddefnyddio **bod**. Mi fedrwch chi ddewis darnau celf o fideo'r uned neu unrhyw rai eraill o'ch dewis chi.

e.e. Dw i'n hoff iawn o'r caban gwyrdd ym Mangor. Dw i'n meddwl fod o'n ein helpu ni i gofio hanes y chwareli.

1.

2.

3.

4.

Gwaith cartref Uned 6 – Y Môr



- i. Yn y tabl cyntaf, ysgrifennwch gwestiynau i **gyd-fynd** â'r atebion. Yn yr ail dabl, rhowch eiriau i **gytuno** neu i **anghytuno** â'r gosodiadau. Mae'r rhai cyntaf wedi'u gwneud i chi.

Cwestiwn	Ateb
Ydy hi'n bwrw glaw tu allan?	Ydy.
	Oes.
	Nac ydyn.
	Ia.
	Do.
	Ydw.
	Ella.

Gosodiad	Cytuno / Anghytuno
Mi fydd hi'n braf fory.	Bydd.
Mae teithio ar long yn hwyl.	
Mae 'na ormod o raglenni realiti ar y teledu.	
Cymru ydy'r wlad hardda yn y byd.	
Mi ddaeth y tiwtor i'r dosbarth mewn car.	
Roedd arholiadau'n anoddach yn y gorffennol.	
Nofio ydy'r ymarfer corff gorau i gadw'n iach.	

- ii. Yn eich geiriau eich hun, ysgrifennwch bum ffaith am longddrylliad y *Royal Charter*.

1.

2.

Gwaith cartref Uned 7 - Arferion



i. Ychwanegwch y **cynffoneiriau**:

1. Mi wnest ti adduned blwddyn newydd,?
2. Mae o'n brolio drwy'r amser,?
3. Roedd o'n canmol yr ysgol,?
4. Mi fydd o'n benwan,?
5. Mi fasen nhw'n deud tasai problem,?
6. Dwyt ti ddim isio baglu,?
7. Doedd o ddim yn allweddol i'r tîm,?
8. Chlywest ti ddim byd am y swydd,?
9. Fasen nhw ddim yn gwneud hynny'n fwriadol,.....?
10. Fyddi di ddim yn y gwaith yfory,?

ii. Atebwch y cwestiynau isod ar ôl darllen y darn **Arferion drwg**:

1. Lle mae'r plant yn gadael eu llestri budr?

a.

b.

c.

ch.

2. Be sy'n achosi perygl yn y gegin?

.....

3. Be sy'n digwydd i'r menynd?

.....

4. Be mae'r awdur yn ei ddweud am ei arferion drwg ei hun?

.....

Gwaith cartref Uned 8 - Arwyr



- i. Cyfieithwch y brawddegau hyn.** Mae'r frawddeg gyntaf wedi'i gwneud i chi:

<i>She was born in 1978.</i>	Mi gaeth hi ei geni yn 1978.
<i>The house will be built soon.</i>	
<i>The man was arrested yesterday.</i>	
<i>Two girls were injured in the accident.</i>	
<i>He was brought up in Cardiff.</i>	
<i>A meeting will be held next week.</i>	
<i>The problem was resolved.</i>	

- ii. Atebwch y cwestiynau hyn am Tanni Grey-Thompson.**

- 1.** Lle gaeth Tanni Grey-Thompson ei magu?

.....

- 2.** Aeth hi i'r brifysgol?

.....

- 3.** Be ddigwyddodd iddi hi yn Eisteddfod y Bala, 2009?

.....

- 4.** Pa anrhydeddau gaeth hi gan y Frenhines?

.....

- 5.** Ysgrifennwch **dri pheth** y mae hi wedi'u gwneud ers ymddeol o fyd athletau.

.....

.....

.....

Gwaith cartref Uned 9 – Trefnu Digwyddiad



i. Lluniwch eitem i roi cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad dach chi'n ei drefnu, e.e. poster, taflen, hysbyseb, cyhoeddiad ar gyfer y radio neu'r teledu.

ii. Dach chi'n medru creu **ansoddair** efo'r terfyniad **-ol** o'r **enwau** canlynol. Ysgrifennwch yr **ansoddair**:

e.e. arfer	>	<i>arferol</i>
corff	>
cymdeithas	>
bwriad	>
allwedd	>
cystadleuaeth	>
ffaith	>

iii. Isod, mae diffiniadau o **enwau** sydd wedi bod yng ngeirfa'r cwrs hyd yn hyn. Ysgrifennwch yr **enw**:

e.e. Rhywun sy'n bennaeth ar bobol eraill:	rheolwr
Dach chi'n codi pwysau yn y gampfa os dach chi isio rhai mawr:	
Mae'r bobol yma'n mynd i'r gofod mewn roced:	
Yr anifail a fwytodd Hugar Fach Goch a'i nain hi:	
Ennill pob gêm ym mhencampwriaeth rygbi'r chwe gwlad:	
Lle i dyfu gwin:	
Addo gwneud rhywbeth ar ddechrau blwyddyn newydd:	
Ymladd rhwng dwy ochr:	
Facebook, Trydar/ <i>Twitter</i> , Instagram:	

iv. Ewch drwy'r rhestr isod o eiriau o eirfa'r cwrs. Ysgrifennwch y gair yn y golofn gywir yn y tabl.

gwledd
llongyfarch
gelyn
ymosod
poblog
buddugol
maith
lleiafrif
corfforol
gostwng
pwylllog
gorlawn

gwibio
cysurus
diog
poblogaeth
cyfaddef
clogyn
boddi
hawl
ffreutur
madarchen
chwalu

Ansoddair	Berfenw	Enw gwrywaidd	Enw benywaidd

Gwaith cartref Uned 10 – Cymuned



i. Llenwch y bylchau yn y brawddegau isod gan ddefnyddio geiriau addas.

1. Mae'r broblem sbwriel yn y stryd yn ers iddyn nhw stopio casglu'r biniau ar ddydd Llun.
2. Does 'na ddim o bobol wedi dŵad i'r sioe eleni.
3. Mae'r busnes yn llwyddiannus ers cael grant i helpu efo'r costau.
4. Mi hoffwn i ddod am dro efo ti, ond dydy fy iechyd i ddim..... ers i mi syrthio.
5. Mae hi'n heddiw na ddoe. Dw i angen eli haul!

ii. Cyfieithwch:

1. *It is not as windy today.*
.....
2. *There aren't as many people here this week.*
.....
3. *The food is not as good as last time.*
.....
4. *It is wetter than yesterday.*
.....
5. *Snowdon is higher than Pen y Fan.*
.....
6. *Working at home is easier than travelling to the office.*
.....
7. *She looks younger after cutting her hair.*
.....
8. *The new road is wider than the old one.*
.....

iii. Edrychwch eto ar y darn darllen ac atebwch y cwestiynau hyn:

1. Pa waith oedd ar gael i Affricanwyr yng Nghaerdydd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg?

.....

2. Lle yng Nghaerdydd roedd y rhan fwyaf o'r Somaliaid yn byw?

.....

3. Be ddigwyddodd ym mis Mehefin 1919?

.....

4. Pwy oedd Mahmood Hussein Mattan?

.....

5. Be ydy arwyddocâd (*significance*) yr enw 'Hamadryad'?

.....

iv. Ysgrifennwch am y gymuned dach chi'n byw ynddi rwan, neu'r gymuned roeddech chi'n byw ynddi pan oeddech chi'n blentyn.

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....



Gwaith cartref Uned 11 – Teulu a Ffrindiau

i. Llenwch y bylchau yn y brawddegau isod gan ddefnyddio'r ansoddeiriau cywir.

1. Rhys ydy aelod y teulu. Mae o'n dair blwydd oed.
2. Aconcagua ydy mynydd America i gyd.
3. Y llynedd gaethon ni'r gaeaf ers blynyddoedd. Mi gaethon ni lawer o law.
4. Roedd pawb yn cytuno mai nhw oedd y band yn y gystadleuaeth. Roedden nhw'n wych!
5. Caernarfon ydy'r dref Mae hi tua 4 milltir i ffwrdd.
6. Y llewpart ydy un o'r anifeiliaid yn y byd.
7. Haf 1976 oedd un o'r rhai erioed.
8. Y ffordd hon ydy'r yn yr ardal. Mae hi'n llawn tyllau.

ii. Cyfieithwch:

1. *Dafydd is the strongest.*

.....

2. *Mari is the strongest.*

.....

3. *Llyfr Glas Nebo is the most popular novel.*

.....

4. *My grandfather is the oldest in the family.*

.....

5. *Who is the funniest?*

.....

6. *Somalia is one of the poorest countries in the world.*

.....

iii. Edrychwch eto ar y darn darllen ac atebwch y cwestiynau hyn:

1. Pam mae hi'n anodd ymchwilio i hanes y teulu yng Nghymru?

.....

2. Sut roedd merched yn cael eu cyfenwau?

.....

3. Rhowch enghraifft o gyfenw sy'n dŵad o air Cymraeg i ddisgrifio person.

.....

4. Be sy wedi dechrau digwydd yng Nghymru dros y pum deg mlynedd diwetha?

.....

5. Fedrwn chi feddwl am **ddau** berson sy'n defnyddio cyfenw 'ap' neu gyfenw sy'n defnyddio enw lle?

.....

iv. Ysgrifennwch bortread o ffrind neu aelod o'ch teulu chi.

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Gwaith cartref Uned 12 – Bwyd



i. Be ydy ffurfiau lluosog y geiriau hyn?

stordy cegin cynhwysyn

cyllell fforc llwy

sosban powlen caead

llysieuwr..... pryd gwydr

ii. Heb edrych yn ôl ar yr uned, ceisiwch roi o leia ddau air lluosog ym mhob colofn.

-au	-iau	-ion	-oedd	-od

iii. Edrychwch eto ar y darn darllen ac atebwch y cwestiynau hyn:

1. Lle mae'r Wladfa?

.....

.....

2. Tua faint o'r gloch mae pobol y Wladfa'n bwyta gyda'r nos?

.....

.....

Gwaith cartref Uned 13 – Byw heb...



i. Edrychwch eto ar y darn darllen o wefan *BBC Cymru Fyw - Allwn i byth fyw heb...* ac atebwch y cwestiynau isod:

1. Am faint mae **a.** cyfnod Ramadan, a **b.** y Grawys yn para?

a.

b.

2. Pa effaith y mae coffi'n ei chael ar Rhodri Owen?

.....

3. Be mae'r deunydd trin gwallt yn ei wneud, yn ôl Eleri Siôn?

.....

4. Be sydd **a.** yn gadarnhaol (da), a **b.** yn negyddol (drwg), ynglŷn â *Twitter*, yn ôl Tudur Owen?

a.

b.

ii. Llenwch y bylchau ag arddodiaid:

1. Dw i'n gofalu y cathod tra bydd Mr a Mrs Hughes ar eu gwyliau.

2. Gofynnwch Alun ddod bara, i mi gael gwneud brechdanau at fory.

3. Roedd pawb yn edrych fo wrth iddo fo gerdded ar hyd y llwybr.

4. Roedd Siôn a Dafydd yn hwyr yn dŵad yn ôl ac roedd y bws bron â mynd nhw.

5. Wyt ti'n mynd i weld Marged? Cofia fi hi!

iii. Ysgrifennwch frawddegau sy'n cynnwys y parau yma o ferfau ac arddodiaid. Mi fedrwch chi ddefnyddio unrhyw amser y ferf:

1. chwilio am

2. deud wrth

3. gwranddo ar

4. gofyn i

5. sylwi ar

iv. Ysgrifennwch baragraff am y profiad o geisio byw heb rywbeth am gyfnod, neu am rywbeth na fasech chi byth yn medru byw hebddo.

Gwaith cartref Uned 14 - Ffasiwn



i. **Llenwch y bylchau** yn y brawddegau hyn efo **arddodiaid cyfansawdd** addas.

1. **(wrth ochr)** Mae o isio i ti eistedd o.
2. **(o flaen)** Do'n i ddim yn disgwyl i ti gyrraedd i.
Rwyd ti fel arfer yn hwyr!
3. **(o blaid)** Mae pawb yn anhapus am y newidiadau yn y gwaith. Doedd neb
4. **(ar draws)** Mae Megan yn deud rhywbeth pwysig. Peidiwch â thorri hi.
5. **(ar gyfer)** Mi fydd Taid wrth ei fodd efo'i barti syrpreis! Mae popeth yn barod o.
6. Doedd neb yn cystadlu o am y swydd.
7. Edrycha i fyny! Mae 'na hofrennydd di.
8. Dw i wedi colli fy mhws. Ella ei fod o y 'r soffa.
9. Rwyd ti'n cyfarfod pobol bwysig heddiw. Mae angen i ti wisgo'n daclus nhw.
10. Be dach chi wedi bod yn ei wneud? Edrychwch ar y blerwch o'ch chil!

ii. **Edrychwch ar y geiriau wnaethoch chi eu nodi yn y blwch Geirfa Dillad.** Dewiswch bump o'r geiriau hyn, ac ysgrifennwch bum brawddeg yn eu defnyddio nhw.

1.
2.
3.
4.
5.

- iii. Ysgrifennwch am eich hoff ddilledyn. Pam dach chi'n ei hoffi? **Neu**, Oes gynnoch chi ddiddordeb mewn dillad? Dach chi'n sylwi ar ddillad pobol fel arfer?

A large rectangular area with a light beige background and a dotted border, intended for writing a response to the question above. The area contains 20 horizontal dotted lines for writing.

Gwaith cartref Uned 15 - Amser



i. Ysgrifennwch y rhifau yma yn y ffordd draddodiadol:

1. un deg pump o chwaraewyr
2. dau ddeg o blant
3. un deg un o chwaraewyr
4. un deg naw o wersi
5. pum deg milltir
6. dau ddeg saith munud
7. dau ddeg pum mlynedd
8. un deg saith pwynt

ii. Cywirwch y camgymeriadau yn y brawddegau hyn. Mae un frawddeg yn gywir. Pa un?

1. Mae hi'n chwech ar ddeg blwydd oed.
2. Maen nhw'n briod ers dau flynedd ar bymtheg.
3. Ydy'r rhaglen yn dechrau am bump ar hugain munud wedi wyth?
4. Tri blwydd oed ydy o.
5. Yr unfed ar ddegfed ar hugain o Hydref ydy diwrnod Calan Gaeaf.
6. Fyddi di'n ymddeol cyn cael dy ben-blwydd yn drigain?
7. Roedd pedair plentyn ar ddeg yn canu calennig yn y pentref.
8. Roedden ni yn yr ysbyty am ddau awr ar hugain.

iii. Edrychwch eto ar y darn darllen ac atebwch y cwestiynau hyn.

1. Sut mae athrawon yn dysgu rhifau i blant yn ôl yr erthygl?

.....

2. Pam roedd John Ifans isio defnyddio rhifau traddodiadol?

.....

3. Pam mae'n syndod bod Aled Glynne Davies yn deall y bwletin Saesneg yn well na'r bwletin Cymraeg?

.....

4. Pam roedd Aled Glynne Davies isio bod yn newyddiadurwr?

.....

iv. Ysgrifennwch am: Be dach chi'n hoffi ei wneud yn eich amser hamdden?
Neu Be fasech chi'n hoffi ei wneud tasai gynnoch chi fwy o amser? Pam?

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Gwaith cartref Uned 16 – Y tro cynta!



i. Ysgrifennwch y ganrif yn hytrach na'r flwyddyn:

1. Mi ddigwyddodd Brwydr Passchendaele yn 1917.
.....
2. Bu farw Owain Glyndŵr tua 1416.
.....
3. Mi enillodd Einstein Wobr Nobel yn 1921.
.....
4. Ganwyd Harri Tudur yng Nghastell Penfro yn 1457.
.....
5. Mi ddaeth y Llychlynwyr (*Vikings*) i Gymru yn 852.
.....
6. Cyhoeddwyd y nofel *Rhys Lewis* gan Daniel Owen yn 1885.
.....
7. Mi gyrhaeddodd Cymru rownd gyn-derfynol yr Euros yn 2016.
.....
8. Ganwyd Joseph Parry, a ysgrifennodd 'Myfanwy' ym Merthyr yn 1841.
.....

ii. Cyfieithwch:

during the third break

after the fourth occasion

the second priority in the plan

the fifth note in the bar

iii. Edrychwch eto ar y darn darllen ac atebwch y cwestiynau hyn.

1. Sut mae teimladau Elin a Sharon yn wahanol am y plentyn cynta yn gadael y nyth?
.....

2. Sut oedd Elin yn cysylltu â'i rhieni pan oedd hi yn y coleg?

.....

3. Yn ôl Sharon, pa bethau ymarferol sy'n wahanol yn y tŷ ar ôl i'r plant fynd?

.....

4. Pa eiriau mae Elin a Sharon yn eu defnyddio yn lle'r rhai isod?

isio crio

cyflym ceisio

iv. Geirfa Uned 16

Be ydy'r gair?

mynd allan o ffasiwn	
mynd yn ôl	
y plentyn ieuenga yn y teulu	
disgrifiad o rywbeth sy'n torri tir newydd	
gwynt mawr	
tri diwrnod	
cyn y ffeinal	
mewn gwaith	
sgiliau darllen ac ysgrifennu	

v. Edrychwch yn ôl ar y geiriau yn y blwch **Y tro cynta** ar ddechrau'r uned. Dewiswch **dri** ohonyn nhw ac ysgrifennwch baragraff (tua 100 gair) yr un amdanyn nhw o'ch profiad personol chi.

Gwaith cartref Uned 17 – Trefnu Taith



- i. **Ysgrifennwch lythyr neu ebost** at aelodau eraill y dosbarth yn rhoi manylion eich taith.
- ii. **Llenwch y bylchau** yn y tabl i ddeud pa eiriau sy'n cael eu defnyddio wrth sôn am bobol o'r gwledydd hyn, eu hiaith a phethau sy'n perthyn i'r wlad:

Gwlad/Cenedl	Pobol	Iaith	Pethau
Sbaen	Sbaenwyr		
Yr Eidal			Eidalaid
Iwerddon	Gwyddelod		
Lloegr			
Cymru			

- iii. **-gar, -aidd, -us** neu **-ol** – Dewiswch y terfyniad cywir er mwyn creu **ansoddair** o'r **enwau** canlynol. Mi fydd rhaid newid rhannau eraill o'r gair hefyd efo rhai ohonyn nhw:

e.e. cartref	>	.cartrefol.....
hyder	>
democratiaeth	>
cyfaill	>
rheol	>
gwaith	>
awydd	>

iv. Isod, mae diffiniadau o **enwau** sydd wedi bod yng ngeirfa Unedau 9–16 y cwrs. Ysgrifennwch yr **enw**:

e.e. Y peth y dylech chi ei wneud yn gyntaf: blaenoriaeth

1. Y pethau dan ni'n eu gwisgo'n gyntaf:

2. Capel, eglwys, mosg:

3. Tua 25 mlynedd, neu'r amser rhwng geni'r plentyn a'r rhiant:

4. Pres dach chi'n ei dalu ymlaen llaw am rywbeth – rhan o'r gost:

5. Y gallu i ddarllen ac ysgrifennu:

6. Mae hwn ar ben y sosban neu ar ben y jar:

7. Mae'r dyfarnwr yn chwythu hwn ar ddechrau ac ar ddiwedd y gêm:

8. Ci tenau sy'n rhedeg yn gyflym:

- v. Ewch drwy'r rhestr isod o eiriau sy'n dŵad o eirfa'r cwrs.
Ysgrifennwch y gair yn y golofn gywir yn y tabl.

llyfn	chwerw
canolbwynt	cronfa
cenhedlaeth	cymhleth
llefarydd	crogi
ffynnu	adlewyrchu
Seisnigo	cnwd
dibwys	dilynwr
sylwebydd	ffynnu
darganfod	tystysgrif

Ansoddair	Berfenw	Enw gwrywaidd	Enw benywaidd

Gwaith cartref Uned 18 – Does 'na nunlle'n debyg i adre...



i. Cyfieithwch y brawddegau hyn. Cofiwch ddefnyddio **y**.

1. *I think that you should go on the train.*

.....

2. *She hopes that you will clean the kitchen.*

.....

3. *They think that they will get a lot of money for the house.*

.....

4. *Maybe we should work in the garden tomorrow.*

.....

5. *Do you think that she will like this wallpaper?*

.....

ii. Unwch ddau hanner y brawddegau:

Maen nhw'n meddwl mi fydd y perchennog yn cau'r ffatri cyn bo hir.

.....

Dw i mor falch maen nhw wedi derbyn y cynnig.

.....

Mi ddudodd yr heddlu roedd o'n cael ei gysuro gan y cymdogion.

.....

Ro'n i'n gwybod baset ti'n bwyllog.

.....

Maen nhw'n gobeithio mi fyddan nhw'n teithio am flwyddyn.

.....

Mi glywes i mae o'n aros mewn bwthyn anghysbell.

.....

iii. Darllen a Deall

Edrychwch eto ar y darn darllen ac atebwch y cwestiynau hyn.

1. Faint oedd oed Anna pan welodd hi Nant yr Aur y tro cyntaf?

.....

2. Pam dach chi'n meddwl ei bod hi'n mynd i Nant yr Aur pan oedd hi'n ifanc?

.....

3. Pa eiriau yn y darn sy'n disgrifio Anna?

.....

4. Pam roedd hi'n hawdd i Anna feddwl mai hi oedd perchennog Nant yr Aur?

.....

iv. Ysgrifennwch ddisgrifiad o'ch cartref chi, **neu** ystafell yn eich cartref chi.

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Ar gyfer y wers nesaf: Mi fyddwn ni'n siarad am gerddoriaeth. Dewch â'ch hoff record/CD neu lun o'ch hoff fand/artist unigol i'r wers.

Gwaith cartref Uned 19 - Cerddoriaeth



- i. Llenwch y bylchau yn y brawddegau hyn.** Does dim pwyslais ym mhob un o'r brawddegau.
1. Maen nhw'n meddwl cantores opera fydd hi ar ôl gadael y coleg.
 2. Dw i'n meddwl angen i ni ddiffodd y gerddoriaeth. Mae'n rhy swnllyd!
 3. Y gred ydy The Beatles ydy'r band mwyaf llwyddiannus erioed.
 4. Wyt ti'n meddwl mai pianydd o?
 5. Mae hi'n deud band da yn y neuadd heno.
 6. Ella gitâr yn yr atig yng nghanol y blerwch.
 7. Mae hi'n meddwl ymarfer ychydig bach bob dydd ydy'r gyfrinach.
 8. Mae o'n meddwl ei o'n medru canu'n dda iawn.
 9. Ella telyn ydy'r offeryn yn y darn yma.

ii. Cyfieithwch:

1. *I think that Bryn Terfel is my favourite singer.*

.....

2. *I'm sure that Mari Thomas is the conductor in the concert.*

.....

3. *Perhaps he is the best drummer.*

.....

4. *I heard that Llanbedr Utd is the strongest team.*

.....

iii. **Darllenwch y darn darllen eto ac atebwch y cwestiynau hyn**, heb edrych yn ôl ar y darn os medrwch chi beidio.

1. Faint o aelodau oedd yn Y Blew?

2. Lle chwaraeon nhw eu gigs cyntaf?

3. Sut roedd Y Blew yn wahanol i fandiau Cymraeg eraill y cyfnod? Rhowch **ddau** reswm.

4. Lle oedd yr Eisteddfod yn 1997?

5. Be sy wedi cael ei enwi ar ôl sengl Y Blew?

iv. **Ysgrifennwch ddarn am gân arbennig.** Pam mae hi'n bwysig i chi? **Neu**, ysgrifennwch am fath o gerddoriaeth dach chi ddim yn ei hoffi o gwbl.

Gwaith cartref Uned 20 – Fi ydy'r person gorau i'r swydd!



i. Newidiwch y brawddegau isod fel bod y pwyslais ar y **goddrych**:

1. Mae Jac yn gweithio yn y caffi dros yr haf.

.....

2. Mae Alys yn mynd i ddosbarth nos.

.....

3. Maen nhw'n mwynhau darllen nofelau ditectif.

.....

4. Mae Dafydd yn gweithio yng nghanen Porthmadog.

.....

Newidiwch y brawddegau isod gan bwysleisio'r geiriau sy wedi'u tanlinellu:

1. Mae Elis yn astudio mewn dosbarth nos.

.....

2. Mae parti ymddeoliad Tom nos Wener.

.....

3. Roedd o'n gweithio yn ffatri Jenkins a Jenkins.

.....

4. Mae'r ymgeisydd yn ystafell aros 2.

.....

ii. Darllen a deall

Edrychwch eto ar y darn darllen am Eirlys Lewis, ac atebwch y cwestiynau hyn.

1. Be wnaeth Eirlys ar ôl gadael yr ysgol yn un ar bymtheg oed?

.....

2. Efo be roedd rhaid iddi hi gyfarwyddo yn ei swydd gyntaf?

.....

3. Be sy'n cael ei ddeud am gyflog Eirlys?

.....

4. Oedd iechyd a diogelwch yn bwysig yn ffatri Pullman?

.....

5. Pam roedd Eirlys yn mwynhau ei gwaith?

.....

6. Dach chi'n meddwl bod cyfle cyfartal i fechgyn a merched y dyddiau hyn?

.....

iii. Ysgrifennwch ddarn am y swydd waethaf neu'r swydd orau dach chi wedi'i gwneud. **Neu**, ysgrifennwch am gyfweliad gaethoch chi am swydd.

Gwaith cartref Uned 21 - Anifeiliaid anwes



i. Llenwch y bylchau yn y brawddegau isod. Defnyddiwch yr **amodol** (*conditional*).

1. Tasai llwybr beiciau yn y dref, mi (seiclo) i i'r gwaith bob dydd.
2. Mi (dyl-) ti fynd â'r ci am dro ddwywaith y dydd.
3. Taswn i ddim yn gweithio bob dydd, mi (prynu) i gi.
4. Mi fedren nhw wedi dy helpu di i symud y bocsys trwm.
5. Mi (dyl-) chi gofio cloi'r drws bob amser.
6. Mi (hoffi) hi fynd i deithio'r byd ond mae'n rhaid iddi hi dalu'r morgais.
7. Tasen nhw'n dŵad i'r gwaith yn gynnar, mi (medru) nhw gael brecwast yn y ffreutur.
8. Taswn i'n medru dal bws i'r dref, mi (gwerthu) i fy nghar.
9. Tasai hynny'n bosib, mi (talw) fo am y car mewn arian parod.
10. Tasai waliau'r tŷ yn fwy trwchus, (clywed) chi mo sŵn y cymdogion.

ii. Cyfieithwch. Defnyddiwch ffurfiau cryno'r **amodol** (*the short form conditional*):

1. *I wouldn't say 'no'.*

2. *What would you say?*

3. *He would choose the cheesecake.*

4. *They would help you.*

iii. Darllen a deall

Edrychwch eto ar y darn darllen ac atebwch y cwestiynau hyn.

1. Be sy ym Meddgelert i gofio am Gelert?

.....

2. Yn fersiwn gynharaf chwedl Gelert, sut mae Gelert yn marw?

.....

3. Sut mae Gelert yn marw yn ail fersiwn y chwedl?

.....

4. Pam mae rhai pobol yn meddwl nad ydy'r stori'n perthyn i Feddgelert?

.....

iv. Ysgrifennwch restr o bwyntiau'n esbonio pam mae cathod yn well na chŵn fel anifeiliaid anwes (neu fel arall!) er mwyn perswadio rhywun arall yn eich cartref pa un fasai orau.

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Gwaith cartref Uned 22 – Teithio Cymru



i. Cyfieithwch y brawddegau hyn, gan ddefnyddio **byth** ac **erioed** yn gywir.

1. *I never drink coffee.*

.....

2. *She's never been abroad.*

.....

3. *I had never eaten sushi before going to Japan.*

.....

4. *He was shouting "Wales forever!"*

.....

5. *We never ate chips when we were children.*

.....

6. *I'd never go out by myself.*

.....

7. *Have you ever been on a skiing holiday?*

.....

8. *They will never go to that garage again.*

.....

9. *I never think about work when I'm at home.*

.....

10. *I never heard him talking about his family.*

.....

ii. Darllen a deall


'008: Llanberis' o *Cymru: y 100 lle i'w gweld cyn marw* gan John Davies a Marian Delyth (Y Lolfa, 2009).

Geirfa:

trigolion
diwydiannol
generadur(on)
dibynnu'n llwyr

atyniadau
rhyfeddodau
atynfa

arwyddocaol
nodedig
caniatáu



Mae Llanberis yn agos at fod ar ben y rhestr o'r llefydd 'rhaid eu gweld' yng Nghymru. Yn wir, mae'n anodd meddwl am unrhyw le arall o faint Llanberis (2,018 o **drigolion**) sy'n cynnig cynifer o **atyniadau arwyddocaol** i ymwelwyr. Daeth rhai o'r atyniadau amlycaf o hanes **diwydiannol** y lle – Chwarel Dinorwig, Amgueddfa Lechi Cymru a Gorsaf Bŵer Dinorwig.

Caeodd Chwarel Dinorwig yn 1969, a sefydlwyd Amgueddfa Chwarellyddol Gogledd Cymru yn yr hen weithdai. Daeth y sefydliad yna'n Amgueddfa Lechi Cymru, un o ganghennau'r Amgueddfa Genedlaethol. Heblaw am Sain Ffagan, dyma'r hyfrytaf o saith **cangen** y sefydliad hwnnw.

O holl **ryfeddodau** ardal Llanberis, y mwyaf **nodedig** yw Gorsaf Bŵer Dinorwig a agorwyd yn 1984. Mae'r orsaf yn pwmpio dŵr o Lyn Peris (100 metr uwchben lefel y môr) i Lyn Marchlyn Mawr (580 metr uwchben lefel y môr), ac wedyn yn gollwng y dŵr i lawr 480 metr i weithio'r **generaduron** yn y siambr enfawr y tu ôl i'r hen chwarel.

Atynfa fwyaf poblogaidd Llanberis yw trêen bach yr Wyddfa. Mae'n rhedeg ar y rheilffordd 7.524 cilomedr sy'n **caniatáu** i ymwelwyr gyrraedd y copa mewn awr – sef mwy neu lai'r amser y mae cystadleuwyr cyflymaf Ras yr Wyddfa yn ei gymryd i redeg o Lanberis i'r copa ac yn ôl. Agorwyd y rheilffordd yn 1896, ac roedd yn **dibynnu'n llwyr** ar stêm tan 1986, pan ddechreuodd ambell injan disel redeg ar y lein. Pan oedd glo'n brin ar ôl yr Ail Ryfel Byd, roedd y rheilffordd yn dibynnu ar losgi hen esgidiau milwyr.

© y testun hwn: John Davies a'r Lolfa Cyf.

1. Be sy'n cysylltu'r tri atyniad y mae John Davies yn sôn amdany'n nhw?

.....

2. Mae'r darn yn sôn am yr Amgueddfa Lechi. Pa gangen arall o'r Amgueddfa Genedlaethol sy'n cael ei henwi?

.....

3. Faint o amser mae trêen bach yr Wyddfa yn ei gymryd i gyrraedd y copa?

.....

4. Be oedd y rheilffordd yn ei wneud efo hen esgidiau milwyr?

.....

5. Be ddigwyddodd yn y blynyddoedd hyn?

1969

1984

1896

1986

Gwaith cartref Uned 23 – Mynd allan am fwyd



- i. Ysgrifennwch lythyr neu ebost** at aelodau eraill y dosbarth yn rhoi manylion y trefniadau i fynd allan am bryd o fwyd.
- ii.** Mae llawer o **ferfenwau**'n cael eu ffurfio trwy ychwanegu terfyniad sy'n **un llafariad yn unig** at enw neu ansoddair (**-o, -u, -i** neu **-a**) – Dewiswch y terfyniad cywir er mwyn creu **berfenwau** o'r **enwau/ansoddeiriau** canlynol. Mi fydd rhaid newid rhannau eraill o'r gair hefyd efo rhai ohonyn nhw:

e.e.	cysur	>cysuro.....
	cartref	>
	dosbarth	>
	diogel	>
	croes	>
	cyfarwydd	>
	hysbyseb	>
	pwyl	>
	rhew	>
	dwbl	>

- iii.** Isod, mae diffiniadau o **enwau** sydd wedi bod yng ngeirfa Unedau 17-22 y cwrs.

Ysgrifennwch yr **enw**:

e.e.	Rhywun sy'n siarad ar ran rhywun arall:	llefarydd
	Rhywun sy'n sefyll etholiad neu arholiad:
	Pan mae'r tir yn ysgwyd:
	Rhywle lle nad oes unrhyw beth yn tyfu:
	Aelod o grŵp roc sy'n canu'r rhan fwyaf o'r geiriau:
	Benthyciad er mwyn prynu tŷ:
	Be' sy'n effeithio ar faint dach chi'n ei dalu'n ôl am y benthyciad:

Cartref naturiol anifail neu blanhigyn.

Gwybodaeth sy'n profi bod rhywbeth yn wir:

Mae 'na chwech ohonyn nhw ar gitâr:

iv. Ewch trwy'r rhestr isod o eiriau sy'n dŵad o eirfa'r cwrs.

Ysgrifennwch y gair yn y golofn gywir yn y tabl.

amddiffyn

tystiolaeth

pwylllog

bodoli

ffyddlon

arwyddocaol

cynefin

ymddwyn

curiad

trydanol

cenhedlaeth

planhigyn

cynhadledd

saer

taenu

plwyf

goruchwylio

Ansoddair	Berfenw	Enw gwrywaidd	Enw benywaidd

v. Dewiswch **bump** o'r geiriau uchod ac ysgrifennwch frawddegau'n cynnwys y geiriau hynny:

.....

.....

.....

.....

.....

Gwaith cartref Uned 24 – Cyfathrebu



i. Edrychwch eto ar y darn darllen **COVID-19 yn gwella cyfleoedd** ac atebwch y cwestiynau hyn:

1. Be mae pobol yn medru ei wneud yn y cnaud sy ddim yn digwydd ar-lein?

2. Nodwch resymau pam dydy rhai pobol ddim yn medru mynd i gyfarfodydd wyneb yn wyneb?

3. Pa gyflwr sy ar Siân?

4. Disgrifiwch ddigwyddiad *hybrid*.

ii. Ysgrifennwch dair brawddeg yn defnyddio **hwn**, gan ddilyn y patrwm. Mae hwn yn gi drwg.

1.

2.

3.

Ysgrifennwch dair brawddeg yn defnyddio **hon**, gan ddilyn y patrwm. Mae hon yn gadair gyfforddus.

1.

2.

3.

Ysgrifennwch dair brawddeg yn defnyddio **hyn/hynny**.

1.

2.

3.

Gwaith cartref Uned 25 – Yr Amgylchedd



i. Cyfieithwch y darn yma.

I live in a small village in west Wales called Llanaber. In 2019, Llanaber won an award: the tidiest village in Wales. It's a tidy village these days too. We put plastic and metal waste in blue bags. We put food waste in the food bin. I have no interest in gardening but there are bags for garden waste. Usually, people put their rubbish in the correct bags.

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

ii. Darllen a deall: *Her yr Hinsawdd*

Geirfa: yr Athro eiddo erwau

Wrth ffilmio cyfres *Her yr Hinsawdd* yng Nghaliffornia, mi wnaeth **yr Athro** Siwan Davies gyfarfod Donna Fink, a gollodd ei gŵr a'i holl **eiddo** mewn tân ffyrnig ym mis Gorffennaf 2016. Mi fuodd bron i 3,000 o ymladdwyr tân yn ceisio diffodd y tân. Symudwyd deg mil o bobol o'u cartrefi ac mi aeth y tân dros 37,000 o **erwau**.

Mae gan Donna Fink farn bendant iawn am y sychder yn y dalaith a'r newidiadau yn yr hinsawdd.

"Baswn i'n dweud, yn ystod y pum mlynedd diwethaf, fod newid hinsawdd wedi effeithio arnon ni'n fawr iawn. Mae hi wedi bod yn sych iawn, iawn a dw i'n meddwl bod llawer mwy o danau," meddai Donna. "Collais i bopeth yn y tân, y cwbl oedd gen i oedd y dillad amdana i."

Mae Siwan yn cyfaddef ei bod hi wedi cael ei synnu'n fawr gan stori Donna, ac mae'n anodd iddi hi ddeall rhai pobl sy'n gwrthod derbyn bod newid hinsawdd yn digwydd a'i bod hi'n broblem go iawn.

"Mae pobl Califfornia yn byw mewn ofn. Dim gwledydd tlawd fel Affrica a Costa Rica yn unig sy'n wynebu heriau'r hinsawdd; mae gwledydd cyfoethog y byd yn teimlo'r effeithiau hefyd."

1. Ym mha dalaith yn Unol Daleithiau America roedd yr Athro Siwan Davies yn ffilmio?

.....

2. Be ddigwyddodd i Donna Fink ym mis Gorffennaf 2016?

.....

3. Be ydy arwyddocâd y rhifau hyn yn y darn?

3,000

37,000

4. Sut mae newid hinsawdd wedi effeithio ar y dalaith, yn ôl Donna Fink?

.....

- iii. **Ysgrifennwch ddau baragraff i fynegi eich barn am un o'r pethau hyn:** ailgylchu, newid hinsawdd neu sbwriel.

Geirfa

ans. – *adj.*, ben. – *fem.*, gwr. – *masc.*,
gw. – *see*, bôn – *stem*

A

Aberhonddu (ben.) – *Brecon*
 aberthu – *to sacrifice* (bôn: aberth-)
 abl (ans.) – *able*
 achlysur (gwr.) – *an occasion*;
 achlysuron – *occasions*
 adfail (gwr.) – *a ruin*; adfeilion – *ruins*
 adfer – *to restore, to rehabilitate* (bôn:
 adfer-)
 adlewyrchu – *to reflect* (bôn:
 adlewyrch-)
 adolygiad (gwr.) – *a review*;
 adolygiadau – *reviews*
 addasiad (gwr.) – *an adaptation*;
 addasiadau – *adaptations*
 addoldy (gwr.) – *a place of worship*;
 addoldai – *places of worship*
 adduned (ben.) – *a resolution*;
 addunedau – *resolutions*
 agoriad llygad (gwr.) – *an eye-opener*
 agoriadol (ans.) – *opening*
 Anghenion Dysgu Ychwanegol –
Additional Learning Needs
 anghofus (ans.) – *forgetful*
 anghyffredin (ans.) – *uncommon*
 anghysbell (ans.) – *remote*
 â'i wynt yn ei ddwrn – *gasping,*
breathless
 ail-blannu – *to replant* (bôn: ailblann-)
 ailgartrefu – *to rehouse* (bôn:
 ailgartref-)
 alaw (ben.) – *a melody*; alawon –
melodies
 allforio – *to export* (bôn: allfori-)
 allweddell (ben.) – *a keyboard*;
 allweddellau – *keyboards*
 allweddol (ans.) – *key, critical*
 am y tro – *for the time being*
 amddiffyn (rhag) – *to protect (from), to*
defend (from) (bôn: amddiffyn-)
 amlosgfa (ben.) – *a crematorium*;
 amlosgfeydd – *crematoriums*

amlosgi – *to cremate* (bôn: amlosg-)
 amrywiol (ans.) – *varied, various*
 amsugno – *to absorb* (bôn: amsugn-)
 anabledd (gwr.) – *a disability*;
 anableddau – *disabilities*
 anelu (at) – *to aim (for)* (bôn: anel-)
 anferthol (ans.) – *huge, momentous*
 anialwch (gwr.) – *a desert, a*
wilderness, waste
 annibendod (gwr.) – *a mess*
 annibynnol (ans.) – *independent*
 anrhydedd (gwr. a ben.) – *an honour*;
 anrhydeddau – *honours*
 anrhydeddu – *to honour* (bôn:
 anrhydedd-)
 ansawdd (gwr.) – *quality*
 anwybyddu – *to ignore* (bôn:
 anwybydd-)
 ar bigau'r drain – *on tenterhooks*
 ar drai – *at low tide, on the decrease,*
waning
 ar draws – *across*
 ar fy liwt fy hun – *freelance*
 ar gais – *at the request of*
 ar gam – *wrongfully, unjustly*
 arbenigwr (gwr.) – *a specialist, an*
expert; arbenigwyr – *specialists,*
experts
 arbrofi – *to experiment* (bôn: arbrof-)
 archeolegol (ans.) – *archaeological*
 archif (ben.) – *an archive*; archifau –
archives
 arddegau (gw. yr arddegau)
 arglwydd (gwr.) – *a lord*; arglwyddi –
lords
 arloesol (ans.) – *pioneering*
 arwyddocaol (ans.) – *significant*
 at eich dant – *to your taste*
 atynfa (ben.) – *an attraction*; atynfeydd
 – *attractions*
 atyniad (gwr.) – *an attraction*;
 atyniadau – *attractions*
 awgrym (gwr.) – *a suggestion*;
 awgrymiadau – *suggestions*
 awyrgylch (gwr.) – *atmosphere*

B

bachu – *to grab, to hook* (bôn: bach-)
 baglu – *to trip* (bôn: bagl-)
 balchder (gwr.) – *pride*
 barddoniaeth (ben.) – *poetry*
 bawd (gwr.) – *a thumb; bodiau – thumbs*
 becsu – *to worry* (De Cymru) (bôn: becs-)
 beili (gwr.) – *a bailiff; beiliaid – bailiffs*
 beirniadu – *to criticise; to adjudicate* (bôn: beirniad-)
 ben bore – *y peth cyntaf yn y bore*
 bendith (ben.) – *a blessing; bendithion – blessings*
 blaendal (gwr.) – *a deposit, a retainer; blaendaliadau – deposits, retainers*
 blaenoriaeth (ben.) – *a priority; blaenoriaethau – priorities*
 blaidd (gwr.) – *a wolf; bleiddiaid – wolves*
 blewyn (gwr.) – *a hair, a whisker; blew – whiskers, fur*
 bod â meddwl mawr o rywun – *to hold someone in high regard*
 bod dynol (gwr.) – *a human being; bodau dynol – human beings*
 bod yn berchen ar – *to own*
 bodoli – *to exist* (bôn: bodol-)
 boddi – *to drown* (bôn: bodd-)
 bord (ben.) – *a table; bordydd – tables* (De Cymru)
 braint ac anrhydedd – *an honour and a privilege*
 brigyn (gwr.) – *a twig, a branch; brigau – twigs, branches*
 britho – *to go grey, to dapple, to fleck, to mottle* (bôn: brith-)
 briwsionyn (gwr.) – *a crumb; briwsion – crumbs*
 brolio – *to boast* (bôn: broli-)
 bron â marw eisiau mynd – *dying to go*
 brwydr (ben.) – *a battle; brwydrau – battles*
 buddugol (ans.) – *triumphant*
 bwa (gwr.) – *an arch, a bow; bwâu – arches, bows*
 bwriad (gwr.) – *an intention; bwriadau – intentions*

bwriadol (ans.) – *deliberate, intentional*
 bwrw golwg dros – *to take a look, to cast an eye (over)* (bôn: bwr-)
 bwytdawwy (ans.) – *edible*
 bydwaig (ben.) – *a midwife; bydwagedd – midwives*
 byth a beunydd – *time and again*
 bythgofiadwy (ans.) – *unforgettable*

C

cadarn (ans.) – *firm, robust*
 cadw mewn cof – *to keep in mind*
 caead (gwr.) – *a lid; caeadau – lids*
 cael gwared ar – *to get rid of*
 caer (ben.) – *a fort; caerau – forts*
 caeth (i) (ans.) – *captive, addicted (to)*
 camu – *to step* (bôn: cam-)
 caniatâd (gwr.) – *permission*
 caniatáu – *to allow, to permit* (bôn: caniata-)
 canmol – *to praise* (bôn: canmol-)
 canolbwynt (gwr.) – *a focus*
 canolbwyntio – *to concentrate* (bôn: canolbwynti-)
 carcharor (gwr.) – *a prisoner; carcharorion – prisoners*
 cardfwrdd (gwr.) – *cardboard*
 caredigrwydd (gwr.) – *kindness*
 cartrefol (ans.) – *homely, domestic*
 carw (gwr.) – *a deer; ceirw – deer*
 catrawd (gwr.) – *a regiment; catrodau – regiments*
 cenedlaeth (ben.) – *a generation; cenedlaethau – generations*
 cenhinen Bedr/Pedr (ben.) – *a daffodil; cennin Pedr – daffodils*
 cerflun (gwr.) – *a sculpture; cerfluniau – sculptures*
 ciniawa – *to dine* (bôn: ciniaw-)
 claddu – *to bury* (bôn: cladd-)
 cleient (gwr.) – *a client; celeientiaid – clients*
 clicied (ben.) – *a catch, a latch; cliciedau – catches, latches*
 clogyn (gwr.) – *a cloak; clogynau – cloaks*
 clòs (ans.) – *close, sultry*
 clou (ans.) – *cyflym, quick* (De Cymru)

- cludiant cyhoeddus (gwr.) – *public transport*
 clyd (ans.) – *cosy*
 cnawd (gwr.) – *flesh*
 cnwd (gwr.) – *a crop*; cnydau – *crops*
 coedwigwr (gwr.) – *a forester, ranger*;
 coedwigwyr – *foresters, rangers*
 coelio – *to believe* (Gogledd Cymru)
 (bôn: coeli-)
 cofiadwy (ans.) – *memorable*
 coffa (ans.) – *memorial*
 corfforol (ans.) – *physical*
 corwynt (gwr.) – *a gale*; corwyntoedd
 – *gales*
 cosbi – *to punish* (bôn: cosb-)
 cras (ans.) – *rough* (e.e. llais)
 cred (ben.) – *a belief*; credoau – *beliefs*
 credwr cryf – *a great believer*
 crefftus (ans.) – *skilled*
 Cristnogol (ans.) – *Christian*
 crogi – *to hang* (bôn: crog-)
 cronfa (ben.) – *a fund, a reservoir*;
 cronfeydd – *funds, reservoirs*
 crud (gwr.) – *a cradle*; crudau – *cradles*
 crwban (gwr.) – *a tortoise*; crwbanod –
tortoises
 crynodeb (gwr.) – *a summary*;
 crynodebau – *summaries*
 curadu – *to curate* (bôn: curad-)
 curiad (gwr.) – *a beat*; curiadau – *beats*
 cweryla (â) – *to argue with, to quarrel*
 (bôn: cweryl-)
 cydbwysedd (gwr.) – *balance, equilibrium*
 cyd-fyw â – *to cohabit with*
 cydweithredol (ans.) – *co-operative*
 cyfaddef – *to admit, to confess* (bôn:
 cyfaddef-)
 cyfan (ans.) – *whole*
 cyfartalog (ans.) – *average*
 cyflawni – *to achieve, to fulfil* (bôn:
 cyflawn-)
 cyflogedig (ans.) – *employed*
 cyflogwr (gwr.) – *an employer*;
 cyflogwyr – *employers*
 cyflwr (gwr.) – *a state, a condition*;
 cyflyrau – *states, conditions*
 cyflwyniad (gwr.) – *an introduction, a presentation*;
 cyflwyniadau – *introductions, presentations*
 cyfradd llog (ben.) – *interest rate*;
 cyfraddau llog – *interest rates*
 cyfraniad (gwr.) – *a contribution*;
 cyfraniadau – *contributions*
 cyfrifiadureg (ben.) – *computer science*
 cyfrifoldeb (gwr.) – *a responsibility*;
 cyfrifoldebau – *responsibilities*
 cyfrwng (gwr.) – *a medium*; cyfryngau
 – *media*
 cyfuniad (gwr.) – *a combination*;
 cyfuniadau – *combinations*
 cyfyng (ans.) – *confined*
 cyfyngiad (gwr.) – *a restriction, a limit*;
 cyfyngiadau – *restrictions, limits*
 cyfyngu (ar) – *to limit, to restrict* (bôn:
 cyfyng-)
 cyhoeddusrwydd (gwr.) – *publicity*
 cyhyr (gwr.) – *a muscle*; cyhyrau –
muscles
 cymal (gwr.) – *a clause, a joint*;
 cymalau – *clauses, joints*
 cymeradwyaeth (ben.) – *applause*
 cymhleth (ans.) – *intricate, complex*
 cymhwyster (gwr.) – *a qualification*;
 cymwysterau – *qualifications*
 Cymry – *Welsh people*
 cymryd yr awenau – *to take the reins*
 cyn gynted â phosib – *as soon as possible*
 cyndaid (gwr.) – *a forefather*;
 cyndeidiau – *forefathers*
 cyn-derfynol (ans.) – *semi-final*
 cynefin (gwr.) – *a habitat, a home area*;
 cynefinoedd – *habitats, home areas*
 cynhadledd (ben.) – *a conference*;
 cynadleddau – *conferences*
 cynhesu byd-eang – *global warming*
 cynhwysyn (gwr.) – *an ingredient*;
 cynhwysion – *ingredients*
 cynhyrchu – *to produce* (bôn:
 cynhyrch-)
 cynhyrchydd (gwr.) – *a producer*;
 cynhyrchwyr – *producers*
 cynifer (â) – *as many (as), so many*

cynnau – *to light, to ignite* (bôn: cynheu-)
 cynnyrch (gwr.) – *produce*
 cynorthwydd (gwr.) – *an assistant*;
 cynorthwywyr – *assistants*
 cynrychiolydd (gwr.) – *a representative*;
 cynrychiolwyr – *representatives*
 cynulleidfa darged (ben.) – *target audience*
 cysgodi (rhag) – *to shelter (from)* (bôn: cysgod-)
 cyson (ans.) – *consistent, regular*
 cystadleuol (ans.) – *competitive*
 cysuro – *to comfort* (bôn: cysur-)
 cysurus (ans.) – *comfortable, cosy*
 cytbwys (ans.) – *balanced*
 (y) cyw melyn ola – *y plentyn ieuenga yn y teulu*
 cywilydd (gwr.) – *shame, disgrace*

Ch

chwa o awyr iach – *a breath of fresh air*
 chwalu – *to wreck* (bôn: chwal-)
 chwedl ddinesig (ben.) – *an urban myth*; chwedlau dinesig – *urban myths*
 chwerw (ans.) – *bitter*
 chwiban (gwr.) – *a whistle*; chwibanau – *whistles*
 chwyldroadol (ans.) – *revolutionary*

D

dadorchuddio – *to uncover, to unveil* (bôn: dadorchuddi-)
 daeargryn (ben.) – *an earthquake*;
 daeargrynfeydd – *earthquakes*
 dan do (ans.) – *indoor, indoors*
 dan glo – *under lock and key*
 darganfod – *to discover* (bôn: darganfydd-)
 darlledu – *to broadcast* (bôn: darlled-)
 darlledwr (gwr.) – *a broadcaster*;
 darlledwyr – *broadcasters*
 darpar (ans.) – *prospective, expectant, designate*
 darparu – *to provide* (bôn: darpar-)
 datblygiad (gwr.) – *a development*;
 datblygiadau – *developments*

datrys – *to solve* (bôn: datrys-)
 delfrydol (ans.) – *ideal*
 delw teiliwr (ben.) – *a tailor's dummy*;
 delwau teiliwr – *tailors' dummies*
 democrataidd (ans.) – *democratic*
 denu – *to attract* (bôn: den-)
 derbyniad (gwr.) – *a reception*;
 derbyniadau – *receptions*
 derbyniol (ans.) – *acceptable*
 derwen (ben.) – *an oak tree*; deri – *oak trees*
 desg ymholiadau (ben.) – *an enquiry desk*; desgiau ymholiadau – *enquiry desks*
 diafol (gwr.) – *a devil*; diafoliaid – *devils*
 dibwys (ans.) – *unimportant, trivial*
 dibynnu'n llwyr – *to completely depend*
 difaru – *to regret* (bôn: difar-)
 diferyn (gwr.) – *a drop*; diferion – *drops*
 diffoddwr tân (gwr.) – *a firefighter*;
 diffoddwyr tân – *firefighters*
 dilynwr (gwr.) – *a follower*; dilynwyr – *followers*
 dillad isaf – *underwear* (gw. dilledyn)
 dilledyn (gwr.) – *a garment*; dillad – *clothes*
 dinistr (gwr.) – *destruction*
 di-nod (ans.) – *insignificant*
 diogelu – *to protect, to safeguard* (bôn: diogel-)
 distaw (ans.) – *quiet*
 diweddarau – *to update* (bôn: diweddar-)
 diweddglo (gwr.) – *an ending*
 diwydiannol (ans.) – *industrial*
 doc (gwr.) – *a dock*; dociau – *docks*
 dod ar draws – *to come across*
 doler (ben.) – *a dollar*; doleri – *dollars*
 dosbarthu – *to distribute, to deliver, to classify* (bôn: dosbarth-)
 dull (gwr.) – *a method, a procedure*;
 dulliau – *methods, procedures*
 dwli (gwr.) – *nonsense* (De Cymru)
 dyblu – *to double* (bôn: dybl-)
 dychmygu – *to imagine* (bôn: dychmyg-)
 dychwelyd (i rywle, at rywun) – *to return (to)* (bôn: dychwel-)

dyddio – *to date* (bôn: dyddi-)
 dyfarnwr (gwr.) – *a referee*; dyfarnwyr –
referees
 dylanwadol (ans.) – *influential*
 dylanwadu (ar) – *to influence* (bôn:
 dylanwad-)
 dylanwadwr (gwr.) – *an influencer*;
 dylanwadwyr – *influencers*
 dyledus (ans.) – *due, in debt*
 dynolryw (ben.) – *mankind*

Dd

ddim yn fêl i gyd – *not all good, not a
 bed of roses*

E

edmygu – *to admire* (bôn: edmyg-)
 effro (ans.) – *awake*
 eiddo (gwr.) – *property*
 eilydd (gwr.) – *a substitute*; eilyddion –
substitutes
 eirinen (ben.) – *a plum*; eirin – *plums*
 eithafol (ans.) – *extreme*
 eithriad (gwr.) – *an exception*;
 eithriadau – *exceptions*
 elfen (ben.) – *an element*; elfennau –
elements
 elusenol (ans.) – *charitable*
 elwa (ar) – *to profit (from)* (bôn: elw-)
 emosïynol (ans.) – *emotional*
 enw bedydd (gwr.) – *a Christian name*;
 enwau bedydd – *Christian names*
 eog (gwr.) – *a salmon*; eogiaid –
salmons
 er mwyn – *in order to, for the sake of*
 erbyn meddwl – *come to think of it*
 ergyd (ben.) – *a blow*; ergydion – *blows*
 erw (gwr.) – *an acre*; erwau – *acres*
 esgeulus (ans.) – *negligent, careless*
 esgeulustod (gwr.) – *negligence,
 carelessness*

F

fawr o neb – *hardly anyone*

Ff

ffefryn (gwr.) – *a favourite*; ffefrynnau –
favourites
 ffedog (ben.) – *an apron*; ffedogau –
aprons

ffidlan – *to fiddle* (bôn: ffidl-)
 ffotograffydd (gwr.) – *a photographer*;
 ffotograffwyr – *photographers*
 ffreutur (gwr.) – *a canteen, a refectory*
 ffurfiol (ans.) – *formal*
 ffyddlon (ans.) – *faithful, loyal*
 ffynnu (ar) – *to thrive (on)* (bôn: ffynn-)

G

gadael eu hôl – *to leave their trace, to
 leave their mark*
 gaeafol (ans.) – *wintry*
 galw mawr – *great demand*
 gast (ben.) – *a bitch*; geist – *bitches*
 gelyn (gwr.) – *an enemy*; gelynyion –
enemies
 generadur (gwr.) – *a generator*;
 generaduron – *generators*
 godro – *to milk* (bôn: godr-)
 gofodwr (gwr.) – *an astronaut*;
 gofodwyr – *astronauts*
 gofyniad (gwr.) – *a requirement*;
 gofynion – *requirements*
 golwg (gwr.) – *sight, appearance*
 gorau po fwy – *the more the better*
 gorlawn (ans.) – *overfull, overcrowded*
 goruchwilio – *to supervise* (bôn:
 goruchwili-)
 gor-wŷyr (gwr.) – *a great-grandson*; gor-
 wyrion – *great-grandchildren*
 gorwyres (ben.) – *a great-grand-
 daughter*; gorwyresau – *great-grand-
 daughters*
 gostwng – *to decrease* (bôn: gostyng-)
 gwair (gwr.) – *grass, hay*
 gwallt gosod (gwr.) – *a wig*
 gweddill (gwr.) – *residue, remains*;
 gweddillion – *residues, remains*
 Gweinidog Addysg (gwr.) – *Education
 Minister*
 gweinyddwr (gwr.) – *an administrator*;
 gweinydddwyr – *administrators*
 gweithdy (gwr.) – *a workshop*;
 gweithdai – *workshops*
 gweithgaredd (gwr.) – *an activity*;
 gweithgareddau – *activities*
 gweledigaeth (ben.) – *a vision*;
 gweledigaethau – *visions*
 gwendid (gwr.) – *a weakness*;
 gwendidau – *weaknesses*

Gwener y Groglith (dydd) – *Good Friday*
 gwerthfawrogi – *to appreciate* (bôn: gwerthfawrog-)
 gwibio – *to dart, to sprint* (bôn: gwibi-)
 gwinllan (ben.) – *a vineyard*;
 gwinllannoedd – *vineyards*
 gwireddu – *to realise* (bôn: gwiredd-)
 gwirfoddoli – *to volunteer* (bôn: gwirfoddol-)
 gwirionedd (gwr.) – *truth*; gwirioneddau – *truths*
 Gwlad Pwyl (ben.) – *Poland*
 gwledd (ben.) – *a feast*; gwleddoedd – *feasts*
 gwn (gwr.) – *a gun*; gynnu – *guns*
 gwneuthurwr (gwr.) – *a manufacturer*;
 gwneuthurwyr – *manufacturers*
 gwrthrych (gwr.) – *an object*;
 gwrthrychau – *objects*
 gwyddonol (ans.) – *scientific*
 gwyddonydd (gwr.) – *a scientist*;
 gwyddonwyr – *scientists*
 gyrfa (ben.) – *a career*; gyrfaoedd – *careers*

H

haen (ben.) – *a layer*; haenau – *layers*
 hanfodol (ans.) – *essential*
 harddwch (gwr.) – *beauty*
 hawl (ben.) – *a right*; hawliau – *rights*
 heidio – *to swarm* (bôn: heidi-)
 hen bryd – *high time*
 her (ben.) – *a challenge*; heriau – *challenges*
 herio – *to challenge* (bôn: heri-)
 hiliaeth (ben.) – *racism*
 hiliol (ans.) – *racist*
 hinsawdd (ben.) – *climate*
 Hir oes! – *A long life!* (fel lechyd da!)
 hiraethu (am) – *to long (for)* (bôn: hiraeth-)
 hoffter (gwr.) – *fondness*
 hogan (ben.) – *a girl* (Gogledd Cymru);
 genod – *girls*
 hollti – *to split* (bôn: hollt-)
 hunangynhaliol (ans.) – *self-sufficient*
 hunaniaeth (ben.) – *identity*
 hyd braich – *at arm's length*
 hylendid (gwr.) – *hygiene*

hynod (ans.) – *remarkable*
 hyrwyddo – *to promote* (bôn: hyrwydd-)

I

i'r gwrthwyneb – *quite the opposite*
 i'r lan – *to the shore*
 Iddew (gwr.) – *a Jew*; Iddewon – *Jews*

L

labordy (gwr.) – *a laboratory*; labordai – *laboratories*

LI

llac (ans.) – *loose*
 llacio – *to loosen* (bôn: llaci-)
 llaith (ans.) – *damp*
 llanw (gwr.) – *a tide*; llanwau – *tides*
 llawn cystal – *just as good as, equal to*
 lleiafrif (gwr.) – *a minority*; lleiafrifoedd – *minorities*
 lleisydd (gwr.) – *a vocalist*; lleiswyr – *vocalists*
 lleithder (gwr.) – *humidity, dampness*
 lles (gwr.) – *benefit*
 lletchwith (ans.) – *awkward*
 llifddor (ben.) – *a floodgate*; llifddorau – *floodgates*
 llinell derfyn (ben.) – *a finishing line*;
 llinellau terfyn – *finishing lines*
 llofruddio – *to murder* (bôn: llofruddi-)
 llongddrylliad (gwr.) – *a shipwreck*;
 llongddrylliadau – *shipwrecks*
 llonyfarch – *to congratulate* (bôn: llonyfarch-)
 llorio – *to floor* (bôn: llori-)
 llugaeronen (ben.) – *a cranberry*;
 llugaeron – *cranberries*
 llwglyd (ans.) – *hungry*
 llyfn (ans.) – *smooth*
 llygredd (gwr.) – *corruption, pollution*
 llygru – *to contaminate, to pollute* (bôn: llygr-)
 llysenw (gwr.) – *a nickname*; llysenwau – *nicknames*
 llysiuwr (gwr.) – *a vegetarian*;
 llysiuwyr – *vegetarians*
 llythrennedd (gwr.) – *literacy*

M

madarchen (ben.) – *a mushroom*;
 madarch – *mushrooms*
 maddau (i rywun) – *to forgive (someone)* (bôn: maddeu-)
 magu hyder – *to gain confidence, to develop confidence* (bôn: mag-)
 maith (ans.) – *long, lengthy*
 marwaidd (ans.) – *lifeless, listless*
 masnach (ben.) – *trade*
 masnach deg – *fair trade*
 masnachu – *to trade* (bôn: masnach-)
 medd (gwr.) – *mead*
 meddwl mawr – *high regard*
 megis – *such as, like*
 meiddio – *to dare* (bôn: meiddi-)
 meithrin – *to nurture, to cultivate* (bôn: meithrin-)
 mentergarwch (gwr.) – *entrepreneurship*
 mewn dim o dro – *in no time at all*
 mewnfudwr (gwr.) – *an immigrant*;
 mewnfudwyr – *immigrants*
 milgi (gwr.) – *a greyhound*; milgwn – *greyhounds*
 milwr (gwr.) – *a soldier*; milwyr – *soldiers*
 mochyn daear (gwr.) – *a badger*; moch daear – *badgers*
 morgais (gwr.) *a mortgage*; morgaisi – *mortgages*
 morglawdd (gwr.) – *a barrage, a sea wall*; morgloddiau – *barrages, sea walls*
 morlo (gwr.) – *a seal*; morloi – *seals*
 Mwslim (gwr.) – *a Muslim*; Mwslimiaid – *Muslims*
 mwythau (gwr.) – *hugs, caresses*
 mwytho – *to pet, to fondle, to pamper* (bôn: mwyth-)
 mynd â'r maen i'r wal – *to follow something through to a successful conclusion*
 mynd dros ben llestri – *to go overboard, to go over the top*
 mynd o nerth i nerth – *to go from strength to strength*

N

nawddsant (gwr.) – *a patron saint*
 nerth ei ben/nerth ei phen – *at the top of his voice/at the top of her voice*
 newyn (gwr.) – *a famine, hunger*;
 newynau – *famines*
 nid ar chwarae bach – *it's no easy feat, it's no easy task*
 nod (gwr.) – *an aim*; nodau – *aims*
 nodedig (ans.) – *notable, remarkable*
 nofelydd (gwr.) – *a novelist*; nofelwyr – *novelists*
 nwyon tŷ gwydr – *greenhouse gases*
 nythu – *to nest* (bôn: nyth-)

O

o blaid – *in favour of*
 ochr yn ochr – *side by side*
 o dan do – gw. dan do
 ofer (ans.) – *futile*
 ogof (ben.) – *a cave*; ogofâu – *caves*
 ôl (gwr.) – *a remain*; olion – *remains*
 o'r golwg – *out of sight*

P

paratoad (gwr.) – *a preparation*;
 paratoadau – *preparations*
 parchu – *to respect* (bôn: parch-)
 pardwn (gwr.) – *a pardon*; pardynau – *pardons*
 parti plu (gwr.) – *hen party*
 paru (â) – *to pair (with)* (bôn: par-)
 pechod (gwr.) – *a sin*; pechodau – *sins*
 pedwar ban y byd – *the four corners of the earth*
 pen ei thaith/pen ei daith – *the end of her journey/the end of his journey*
 penbleth (ben.) – *a quandry, a dilemma*
 penderfynol (ans.) – *determined*
 pendro (ben.) – *vertigo, dizziness* (gw. y bendro)
 penlinio – *to kneel* (bôn: penlini-)
 pennaf (ans.) – *main, major, principal*
 pennu – *to set* (e.e. dyddiad) (bôn: penn-)
 penwan (ans.) – *crazy, very cross*
 peri – *to cause* (bôn: per-)
 pigo – *to pick* (bôn: pig-)
 pigog (ans.) – *spiky, touchy (person)*

planed (ben.) – *a planet*; planedau – *planets*
 planhigyn (gwr.) – *a plant*; planhigion – *plants*
 pliciwyr (gwr.) – *a peeler*; plicwyr – *peelers*
 plwm (gwr.) – *lead (metel)*
 plwyf (gwr.) – *a parish*; plwyfi – *parishes*
 poblog (ans.) – *populated, populous*
 poblogaeth (ben.) – *a population*;
 poblogaethau – *populations*
 podlediad (gwr.) – *a podcast*;
 podlediadau – *podcasts*
 pregeth (ben.) – *a sermon*; pregethau – *sermons*
 preifatrwydd (gwr.) – *privacy*
 prentisiaeth (ben.) – *an apprenticeship*;
 prentisiaethau – *apprenticeships*
 proffesiynoldeb (gwr.) – *professionalism*
 proffwyd (gwr.) – *a prophet*; proffwydi – *prophets*
 prysurdeb (gwr.) – *haste, rush*
 pwl (gwr.) – *a bout (illness), a spasm*;
 pyliau – *bouts, spasms*
 pwnc llosg – *burning issue, hot topic*
 Pwy a wŷr? – *Who knows?*
 pwylllog (ans.) – *level-headed, measured*
 pwysedd gwaed (gwr.) – *blood pressure*
 pylu – *to fade (pyl-)*

Rh

rhagfarn (ben.) – *a prejudice*;
 rhagfarnau – *prejudices*
 rhediad (gwr.) – *a run*; rhediadau – *runs*
 rheolaeth (ben.) – *control, management*
 rheolaidd (ans.) – *regular*
 rheoli risg – *risk management*
 rhiniog (gwr.) – *a threshold*; rhiniogau – *thresholds*
 rhithwir (ans.) – *virtual*
 rhoces (ben.) – *a girl (yn Sir Benfro)*;
 rhocesi – *girls*
 rhoi cynnig ar – *to give it a go*
 rhoi'r byd yn ei le – *to put the world to rights*

Rhufeinig (ans.) – *Roman*
 rhwd (gwr.) – *rust*
 rhwydd (ans.) – *hawdd, easy*
 rhwystredig (ans.) – *frustrated*
 rhyfeddod (gwr.) – *a wonder*;
 rhyfeddodau – *wonders*
 rhyngwladol (ans.) – *international*
 rhywfaint (gwr.) – *some, a little*

S

saer (gwr.) – *a carpenter*; seiri – *carpenters*
 Seisnigo – *to Anglicize (bôn: Seisnig-)*
 sêl frenhinol (ben.) – *royal seal*
 siapio (ei siapo hi) – *to hasten, to get on with it*
 siarad dwli – *to talk nonsense (De Cymru)*
 siarad lol – *to talk nonsense (Gogledd Cymru)*
 sicrwydd (gwr.) – *certainty*
 sinsir (gwr.) – *ginger*
 siôl (ben.) – *a shawl*; siolau – *shawls*
 Sioraidd (ans.) – *Georgian*
 'slawer dydd – *back in the day, a long time ago*
 smotyn (gwr.) – *a spot*; smotiau – *spots*
 soddgrwth (gwr.) – *a cello*;
 soddgrythau – *cellos*
 statws (gwr.) – *status*
 stryd fawr (ben.) – *high street*
 sychder (gwr.) – *a drought, dryness*;
 sychderau – *droughts*
 sylfaen (ben.) – *a basis, a foundation*;
 sylfeini – *bases, foundations*
 sylfaenol (ans.) – *basic*
 sylw (gwr.) – *a comment*; sylwadau – *comments*
 sylwebu – *to commentate (bôn: sylweb-)*
 sylwebydd (gwr.) – *a commentator*;
 sylwebwyr – *commentators*
 syn (ans.) – *surprised*
 syndod (gwr.) – *surprise, amazement*
 synnwyr (gwr.) – *a sense*; synhwyrau – *senses*

T

taenu – *to spread* (bôn: taen-)
 tamaid (gwr.) – *a bit, a bite, a morsel*;
 tameidiau – *bits, bites, morsels*
 tân agored (gwr.) – *an open fire*; tanau
 agored – *open fires*
 tân ar groen – *a thorn in one's flesh*
 tanlinellu – *to underline* (bôn: tanlinell-)
 tant (gwr.) – *a string*; tannau – *strings*
 (cerddoriaeth)
 tarfu (ans.) – *to disturb, to interrupt*
 (bôn: tarf-)
 tebygol (ans.) – *likely*
 tecstil (gwr.) – *a textile*; tecstilau –
textiles
 teilwng (ans.) – *deserving, worthy*
 terfysg (gwr.) – *a riot, terfysgoedd –*
riots
 testun trafod (gwr.) – *a subject of*
discussion; testunau trafod – *subjects*
of discussion
 tincial – *to tinkle, to jingle* (bôn: tinci-)
 tiwniwr piano (gwr.) – *a piano tuner*;
 tiwnwyr piano – *piano tuners*
 tlws (ans.) – *pretty*
 torri ar draws – *to interrupt* (bôn: torr-)
 trafodaeth (ben.) – *a discussion*;
 trafodaethau – *discussions*
 trai (gwr.) – *ebb*
 trawiad (ar y galon) (gwr.) – *a heart*
attack
 traws(-) – *cross-, trans-*
 trawsffurfiol (ans.) – *transformational*
 trawsnewid – *to transform, to*
transition (bôn: trawsnewidi-)
 trechu – *to defeat, to beat* (bôn: trech-)
 trefol (ans.) – *urban*
 treftadaeth (ben.) – *heritage*
 tridiau – *tri diwrnod*
 trigolion – *inhabitants* (gw. trigolyn)
 trigolyn (gwr.) – *an inhabitant*; trigolion
 – *inhabitants*
 trosglwyddo – *to transmit, to transfer*
 (bôn: trosglwydd-)
 trothwy (gwr.) – *a threshold*
 trwy gydol – *throughout*
 trychineb (ben.) – *a disaster*;
 trychinebau – *disasters*
 trydanol (ans.) – *electric, electrical*

Trydarwr brwd – *a keen Twitterer*
 trywanu – *to stab* (bôn: trywan-)
 tudalen flaen (ben.) – *a front page*;
 tudalennau blaen – *front pages*
 tueddu (i) – *to tend (to)* (bôn: tuedd-)
 twll o le (gwr.) – *lle diflas iawn*
 tynnu sylw (at) – *to draw attention to*
 (bôn: tynn-)
 tystiolaeth (ben.) – *evidence*;
 tystiolaethau – *bits/pieces/fragments*
of evidences
 tystysgrif (ben.) – *a certificate*;
 tystysgrifau – *certificates*
 tywynnu – *to shine* (bôn: tywynn-)
 tywysog (gwr.) – *a prince*; tywysogion
 – *princes*

U

uchelfan (gwr.) – *a peak, a height*;
 uchelfannau – *peaks, heights*
 uchelgeisiol (ans.) – *ambitious*
 unigrwydd (gwr.) – *loneliness*
 unigryw (ans.) – *unique*
 uniongyrchol (ans.) – *direct*

W

wastad – *always*
 wnaiff/wneith hynny ddim drwg – *that*
won't do any harm
 wrth gefn – *in reserve*
 wrth reswm – *it stands to reason*
 wynebu – *to face* (bôn: wyneb-)

Y

y bendro (ben.) – *vertigo, dizziness*
 (gw. pendro)
 Y Chwyldro Diwydiannol (gwr.) – *the*
Industrial Revolution
 y cyfryngau cymdeithasol – *the social*
media
 Y Deyrnas Unedig (ben.) – *The United*
Kingdom
 Y Ffindir (ben.) – *Finland*
 Y Gamp Lawn – *The Grand Slam*
 Y Grawys (gwr.) – *Lent*
 y gwir amdani yw... – *the truth is...*
 Y Parchedig (Y Parch.) – *The Reverend*
(Rev.)
 ymarferol (ans.) – *practical*

ymchwilio (i) – *to research (into)* (bôn: ymchwili-)
 ymdopi (â) – *to cope (with)* (bôn: ymdop-)
 ymddiriedolaeth (ben.) – *a trust*;
 ymddiriedolaethau – *trusts*
 ymddwyn – *to behave* (bôn: ymddyg-)
 ymerodraeth (ben.) – *an empire*;
 ymerodraethau – *empires*
 ymgasglu – *to gather together* (bôn: ymgasgl-)
 ymgeisydd (gwr.) – *a candidate*;
 ymgeiswyr – *candidates*
 ymgynnull – *to assemble, to congregate* (bôn: ymgynulli-)
 ymgyrch (ben.) – *a campaign*;
 ymgyrchoedd – *campaigns*
 ymgyrchydd (gwr.) – *campaigner*;
 ymgyrchwyr – *campaigners*
 ymosod (ar) – *to attack* (bôn: ymosod-)
 ymprydio – *to fast* (bôn: ymprydi-)
 ymwneud â – *to be concerned with* (bôn: afreolaidd)
 ymwybyddiaeth (ben.) – *awareness*
 yn araf bach – *gradually*
 yn bennaf – *mainly*
 yn ddiarwybod i – *unknown to*
 yn ei anterth – *in his/its prime*
 yn ddiarwybod i – *unknown to*
 yn fwriadol – *deliberately*
 yn fy ngyrru i'n wallgof – *drives me up the wall* (Gogledd Cymru)
 yn fy hala i'n benwan – *drives me up the wall* (De Cymru)
 yn gyffredinol – *generally, in general*
 yn gymwys – *exactly*
 yn hytrach (na/nag) – *rather (than)*
 yn y fan a'r lle – *there and then*
 yn y pen draw – *in the long run*
 ynad (gwr.) – *a magistrate*; ynadon – *magistrates*
 ynysu (rhag) – *to insulate (from)* (bôn: ynys-)
 yr arddegau – *the teenage years*
 yr Athro (gwr./ben.) – *Professor*
 ysbrydoli – *to inspire* (bôn: ysbrydol-)

ysgafnhau – *to lighten* (bôn: ysgafnha-)
 ysgyfarnog (ben.) – *a hare*;
 ysgyfarnogod – *hares*
 ystyriaeth (ben.) – *a consideration*;
 ystyriaethau – *considerations*





dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

